



Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Asesiad o Anghenion fferyllol



Hydref 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/ This document is available in English

Contents

Contents	2
Crynodeb gweithredol	3
1 Cyflwyniad	6
2 Trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	20
3 Anghenion iechyd cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	35
4 Grwpiau cleifion a nodwyd – problemau iechyd penodol	58
5 Darparu gwasanaethau fferyllol	93
6 o wasanaethau eraill y GIG	108
7 angen iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol	113
8 Clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd	119
9 Clwstwr Dwyrain Caerdydd	131
10 Clwstwr Dwyrain Caerdydd	142
11 Clwstwr Gogledd Caerdydd	154
12 Clwstwr De-orllewin Caerdydd	166
13 Clwstwr Gorllewin Caerdydd	178
14 Clwstwr Canol y Fro	190
15 Clwstwr Dwyrain y Fro	202
16 Clwstwr Gorllewin y Fro	214
Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir	225
Atodiad B – gwasanaethau hanfodol	229
Atodiad C – gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a contractwyr offer	232
Atodiad D – gwasanaethau clinigol ychwanegol	237
Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar fferyllol	241
Atodiad F – aelodaeth grŵp llywio asesu anghenion fferyllol	244
Atodiad G – arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd	245
Atodiad I – holiadur contractwyr	255

Crynodeb gweithredol

Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn ei gwneud yn ofynnol, o leiaf, i bob bwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion fferyllol (AAFf) newydd bob pum mlynedd. Prif bwrpas yr AAFf yw asesu anghenion fferyllol y boblogaeth leol a phenderfynu a yw'r gwasanaethau fferyllol presennol yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion hynny nawr ac yn y dyfodol. Defnyddir yr AAFf i gefnogi cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau fferyllol yn y Bwrdd Iechyd ac i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth. Bydd yr AAFf yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau ar geisiadau ar gyfer agor fferyllfeydd newydd (neu adleoli), safleoedd contractwyr gweinyddu offer a phractisau meddygon sy'n gweinyddu, yn seiliedig ar anghenion presennol ac yn y dyfodol sydd wedi'u nodi.

Sefydlwyd grŵp llywio i oruchwylio datblygiad y ddogfen a sicrhau ei bod yn bodloni'r gofynion statudol.

Wrth ddatblygu'r AAFf, defnyddiwyd sawl ffynhonnell wybodaeth i gael trosolwg o nodweddion demograffig a phroffil iechyd preswylwyr i bennu eu hanghenion fferyllol.

Defnyddiwyd arolygon i gasglu barn preswylwyr ar eu defnydd o fferyllfeydd, a gwybodaeth a ddarparwyd gan contractwyr na ellid ei chael yn genedlaethol. Defnyddiwyd y wybodaeth hon, ar y cyd â ffynonellau data eraill, i lywio'r AAFf.

Mae ymgynghoriad ar yr AAFf drafft wedi cael ei gynnal, ac mae adroddiad ar yr ymgynghoriad hwnnw wedi cael ei gynnwys fel atodiad i'r ddogfen hon.

Mae'r AAFf yn rhoi trosolwg o nodweddion demograffig Preswylwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'u hanghenion iechyd cyffredinol. Mae'r rhain wedi'u nodi ar lefel bwrdd iechyd, awdurdod lleol a chlwstwr. Hefyd, mae unrhyw grwpiau penodol a nodwyd eu bod yn bresennol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'u hanghenion iechyd tebygol wedi'u cynnwys.

Mae'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol wedi'i nodi a'i fapio. Ystyriwyd y darparwyr hynny sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal y bwrdd iechyd ond sy'n darparu gwasanaethau i'w breswylwyr. Mae yna hefyd rai gwasanaethau sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol (naill ai trwy gynyddu neu leihau'r galw) fel fferyllfeydd ysbytai, y gwasanaeth y tu allan i oriau ac unedau mân anafiadau ac mae'r rhain wedi'u hystyried fel rhan o'r AAFf.

Mae adolygiad ar lefel clwstwr wedi'i gynnal o'r nodweddion demograffig, anghenion iechyd a'r ddarpariaeth bresennol o wasanaethau fferyllol i breswylwyr. Defnyddiwyd hyn i nodi a yw'r ddarpariaeth gwasanaeth ar hyn o bryd yn diwallu anghenion y preswylwyr hynny ac a oes unrhyw fylchau mewn darparu gwasanaethau a allai godi yn ystod oes pum mlynedd yr AAFf.

Mae 100 o fferyllfeydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gyd yn darparu'r ystod lawn o wasanaethau hanfodol. Yn 2024/25, dosbarthwyd 96.6% o'r holl eitemau presgripsiwn a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu gan y fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd (97.1% yn naw mis cyntaf 2025/26). Mae fferyllfeydd hefyd yn darparu ystod o wasanaethau fferylliaeth cymunedol cenedlaethol a gwasanaeth contractwyr offer a gwasanaethau clinigol ychwanegol.

Mae yna bedwar contractwr offer fferyllol, sy'n gweinyddu presgripsiynau ar gyfer offer fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd. O'r pedwar contractwr gweithyddu offer fferyllol, mae un yn darparu'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o offer, ond nid oes yr un ohonynt yn darparu'r gwasanaeth addasu offer stoma.

Ers cyhoeddi AAFf cyntaf y bwrdd iechyd ar 1 Hydref 2021, sy'n cwmpasu'r cyfnod o bum mlynedd hyd at 30 Medi 2026, nid oes practis meddygon teulu sy'n gweinyddu bellach yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gweinyddodd y practisau meddygon teulu 1.7% o'r holl eitemau presgripsiwn yn bersonol yn 2024/25, ac 1.0% yn naw mis cyntaf 2025/26.

Er bod darpariaeth gwasanaeth dda iawn yn y bwrdd iechyd, efallai y bydd rhai preswylwyr yn dewis defnyddio contractwyr fferyllfa y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Yn 2024/25, dosbarthwyd 1.8% o bresgripsiynau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd gydag 1.7% yn naw mis cyntaf 2025/26. Mae hyn yn awgrymu bod yn well gan rai preswylwyr ddefnyddio gwasanaethau fferyllol yn agos at eu cartref, eu man gwaith neu lle maen nhw'n mynd ar gyfer siopa, hamdden neu resymau eraill.

Mae mynediad at wasanaethau fferyllol i'r preswylwyr yn ardal y bwrdd iechyd yn dda iawn, gyda mwyafrif llethol yn gallu cael mynediad at fferyllfa yn ystod oriau gwaith arferol o fewn 20 munud. Gall y mwyafrif gael mynediad at fferyllfa o fewn pump i ddeg munud mewn car. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar, mae natur y clystyrau yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.

Nodir bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yn gyfyngedig mewn rhai ardaloedd mwy gwledig, felly gall y rhai heb gar, ac yn enwedig yr henoed, ei chael hi'n anoddach cael mynediad at fferyllfa. Fodd bynnag, bydd gan y mwyafrif o fferyllfeydd yn y clystyrau hyn drefniadau ar waith sy'n galluogi mynediad amserol at feddyginiaethau i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ neu a allai ei chael hi'n anodd cael mynediad at fferyllfa. Felly, prif gasgliad yr AAFf hwn yw nad oes bylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol ar hyn o bryd.

Mewn perthynas ag anghenion yn y dyfodol am wasanaethau fferyllol yn ystod oes pum mlynedd yr AAFf, rhoddwyd ystyriaeth i'r twf a ragwelir yn y boblogaeth, datblygiadau tai arfaethedig a chapasiti a dosbarthiad darparwyr gwasanaeth ar draws y bwrdd iechyd. Er bod nifer o ddatblygiadau tai wedi'u cynllunio, nid yw'r wybodaeth sydd ar gael am nifer y tai fydd yn cael eu hadeiladu a'u meddiannu yn ystod y cyfnod o bum mlynedd yn awgrymu y bydd galw na ellir ei ddiwallu. Felly, y casgliad yw y

bydd y ddarpariaeth bresennol yn ddigonol i ddiwallu anghenion y preswylwyr yn y dyfodol o fewn oes yr AAFf.

1 Cyflwyniad

1.1 Diben asesiad o anghenion fferyllol

Diben yr asesiad o anghenion fferyllol (AAFf) yw asesu a nodi sut y gall darparu gwasanaethau fferyllol fodloni anghenion ieched poblogaeth ardal bwrdd ieched am gyfnod o hyd at bum mlynedd. Mae'n cysylltu'n agos ag Asesiad Anghenion Y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022-2027¹, Cynlluniau Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-2028 ar gyfer Caerdydd² ac ar gyfer Bro Morgannwg³. Er bod y rhain yn canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, ac ar wella lles cymunedau yn ardal y bwrdd ieched, mae'r AAFf yn ystyried sut y gall anghenion ieched y boblogaeth gael eu diwallu gan wasanaethau fferyllol a gomisiynwyd gan y bwrdd ieched.

Mae'r AAFf yn llywio cynllunio strategol a chomisiynu gwasanaethau fferyllol ac yn ategu penderfyniadau yn ystod mynediad i'r farchnad, adleoli a newidiadau i oriau agor craidd. Os yw person (fferylfa neu gcontractwr gweinyddu cyfarpar) am ddarparu gwasanaethau fferyllol, mae'n ofynnol iddynt wneud cais i'r bwrdd ieched, y mae'r eiddo i'w leoli yn ei ardal, i gael ei gynnwys yn ei restr fferyllol. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais gynnig i fodloni angen a nodir yn AAFf y bwrdd ieched hwnnw. Mae dau eithriad i hyn; ceisiadau newid perchnogaeth ac adleoli at ddibenion busnes.

Os yw meddyg teulu am weinyddu i ardal newydd neu o eiddo newydd neu ychwanegol, mae'n ofynnol iddo hefyd wneud cais i'r bwrdd ieched gael ei gynnwys yn ei restr meddygon gweinyddu, neu i ardal newydd neu eiddo newydd neu ychwanegol gael eu rhestru mewn perthynas ag ef. Yn gyffredinol, rhaid i'w cais hefyd gynnig i fodloni angen a nodir yn AAFf y bwrdd ieched hwnnw.

Yn ogystal â nodi a oes angen eiddo ychwanegol, bydd yr AAFf hefyd yn nodi a oes angen gwasanaeth neu wasanaethau ychwanegol. Gallai anghenion a nodwyd naill ai fod yn gyfredol neu byddant yn codi o fewn oes pum mlynedd yr AAFf.

1.2 Dyletswyddau'r bwrdd ieched mewn perthynas â'r AAFf

Cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ei AAFf cyntaf ar 1 Hydref 2021. Mae rhagor o wybodaeth am ddyletswyddau penodol y bwrdd ieched mewn perthynas ag AAFf a chefnidir polisi AAFf i'w gweld yn atodiad A, fodd bynnag, yn gryno, rhaid i'r bwrdd ieched:

- gyhoeddi datganiadau diwygiedig (h.y. AAFf dilynol), bob pum mlynedd, sy'n cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio,
- cyhoeddi AAFf dilynol yn gynt pan fydd yn nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol sydd o raddau sylweddol, oni bai y byddai gwneud hynny'n ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, a

¹ Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro - [Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg 2022](#)

² Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd - [Cynllun Lles Caerdydd 2023-2028](#)

³ Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg – [Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2023-28](#)

- llunio datganiadau atodol sy'n esbonio newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol mewn amgylchiadau penodol.

1.3 Gwasanaethau fferyllol

Mae'r gwasanaethau y mae'n rhaid i AAFf eu cynnwys wedi'u diffinio yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Gall gwasanaethau fferyllol gael eu darparu gan:

- contractwr fferylliaeth sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd,
- contractwr gweinyddu cyfarpar sydd wedi'i gynnwys yn y rhestr fferyllol a gedwir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd, a
- meddyg neu bractis meddyg teulu sydd wedi'i gynnwys mewn rhestr meddygon gweinyddu a gedwir ar gyfer ardal y bwrdd iechyd.

Mae pob bwrdd iechyd yn gyfrifol am baratoi, cynnal a chyhoeddi ei restrau. Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mae 100 o fferyllfeydd a phedwar contractwr gweinyddu cyfarpar (Mawrth 2026).

Gall contractwyr weithredu naill ai fel unig fasnachwr, partneriaeth, neu gorrff corfforaethol. Mae Deddf Meddyginiaethau 1968 yn llywodraethu pwy all fod yn contractwr fferylliaeth, ond nid oes unrhyw gyfyngiad ar bwy all weithredu fel contractwr gweinyddu cyfarpar.

1.3.1 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan contractwyr fferylliaeth

Yn wahanol i feddygon teulu, deintyddion ac optometryddion, nid oes gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro contractau gyda'r contractwyr fferylliaeth yn ei ardal. Yn hytrach, maent yn darparu gwasanaethau dan fframwaith cytundebol, y cyfeirir ato weithiau fel fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol, y nodir manylion amdanynt (y telerau gwasanaeth) yn atodlen 5 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Clinigol) (Cymru) a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr fferylliaeth yn darparu tri math o wasanaeth sy'n dod o dan y diffiniad o wasanaethau fferyllol a'r fframwaith cytundebol fferylliaeth gymunedol. Y rhain yw:

- Gwasanaethau hanfodol – rhaid i bob fferyllfa ddarparu'r gwasanaethau hyn
 - Gweinyddu presgripsiynau, gan gynnwys cyflenwi cyffur neu gyfarpar ar frys heb bresgripsiwn
 - Gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy
 - Gwaredu cyffuriau diangen
 - Hyrwyddo ffordd o fyw iach
 - Cyfeirio, a
 - Chymorth ar gyfer hunanofal

- Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar – fferyllfeydd sy'n dewis a ddylid darparu'r gwasanaethau hyn ac mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion penodol a hefyd fod yn cydymffurfio'n llawn â'r gwasanaethau hanfodol a gofynion llywodraethu clinigol.
 - Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar
 - Gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol
 - Gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau
 - Gwasanaeth cyflenwi prawf llif unffordd
 - Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa
 - Gwasanaeth brechlynnau ffliw tymhorol
 - Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma
- Gwasanaethau clinigol ychwanegol – mae manylebau gwasanaeth ar gyfer y math hwn o wasanaeth yn cael eu datblygu gan y bwrdd iechyd ac yna cânt eu comisiynu i ddiwallu anghenion iechyd penodol. Mae'r rhestr o wasanaethau clinigol ychwanegol y gellir eu comisiynu fel a ganlyn:
 - Monitro gwrthgeulo
 - Gwasanaeth cartrefi gofal
 - Gwasanaeth rheoli meddyginiaethau clefydau penodol
 - Gwasanaeth cyflenwi triniaeth a phroffylaxis brys yn ystod pandemig
 - Gwasanaeth brechu brys yn ystod pandemig
 - Gwasanaeth cyflenwi bwyd heb glwten
 - Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref
 - Gwasanaeth mynediad at iaith
 - Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth
 - Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chymorth cydymffurfiaeth
 - Gwasanaeth cyflenwi nodwyddau a chwistrellau
 - Gwasanaeth cyffuriau arbenigol sydd ar gael yn ôl y galw
 - Gwasanaeth y tu allan i oriau
 - Gwasanaeth cyfarwyddyd grŵp cleifion
 - Gwasanaeth cymorth i bresgripsiynwyr
 - Gwasanaeth ysgolion
 - Gwasanaeth sgrinio
 - Gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu
 - Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth
 - Gwasanaeth presgripsiynu
 - Gwasanaeth casglu meddyginiaethau gwrthfeirysol
 - Gwasanaeth lleihau gwastraff

Mae adran 80 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yn gosod rhwymedigaeth ar fyrddau iechyd i sicrhau bod eu preswylwyr yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau hanfodol. Mae adran 81 yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gomisiynu'r gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar gan fferyllfeydd sy'n dymuno eu darparu, ond mae comisiynu'r gwasanaethau clinigol ychwanegol a restrir uchod yn ôl disgrisiwn y byrddau iechyd. Gan y gall rhai o'r gwasanaethau gael eu comisiynu gan ddarparwyr eraill, nid oes disgrisiwn ar fyrddau iechyd i gomisiynu unrhyw un neu bob un o'r gwasanaethau clinigol ychwanegol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y gofynion hanfodol sy'n ymwneud â'r gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar a'r gwasanaethau clinigol ychwanegol yn atodiadau B, C a D, yn y drefn honno.

Yn sail i ddarpariaeth y gwasanaethau hyn mae'r gofyniad ar bob contractwr fferyllol gymryd rhan mewn system o lywodraethu clinigol. Mae'r system hon wedi'i nodi o fewn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio clinigol
- Cydweithio â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill trwy glystyrau er mwyn nodi a gwella iechyd a lles y boblogaeth a wasanaethir gan y fferyllfa
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a rheoli staff
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau adeiladau

Mae'n ofynnol i fferyllfeydd agor am ddim llai na 40 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Mae llawer yn dewis agor am gyfnod hwy, a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor atodol. O dan Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, mae'n bosib i gontractwyr fferylliaeth wneud cais llwyddiannus i agor fferyllfa gyda nifer uwch o oriau agor craidd er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn AAFf. Os yw fferyllfa yn dymuno lleihau ei horiau agor craidd i lai na 40 yr wythnos, rhaid iddi wneud cais i'r bwrdd iechyd yn gyntaf, fodd bynnag, nid yw'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gytuno i gais o'r fath.

Mae'r oriau agor arfaethedig ar gyfer pob fferyllfa wedi'u nodi yn y cais cychwynnol, ac os caiff y cais ei gymeradwyo a'r fferyllfa'n agor wedi hynny, dyma fydd oriau agor cytundebol y fferyllfa. Gall y contractwr wneud cais wedyn i newid ei oriau agor craidd, a bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal fel y nodir yn yr AAFf i benderfynu a ddylid cytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio. Os yw contractwr fferyllfa yn dymuno newid ei oriau agor atodol, yn syml mae'n hysbysu'r bwrdd iechyd o'r newid, gan roi o leiaf 12 wythnos o rybudd.

1.3.2 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan gontractwyr gweinyddu cyfarpar

Fel gyda chontractwyr fferyllol, nid yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dal contractau gyda chontractwr gweinyddu cyfarpar. Mae eu telerau gwasanaeth wedi'u nodi yn atodlen 6 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 a Chyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Gwasanaethau Uwch) (Cyfarpar) (Cymru) 2010.

Mae contractwyr gweinyddu cyfarpar yn darparu'r gwasanaethau canlynol ar gyfer cyfarpar (nid cyffuriau), er enghraifft cathetrau a bagiau colostomi, sy'n dod o fewn diffiniad gwasanaethau fferyllol:

- Gweinyddu presgripsiynau, gan gynnwys cyflenwi ar frys heb bresgripsiwn
- Gweinyddu presgripsiynau amlroddadwy
- Gwasanaeth dosbarthu cartref ar gyfer rhai eitemau

- Cyflenwi eitemau atodol priodol (e.e. cadachau tafladwy a bagiau gwaredu)
- Darparu cyngor clinigol arbenigol ynglŷn â'r cyfarpar, a
- Chyfeirio

Efallai y byddant hefyd yn dewis darparu gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar. Os ydynt yn dewis eu darparu, rhaid iddynt fodloni gofynion penodol a chydymffurfio'n llawn â'u telerau gwasanaeth a'r gofynion llywodraethu clinigol. Y ddau wasanaeth fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwr cyfarpar y gallant eu darparu yw:

- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar
- Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Fel gyda fferyllfeydd, mae'n ofynnol i gontractwyr gweinyddu cyfarpar gymryd rhan mewn system o lywodraethu clinigol. Mae'r system hon wedi'i nodi o fewn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae'n cynnwys:

- Rhaglen ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd
- Rhaglen archwilio clinigol
- Rhaglen rheoli risg
- Rhaglen effeithiolrwydd clinigol
- Rhaglen staffio a staff,
- Rhaglen llywodraethu gwybodaeth, a
- Rhaglen safonau adeiladau.

Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion ar gyfer y gwasanaethau hyn ar gael yn atodiad E.

Mae'n ofynnol i gontractwr gweinyddu cyfarpar agor am ddim llai na 30 awr yr wythnos, a chyfeirir at y rhain fel oriau agor craidd. Efallai y byddant yn dewis agor am gyfnod hwy, a chyfeirir at yr oriau ychwanegol hyn fel oriau agor atodol. O dan Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020, mae'n bosib i gontractwyr gweinyddu cyfarpar wneud cais llwyddiannus i agor safle gyda nifer uwch o oriau agor craidd er mwyn diwallu angen a nodwyd mewn AAFf.

Mae'r oriau agor arfaethedig ar gyfer pob contractwr gweinyddu cyfarpar wedi'u nodi yn y cais cychwynnol, ac os caiff y cais ei gymeradwyo a bod y contractwr gweinyddu cyfarpar yn agor wedi hynny, dyma fydd oriau agor cytundebol y contractwr gweinyddu cyfarpar. Gall y contractwr wneud cais wedyn i newid ei oriau agor craidd. Bydd y bwrdd iechyd yn asesu'r cais yn erbyn anghenion poblogaeth ei ardal fel y nodir yn yr AAFf i benderfynu a ddylid cytuno i'r newid yn yr oriau agor craidd ai peidio.

1.3.3 Gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan feddygon

Mae Rheoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn caniatáu i feddygon weinyddu i gleifion cymwys mewn rhai amgylchiadau. Mae'r rheoliadau'n gymhleth ar y mater hwn ond yn gryno:

- Mae'n rhaid bod cleifion yn byw mewn 'ardal reoledig' (ardal y mae'r bwrdd iechyd neu sefydliad blaenorol wedi'i phennu fel un wledig ei natur, neu ar apêl gan Weinidogion Cymru) sydd fwy nag 1.6km (wedi'i mesur mewn llinell syth) o fferyllfa, a
- Mae'n rhaid bod gan eu practis gymeradwyaeth safle a chaniatâd amlinellol i weinyddu i'r ardal honno.

Mae rhai eithriadau i hyn, er enghraifft cleifion sydd wedi bodloni'r bwrdd iechyd y byddent yn wynebu anhawster difrifol wrth gael mynediad at fferyllfa oherwydd pellter neu ddiffyg dulliau cyfathrebu digonol.

1.4 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae gwasanaethau eraill sydd wedi'u comisiynu neu eu darparu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol hefyd wedi'u cynnwys yn yr AAFf.

1.5 Sut y cynhaliwyd yr asesiad

1.5.1 Grŵp llywio'r AAFf

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfrifoldeb cyffredinol am gyhoeddi'r AAFf. Sefydlodd grŵp llywio a'i ddiben oedd sicrhau datblygiad AAFf cadarn sy'n cydymffurfio â Rheoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac yn diwallu anghenion y boblogaeth leol. Mae aelodaeth y grŵp llywio i'w gweld yn atodiad F.

Cafodd drafft ymgynghori'r AAFf ei lofnodi gan y grŵp llywio cyn yr ymgynghoriad, a chafodd drafft terfynol o'r ddogfen ei gyflwyno i dîm arweinyddiaeth strategol y bwrdd iechyd ac yna ei nodi gan y Bwrdd ym mis Medi.

1.5.2 Ardaloedd yr AAFf

Yng Nghymru mae 60 o glystyrau gofal sylfaenol, pob un yn gwasanaethu poblogaeth rhwng 25,000 a 100,000. Mae gan y clystyrau'r dasg o wella mynediad at ofal sylfaenol ac ansawdd gofal sylfaenol i ddarparu gwell iechyd a lles lleol a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Felly, maent yn ôl troed naturiol i'r ardaloedd o fewn yr AAFf hwn.

Y naw clwstwr yn ardal y bwrdd iechyd yw:

- Canol y Ddinas a De Caerdydd
- Dwyrain Caerdydd
- Gogledd Caerdydd
- De-ddwyrain Caerdydd
- De-orllewin Caerdydd
- Gorllewin Caerdydd
- Canol y Fro
- Dwyrain y Fro
- Gorllewin y Fro

Mae chwe chlwstwr yn ardal awdurdod lleol Caerdydd a thri yn ardal awdurdod lleol Bro Morgannwg.

1.5.3 Ymgysylltu â chleifion a'r cyhoedd

Er mwyn cael barn y cyhoedd ar wasanaethau fferyllol, datblygwyd holiadur a oedd ar gael ar-lein rhwng 5 Mawrth a 7 Ebrill 2026. Cafodd ei hyrwyddo trwy wefan a thudalennau cyfryngau cymdeithasol y bwrdd iechyd, ac roedd copi papur o'r holiadur ar gael ar gais.

Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gellir dod o hyd i gopi yn atodiad G. Mae'r canlyniadau llawn i'w gweld yn atodiad H.

Cwblhaodd cyfanswm o 679 o bobl yr holiadur yn Saesneg; ni chafwyd ymatebion yn Gymraeg.

Roedd 64.9% o'r ymatebwyr yn fenywod, 32.3% yn ddynion, ac roedd yn well gan 2.2% beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Roedd yr holl ymatebwyr a ddarparodd wybodaeth am eu hoedran dros 16 oed.

- Roedd 49% o'r ymatebwyr yn 65 oed ac yn hŷn,
- Roedd 20.5% rhwng 55 a 64 oed,
- Roedd 12.8% rhwng 45 a 54 oed,
- Roedd 4.0% rhwng 25 a 34 oed, ac
- Roedd 1.5% rhwng 16 a 24 oed,

Roedd yn well gan 15 ymatebydd beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Dywedodd 97.9% o'r ymatebwyr mai Saesneg oedd eu hoff iaith, a dywedodd 1.9% mai Cymraeg oedd eu hoff iaith.

Pan ofynnwyd iddynt pam eu bod fel arfer yn ymweld â fferyllfa, roedd y mwyafrif o'r ymatebion a dderbyniwyd yn dangos bod pobl yn ymweld â fferyllfa i gael neu gasglu presgripsiwn iddyn nhw eu hunain (95.1%). Y rhesymau mwyaf cyffredin nesaf oedd cael cyngor iddyn nhw eu hunain (73.7%), prynu meddyginiaethau iddyn nhw eu hunain (72.9%), neu gael neu gasglu presgripsiwn i rywun arall (66.4%).

Ffigur 1.1: Rhesymau dros ymweld â fferyllfa



Dyweddodd 27.5% o'r ymatebwyr eu bod yn ymweld â fferyllfa bob mis/bob pedair wythnos, dywedodd 20.0% yn wythnosol, 19.6% bob pythefnos, a dywedodd 18% eu bod yn gwneud hynny yn ôl yr angen. O'r 16 o bobl a ddewisodd "Arall", dywedodd 62.5% eu bod yn mynd bob wyth wythnos/deufis.

Dyweddodd 42.5% o'r ymatebwyr nad oes ganddynt ffafriaeth ynghylch pryd yw'r amser gorau i ddefnyddio fferyllfa. O'r ymatebion sy'n weddill, dywedodd 24.1% rhwng 08:30 a 12:30, a dywedodd 24.0% rhwng 14:00 a 18:30.

Yn yr un modd, nid oedd gan 47.8% ffafriaeth am y diwrnod mwyaf cyfleus i ddefnyddio fferyllfa. O'r ymatebion sy'n weddill, nododd 34.6% mai dyddiau'r wythnos yn gyffredinol oedd yr amser mwyaf cyfleus i gael mynediad at fferyllfa, a dywedodd 6.1% y penwythnosau yn gyffredinol. Roedd yr ymatebion sy'n weddill wedi'u gwasgaru o ddydd Llun i ddydd Sadwrn.


Pan ofynnwyd iddynt a oedd adeg wedi bod yn ddiweddar pan nad oeddent wedi gallu defnyddio eu fferyllfa arferol, ymatebodd 16.7% 'oedd', ymatebodd 76.4% 'nac oedd', a dywedodd 6.8% nad oedd y cwestiwn yn berthnasol. Pan ofynnwyd iddynt beth oedden nhw wedi'i wneud, dywedodd 54.4% o bobl eu bod wedi mynd i fferyllfa arall, dywedodd 42.1% eu bod wedi aros nes bod y fferyllfa ar agor, ac aeth 10.5% at eu meddyg teulu. Ffoniodd eraill 111 neu aethant i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

Mae'n well gan y rhan fwyaf o ymatebwyr ddefnyddio'r un fferyllfa. O'r 675 o ymatebion a dderbyniwyd, dywedodd 82.7% eu bod bob amser yn defnyddio'r un fferyllfa, a dywedodd 16.7% eu bod yn defnyddio fferyllfeydd gwahanol ond mae'n well ganddynt ymweld ag un ohonynt yn amlach na'r lleill.

Mae llawer o resymau sy'n dylanwadu ar y dewis o fferyllfa. Rhoddwyd atebion lluosog, a'r rhesymau mwyaf poblogaidd oedd eu bod yn agos at adref (613 o

ymatebion) ac yna, yn hoffi ac yn ymddiried yn y staff (579), mae'r fferyllfa yn darparu cyngor a gwybodaeth dda (536), ac oriau agor y fferyllfa (502).

Ffigur 1.2: Y Prif ffactorau sy'n dylanwadu ar y dewis o fferyllfa



Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (84.3%) yn defnyddio'r fferyllfa sydd fwyaf cyfleus neu agosaf iddynt. Dywedodd 3.9% o'r ymatebwyr nad oeddent yn gwybod a oedd fferyllfa yn agosach neu'n fwy cyfleus ar gael. Fodd bynnag, ar gyfer 11.9% o'r ymatebwyr, roedd fferyllfa a oedd yn fwy cyfleus neu'n agosach ar gael yr oeddent yn dewis peidio â'i defnyddio. Pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddent yn defnyddio'r fferyllfa honno, y pedwar prif reswm a ddarparwyd oedd bod y gwasanaeth yn rhy araf (36 o ymatebion), nad oedd ganddi'r eitemau angenrheidiol mewn stoc (27), nid yw'r staff yn adnabod yr unigolyn (22) ac nid yw'n hawdd parcio yn y fferyllfa (21).

Y ffordd fwyaf poblogaidd o deithio i fferyllfa oedd ar droed (66.7% o'r ymatebwyr) ac yna car (29.7%). Nodir bod hyn yn wahanol i'r ymatebion a dderbyniwyd pan ofynnwyd am farn mewn perthynas ag AAFf 2021 pan ddywedodd 51% o'r ymatebwyr eu bod wedi gyrru i fferyllfa a dywedodd 44% eu bod wedi teithio ar droed. Mae'n bosib bod y nifer fawr o ymatebion gan un pentref yng Nghaerdydd wedi dylanwadu ar y ffigurau diweddaraf.

Mewn perthynas ag amser teithio i fferyllfa, gallai 99.2% gyrraedd fferyllfa mewn llai nag 20 munud. Mae 0.8% yn cymryd mwy nag 20 munud.

I 42.6% o'r ymatebwyr mae eu hamser teithio yn llai na 5 munud, ac i 53.5% mae rhwng 5 a 15 munud.

Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (92.4%) nad oeddent yn cael trafferth mynd i fferyllfa. Dim ond 5.2% a atebodd eu bod yn cael trafferth, a dywedodd 2.4% nad oedd y cwestiwn yn berthnasol.

Y prif resymau pam roedd pobl yn cael trafferth cyrraedd fferyllfa oedd:

- Oriau gwaith yn gwrthdaro ag oriau agor fferyllfeydd.
- Problemau symudedd.
- Materion iechyd.
- Methu gyrru.
- Heb fod yn cael anhawster ar hyn o bryd, ond byddent yn cael anhawster pe bai'r fferyllfa agosaf yn cau.

Gellid rhoi atebion lluosog i'r cwestiwn ynghylch sut mae pobl yn dod o hyd i wybodaeth am fferyllfa, fel yr oriau agor neu'r gwasanaethau a gynigir. Dywedodd 52.9% y byddent yn galw heibio ac yn gofyn, byddai 48.7% yn cyrchu'r rhyngwyd neu'n defnyddio ap, dywedodd 47.3% y byddent yn ffonio'r fferyllfa, a dywedodd 32.0% y byddent yn edrych yn y ffenestr.

O ran gallu trafod rhywbeth yn breifat gyda'u fferyllfeydd, roedd 83.2% yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hyn, nid oedd 3.0% yn teimlo eu bod yn gallu gwneud hyn, nid oedd 12.5% erioed wedi bod angen gwneud hyn, ac ymatebodd 1.3% nad oeddent yn gwybod.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn ymwybodol y gallent fod yn gallu cael mynediad at wasanaethau penodol o fferyllfeydd fel rhan o'r GIG, ymatebodd 664 o bobl i'r cwestiwn gan roi ymatebion lluosog. Brechlynnau fflw (93.8% o'r ymatebwyr) ac yna'r cynllun anhwylderau cyffredin (85.1%) a'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys (63.6%) oedd y gwasanaethau y mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt fel rhai sy'n cael eu cynnig gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG. Yn gyffredinol, roedd ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar (9.2% o'r ymatebwyr); fodd bynnag, byddai'r gwasanaeth arbenigol hwn yn cael ei ddefnyddio gan y rheini sydd angen cyfarpar fel stomâu a bagiau colostomi yn unig yn hytrach na'r grŵp cleifion ehangach. Nid oedd 21 o bobl yn ymwybodol o unrhyw un o'r gwasanaethau a gynigir gan fferyllfeydd fel rhan o'r GIG.

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau, rhoddwyd ymatebion lluosog. Y gwasanaeth mwyaf poblogaidd a ddefnyddiwyd oedd y cynllun anhwylderau cyffredin (386 o bobl) ac yna'r gwasanaeth brechlynnau fflw (388 o ymatebion) a'r gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys (215 o ymatebion). Dywedodd 98 o bobl (15.1%) nad oeddent wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau rhestredig.

Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw beth arall yr hoffai ymatebwyr ei rannu am eu profiad o'u fferyllfa leol, dywedodd 477 eu bod am wneud hynny (ond nid oedd 17 o'r rheini wedyn wedi gwneud sylwad).

Y prif themâu oedd:

- Gwasanaeth cwsmeriaid - ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan staff cyfeillgar a hygyrch y maent yn cymryd amser i ddod i adnabod eu cwsmeriaid a mynd yr ail filltir – 258 o bobl
- Dangoswyd cefnogaeth sylweddol i un fferyllfa benodol ac i'r gwerth a roddir arni gan yr ymatebwyr – 112 o bobl.
- Mae cael fferyllfa leol y gall pobl gael mynediad iddi yn hawdd yn bwysig – 27 o bobl

- Soniwyd am ddiffyg oriau agor amser cinio, gyda'r hwyr a thros benwythnosau gan 17 o bobl.
- Soniodd 11 o bobl pa mor brysur yw fferyllfeydd a faint o amser a dreulir yn aros i siarad â fferyllydd neu wrth gasglu eu presgripsiwn.
- Soniodd deg o bobl am wasanaeth cwsmeriaid gwael / problemau stoc.
- Mae saith o bobl yn gwerthfawrogi'r pwyntiau casglu awtomataidd sy'n caniatáu iddynt gasglu eu meddyginiaethau ar adeg sy'n gyfleus iddynt.
- Soniodd dau berson am ddiffyg preifatrwydd.

Pan ofynnwyd iddynt a oes unrhyw rwystrau wrth gael mynediad at wasanaethau yn eu fferyllfa, nad oeddent eisoes wedi'u crybwyll, atebodd cyfanswm o 319 o bobl y cwestiwn hwn. Derbyniwyd cyfanswm o 71 o sylwadau ac mae'r prif themâu fel a ganlyn:

- Dywedodd 22 o bobl nad yw'r oriau agor yn gyfleus - ar gau amser cinio, gyda'r hwyr, ac ar benwythnosau.
- Roedd 17 o bobl yn pryderu am effaith adleoli eu fferyllfa a'r problemau mynediad ati yn ei lleoliad newydd.
- Soniodd 12 o bobl am wahanol agweddau ar wasanaeth cwsmeriaid gwael.

1.5.4 Ymgysylltu â chontractwyr

Cynhaliwyd holiadur ar-lein ar gyfer fferyllfeydd a chymerwyd y dull o ofyn i gontractwyr am wybodaeth na ellid dod o hyd iddi yn rhywle arall.

Gellir dod o hyd i gopi o'r holiadur yn atodiad 1.

Roedd yr holiadur ar agor rhwng 5 Mawrth a 7 Ebrill 2026 a chrynhair y canlyniadau isod.

Atebodd 49 o'r fferyllfeydd yr holl gwestiynau, cyfradd ymateb o 49%.

Dywedodd 47 o fferyllfeydd fod eu safleoedd yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, ac er i un ddweud nad yw'r fferyllfa yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn dywedodd bod ganddi ddau ramp y gall staff eu gosod yn eu lle i alluogi mynediad i'r fferyllfa, er bod y drws yn gul. Dywedodd 46 fod eu hystafell ymgynghori yn hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae ystafelloedd ymgynghori yn rhagofyniad ar gyfer darparu'r gwasanaethau uwch, ac yn aml fe'u cynhwysir fel gofyniad ar gyfer ystod ehangach o wasanaethau a gomisiynwyd gan fferyllfa. Cadarnhaodd pob un o'r 49 fferyllfa fod yr ardal ymgynghori yn bodloni'r pedwar gofyniad gan ei bod:

- yn ystafell gaeedig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y fferyllydd a'r claf eistedd gyda'i gilydd,
- yn caniatáu i'r claf a'r fferyllydd siarad ar lefel arferol heb gael eu clywed gan staff y fferyllfa neu ymwelwyr â'r fferyllfa.
- wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd 17 o fferyllfeydd fod ganddynt siaradwyr Cymraeg, a chadarnhaodd 20 fod ieithoedd eraill yn cael eu siarad (ac eithrio Saesneg). Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Wrddw (chwe fferyllfa)
- Hindi (pump)
- Arabeg (pedair)
- Cantoneg (tair)
- Pwnjabeg (tair)
- Gwjarati (dwy)
- Bengaleg (pedair)
- Perseg (dwy)
- Tsieinëeg, Ffilipino, Almaeneg, Groeg, Hakka, Eidaleg, Cwrdeg, Maleieg, Mandarin, Pashto, Portiwgaleg, Rwmaneg, Somalieg, Sbaeneg, Tamileg, Telegw (un fferyllfa yr un)

Pan ofynnwyd iddynt a yw'r fferyllfa yn gweinyddu cyfarpar, cadarnhaodd 42 o ymatebwyr fod presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar yn cael eu gweinyddu, a dywedodd dau mai dim ond rhwymynnau sy'n cael eu gweinyddu. Mynegodd un o'r rhain ddiddordeb mewn gweinyddu mathau eraill o gyfarpar.

Pan ofynnwyd iddynt am wasanaethau casglu a danfon a gynigir:

- Dywedodd pob un o'r 49 fferyllfa eu bod yn casglu presgripsiynau gan eu practisau meddygon teulu.
- Dywedodd 27 fferyllfa eu bod yn darparu gwasanaeth danfon am ddim ar gyfer meddyginiaethau a weinyddwyd ar gais.
- Dywedodd pum fferyllfa eu bod yn darparu gwasanaeth danfon am ddim i gleifion dethol, yn bennaf yr henoed nad ydynt yn gallu cael mynediad i'r fferyllfa a chleifion sy'n gaeth i'r tŷ nad oes ganddynt neb arall i gasglu eu presgripsiynau. Dywedodd un fferyllfa ei bod yn danfon eitemau swmpus h.y. diodydd maethol.
- Dywedodd pedair fferyllfa eu bod yn darparu gwasanaeth danfon am ddim i ardaloedd penodol.
- Dywedodd 21 fferyllfa eu bod yn codi tâl am ddanfon meddyginiaethau a weinyddwyd.

Dywedodd dwy fferyllfa eu bod wedi cyflwyno ffi am y gwasanaeth yn ddiweddar, er bod un yn dweud ei bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth danfon am ddim i gleifion gofal lliniarol. Dywedodd un arall ei bod yn adolygu a all barhau i ddarparu'r gwasanaeth am ddim.

Dywedodd tair fferyllfa fod ganddyn nhw bwynt casglu awtomataidd, a dywedodd un arall ei bod yn ystyried gosod un.

Dylid nodi nad yw gwasanaethau casglu a chyflenwi yn wasanaethau cytundebol ac felly yn cael eu darparu'n breifat gan fferyllfeydd yn ôl eu disgresiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes gofyniad am wasanaeth clinigol ychwanegol presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal, ymatebodd 16 o ymatebwyr yn gadarnhaol.

- Gwasanaethau presgripsiynwyr annibynnol estynedig (dwy fferyllfa)

- Pigiadau Kenalog ar gyfer clefyd y gwair ac alergeddau lle nad yw'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn effeithiol
- Pigiadau colli pwysau (dwyr fferyllfa)
- Profion protein C-adweithiol ar gyfer cleifion â pheswch (dwyr fferyllfa)
- Profion wrin ar gyfer cleifion y tu allan i'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa
- Gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu (chwe fferyllfa)
- Gwasanaeth cofnodi gweinyddu meddyginiaeth
- Gwasanaeth gwaredu eitemau miniog
- Cymorth gyda thechneg defnyddio anadlydd
- Monitro pwysedd gwaed
- Gwasanaeth brysbennu a thrin ar gyfer trin mân glwyfau a llosgiadau lefel isel ymhlith y boblogaeth fyfyrwyr
- Pigiadau Depo-provera a phroffylaxis cyn cysylltiad i'w darparu gan bresgripsiynwyr annibynnol sy'n gweithio ochr yn ochr â chlinigau iechyd rhywiol.

Pan ofynnwyd iddynt a oes gofyniad am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd, atebodd 11 fferyllfa.

- Gwasanaeth gwirio lles i bobl 50 oed ac yn hŷn
- Gwiriadau pwysedd gwaed (tair fferyllfa)
- Y gallu i weinyddu rhwymynnau yn lle'r gwasanaeth archebu heb bresgripsiwn ar-lein
- Clinig therapi adfer hormonau oherwydd yr anghysondeb yn yr argaeledd a'r ddarpariaeth, gan arwain at gleifion yn ceisio triniaeth breifat
- Clinig therapi adfer testosteron gan nad oes darpariaeth ar gael, gan arwain at gleifion yn ceisio triniaeth breifat
- Gwasanaeth anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd - amseroedd aros o bump i wyth mlynedd ar gyfer diagnosis hyd yn oed yn y sector preifat, gan arwain at anghysondeb mewn gofal iechyd a chleifion yn gorfod teithio i Loegr i gael mynediad ato.
- Profion colesterol
- Asesu a darparu piguadau Depo-provera
- Nyrsys i allu rhoi brechlynnau fflw
- Brechiadau COVID-19

Mae'r galw am wasanaethau fferyllol yn gyffredinol yn cynyddu, ac felly gofynnodd yr holiadur am allu fferyllfeydd i ddiwallu anghenion yn y dyfodol. Oherwydd y gyfradd ymateb gychwynnol, cafwyd cyswllt dilynol â'r holl fferyllfeydd i gadarnhau eu safbwyntiau. Derbyniwyd ymatebion i'r cwestiwn hwn gan 72 o'r fferyllfeydd.

Mewn perthynas â'u safleoedd, mae gan 59 fferyllfa ddigon o gapasiti i reoli cynnydd yn y galw, nid oes gan chwech ohonynt ddigon o gapasiti, ond gallent wneud addasiadau, ac nid oes gan saith gapasiti digonol a byddent yn cael anhawster rheoli galw cynyddol.

Mewn perthynas â'u capasiti staffio, mae gan 57 fferyllfa ddigon o gapasiti i reoli cynnydd yn y galw, nid oedd gan 12 ddigon o gapasiti, ond gallent wneud addasiadau,

ac nid oes gan dair gapasiti digonol a byddent yn cael anhawster rheoli galw cynyddol. Dewisodd un fferyllfa beidio ag ateb y cwestiwn hwn.

Yn y cyswllt dilynol â fferyllfeydd, nododd y bwrdd iechyd, os na dderbyniwyd ymateb, y byddai'n cael ei dybio bod gan y fferyllfa ddigon o gapasiti. Felly, mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan y 28 fferyllfa a ddewisodd beidio ag ateb y cwestiwn hwn ddigon o gapasiti.

Pan ofynnwyd iddynt a oes gan fferyllfeydd unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eu safleoedd neu ddarpariaeth gwasanaethau, dywedodd 24 fferyllfa bod ganddynt gynlluniau. Mae themâu'r ymatebion fel a ganlyn:

- Ehangu gwasanaethau presgripsiynwyr annibynnol ymhellach
- Ehangu nifer y fferyllfeydd a berchnogir os nad yw gwasanaethau newydd yn cael eu comisiynu, neu ddarparu mwy o wasanaethau preifat
- Dechrau darparu'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa (chwe fferyllfa)
- Parhau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a gynigir gyda'r cyhoedd a phractisau meddygon teulu (tair fferyllfa)
- Datblygu'r cynnig gwasanaeth, gan gynnwys presgripsiynu annibynnol
- Darparu gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu
- Adleoli i safleoedd mwy (tair fferyllfa)
- Sefydlu pwynt casglu awtomataidd
- Ailosod safleoedd presennol
- Darparu mwy o wasanaethau preifat (pedair fferyllfa)
- Creu mwy o ystafelloedd ymgynghori (pum fferyllfa)
- Cynyddu darpariaeth gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa a'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin
- Darparu gwasanaeth Depo-provera ar ôl ei gomisiynu
- Ystyried darpariaeth haen uwch y rhaglen nodwyddau a chwistrellau

1.5.5 Ymgynghori

Mae adroddiad o'r ymgynghoriad sy'n cynnwys unrhyw newidiadau i'r AAFf ar gael yn atodiad J.

2 Trosolwg o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

2.1 Cyflwyniad

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o'r byrddau iechyd mwyaf yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am gynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG i awdurdod lleol Caerdydd ac awdurdod lleol Bro Morgannwg, a'u holl drigolion.


2.2 Poblogaeth⁴

Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru o ran poblogaeth, gydag amcangyfrif o 383,919 o breswylwyr yn 2024. Mae gan Fro Morgannwg boblogaeth lai o 135,743 o drigolion.

Mae cyfran llawer uwch o boblogaeth Caerdydd yn y grwpiau oedran rhwng 19 a 40 oed, gyda'r ganran uchaf rhwng 19 a 22 oed oherwydd ei phoblogaeth uchel o fyfyrwyr.


Ym Mro Morgannwg, yr oedran canolrifol (yr oedran lle mae hanner y boblogaeth yn hŷn nag ef, a hanner y boblogaeth yn iau nag ef), yw 44.2 oed. Mae hyn 1.4 mlynedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru o 42.8 mlynedd. Yng Nghaerdydd, mae'r oedran canolrifol yn llawer iau, sef 34.4 mlynedd, sydd 9.8 mlynedd yn is na Bro Morgannwg ac 8.4 mlynedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Ffigur 2.1: Pyramidiau poblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg, 2024



⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024](#)

Caerdydd	Nifer	Canran
Cyfanswm y boblogaeth	383,919	
Dynion	188,316	49.1%
Benywod	195,603	50.9%




Bro Morgannwg	Nifer	Canran
Cyfanswm y boblogaeth	135,743	
Dynion	65,261	48.1%
Benywod	70,482	51.9%

Caerdydd sydd â'r gyfran isaf o'i phoblogaeth dros 65 oed (14.6%) ac sydd â'r gyfran uchaf o'i phoblogaeth rhwng 16 a 64 oed (68.0%). Mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 oed ac yn hŷn ym Mro Morgannwg (22.7%) yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (22.1%).

Ar gyfer y grŵp oedran rhwng 16 a 64 oed, mae Bro Morgannwg (59.2%) ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (60.5%). Mae cyfran y boblogaeth sy'n 15 oed ac iau yng Nghaerdydd (17.54%) yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (17.4%) ac mae Bro Morgannwg ychydig yn uwch (18.1%).

Ffigur 2.2: Canrannau'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran ac yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2024



Amcangyfrifon poblogaeth Caerdydd yn 2024 oedd 383,919, cynnydd o 1.1% ers 2023. Yn y cyfnod rhwng canol 2021 a chanol 2024, cynyddodd amcangyfrifon y boblogaeth gan 6.7%; roedd y cynnydd rhwng 2023 a 2024 yn bennaf oherwydd mudo rhyngwladol net (+6,845). Roedd mwy o enedigaethau na marwolaethau yng Nghaerdydd hefyd o +592.

Tabl 2.1: Cydrannau'r newid poblogaeth yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd 2023 i 2024.

Ardal	Poblogaeth canol blwyddyn 2023	Newid naturiol	Mudo mewnol net	Mudo rhyngwladol net	Newidiadau eraill	Poblogaeth canol blwyddyn 2024
Caerdydd	379,739	+592	-3,215	+6,845	-42	383,919
Bro Morgannwg	134,771	-221	+823	+537	-167	135,743
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	514,510	+371	-2,392	+7,382	-209	519,662

Roedd poblogaeth amcangyfrifedig Bro Morgannwg yn 2024 yn 135,743 o drigolion arferol, cynnydd o 0.7% ers 2023. Yn y cyfnod rhwng canol 2021 a chanol 2024, cynyddodd nifer amcangyfrifol poblogaeth Bro Morgannwg gan 2.5%. Yn wahanol i Gaerdydd, roedd hyn yn bennaf oherwydd ymfudo mewnol (+823), ochr yn ochr â mudo rhyngwladol (+537). Roedd mwy o farwolaethau na genedigaethau ym Mro Morgannwg gan arwain at newid naturiol negyddol (-221).

2.2.1 Amcanestyniadau poblogaeth rhwng 2022 a 2032 (yn seiliedig ar 2021)⁵

Rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu gan 10.5% erbyn 2032, gyda phoblogaeth amcangyfrifedig o 408,689 erbyn y dyddiad hwn. Dyma'r twf canrannol mwyaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, sy'n parhau i fod yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang. Bydd y cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yn y grŵp oedran dros 75 oed ac yna grŵp oedran 65-74. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

Tabl 2.2: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grwpiau oedran eang ar gyfer awdurdod lleol Caerdydd, 2022 i 2032

	Canol blwyddyn 2022	Canol blwyddyn 2032	Cynnydd / gostyngiad	Cynnydd gostyngiad canrannol /
0-15	85,713	94,554	8,841	10.3%
16-64	226,867	248,220	21,353	9.4%
65-74	28,745	31,853	3,108	10.8%
Dros 75	28,526	34,062	5,536	19.4%
CYFANSWM	369,851	408,689	38,838	10.5%

Rhwng 2022 a 2032, rhagwelir y bydd poblogaeth Bro Morgannwg yn cynyddu hyd at 9.9%, y trydydd cynnydd canrannol mwyaf o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru. Disgwylir y bydd ganddi boblogaeth o oddeutu 146,990 erbyn 2032, gan ei gwneud yn nawfed awdurdod lleol mwyaf Cymru. Disgwylir i'r boblogaeth gynyddu ar draws pob grŵp oedran eang, gyda'r cynnydd mwyaf disgwyledig yn y grŵp oedran dros 75 oed o 26%. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn parhau i heneiddio yn yr awdurdod lleol.

Tabl 2.3: Amcanestyniadau poblogaeth yn ôl grwpiau oedran ar gyfer awdurdod lleol Bro Morgannwg, 2022 i 2032

	Canol blwyddyn 2022	Canol blwyddyn 2032	Cynnydd / gostyngiad	Cynnydd gostyngiad canrannol /
0-15	22,943	23,853	910	4.0%
16-64	81,171	87,940	6,769	8.3%
65-74	15,056	16,901	1,845	12.3%
Dros 75	14,525	18,296	3,771	26.0%
CYFANSWM	133,695	146,990	13,295	9.9%

Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf poblog yng Nghymru o bell ffordd gyda 2,724 o bobl fesul cilomedr sgwâr (2024). Mae Bro Morgannwg yn llai poblog, gyda 410 o bobl fesul cilomedr sgwâr, a hi yw'r degfed ardal fwyaf poblog yng Nghymru yn 2024. Mae

⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – [Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol \(yn seiliedig ar 2022\)](#)

gan Gaerdydd a Bro Morgannwg ddwysedd poblogaeth llawer uwch o'u cymharu â Chymru (154 o bobl fesul cilomedr sgwâr)⁶.

Tabl 2.4: Dwysedd poblogaeth (personau fesul cilomedr sgwâr) a newid canrannol yn ôl awdurdod lleol a Chymru, canol blwyddyn 2020, 2023 a 2024

	2020	2023	cynnydd %	2024	cynnydd %
Caerdydd	2,557	2,695	5.4%	2,724	1.1%
Bro Morgannwg	396	407	2.8%	410	0.7%
Cymru	150	153	2.0%	154	0.7%

2.3 Ethnigrwydd⁷

Caerdydd sydd â'r boblogaeth fwyaf ethnig amrywiol yng Nghymru, ac amcangyfrifir bod 20.8% o'i phoblogaeth yn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

Ym Mro Morgannwg, amcangyfrifir bod 5.4% o'r boblogaeth yn Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Mae hyn yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 6.2%.

Tabl 2.5: Ethnigrwydd yn ôl grŵp ethnig ac yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

	Gwyn	Du, Asiaidd, Ethnig Leiafrifol	Cyfanswm	% o bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol
Caerdydd	286,931	75,379	362,310	20.8%
Bro Morgannwg	124,800	7,139	131,939	5.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	411,731	82,518	494,249	16.7%
Cymru	2,915,848	191,646	3,107,494	6.2%

2.4 Iaith yr Aelwyd⁸

Mae 12.0% o'r boblogaeth sy'n dair oed ac yn hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae canran y siaradwyr Cymraeg ychydig yn uwch yng Nghaerdydd na Bro Morgannwg.

Tabl 2.6: Pobl tair oed neu'n hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Ardal	Poblogaeth oed ac yn hŷn	Gallu siarad Cymraeg	Canran y boblogaeth sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg
Caerdydd	351,240	42,757	12.2%
Bro Morgannwg	128,082	14,737	11.5%

⁶ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2024 - dwysedd poblogaeth](#)

⁷ StatsCymru - [Pobl yn ôl grŵp ethnig, ar gyfer Cymru ac awdurdodau lleol, Cyfrifiad 2021](#)

⁸ Cyfrifiad Nomis 2021 – [TS033 - Sgiliau Cymraeg](#)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	479,322	57,494	12.0%
Cymru	3,018,172	538,298	17.8%

2.5 Crefydd⁹

Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 38.3% o boblogaeth Caerdydd eu bod yn Gristnogion. Ym Mro Morgannwg, nododd 44.1% o'r boblogaeth eu bod yn Gristnogion. Dywedodd ychydig llai na hanner y boblogaeth nad oes ganddynt grefydd. Mwslimaidd yw'r ail grefydd fwyaf cyffredin yng Nghaerdydd (9.3%) a Bro Morgannwg (0.9%).

Tabl 2.7: Crefydd trigolion Cymru yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Ardal	Cristnogol	Bwdhaidd	Hindŵaidd	Iddewig	Mwslimaidd	Arall	Sicaidd	Dim crefydd	Heb nodi
Caerdydd	38.3%	0.4%	1.5%	0.2%	9.3%	0.4%	0.6%	42.9%	6.3%
Bro Morgannwg	44.1%	0.3%	0.3%	0.1%	0.9%	0.1%	0.5%	47.9%	5.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	39.9%	0.4%	1.2%	0.2%	7.1%	0.3%	0.5%	44.3%	6.2%
Cymru	43.6%	0.3%	0.4%	0.1%	2.2%	0.1%	0.5%	46.5%	6.3%

2.6 Mynegai amddifadedd lluosog¹⁰

Amddifadedd yw'r diffyg mynediad at gyfleoedd ac adnoddau y gellid ei ddisgwyl mewn cymdeithas. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc) 2025 yw'r dull a ddefnyddir yng Nghymru i nodi'r ardaloedd bach yng Nghymru sydd â'r amddifadedd mwyaf. Mae'n dwyn ynghyd wyth math gwahanol o amddifadedd: incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad at wasanaethau, tai, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd ffisegol, i lunio cyfres o fynegeion a mynegai cyffredinol. Mae hyn yn caniatáu graddio ardaloedd bach yn ôl eu sgôr amddifadedd cymharol, i benderfynu a yw ardal yn fwy neu'n llai amddifad o'i chymharu â phob ardal fach arall yng Nghymru. Mae 1,917 o ardaloedd bach neu ardaloedd cynnyrch ehangach haen is yng Nghymru, sydd wedi'u graddio o 1 (â'r amddifadedd mwyaf) i 1,917 (â'r amddifadedd lleiaf).

Ar y cyfan, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rai o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf a'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru.

O fewn ardal y bwrdd iechyd, mae gan Gaerdydd 37 o ardaloedd yn y 10% o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghaerdydd yw Trelái 5 (safle 3), Trowbridge 8 (safle 6) a Threlái 2 (safle 8). Yr ardal â'r amddifadedd lleiaf yng Nghaerdydd yw Pentyrch a Sain Ffagan 2 (safle 1916).

Ar y cyfan, mae gan Fro Morgannwg lai o amddifadedd na Chaerdydd, gyda dim ond saith ardal yn y 10% o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Y ddwy ardal

⁹ Cyfrifiad Nomis 2021 – [TS031 - Crefydd](#)

¹⁰ Llywodraeth Cymru - [Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 - canllawiau](#)

â'r amddifadedd uchaf yw Gibbonsdown 2 (safle 32) a Castleland 1 (safle 120). Yr ardal â'r amddifadedd lleiaf yw Plymouth (Bro Morgannwg) 1 (safle 1910).

Tabl 2.8: Nifer a chanran yr ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (AGEHI) yn ôl pumed amddifadedd yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2025¹¹

	Cyfanswm yr ACEHI	% yr ACEHI yn y 10% â'r amddifadedd mwyaf (graddfeydd 1-191)	% yr ACEHI yn y 20% â'r amddifadedd mwyaf (graddfeydd 1-382)	% yr ACEHI yn y 30% â'r amddifadedd mwyaf (graddfeydd 1-573)
Caerdydd	218	37 (16.9%)	56 (25.7%)	74 (33.9%)
Bro Morgannwg	82	7 (8.5%)	11 (13.4%)	15 (18.3%)
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	300	44 (14.7%)	67 (22.3%)	89 (29.7%)

2.7 Genedigaethau¹²

Yn 2024, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, cafwyd cynnydd bach o 2.3% o'i gymharu â 2023 yn gyffredinol. Cafwyd cynnydd yng Nghaerdydd o 3.9%, a chafwyd gostyngiad bach o 1.5% ym Mro Morgannwg.

Roedd cyfanswm cyfradd ffrwythlondeb Caerdydd yn 2024 yn is na chyfartaledd Cymru, sef 1.2. Ym Mro Morgannwg, roedd y cyfartaledd yn 1.4 yn 2024.

Tabl 2.9: Newid canrannol mewn genedigaethau byw, a chyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2023 a 2024

	Genedigaethau byw 2023	Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb	Genedigaethau byw 2024	Cyfanswm y gyfradd ffrwythlondeb	Newid mewn genedigaethau byw %
Caerdydd	3,491	1.16	3,626	1.19	+3.9%
Bro Morgannwg	1,139	1.46	1,122	1.42	-1.5%
Cymru	27,374	1.39	26,832	1.35	-2.0%

2.8 Disgwyliad oes¹³

Yng Nghaerdydd y disgwyliad oes cyfartalog adeg geni yw 82.3 i fenywod a 78.1 i ddynion, y ddau yn uwch na chyfartaledd Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Ym Mro Morgannwg, y disgwyliad oes cyfartalog adeg geni yw 83.3 i fenywod a 79.6 i ddynion.

Tabl 2.10: Disgwyliad oes adeg geni ac yn 65 oed yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2020 i 2022

¹¹ StatsCymru - [Safle ACEHI yng Nghymru yn ôl MALIC Awdurdodau Lleol 2025](#)

¹² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Genedigaethau yng Nghymru a Lloegr: 2024](#)

¹³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr](#)

	Blynyddoedd Benyw adeg geni	Blynyddoedd Gwryw adeg geni	Blynyddoedd Benyw yn 65 oed	Blynyddoedd Gwryw yn 65 oed
Caerdydd	82.3	78.1	20.4	17.8
Bro Morgannwg	83.3	79.6	21.2	18.8
Cymru	81.8	77.9	20.2	17.9

Ar y cyfan, gall dynion a menywod ym Mro Morgannwg ddisgwyl byw'n hwy nag yng Nghaerdydd a Chymru. Mae disgwyliad oes yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac eithrio dynion yn 65 oed.


Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am ddisgwyliad oes, disgwyliad oes iach, a'r bwlch anghydraddoldebau ar gyfer 2020 i 2022 yn y penodau ar lefel clwstwr.

2.9 Marwolaethau¹⁴

Roedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran is fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer menywod (864.0) a dynion (1,144.7) na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Ar lefel awdurdod lleol, roedd gan Gaerdydd gyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran uwch fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer dynion (1,209.1) a menywod (907.5) o'i chymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Bro Morgannwg oedd â'r cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran isaf fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer menywod (780.2) a dynion (1,023.7) yn ardal y bwrdd iechyd. Roedd y ddwy gyfradd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Ffigur 2.3: Cyfradd marwolaethau wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru 2024



¹⁴ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Marwolaethau a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr](#)

Roedd cyfradd y marwolaethau y gellid eu hosgoi (marwolaethau a ddiffinnir fel marwolaethau y gellid eu hosgoi neu y gellid eu trin) yng Nghymru yn 277.3 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023. O'r 8,193 o farwolaethau y gellid eu hosgoi yng Nghymru yn 2023, gellid priodoli 5,305.5 (64.8%) i gyflyrau a ystyrir y gellid eu hatal, a gellid priodoli 2,887.5 (35.2%) i gyflyrau yr ystyrir y gellid eu trin¹⁵

Tabl 2.11: Achosion marwolaeth yr ystyrir y gellid bod wedi eu hosgoi, eu trin a'u hatal, cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, 2023

	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth – y gellid eu hosgoi	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth – y gellid eu trin	Cyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth – y gellid eu hatal
Pob Person	260.4	96.6	163.8
Gwrywaidd	331.8	108.9	223.0
Benywaidd	193.5	85.2	108.3

2.10 Pobl ag anableddau

Mae cofrestrau anabledd awdurdodau lleol yn wirfoddol ac yn anghyflawn. Maent yn cofnodi pobl sy'n dewis cofrestru yn unig, ac felly'n tanamcangyfrif gwir nifer y pobl ag anableddau yn y boblogaeth yn sylweddol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorau i gyhoeddi data'r gofrestr anabledd ar ôl 2021–22, gan roi setiau data gofal a chymorth ar lefel unigol dan fframwaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn hytrach, mae amcangyfrifon newydd ar gyfer y boblogaeth gyfan yn deillio'n bennaf o ddata Cyfrifiad 2021.

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod cyfran lai a nifer lai o bobl yng Nghymru yn anabl (21.6%, 670,264), o'i gymharu â 2011 (23.4%), 696,000).¹⁶

Caerdydd yw'r awdurdod lleol â'r gyfran isaf o bobl anabl yng Nghymru allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Bro Morgannwg sydd â'r chweched gyfran isaf o bobl anabl.

¹⁵ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Marwolaethau y gellid eu hosgoi gan Fyrddau Gofal Integredig yn Lloegr a Byrddau Iechyd yng Nghymru](#)

¹⁶ Cyfrifiad Nomis 2021 - [Anabledd, Cymru a Lloegr](#)

Tabl 2.12: Cyfran y boblogaeth a gofrestrwyd yn anabl yn ardal Bae Abertawe a Chymru

Ardal	Anabl dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	Anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngir yn sylweddol ar weithgareddau o ddydd i ddydd	Anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Cyfyngir ychydig ar weithgareddau o ddydd i ddydd	Ddim yn anabl dan y Ddeddf Cydraddoldeb
Caerdydd	18.6%	8.2%	10.4%	81.4%
Bro Morgannwg	19.9%	8.9%	11.0%	80.1%
Cymru	21.6%	10.3%	11.3%	78.4%

2.11 Aelwydydd¹⁷

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, mae 12.2% o'r boblogaeth sy'n 65 oed ac yn hŷn yn byw ar eu pennau eu hunain, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (14.6%). Bro Morgannwg (14.8%) sydd â'r gyfran uchaf o'i phoblogaeth sy'n 65 oed ac yn hŷn sy'n byw ar eu pennau eu hunain.

Tabl 2.13: Cyfansoddiad aelwydydd, nifer a chanran aelwydydd un person, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Aelwyd un person	66 oed ac yn hŷn Blynnyddoedd Gwryw adeg geni		65 oed ac yn iau Blynnyddoedd Gwryw yn 65 oed	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran
Caerdydd	16,526	11.2%	30,937	21.0%
Bro Morgannwg	8,491	14.8%	9,350	16.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25,017	12.2%	40,287	19.7%
Cymru	196,056	14.6%	233,505	17.3%

2.12 Perchnogaeth car¹⁸

Nododd ychydig llai na chwarter yr aelwydydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (23.4%) nad oedd ganddynt gar na fan ar adeg Cyfrifiad 2021. Mae'r ganran yn uwch yng Nghaerdydd (26.0%) nag ym Bro Morgannwg (16.6%).

¹⁷ Cyfrifiad Nomis 2021 – [TS003 - cyfansoddiad aelwydydd](#)

¹⁸ Cyfrifiad Nomis 2021 – [TS045 - Perchnogaeth car](#)

Tabl 2.14: Nifer a chanran yr aelwydydd heb geir na faniau yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021

Ardal	Nifer yr aelwydydd heb geir na faniau	
	Nifer	Canran
Caerdydd	38,293	26.0%
Bro Morgannwg	9,529	16.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	47,822	23.4%
Cymru	261,859	19.4%

2.13 Gweithgarwch Economaidd:¹⁹

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, roedd y gyfradd diweithdra ar gyfer pobl 16 oed ac yn hŷn yng Nghymru yn 3.7%, cynnydd o 0.7 pwynt canran o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd cyfradd diweithdra Caerdydd ychydig yn uwch nag ar draws Cymru, wrth i Fro Morgannwg fod ychydig yn is.

Tabl 2.15: Crynodeb o weithgarwch economaidd yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2023

	Cyfradd diweithdra (16+ oed)	Cyfradd cyflogaeth (16 i 64 oed)	Gweithgaredd economaidd (16-64 oed)
Caerdydd	5.0%	74.6%	21.0%
Bro Morgannwg	3.6%	77.5%	21.9%
Cymru	3.7%	74.1%	23.0%

Caerdydd sydd â'r lefel cyflogaeth uchaf (cyfanswm nifer y bobl 16 oed ac yn hŷn sydd mewn cyflogaeth) yng Nghymru, sef 193,000, sydd tua 10,000 yn uwch na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ganddi'r boblogaeth fwyaf yng Nghymru. Wrth ystyried y gyfradd cyflogaeth (canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed sydd mewn cyflogaeth), Bro Morgannwg sydd â'r gyfradd uchaf yng Nghymru, sef 77.5% dros y cyfnod hwn.

Y gyfradd anweithgarwch economaidd yw canran y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed nad ydynt yn gweithio, ac nad ydynt yn ceisio nac ar gael i weithio. Mae pobl economaidd anweithgar yn cynnwys pobl sy'n gofalu am y teulu neu'r cartref, pobl sydd wedi ymddeol a phobl sydd â salwch neu anabledd. Nid yw'n cynnwys myfyrwyr. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023, roedd gan Gaerdydd (21.0%) a Bro Morgannwg (21.9%) gyfradd gweithgarwch economaidd is na chyfartaledd Cymru.

2.14 Cyfeiriadedd rhywiol

Nododd Arolwg Blynyddol y Boblogaeth 2024²⁰ y canlynol:

¹⁹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – [Cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch economaidd Rhagfyr 2023](#)

²⁰ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Cyfeiriadedd rhywiol, DU: 2024](#)

- Amcangyfrifir bod 93.4% o oedolion 16 oed ac yn hŷn yn y DU yn nodi eu bod yn heterorywiol neu'n syth.
- Roedd pobl iau yn fwy tebygol o nodi eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol (LHD) na phobl hŷn yn 2024. Nododd 8.0% o bobl rhwng 16 a 24 oed eu bod yn LHD, o'i gymharu â 1.2% o bobl 65 oed ac yn hŷn.
- Tyfodd canran y bobl a nododd eu bod yn LHD rhwng 2019 a 2024 fwyaf ar gyfer y rheini rhwng 25 a 34 oed, gan gynyddu o 3.6% i 6.4%.
- Roedd dynion yn fwy tebygol o nodi eu bod yn hoyw neu'n lesbiaidd (2.9%) nag yn ddeurywiol (1.1%) yn 2024, wrth i fenywod fod yn fwy tebygol o nodi eu bod yn ddeurywiol (2.0%) nag yn hoyw neu'n lesbiaidd (1.4%).
- Cyfran y bobl a nododd eu bod yn LHD yng Nghymru yn 2024, oedd 3.6%.

Mae amcangyfrifon ar draws y boblogaeth hefyd ar gael o Gyfrifiad 2021 a ofynnodd gwestiynau gwirfoddol ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd am y tro cyntaf. Mae data Cyfrifiad 2021 yn darparu gwell sylw daearyddol ond mae angen ei ddehongli'n ofalus o hyd, yn enwedig ar gyfer amcangyfrifon hunaniaeth rhywedd, sy'n cael eu dosbarthu fel ystadegau swyddogol sy'n cael eu datblygu.

Tabl 2.16: Cyfrifiad 2021 – hunaniaeth rywiol²¹

Ardal	Syth neu heterorywiol	Hoyw neu lesbiaidd	Deurywiol	Pob cyfeiriadedd rhywiol arall	Heb ateb
Caerdydd	87.0%	2.4%	2.4%	0.5%	7.7%
Bro Morgannwg	90.3%	1.7%	1.1%	1.3%	6.6%
Cymru	89.4%	1.5%	1.2%	0.3%	7.6%

Tabl 2.17: Cyfrifiad 2021 – hunaniaeth rhywedd²²

Ardal	Hunaniaeth rhywedd yr un peth â'r hyn a nodwyd adeg geni	Hunaniaeth rhywedd yn wahanol i'r hyn a nodwyd adeg geni (dim manylion)	Menyw draws	Dyn traws	Anneuaidd	Pob hunaniaeth rhywedd arall
Caerdydd	92.9%	0.2%	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%
Bro Morgannwg	94.5%	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%	0.0%
Cymru	93.3%	0.2%	0.1%	0.1%	0.2%	0.0%

²¹ Cyfrifiad Nomis 2021 – [TS077- Cyfeiriadedd rhywiol](#)


²² Cyfrifiad Nomis 2021 – [TS070 - Hunaniaeth rhywedd](#)

2.15 Gofalwyr²³

Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 41,913 o oedolion eu bod yn ofalwr di-dâl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae hyn yn ostyngiad ar ddata'r Cyfrifiad blaenorol, fodd bynnag, mae'n debygol bod y ffigur hwn yn llawer uwch nag y mae'r data yn awgrymu²⁴. Cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod pandemig COVID-19, a allai hefyd fod wedi dylanwadu ar sut roedd pobl yn gweld ac yn ymgymryd ac yn darparu gofal di-dâl, ac felly gallai fod wedi effeithio ar sut y dewisodd pobl ymateb.

Roedd canran y bobl yn y boblogaeth a nododd eu bod yn ofalwyr sy'n darparu 50 awr neu fwy yr wythnos o ofal di-dâl yn is na chyfartaledd Cymru yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Ffigur 2.4: Canran y boblogaeth sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos, yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2021



Mae gofalwr ifanc yn rhywun sy'n 18 oed neu'n iau sy'n helpu i ofalu am berthynas sydd â chyflwr, fel anabledd, salwch, cyflwr iechyd meddwl, neu broblem cyffuriau neu alcohol. Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc yn gofalu am un o'u rhieni, neu'n gofalu am frawd neu chwaer. Yng Nghyfrifiad 2021, nodwyd 741 o ofalwyr ifanc yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, er bod y ffigur go iawn yn debygol o fod yn uwch na hynny.

Diffinnir gofalwyr sy'n oedolion ifanc fel gofalwyr rhwng 18 a 25 oed. Mae'r grŵp hwn yn arbennig o agored i bontio ar ôl gadael yr ysgol, ac maent yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, neu'n profi anawsterau wrth gydbwysu gofalu â'r coleg neu'r brifysgol.

²³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – [Cyfrifiad 2021](#)

²⁴ Ymddiriedolaeth Gofalwyr – [Ymateb i ddata Cyfrifiad 2021 – Chwefror 2023](#)

2.16 Cymunedau teithwyr a sipsiwn

Yng Nghyfrifiad 2021 roedd 4,000 o drigolion Cymru (0.1%) yn nodi eu bod yn "Sipsiwn neu'n Deithiwr Gwyddelig"; mae hyn yn gynnydd ers 2011 pan ymatebodd bron 3,000 o drigolion gyda'r ethnigrwydd hwn. Yn 2021, cafodd "Roma" ei gynnwys fel categori blwch ticio o fewn y categori "Gwyn" lefel uchel am y tro cyntaf ar ffurflen cyfrifiad, gyda bron 2,000 o drigolion arferol yng Nghymru (0.1%) yn uniaethu â'r grŵp ethnig hwn.²⁵

Ym mis Ionawr 2025, roedd 222 o garafanau ar safleoedd awdurdodedig yng Nghaerdydd, gyda 80 o leiniau wedi'u darparu gan yr awdurdod lleol.

Roedd gan Fro Morgannwg oddeutu 30, ar draws tri safle awdurdodedig. Mae'r pedwar safle arall yn anawdurdodedig, ond ystyrir eu bod yn safleoedd a oddefir, lle nad oedd yr awdurdod wedi ceisio cael gwared ar y gwersyll.

2.17 Troseddwy²⁶

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro un carchar, CEF Caerdydd, carchar lleol categori B, ar gyfer carcharorion gwrywaidd sy'n oedolion. Mae'n garchar traddodiadol yng nghanol y ddinas, ac yn gwasanaethu llysoedd de-ddwyrain Cymru. Yn gyffredinol, mae'r carchar yn dal carcharorion heb eu collfarnu ac sydd ar remând, a charcharorion byrdymor sy'n treulio dedfryd hyd at 12 mis yno. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau iechyd i'r carchar.

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd gan Arolygiaeth Carchardai EF rhwng 29 Ionawr a 5 Chwefror 2024. Mae'r wybodaeth isod wedi'i chymryd o'r adroddiad arolygu, ac mae'n rhoi cipolwg ar boblogaeth y carchar a'r anghenion iechyd yn y carchar yn ystod y cyfnod hwn.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y carchar yn dal ychydig o dan 737 o garcharorion. Mae 3,497 o garcharorion newydd yn cael eu derbyn bob blwyddyn (tua 291 y mis). Yr isafswm a'r uchafswm oedran yn y carchar yw 18 oed a 75 oed. Roedd y mwyafrif helaeth o garcharorion rhwng 21 oed a 49 oed (89%), gyda'r gyfran uchaf rhwng 30 oed a 39 oed (39%). Roedd 92% o'r carcharorion yn Brydeinig. Dyma rai o brif ganfyddiadau'r adroddiad:

- Nododd 70% o garcharorion bod ganddynt broblem iechyd meddwl.
- Nododd 51% bod ganddynt anabledd.
- Dywedodd bron hanner y carcharorion ei bod yn hawdd cael cyffuriau; profodd ychydig llai na chwarter yn bositif mewn profion cyffuriau gorfodol.
- Roedd deg o garcharorion wedi cymryd eu bywydau eu hunain ers 2019.

²⁵ Llywodraeth Cymru - [Grŵp ethnig, hunaniaeth genedlaethol, iaith a chrefydd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\)](#)

²⁶ Prif Arolygydd Carchardai EF - [Adroddiad ar arolygiad dirybudd o CEF Caerdydd gan Brif Arolygydd Carchardai EF \(29 Ionawr – 5 Chwefror 2024\)](#)

2.18 Y digartref a phobl sy'n cysgu ar y stryd²⁷

Diffinnir pobl sy'n cysgu ar y stryd fel personau sy'n cysgu dros nos yn yr awyr agored (fel drysau siopau, llochesi bysus neu barciau) neu mewn adeiladau, cerbydau neu leoedd eraill nad ydynt wedi'u cynllunio ar gyfer preswyllo (megis grisiau, ysguboriau, siediau, meysydd parcio, pebyll, ceir/faniau).

Cesglir y data ar bobl sy'n cysgu ar y stryd trwy ffurflenni misol gan awdurdodau lleol. Mae nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd yn gipolwg ar ddiwrnod olaf y mis.


Tabl 2.18: Cyfrif o bobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd, Cymru, 2025/26 (hyd at fis Ionawr 2026)

Dyddiad	Caerdydd	Bro Morgannwg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	Cymru
30/04/2025	20	0	20	116
31/05/2025	22	0	22	131
30/06/2025	28	0	28	169
31/07/2025	32	0	32	160
31/08/2025	27	0	27	168
30/09/2025	30	0	30	160
31/10/2025	36	0	36	157
30/11/2025	30	0	30	137
31/12/2025	39	0	39	140
31/01/2026	24	0	24	128

Oherwydd tarfu annisgwyl ar y system yn dilyn uwchraddio, nid oedd Bro Morgannwg yn gallu darparu data ar gyfer misoedd Tachwedd 2025, Rhagfyr 2025 ac Ionawr 2026. Cytunwyd bod data mis Hydref 2025 yn cael ei ddefnyddio fel amcangyfrif ar gyfer y misoedd hyn. Dylid trin yr holl gyfansymiau ledled Cymru ar gyfer misoedd Tachwedd 2025, Rhagfyr 2025 ac Ionawr 2026 fel data dros dro.

Ffigur 2.5: Tuedd o bobl sy'n cysgu ar y stryd, yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2023-2026

²⁷ StatsCymru - [Pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl awdurdod lleol](#)



3 Anghenion iechyd cyffredinol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae data iechyd, anabledd a gofal di-dâl, i gyd yn agos gysylltiedig â strwythur oedran poblogaeth. Mewn mwy o boblogaethau oedrannus, disgwylir canlyniadau iechyd gwaeth, mwy o anabledd a mwy o ofal di-dâl. Felly, er mwyn cymharu data'n deg ar draws ardaloedd â phroffiliau oedran gwahanol, defnyddiwyd cyfraddau wedi'u safoni yn ôl oedran trwy gydol y bennod hon, oni nodir yn wahanol²⁸.

Mae'r broses hon yn addasu ar gyfer gwahaniaethau mewn strwythur oedran trwy arsylwi cyfraddau i boblogaeth safonol, gan ddangos sut fyddai'r cyfraddau yn edrych pe bai pob ardal yn cael yr un dosbarthiad oedran, yn seiliedig ar boblogaeth safonol Ewropeaidd 2013.

Pan mae data ansawdd a fframwaith wedi cael ei ddefnyddio, dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r data. Mae data fframwaith ansawdd a chanlyniadau a adroddir yn dibynnu ar ddiagnosis a chofnodi ar y system glinigol practis cyffredinol - os nad yw cyflwr wedi'i godio, nid yw'n cael ei gyfrif yn y gofrestr fframwaith ansawdd a chanlyniadau. Mae hefyd yn dibynnu ar nodweddion cymdeithasol a demograffig y boblogaeth a'u parodrwydd i geisio gwasanaethau gofal iechyd. Gall hyn felly fod yn danamcangyfrif o'r mynychder 'gwirioneddol'.

3.1 Cyflyrau hirdymor

Mae'r blynyddoedd o fywyd a addaswyd yn ôl anabledd (DALYs) yn ystyried marwolaeth gynamserol a dioddefaint sy'n gysylltiedig ag iechyd i bortreadu cyfanswm y blynyddoedd o fywyd iach a gollwyd o bob achos. Yng Nghymru, clefyd isgemig y galon yw prif achos marwolaeth ac anabledd yng Nghymru yn 2023. Ers 2013, mae'r cynnydd mwyaf yng nghlefyd isgemig y galon (+9.4), cwmpo (+9.1), canser y colon a'r rhefr (+8.1), clefyd Alzheimer (+7.5), a chanser y prostad (+6.8). Gwelwyd gostyngiadau mewn marwolaethau o heintiau anadlol isaf (-10.6) a strôc (-7.9)²⁹.

²⁸ Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Age standardising data: What does this mean and why does it matter? \(Ionawr 2023\)](#)

²⁹ Institute for Health Metrics and Evaluation. Seattle, WA: IHME, Prifysgol Washington – [Wales profile](#)

Ffigur 3.1: Deg prif achos marwolaeth ac anabledd yng Nghymru yn 2023 a newid cyfraddau rhwng 2013 a 2023, pob oedran gyda'i gilydd

Communicable, maternal, neonatal, and nutritional diseases

Non-communicable diseases

Injuries

Cause	2013 rank	2023 rank	Change in deaths per 100k, 2013-2023
Ischemic heart disease	1	1	↑ +9.4
Alzheimer's disease	6	2	↑ +7.5
COPD	4	3	↑ +3.8
Lung cancer	5	4	↑ +4.1
Stroke	2	5	↓ -7.9
Lower respiratory infect	3	6	↓ -10.6
Colorectal cancer	7	7	↑ +8.1
Prostate cancer	9	8	↑ +6.8
Breast cancer	8	9	↑ +2.3
Falls	13	10	↑ +9.1

Mae cyflyrau iechyd cronig yn tueddu i ddod yn fwy cyffredin gydag oedran. Yn seiliedig ar ddata practisau meddygon teulu a adroddwyd gan fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025, mae gan y bwrdd iechyd amcangyfrif is o fynychder cyflyrau iechyd cronig o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos y mynychder a gofnodwyd o gyflyrau hirdymor dethol yn seiliedig ar fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025 a adroddwyd gan ddata practis meddygon teulu ar draws clystyrau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae ffigurau'n cael eu cymharu â chyfartaledd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a chyfartaledd Cymru.

Tabl 3.1: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2025³⁰

Clwstwr/Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau isgemia dros dro
Canol y Ddinas a De Caerdydd	5.2%	1.8%	1.1%	7.5%	0.6%	1.2%
Dwyrain Caerdydd	6.7%	2.9%	2.5%	8.5%	1.3%	1.7%
Gogledd Caerdydd	6.6%	2.6%	1.1%	6.0%	1.3%	1.8%
De-ddwyrain Caerdydd	4.7%	1.6%	1.5%	5.4%	0.6%	1.1%
De Caerdydd Gorllewin	6.9%	2.4%	2.1%	8.0%	1.1%	1.6%
Gorllewin Caerdydd	7.1%	3.1%	1.8%	6.8%	1.3%	2.2%
Canol y Fro	6.7%	3.3%	2.6%	8.0%	1.5%	2.1%
Dwyrain y Fro	6.8%	3.2%	1.5%	6.8%	1.4%	2.0%
Gorllewin y Fro	6.5%	2.9%	1.3%	7.1%	1.4%	2.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%


3.1.1 Canser

Mae'r ffigur isod yn dangos nifer yr achosion o'r chwe math mwyaf cyffredin o ganser i fenywod rhwng 2020 a 2022. Fel y gwelir, mae cyfraddau canser y fron a melanoma y croen ymhlith menywod ym Mro Morgannwg yn uwch nag yng Nghaerdydd a Chymru, ac mae cyfraddau'r pedwar canser arall ymhlith menywod yn uwch yng Nghaerdydd.

Ffigur 3.2: Nifer yr achosion o ganser yn ôl math o ganser, cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000, menywod, pob oedran, yn ôl bwrdd iechyd, awdurdod lleol a Chymru (cyfnod o dair blynedd, 2020 – 2022)³¹


³⁰ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

³¹ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Offeryn adrodd ar ganser Cymru \(Mawrth 2026\)](#)



Mae'r ffigur isod yn dangos nifer yr achosion o'r chwe math mwyaf cyffredin o ganser i ddynion rhwng 2020 a 2022. Fel y gellir gweld mae cyfraddau cancer y prostad a melanoma y croen ymhlith dynion ym Mro Morgannwg yn uwch nag yng Nghaerdydd a Chymru, ac mae cyfraddau'r pedwar cancer arall ymhlith dynion yn uwch yng Nghaerdydd.

Ffigur 3.3: Nifer yr achosion o ganser yn ôl math o ganser, cyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000, cymedr, pob oedran, yn ôl bwrdd iechyd, awdurdod lleol a Chymru (cyfnod o dair blynedd, 2020 – 2022)³²



³² GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Offeryn adrodd ar ganser Cymru \(Mawrth 2026\)](#)

Mae'r tabl isod yn dangos y mynychder a gofnodwyd yn seiliedig ar fframwaith ansawdd a chanlyniadau 2025 o ganser ar draws clystyrau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r ffigurau'n cael eu cymharu â chanrannau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru.

Tabl 3.3: Amcangyfrif o fynychder y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â cancer yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025³³

Ardal	Mynychder cancer (%)
Canol y Ddinas a De Caerdydd	1.1%
Dwyrain Caerdydd	2.9%
Gogledd Caerdydd	3.6%
De-ddwyrain Caerdydd	1.5%
De-orllewin Caerdydd	2.5%
Gorllewin Caerdydd	4.0%
Canol y Fro	3.4%
Dwyrain y Fro	3.3%
Gorllewin y Fro	5.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	3.0%
Cymru	3.7%

Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ei gyfanrwydd fynychder is o ganser na Chymru (3.0% a 3.7% yn y drefn honno).

Ar draws clystyrau Caerdydd, mae'r mynychder a gofnodwyd o ganser yn amrywio o 1.1% (Canol y Ddinas a De Caerdydd) i 4.0% (Gorllewin Caerdydd). Mae pedwar o'r chwe chlwstwr yn is na chanrannau'r bwrdd iechyd a Chymru (Canol y Ddinas a De Caerdydd, Dwyrain Caerdydd, De-ddwyrain Caerdydd a De-orllewin Caerdydd). Mae un clwstwr yn uwch na chanran y bwrdd iechyd ond yn is na Chymru (Gogledd Caerdydd). Mae un clwstwr yn uwch na chanrannau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gorllewin Caerdydd).

Ar gyfer clystyrau Bro Morgannwg, mae'r mynychder a gofnodwyd o ganser yn amrywio o 3.3% (Dwyrain y Fro) i 5.1% (Gorllewin y Fro). Mae dau o'r tri chlwstwr yn uwch na chanran y bwrdd iechyd, ond yn is na Chymru (Canol y Fro a Dwyrain y Fro) ac mae un clwstwr yn uwch na chanrannau'r bwrdd iechyd a Chymru (Gorllewin y Fro).

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfradd marwolaethau cancer yng Nghymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Caerdydd a Bro Morgannwg ar draws y cyfnod o dair blynedd (2022-2024), ar gyfer pob cancer, pob cancer (o dan 75 oed), cancer y colon a'r rhefr, cancer y fron ymhlith menywod, cancer y prostad a chanser y trachea, y broncws a'r ysgyfaint (wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o bobl, pob oedran oni nodwyd).

Tabl 3.4: Cyfraddau marwolaethau cancer (wedi'u safonu yn ôl oedran fesul 100,000) ar gyfer pob cancer, pob cancer (o dan 75 oed), cancer y colon a'r rhefr, cancer y fron ymhlith menywod, cancer y prostad a chanser y trachea, y

³³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

broncws a'r ysgyfaint yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru (cyfnod o dair blynedd, 2022 – 2024)³⁴

Ardal	Pob cancer	Pob cancer (o dan 75 oed)	Canser y colon a'r rhefr	Canser y fron ymhlith menywod	Canser y prostad	Canser y trachea, y broncws a'r ysgyfaint
Caerdydd	259.7	133.1	28.7	33.7	29.5	53.0
Bro Morgannwg	229.5	110.5	26.3	26.8	36.0	43.4
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	249.3	125.6	27.9	31.3	31.7	49.6
Cymru	264.1	131.1	28.3	30.7	43.3	51.2

3.1.2 Diabetes

Mae gan Gymru fwy na 200,000 o bobl (8% o oedolion) yn byw gyda diabetes³⁵, gydag amcangyfrif o 65,500 o bobl ychwanegol yn byw gyda diabetes math 2 sydd heb gael diagnosis³⁶. Mae oedolion ifanc yn fwy tebygol o fod yn byw gyda diabetes math 2 heb gael diagnosis, ac mae diabetes math 2 ymhlith pobl iau yn aml yn datblygu'n gyflymach ac yn achosi problemau'n gynharach³⁷.

Mae oedolion o gefndiroedd ethnig Du ac Asiaidd³⁶ hefyd dros ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw gyda chyn diabetes neu ddiabetes math 2 sydd heb gael diagnosis o'i gymharu ag oedolion o gefndiroedd Gwyn, Cymysg a ethnig eraill.

Mae un o bob 15 o bobl 17 oed ac yn hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg eisoes wedi cael diagnosis o ddiabetes math 2³⁸. Mae diabetes math 2 yn broblem gynyddol. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, gallai tua un o bob 11 o oedolion yng Nghymru fod yn byw gyda diabetes erbyn 2035 (Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2023).³⁹

Mae'r amcangyfrif o ganran mynychder diabetes ar lefel clwstwr yn is nag ar gyfer Cymru (8.4%) ac eithrio Dwyrain Caerdydd (8.5%). Mae canran mynychder ar ei isaf yn Ne-ddwyrain Caerdydd (5.4%). Mae poblogaeth gymharol ifanc Caerdydd yn ffactor yn ei mynychder cymharol isel.

3.1.3 Iechyd meddwl

³⁴ GIG Cymru Iechyd a Gofal Digidol Cymru - [Dangosfwrdd marwolaethau cancer](#)

³⁵ Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru - [Deall Diabetes](#)

³⁶ Ymchwiliad y Senedd. [Allwn ni atal y cynnydd mewn diabetes?](#) Ionawr 2023

³⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Risk factors for pre-diabetes and undiagnosed type 2 diabetes in England: 2013 to 2019](#) Chwefror 2024

³⁸ Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol, Clwstwr a Phraxis Meddyg Teulu](#)

³⁹ Powell R. [Mynychder diabetes - tueddiadau, ffactorau risg, ac amcanestyniadau 10 mlynedd](#) Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru; 2023

Mae'r tabl isod yn dangos y mynychder a gofnodwyd o gyflyrau iechyd meddwl ar draws clystyrau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r ffigurau'n cael eu cymharu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru.

Tabl 3.5: Amcangyfrif o ganran mynychder cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025⁴⁰

Ardal	Mynychder cyflwr iechyd meddwl (%)
Canol y Ddinas a De Caerdydd	1.2%
Dwyrain Caerdydd	0.8%
Gogledd Caerdydd	0.8%
De-ddwyrain Caerdydd	1.1%
De-orllewin Caerdydd	1.0%
Gorllewin Caerdydd	1.2%
Canol y Fro	2.2%
Dwyrain y Fro	0.8%
Gorllewin y Fro	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%
Cymru	1.1%

Mae mynychder cyflyrau iechyd meddwl yn y bwrdd iechyd yn is na chanran Cymru.

Ar draws clystyrau Caerdydd, mae mynychder a gofnodwyd o gyflyrau iechyd meddwl yn amrywio o 0.8% (Dwyrain Caerdydd a Gogledd Caerdydd) i 1.2% (Canol y Ddinas a De Caerdydd a Gorllewin Caerdydd). Mae dau glwstwr yn is na chyfartaleddau y bwrdd iechyd a Chymru (Dwyrain Caerdydd a Gogledd Caerdydd). Mae dau o'r clystyrau yn hafal i gyfartaleddau y bwrdd iechyd a Chymru (De-ddwyrain Caerdydd a De-orllewin Caerdydd) ac mae dau glwstwr yn uwch na'r bwrdd iechyd a Chymru (Canol y Ddinas a De Caerdydd a De a Gorllewin Caerdydd).

Ar gyfer Bro Morgannwg, mae'r mynychder a gofnodwyd o gyflyrau iechyd meddwl yn amrywio o 0.7% (Dwyrain y Fro) i 5.1% (Canol y Fro). Mae dau glwstwr yn is na'r bwrdd iechyd a Chymru (Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro) ac mae un clwstwr yn uwch na'r ddau (Canol y Fro).

Fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Llywodraeth Cymru 2024/25⁴¹, gofynnwyd i bobl am eu lles meddwl gan ddefnyddio Graddfa Lles Meddwl Warwick Edinburgh, graddfa o 14 cwestiwn hunan-asesu gyda sgorau yn amrywio o 14 i 70. Mae sgôr uwch (58 i 70) yn cael ei ddosbarthu fel lles meddwl uchel, 45 i 57 fel lles meddwl canolig, a 44 neu is fel lles meddwl isel.

Sgôr cyfartalog Graddfa Lles Meddwl Warwick Edinburgh yn 2024/25 yw 48.4. Mae gan 33% o bobl les meddwl isel, mae gan 52% les meddwl canolig, ac mae gan 15% les meddwl uchel. Mae gan bobl iau ar gyfartaledd les meddwl is, y rhai rhwng 16 a 44 oed (sgôr o 47.5), o'i gymharu â sgôr o 49.7 ar gyfer y rhai 65 oed ac yn hŷn. Mae'r ffigurau hyn i gyd yn debyg i'r rhai yn 2022/23 ac eithrio gostyngiad yn y rhai 65 oed ac yn hŷn (y sgôr lles cymedr ar gyfer y grŵp hwn yn 2022/23 oedd 50.7).

⁴⁰ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

⁴¹ Llywodraeth Cymru - Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2024 i Fawrth 2025

Nid oedd Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2024/25 yn mesur lefelau unigrwydd yng Nghymru. Fodd bynnag, cafodd gwybodaeth am unigrwydd ei chynnwys yng nghynhadledd Llesiant Cymru Llywodraeth Cymru 2025⁴².

Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer y cyfnod 2022/23⁴³ yn cynnwys pob un o'r chwe mesur o unigrwydd emosiynol a chymdeithasol. Canfuwyd bod 13.0% o bobl yng Nghymru yn unig, yr un peth ar gyfer cyfnod arolwg 2021/22 a 2020/21, ond roedd yn uwch yn 2019/2020. Fodd bynnag, roedd rhai amrywiadau amlwg yng nghanrannau'r bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig ar draws mesurau unigol:

- Yn 2019/20, dywedodd 36.0% o bobl eu bod wedi gweld eisiau cael pobl o gwmpas. Cynyddodd hyn yn sylweddol yn ystod pandemig Covid-19 (71.0% yn 2020/21 a 53.0% yn 2021/22), cyn disgyn eto i 36.0% yn 2022/23
- Cynyddodd canran y bobl a nododd fod ganddynt pobl y gallant ymddiried ynddynt o 59.0% yn 2019/20 i 67.0% yn 2020 i 2021. Cynhaliwyd hyn yn 2021/22 a 2022/23
- Rhwng 2019/20 a 2021/22 bu cynnydd yng nghanran y bobl a ddywedodd fod ganddynt ddigon o bobl yr oeddent yn teimlo'n agos atynt, a digon o bobl y gallent ddibynnu arnynt. Roedd y ffigurau ar gyfer 2022/23 ychydig yn is ond nid oedd newid ystadegol sylweddol o 2020/21

Awgrymodd y canlyniadau diweddaraf (2022/23) o Arolwg Cenedlaethol Cymru fod oedolion iau (16 i 44 oed) yn fwy tebygol o deimlo'n unig na'r rhai 65 oed ac yn hŷn.

Roedd pobl sy'n byw mewn amddifadedd materol, ac unigolion â chyflwr iechyd meddwl neu mewn iechyd cyffredinol gwaeth, yn fwy tebygol o fod yn unig. Roedd gwahaniaethau hefyd yn ôl ethnigrwydd, gyda phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn fwy tebygol o fod yn unig. Gall effaith yr anghydraddoldebau hyn gael ei waethygu lle maent yn croestorri.

Ym mis Ebrill 2025 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Dealltwriaeth: strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio 2025 - 2035"⁴⁴ wnaeth ddisodlu'r strategaeth "Siarad â Fi 2" 2015 i 2022. Dylid darllen y strategaeth newydd hon mewn cysylltiad â strategaeth Iechyd Meddwl a Lles 2025-2035⁴⁵. Mae'r ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwaeth, hunan-niweidio a hunanladdiad yn debyg ac weithiau'n rhyng-gysylltiedig.

Mae'r strategaeth newydd yn cyd-fynd â chynllun cyflawni tair blynedd Llywodraeth Cymru "Dealltwriaeth: Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2028"⁴⁶ ac yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed o dan y strategaethau blaenorol "Siarad â Fi" (2009 - 2013) a "Siarad â Fi 2" (2014 - 2018).

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd hunanladdiad ar lefel awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru ar gyfer 2020-24⁴⁷. Fel y gwelir, mae'r cyfraddau ar gyfer y bwrdd iechyd ac awdurdodau lleol Caerdydd a Bro Morgannwg yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru (13.1).

⁴² Llywodraeth Cymru - [Llesiant Cymru 2025](#)

⁴³ Llywodraeth Cymru - [Arolwg Cenedlaethol Cymru prif ganlyniadau: Ebrill 2022 i Fawrth 2023](#)

⁴⁴ Llywodraeth Cymru - [Dealltwriaeth: Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru \(2025-2035\)](#)

⁴⁵ Llywodraeth Cymru - [Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles 2025 - 2035](#)

⁴⁶ Llywodraeth Cymru - [Dealltwriaeth: Cynllun Cyflawni Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru \(2025-2035\)](#)

⁴⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru – [Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd](#)

Mae Caerdydd yn is (10.2) na chyfradd y bwrdd iechyd (10.5), ond ym Mro Morgannwg roedd yn uwch (11.3).

Tabl 3.6: Cyfradd marwolaethau yn sgil hunanladdiad, cyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o bobl 2020-2024⁴⁸

Ardal	Cyfradd marwolaethau yn sgil hunanladdiad (fesul 100,000 o bobl)
Caerdydd	10.2
Bro Morgannwg	11.3
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	10.5
Cymru	13.1

3.2 Ymddygiadau ffordd o fyw

Mae defnyddio tybaco, byw gyda gorbwysau a gordewdra (mynegai màs uchel y corff), pwysedd gwaed uchel, risgiau dietegol, glwcos plasma ymprydio uchel a'r defnydd niweidiol o alcohol wedi'u nodi fel y prif ffactorau risg ar gyfer clefydau anhrosglwyddadwy yng Nghymru yn 2023.

Ffigur 3.4: Y deg risg uchaf sy'n cyfrannu at farwolaeth ac anabledd (DALYs) yn 2023 a newid cyfraddau rhwng 2013 a 2023, pob oedran gyda'i gilydd⁴⁹

Metabolic risks

Environmental/occupational risks

Behavioral risks

Risk	2013 rank	2023 rank	Change in DALYs per 100k, 2013-2023
Tobacco	1	1	↑ +112.2
High body-mass index	2	2	↑ +440.5
High blood pressure	3	3	↑ +208.9
Dietary risks	4	4	↑ +238.8
High fasting plasma glucose	5	5	↑ +349.2
High alcohol use	7	6	↑ +160.6
High LDL	8	7	↑ +104.5
Other environmental	9	8	↑ +64.7
Air pollution	6	9	↓ -137.7
Occupational risks	10	10	↓ -3.5

3.2.1 Ysmygu

⁴⁸ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Offeryn Adrodd Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd Cymru](#)
⁴⁹ Institute for Health Metrics and Evaluation. Seattle, WA: IHME, Prifysgol Washington – [Wales profile](#)

Mae ysmegu yn parhau i fod yn un o brif achosion marwolaethau a salwch yng Nghymru. Dros y cyfnod 2020 – 2022⁵⁰:

- Amcangyfrifir bod 3,845 o farwolaethau y flwyddyn ymhlith y rhai 35 oed ac yn hŷn yng Nghymru oherwydd ysmegu. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod 10.7% o'r holl farwolaethau yng Nghymru ymhlith pobl 35 oed ac yn hŷn yn y blynyddoedd hyn yn ymwneud ag ysmegu.
- Mae nifer y marwolaethau sy'n ymwneud ag ysmegu yn amrywio'n sylweddol yn ôl amddifadedd. Ymhlith y rhai 35 oed ac yn hŷn sy'n byw yn y pumed o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, roedd 14.5% o'r holl farwolaethau yn ymwneud ag ysmegu. Y Gyfradd Ewropeaidd wedi'i Safoni yn ôl Oedran o farwolaethau sy'n ymwneud ag ysmegu oedd 337 fesul 100,000 o oedolion 35 oed ac yn hŷn yn y pumed ardal o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf, dros dair gwaith yn uwch o'i gymharu â'r pumed o ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf.
- Amcangyfrifir bod 17,195 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn yng Nghymru oherwydd ysmegu. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, bod 3.4% o'r holl dderbyniadau i'r ysbyty yng Nghymru ymhlith pobl 35 oed ac yn hŷn yn y blynyddoedd hyn yn ymwneud ag ysmegu.

Wrth edrych ar farwolaethau sy'n ymwneud ag ysmegu, yn ôl y gyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran fesul 100,000, pobl 35 oed ac yn hŷn ar lefel bwrdd ieuchyd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ail ar gyfradd o 165 (ystod 152, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, i 220, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg), yn uwch na'r gyfradd yng Nghymru (190).⁵¹

Mae ysmegu hefyd yn cynyddu'r risg o ddatblygu ystod eang o salwch, a all fod yn angheuol neu achosi niwed hirdymor anadferadwy i ieuchyd⁵². Mae'r rhain yn cynnwys canserau, clefydau anadlol, a chlefydau cardiofasgwlaidd, gan gynnwys strôc, trawiadau ar y galon a dementia.

Dangoswyd bod dod i gysylltiad â mwg ail-law yn achosi niwed sylweddol, gan gynyddu'r risg i bobl nad ydynt yn ysmegu o ddatblygu clefydau sy'n gysylltiedig ag ysmegu gan gynnwys canser yr ysgyfaint a chlefyd cardiofasgwlaidd⁵³. Mae dod i gysylltiad â mwg ail-law yn arbennig o niweidiol i blant, gan arwain at gyflyrau yn cynnwys clefyd y glust ganol, asthma ac alergeddau⁵⁴.

Mae'n hysbys bod ysmegu yn ystod beichiogrwydd yn effeithio ar y beichiogrwydd a'r plentyn yn ddiweddarach mewn bywyd mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys risg uwch o gamesgoriad, genedigaeth cynamserol a syndrom marwolaeth sydyn babanod⁵⁵.

Wrth edrych ar ganran gyfartalog yr oedolion sy'n ysmegu ar hyn o bryd (oedolion 18 oed ac yn hŷn) ar lefel awdurdod lleol ledled Cymru rhwng 2020 a 2024, Bro

⁵⁰ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Marwolaeth a chlefydau ysbyty sy'n perthyn i ysmegu ar gyfer Cymru, 2020-22 \(dadansoddiad newydd\)](#)

⁵¹ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Marwolaeth a chlefydau ysbyty sy'n perthyn i ysmegu ar gyfer Cymru, 2020-22 \(dadansoddiad newydd\)](#)

⁵² GIG 2018 - Beth yw risgiau ieuchyd ysmegu?

⁵³ Pwyllgor Gwyddonol yr Adran Iechyd ar Dybaco ac Iechyd (SCOTH) 2004. [Secondhad Smoke: Review of the evidence since 1998](#)

⁵⁴ Coleg Brenhinol y Meddygon Llundain - [Passive smoking and children \(Mawrth 2010\)](#)

⁵⁵ Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr - [Smoking and pregnancy \(2021\)](#)

Morgannwg sydd yn ail isaf (8.5%) a Chaerdydd yn bumed isaf (11.8%). Sir Fynwy sydd â'r gyfradd isaf, sef 7.6%, a Merthyr Tudful sydd â'r gyfradd uchaf, sef 15.7%.

Mae'r tabl isod yn dangos canran yr oedolion 16 oed ac yn hŷn, yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi hunan-adrodd ymgysylltu ag ysmegu ac e-sigaréts fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru⁵⁶ rhwng 2021 a 2023.

Tabl 3.7: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sydd wedi hunan-adrodd eu bod wedi ymgysylltu ag ysmegu ac e-sigaréts yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2021 i 2023⁵⁷

Ardal	Poblogaeth 16 oed ac yn hŷn ⁵⁸	Canran yr ysmygwyr wnaeth hunan-adrodd	Canran defnyddwyr e-sigaréts wnaeth hunan-adrodd
Awdurdod Lleol Caerdydd	316,918	12.0%	5.0%
Awdurdod Lleol Bro Morgannwg	111,152	14.0%	8.0%
Cymru	2,641,000	13.0%	7.0%

Mae nifer y bobl ifanc sy'n fêpio wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er ei bod wedi bod yn anghyfreithlon gwerthu fêp i unrhyw un o dan 18 oed ers 2015⁶⁰.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod argaeledd dyfeisiau fêpio tafladwy a'r ffyrdd y mae fêps yn cael eu marchnata wedi cyfrannu'n gryf at eu hapêl ymhlith pobl ifanc. Mae sawl darn o ddeddfwriaeth wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael ag ysmegu a fêpio ymhlith ieuencid, gan gynnwys Deddf Tybaco a Fêps 2026, fydd yn creu cenhedlaeth ddi-fwg trwy wahardd gwerthu cynnyrch tybaco i unrhyw un a anwyd ar ôl 1 Ionawr 2009 ochr yn ochr â mesurau i leihau apêl a hygyrchedd cynnyrch fêpio i blant.

Mae'r Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion mewn ysgolion uwchradd yn seiliedig ar 129,761 o ddysgwyr o flwyddyn saith i 11. Prif ganfyddiadau arolwg 2023 oedd:

- Nifer y dysgwyr ym mlwyddyn saith i 11 (11-16 oed) yng Nghymru sy'n adrodd eu bod yn fêpio o leiaf unwaith yr wythnos yw 7.0%, cynnydd o 5.4% (2021) a 2.7% (2019).
- Ers 2021, mae fêpio wedi cynyddu ymhlith merched, dysgwyr blwyddyn 11 a rhai nad ydynt yn ysmegu, ond cynyddodd fêpio wythnosol rhwng 2021 a 2023 ym mhob grŵp blwyddyn ac eithrio blwyddyn saith.

⁵⁶ Llywodraeth Cymru – [Arolwg Cenedlaethol Cymru- Oedolion yn adrodd ar ffordd o fyw](#)

⁵⁷ Llywodraeth Cymru – [Arolwg Cenedlaethol Cymru – Oedolion yn adrodd ar ffordd o fyw](#)

⁵⁸ Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 - [Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024](#)

⁵⁹ Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - [Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024](#)

⁶⁰ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion - [Fepio a Smygu ymhlith Dysgwyr ym Mlwyddyn saith i 11 yng Nghymru - Dadansoddiad o Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, 2023](#)

- Mae merched (8.6%) yn fwy tebygol o fêpio'n rheolaidd na bechgyn (5.1%). Mae'r rhai ym mlwyddyn 11 (15-16 oed) (15.9%) yn fwy tebygol o fêpio na'r rhai mewn grwpiau blwyddyn iau.
- Mae dros chwarter (25.7%) o'r holl ddysgwyr ym mlwyddyn saith i 11 wedi rhoi cynnig ar fêpio, cynnydd o 20.5% (2021). Ymhlith dysgwyr blwyddyn 11 roedd y ffigwr yn 45.4%.
- Dim ond 2.7% o ddysgwyr ym mlynnyddoedd saith i 11 sydd bellach yn ysmegu'n rheolaidd. Mae'r mwyafrif o'r rhain hefyd yn fêpio.
- Mae nifer y dysgwyr ym mlwyddyn saith i 11 sydd ond yn fêpio yn 5.2%, yn uwch nag yn 2021 (3.5%).
- Mae cyfran y dysgwyr sydd ond yn ysmegu a'r gyfran sy'n ysmegu ac yn fêpio'n rheolaidd wedi gostwng ers 2021.
- Ar hyn o bryd mae defnyddio nicotin trwy ysmegu neu fêpio yn 8.0% ymhlith dysgwyr ym mlynnyddoedd saith i 11. Mae'r gyfran hon wedi codi ar bob Arolwg ers 2019 pan oedd yn 5.4%.
- Mae'r data yn darparu tystiolaeth bod nifer cynyddol o ddysgwyr sydd heb a fydd byth yn ysmegu yn rheolaidd, yn fêpio'n rheolaidd.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl ifanc 11 i 16 oed oedd yn ysmegu'n wythnosol ac yn ddefnyddwyr E-sigarêts yn 2023⁶¹.

Tabl 3.8: Canran ysmegu ymhlith pobl ifanc yn wythnosol a defnyddwyr e-sigarêts yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2023

Ardal	Canran y bobl ifanc 11 i 16 oed sy'n ysmegu'n wythnosol	Canran y defnyddwyr e-sigarêts wythnosol rhwng 11 ac 16 oed
Caerdydd	2.1%	4.1%
Bro Morgannwg	1.6%	4.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	4.1%
Cymru	2.6%	6.9%

3.2.2 Pwysedd gwaed uchel

Mae pwysedd gwaed uchel yn ffactor risg mawr ar gyfer clefyd y galon, strôc, clefyd yr arennau, clefyd y rhydweliâu perifferol a dementia fasgwlaidd. Gall canfod yn gynnar a rheoli'n effeithiol atal datblygiad i glefyd cardiofasgwlaidd. Er bod pwysedd gwaed uchel yn cael ei ddosbarthu i fod yn fwy o ffactor risg clinigol, mae ei atal neu ei leihau yn cael ei effeithio gan ddewisiadau ffordd o fyw fel gormod o halen, diet gwael a gordewdra, yfed gormod o alcohol, diffyg gweithgarwch corfforol, lles meddyliol a straen. Mae baich pwysedd gwaed uchel fwyaf ymhlith unigolion o aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig⁶².

Mae'r tabl isod yn dangos y mynychder a gofnodwyd yn seiliedig ar gyfraddau mynychder a adroddwyd yn y fframwaith canlyniadau ansawdd 2025 gan bractisau

⁶¹ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Dangosfwrdd Iechyd a Lles Plant Ysgolion Uwchradd: Adroddiad Arolwg Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#)

⁶² Public Health England (2017). [Guidance Health matters: combating high blood pressure](#)

meddygon teulu, ar gyfer pwysedd gwaed uchel ar draws clystyrau. Mae'r ffigurau'n cael eu cymharu â chyfraddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru. Fel y gwelir, mae mynychder ar gyfer y bwrdd iechyd yn is na Chymru, ond mae mynychder yng Ngorllewin y Fro (16.6%) yn uwch nag ar gyfer y bwrdd iechyd (13.1%) a Chymru (16.3%). Mae'r mynychder yn uwch yng nghlystyrau Bro Morgannwg na'r clystyrau yng Nghaerdydd.

Tabl 3.9: Amcangyfrif o fynychder y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â phwysedd gwaed uchel yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025⁶³

Clwstwr/Ardal	Awdurdod lleol	Mynychder Pwysedd Gwaed Uchel (%)
Canol y Ddinas a De Caerdydd	Caerdydd	9.6%
Dwyrain Caerdydd	Caerdydd	14.4%
Gogledd Caerdydd	Caerdydd	13.1%
De-ddwyrain Caerdydd	Caerdydd	7.8%
De-orllewin Caerdydd	Caerdydd	13.1%
Gorllewin Caerdydd	Caerdydd	14.4%
Canol y Fro	Bro Morgannwg	15.9%
Dwyrain y Fro	Bro Morgannwg	15.0%
Gorllewin y Fro	Bro Morgannwg	16.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro		13.1%
Cymru		16.3%

3.2.3 Deiet, gweithgarwch corfforol a gordewdra

Mae mynychder gordewdra yn cynyddu yng Nghymru, (fel y mae'n fyd-eang). Mae byw gyda gordewdra a gorbwysau yn cynyddu'r risg o ystod eang o glefydau cronig, yn bennaf diabetes math 2, pwysedd gwaed uchel, clefyd cardiofasgwlaidd gan gynnwys strôc, yn ogystal â rhai mathau o ganser, clefyd yr arennau, clefyd yr afu ymhlith eraill³⁷. Gall hefyd amharu ar les, ansawdd bywyd a gallu person i ennill arian. Deiet gwael a ffordd o fyw eisteddog yw'r prif achosion dros ordewdra a gorbwysau⁶⁴.

Mae gordewdra yn gymhleth a gall nifer o ffactorau ddylanwadu arno gan gynnwys penderfyniadau economaidd, masnachol, cymdeithasol ac amgylcheddol, gan dorri ar draws adrannau'r llywodraeth.

Cael mynegai màs y corff uchel (h.y. bod dros bwysau neu'n ordew) ac anweithgarwch corfforol yw trydydd a phedwerydd prif achos salwch yn y DU. Gyda'i gilydd maent yn cyfrannu'n sylweddol at iechyd a lles gwael mewn cymunedau heddiw. Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn benderfynydd allweddol o iechyd gydol oes, gan gynyddu'r tebygolrwydd o fyw gyda gordewdra pan yn oedolyn a chyfrannu at ddatblygiad ystod eang o gyflyrau salwch hirdymor. Mae gordewdra oedolion yn gysylltiedig â disgwyliad oes iach is a disgwyliad oes cyffredinol byrrach.

⁶³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

⁶⁴ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Gordewdra a gorbwysau](#)

Mae diet iach, cytbwys yn elfen hanfodol o fyw'n iach. Mae diet cytbwys ynghyd â gweithgarwch corfforol yn helpu i reoleiddio pwysau'r corff ac yn cyfrannu at iechyd da. Mae cynnal pwysau corff iach hefyd yn lleihau'r risg o broblemau iechyd fel diabetes, clefyd coronaidd y galon, strôc a rhai mathau o ganser. Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd yn rhan hanfodol o fyw'n iach. Mae diffyg gweithgarwch corfforol ymhlith prif achosion salwch y gellir eu hosgoi a marwolaeth gynamserol.

Cyngor y llywodraeth yw y dylai pawb gael o leiaf pum darn amrywiol o ffrwythau a llysiau bob dydd. Dogn o ffrwythau neu lysiau i oedolyn yw 80g⁶⁵. Mae canllawiau gweithgarwch corfforol ar gyfer oedolion rhwng 19 a 64 oed yn cynnwys o leiaf 150 munud o weithgarwch dwysedd cymedrol yr wythnos neu 75 munud o weithgaredd dwysedd egnïol yr wythnos⁶⁶.

Mae'r tabl isod yn dangos canran yr oedolion 16 oed ac yn hŷn, yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi hunan-adrodd ymddygiad ffordd o fyw, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru⁶⁷ rhwng 2021 a 2023.

Tabl 3.10: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n hunan-adrodd ymddygiad ffordd o fyw yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2021 i 2023

Ardal	Poblogaeth 16 oed ac yn hŷn ^{68 69}	Dros bwysau gyda mynegai màs y corff o 25+	Gordew gyda mynegai màs y corff o 30+	Gweithgarwch corfforol am 150 munud yr wythnos	Wedi bwyta pum dogn o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol
Caerdydd	316,918	58%	21%	65%	41%
Bro Morgannwg	111,152	59%	22%	69%	35%
Cymru	2,641,000	62%	25%	56%	29%

Mae'r tabl isod yn dangos y mynychder a gofnodwyd yn seiliedig ar fframwaith canlyniadau ansawdd 2025, canrannau mynychder a adroddwyd gan bractisau meddygon teulu ar gyfer gordewdra ar draws clystyrau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r ffigurau'n cael eu cymharu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru. Fel y gwelir, mae mynychder yr oedolion sy'n byw gyda gordewdra yn gyffredinol yn is na Chymru (14.4%), ac eithrio Dwyrain Caerdydd (15.6%).

⁶⁵ Llywodraeth Cymru – [Canllaw Bwyta'n Dda 2025](#)

⁶⁶ Llywodraeth Cymru – [Canllawiau Gweithgarwch Corfforol Prif Swyddogion Meddygol y DU Mawrth 2022](#)

⁶⁷ Llywodraeth Cymru – [Arolwg Cenedlaethol Cymru – Oedolion yn adrodd ar ffordd o fyw](#)

⁶⁸ Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 - [Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024](#)

⁶⁹ Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - [Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024](#)

Tabl 3.11: Amcangyfrif o ganran mynychder y cleifion sydd wedi'u cofrestru'n ordew yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025⁷⁰

Ardal	Awdurdod lleol	Mynychder Gordewdra (%)
Canol y Ddinas a De Caerdydd	Caerdydd	8.5%
Dwyrain Caerdydd	Caerdydd	15.6%
Gogledd Caerdydd	Caerdydd	9.5%
De-ddwyrain Caerdydd	Caerdydd	10.5%
De-orllewin Caerdydd	Caerdydd	12.4%
Gorllewin Caerdydd	Caerdydd	10.3%
Canol y Fro	Bro Morgannwg	13.8%
Dwyrain y Fro	Bro Morgannwg	9.5%
Gorllewin y Fro	Bro Morgannwg	11.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro		11.3%
Cymru		14.4%

3.2.4 Alcohol^{71, 72}

Mae'r defnydd o alcohol yn parhau i fod yn her fawr i iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â datblygiad llawer o gyflyrau iechyd fel pwysedd gwaed uchel, clefyd y galon, sirosis yr afu a chanserau'r geg, y gwddf a'r fron. Mae hefyd wedi'i nodi fel ffactor achosol mewn mwy na 200 o gyflyrau meddygol⁷³.

Mae camddefnyddio alcohol hefyd yn achosi cwympo, damweiniau ac anafiadau, yn ogystal â phroblemau cymdeithasol fel ymosodiadau a throseddau.

Mae'r tabl isod yn dangos canran yr oedolion 16 oed ac yn hŷn, yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg sydd wedi hunan-adrodd ymgysylltu ag yfed 14 uned neu fwy yr wythnos, fel y cofnodwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru⁷⁴ rhwng 2021 a 2023.

⁷⁰ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

⁷¹ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Alcohol](#)

⁷² Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg - [Marwolaethau cysylltiedig ag alcohol yn uwch nag erioed yng Nghymru yn amlygu pryderon brys iechyd y cyhoedd \(Mawrth 2025\)](#)

⁷³ Sefydliad Iechyd y Byd - [Taflen ffeithiau alcohol Mehefin 2024](#)

⁷⁴ Llywodraeth Cymru – [Arolwg Cenedlaethol Cymru – Oedolion yn adrodd ar ffordd o fyw](#)


Tabl 3.12: Canran yr oedolion (16 oed ac yn hŷn) sy'n hunan-adrodd eu bod yn yfed 14 uned neu fwy yr wythnos, yn ôl awdurdod lleol a Chymru, 2021 i 2023

Ardal	Poblogaeth 16 oed ac yn hŷn ^{75, 76}	Canran yr oedolion wnaeth hunan-adrodd eu bod yn yfed 14 uned neu fwy yr wythnos (%)
Caerdydd	316,918	17.0%
Bro Morgannwg	111,152	21.0%
Cymru	2,641,000	16.0%

O'i gymharu ag awdurdodau lleol ledled Cymru, roedd Caerdydd yn safle 16 a Bro Morgannwg ar 21 gyda dim ond Sir Fynwy â chanran uwch (24%).

Mae'r ffigur isod yn tynnu sylw at y patrymau yfed a adroddwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Awdurdodau Lleol Caerdydd a Bro Morgannwg o'u cymharu â'r gyfradd ar gyfer Cymru.

Ffigur 3.5: Lefelau yfed wythnosol oedolion yn ôl awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru (2021-2023)⁷⁷



Allwedd

⁷⁵ Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 - [Amcangyfrifon poblogaeth Cymru a Lloegr: canol 2024](#)

⁷⁶ Llywodraeth Cymru Gorffennaf 2025 - [Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2024](#)

⁷⁷ Gofal Cymdeithasol Cymru - [Porth data gofal cymdeithasol cenedlaethol Cymru - Yfed](#)

Lefelau yfed alcohol yr wythnos

1. Heb yfed (dim unedau)
2. Yfwr cymedrol (hyd at ac yn cynnwys 14 uned)
3. Yfwr peryglus (hyd at 35 uned i fenywod a 50 uned i ddynion)
4. Yfwr niweidiol (mwy na 35 uned i fenywod a 50 uned i ddynion)

Yn 2021-23, y gyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol yng Nghymru oedd 54.9 o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth, cynnydd o 3.4% o'i gymharu â 2020-22⁷⁸.

Mae'r cyfartaledd treigl tair blynedd o farwolaethau o achosion penodol i alcohol dros y cyfnod adrodd pum mlynedd diweddaraf yn dangos bod y gyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth wedi cynyddu rhwng 2017-19 a 2021-23. Yn 2021-23, y gyfradd Ewropeaidd wedi'i safoni yn ôl oedran safonedig oedran ar gyfartaledd treigl tair blynedd oedd 16.0 o farwolaethau penodol i alcohol fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. 13.6 oedd y gyfradd fesul 100,000 yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Y bwrdd iechyd oedd yr ail isaf o'r saith bwrdd iechyd, a'r isaf oedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (10.9).

Defnyddir derbyniadau ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol fel ffordd o ddeall effaith alcohol ar iechyd y boblogaeth. Yn 2024/25 y gyfradd dderbyniadau oedd yn benodol i benodol (wedi'i safonu yn ôl oedran), personau, pob oedran ar gyfer y bwrdd iechyd oedd 289.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth, y chweched gyfradd isaf ar gyfer pob bwrdd iechyd (ystod 245.0 i 464.0). Roedd y gyfradd yn uwch yng Nghaerdydd (300.0) nag ym Mro Morgannwg (275.0)⁷⁹.

Mae marwolaethau sy'n benodol i benodol yn cynrychioli marwolaethau sy'n cael eu hystyried i fod wedi eu hachosi'n gyfan gwbl gan alcohol. Yn 2022 i 2024, roedd gan y bwrdd iechyd gyfradd marwolaethau yn benodol i alcohol o 14.0 fesul 100,000 o bobl, y drydedd gyfradd isaf o'r holl fyrddau iechyd (ystod 11.0 i 22.0). Nid oedd gwahaniaeth yn y gyfradd rhwng Caerdydd a Bro Morgannwg.

3.3 Heneiddio'n iach

3.3.1 Pwysau geni isel

Diffinnir pwysau geni isel fel pwysau geni o lai na 2.5kg (tua 5.5 pwys) a gall fod yn gysylltiedig â risgiau iechyd ym mlwyddyn gyntaf bywyd baban⁸⁰. Mae pwysau geni isel yn cael ei ddylanwadu gan faterion ffordd o fyw mamau fel ysmygu. Mae pwysau geni yn gysylltiedig yn wrthdroadol â marwolaethau babanod, disgwyliad oes, ac mae'n rhagfynegi dechrau cyflyrau cronig ym mywyd oedolion⁸¹.

⁷⁸ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Cloddio data Cymru: Proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2023/24](#)

⁷⁹ Iechyd a Gofal Digidol Cymru – [Health Maps Wales substance misuse](#)

⁸⁰ Llywodraeth Cymru - [Ystadegau mamolaeth a genedigaethau: 2024](#)

⁸¹ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Low Birth Weight - Review of risk factors and interventions summary report \(2014\)](#)

Yn 2024, roedd gan y bwrdd iechyd ganran is o bwysau geni isel o'i gymharu â Chymru (5.8% a 6.3% yn y drefn honno), gyda Bro Morgannwg yn uwch na Chaerdydd (6.1% a 5.7% yn y drefn honno)⁸².

3.3.2 Bwydo ar y fron

Mae bwydo ar y fron yn darparu'r dechrau maethol gorau mewn bywyd i fabi. Yn 2024, canran y babanod oedd yn cael eu bwydo ar y fron (unrhyw fwydo ar y fron) yn ardal y bwrdd iechyd⁸³ adeg genedigaeth oedd 70.3%, ar ddeg diwrnod 71.6%, ar chwe wythnos 60.1% a 46.7% ar ôl chwe mis. Mae'r rhain yn uwch nag o'u cymharu â mynychder yng Nghymru.

3.3.3 Plant sy'n byw mewn tlodi

Mae 23.4% o bobl yng Nghaerdydd rhwng 0 a 15 oed yn byw mewn tlodi, 18.7% ym Mro Morgannwg. Mae'r ddau yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru (24.0%). Bro Morgannwg sydd â'r ail gyfradd isaf ar ôl Sir Fynwy (15.2%)⁸⁴.

3.3.4 Iechyd y geg

Mae modd atal pydredd dannedd ymhlith plant ifanc i raddau helaeth. Gall arwain at boen, heintiau ac anawsterau yn bwyta, cysgu a chymdeithasu. Mae'n gysylltiedig â maeth gwael a gordewdra ac mae'n agos gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol ac economaidd. Mae iechyd y geg yn agwedd bwysig ar statws iechyd cyffredinol plentyn ac ar eu parodrwydd ar gyfer dechrau'r ysgol⁸⁵.

Yn 2024/25, o'r 913 o blant pump oed a archwiliwyd mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yn ardal y bwrdd iechyd:⁸⁶

- Effeithiwyd ar 21.0% gan bydredd dannedd (ystod ledled Cymru rhwng 20.2% a 36.0%), gostyngiad ers 2022/23.
- Roedd y mynychder ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg yn debyg (21.1% a 20.8% yn y drefn honno).
- Roedd 0.7 o ddannedd wedi eu heffeithio gan bydredd dannedd, gostyngiad yn nifrifoldeb pydredd dannedd ers 2022/23 ac yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.
- Roedd gan 19.1% o blant bydredd dannedd heb ei drin, yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru.
- Cafodd iechyd y geg effaith negyddol ar 15.4% o'r plant a archwiliwyd, o'i gymharu â 17.7% ledled Cymru.

Yn 2024/25, o'r 541 o blant 12 oed a archwiliwyd mewn 26 o ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth yn ardal y bwrdd iechyd:⁸⁷

⁸² Iechyd Cyhoeddus Cymru – [Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd](#)

⁸³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Bwydo ar y fron yn ôl oedran y babi, y math o fwydo ar y fron a'r bwrdd iechyd lleol](#)

⁸⁴ Iechyd Cyhoeddus Cymru – [Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd](#)

⁸⁵ Public Health England Materion Iechyd: Iechyd deintyddol plant. O: [Health Matters: Child dental health - Public health matters \(blog.gov.uk\)](#)

⁸⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru – [Rhaglen epidemioleg ddeintyddol Cymru](#)

⁸⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol Cymru Darlun o Iechyd y Geg 2023 ar gyfer plant 12 oed](#)


- Roedd 25.5% o blant wedi eu heffeithio gan bydredd dannedd (ystod ledled Cymru rhwng 16.8% a 36.4%), gostyngiad ers 2008/09.
- Roedd y mynychder yn is ym Mro Morgannwg (19.1%) nag yng Nghaerdydd (28.0%).
- Roedd 0.5 o ddannedd wedi eu heffeithio gan bydredd dannedd yn 2023/24, gostyngiad yn nifrifoldeb pydredd dannedd ers 2008/09.
- Roedd gan 19.6% o blant bydredd dannedd heb ei drin, sydd yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.
- Cafodd iechyd y geg effaith negyddol ar 16.8% o'r plant a archwiliwyd, o'i gymharu â 28.1% ledled Cymru.

3.3.5 Iechyd rhywiol

Yn 2022, o'r awdurdodau lleol yng Nghymru, roedd Caerdydd yn drydydd gyda 10.7 o achosion o feichiogi fesul 1,000 o fenywod 18 oed ac iau, tra bod Bro Morgannwg yn gyntaf (9.0). Mae'r ddau yn is na'r gyfradd ar gyfer Cymru (15.7)⁸⁸.

Mae cyfraddau yn ardal y bwrdd iechyd wedi parhau i ostwng.

Ffigur 3.6: Beichiogi yn yr arddegau fesul 1,000 o fenywod o dan 18 oed yn ôl Cymru, bwrdd iechyd ac awdurdod lleol, rhwng 2009-2011 a 2020-22



Mae data o adroddiad diweddaraf Tueddiadau Iechyd Rhywiol yng Nghymru⁸⁹ wedi dangos bod nifer yr achosion o ddiagnosis o gonorea wedi cynyddu 27.0% yn 2023 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gyrraedd cyfanswm o 5,292 o achosion. Yn yr un modd, cafwyd cynnydd o 20.0% yn y diagnosis o syffilis, gyda 507 o achosion wedi'u cofnodi, gan nodi cynnydd o 17.0% o'r brig blaenorol yn 2019⁹⁰.

⁸⁸ Iechyd Cyhoeddus Cymru – [Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd](#)

⁸⁹ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Tueddiadau Iechyd Rhywiol yng Nghymru: Adroddiad blynyddol Heintiau a Drosoglwyddir yn Rhywiol, Darpariaeth Atal Cenhedlu Brys a Dulliau Atal Cenhedlu Cyfnod Hir a Gwrthdroadwy a Therfynu Beichiogrwydd 2024 \(Data hyd at ddiwedd 2023\)](#)

⁹⁰ Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg - [Sexual transmitted infection cases climb in Wales: Increases in Gonorrhoea and Syphilis reported \(Awst 2024\)](#)

Gall y cynnydd hwn fod yn rhannol oherwydd ymdrechion profi uwch, sydd wedi gwella canfod achosion. Fodd bynnag, mae hefyd yn debygol o gynrychioli cynnydd yn nhrosglwyddiad y clefydau hyn yng Nghymru. Mae cyflwyno'r gwasanaeth Profi a Phostio gartref⁹¹ yn 2020 wedi bod yn bwysig wrth sicrhau bod profion heintiau a drosglwyddir yn rhywiol cyfrinachol ar gael i bawb yng Nghymru. Mae'r pecynnau hyn yn caniatáu i unigolion brofi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol gartref.

Mae'r adroddiad yn amlinellu bod profi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol yn gyffredinol ar y lefel uchel ers degawd. Yn 2023, cafodd 87,235 o unigolion eu profi am gonorea, a 65,742 am syffilis, gan ddangos cynnydd sylweddol yn niferoedd y profion o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r hygyrchedd cynyddol hwn o ran profion yn debygol o ddatgelu mwy o achosion a allai fod wedi mynd heb gael diagnosis yn y gorffennol, gan ddarparu darlun cliriach o'r heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ledled Cymru.

3.3.6 Bregusrwydd a chwmpo ymhlith pobl hŷn

Mae pobl hŷn mewn mwy o berygl o gwmpo a phan fydd cwmpo'n digwydd, maen nhw'n fwy tebygol o brofi canlyniadau difrifol, fel anaf, colli annibyniaeth a llai o hyder, gall yr effeithiau hyn gyfrannu at ddirywiad corfforol a meddyliol a datblygiad neu ddilyniant bregusrwydd. Mae bregusrwydd ei hun yn ffactor risg pwysig o ran cwmpo. Gall bregusrwydd fod yn gorfforol, yn seicolegol, neu'n gyfuniad o'r ddau. Mae bod yn fwy agored i ddirywiad sydyn yn eu hiechyd corfforol a meddyliol yn nodwedd ohono. Mae adnabod pobl a allai fod yn byw gyda bregusrwydd yn gynnar yn ymyrraeth allweddol wrth atal cwmpo.

Yn y DU, mae bron i draean o bobl dros 65 oed yn profi o leiaf un cwmp bob blwyddyn ac amcangyfrifir bod 500,000 o doriadau esgyrn breuder bob blwyddyn⁹². Mae osteoporosis yn gyflwr sy'n achosi i esgyrn wanhau a mynd yn fwy bregus. Mae pobl ag osteoporosis yn fwy tebygol o ddioddef toriad esgyrn breuder.

Mae'r tabl isod yn dangos y mynychder a gofnodwyd yn seiliedig ar gyfraddau mynychder a adroddwyd yn fframwaith canlyniadau ansawdd 2025 gan bractisau meddygon teulu, ar gyfer osteoporosis (50 oed ac yn hŷn) ar draws y clystyrau. Mae'r ffigurau'n cael eu cymharu â chanrannau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru.

⁹¹ GIG Cymru Iechyd Rhywiol Cymru - [Profi a Phostio: Profion cartref ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol](#)

⁹² Public Health England – [RightCare Pathway: Falls and Fragility Fractures fersiwn 18](#)

Tabl 3.13: Amcangyfrif o ganran mynychder y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd ag osteoporosis (50 oed ac yn hŷn) yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025⁹³

Ardal	Mynychder Osteoporosis (50 oed ac yn hŷn) (%)
Canol y Ddinas a De Caerdydd	0.2%
Dwyrain Caerdydd	1.0%
Gogledd Caerdydd	1.3%
De-ddwyrain Caerdydd	0.4%
De-orllewin Caerdydd	0.5%
Gorllewin Caerdydd	0.6%
Canol y Fro	0.4%
Dwyrain y Fro	0.8%
Gorllewin y Fro	0.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	0.7%
Cymru	0.6%

Fel y gwelir, mae'r mynychder uchaf o achosion yng Ngogledd Caerdydd (1.3%), mwy na dwbl y ganran yng Nghymru, a bron i ddwbl canran y bwrdd iechyd. Mae nifer yr achosion ar lefel bwrdd iechyd ychydig yn uwch na Chymru.

Mae'r tabl isod yn dangos ystod mynychder osteoporosis a gofnodwyd (50 oed ac yn hŷn) yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol, o'i gymharu â chyfartaledd y bwrdd iechyd a chyfartaledd Cymru.

Tabl 3.14: Ystod yr amcangyfrif o ganran mynychder osteoporosis (50 oed ac yn hŷn) yn seiliedig ar bobl ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl ardal awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2025⁹⁴

Ardal	Ystod canran mynychder osteoporosis (50 oed ac yn hŷn) ar lefel clwstwr (%)
Caerdydd	0.2%-1.3%
Bro Morgannwg	0.3% - 0.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	0.7%
Cymru	0.6%

3.3.7 Dementia

Mae dementia yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio casgliad o symptomau gan gynnwys colli cof, problemau gyda rhesymu, canfyddiad a sgiliau cyfathrebu. Mae'n cael ei achosi gan wahanol glefydau'r ymennydd, yn fwyaf cyffredin clefyd Alzheimer. Mae dementia yn fater iechyd a gofal cymdeithasol sylweddol sy'n effeithio nid yn unig ar y rhai sy'n byw gyda dementia, ond hefyd ar eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofawyr. Mae'n fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn.

⁹³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddygon teulu](#)

⁹⁴ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Mae'r tabl isod yn dangos y mynychder a gofnodwyd yn seiliedig ar fframwaith canlyniadau ansawdd 2025, canrannau mynychder a adroddwyd gan bractisau meddygon teulu ar gyfer dementia ar draws clystyrau yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r ffigurau'n cael eu cymharu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Chymru.

Tabl 3.15: Amcangyfrif o ganran mynychder y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â dementia yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025⁹⁵

Ardal	Mynychder dementia (%)
Canol y Ddinas a De Caerdydd	0.5%
Dwyrain Caerdydd	0.8%
Gogledd Caerdydd	0.8%
De-ddwyrain Caerdydd	0.3%
De-orllewin Caerdydd	0.6%
Gorllewin Caerdydd	0.7%
Canol y Fro	0.7%
Dwyrain y Fro	1.1%
Gorllewin y Fro	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	0.7%
Cymru	0.8%

Fel y gwelwyd, mae gan y bwrdd iechyd fynychder is o ddementia na Chymru (0.7% a 0.8% yn y drefn honno). Mae'r mynychder uchaf yng nghlwtwr Dwyrain y Fro.

3.4 Diogelu iechyd

3.4.1 Derbyn brechlynnau ymhlith plant⁹⁶

Yn 2024/25, roedd cyfraddau derbyn tri dos y brechlyn 6 mewn 1 DTaP/IPV/Hib/HepB1 ymhlith plant sy'n cyrraedd eu pen-blwydd cyntaf yn 92.9% yn ardal y bwrdd iechyd, 93.0% yng Nghaerdydd a 92.8% ym Mro Morgannwg, o'i gymharu â 94.1% yng Nghymru. Mae hyn yn cymharu â tharged derbyn o 95% ledled Cymru.

Cyflwynwyd brechlyn seroteip B meningococaid ym mis Medi 2015 ar gyfer y rhai a anwyd o 1 Mai 2015 ymlaen. Roedd cyfraddau derbyn cwrs cyflawn ymhlith plant yn ddwy oed yn 92.3% ar gyfer cyfartaledd Cymru, sef 89.6%. Ar lefel awdurdod lleol, cyflawnodd Caerdydd 88.6% a Bro Morgannwg 92.4%.

Roedd canran y plant preswyl sy'n cyrraedd eu pedwerydd pen-blwydd ac sydd wedi cael yr holl frechlynnau gofynnol yn 81.9% ar gyfer y bwrdd iechyd, yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85.3%). Mae amrywiad rhwng y ddau awdurdod lleol gyda chyfraddau derbyn yng Nghaerdydd yn is na Bro Morgannwg (81.1% ac 84.2% yn y drefn honno).

⁹⁵ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

⁹⁶ GIG Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Derbyn brechlynnau ymhlith plant yng Nghymru - adroddiad blynyddol COVER 2025 - blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2025](#)

Roedd cyfraddau derbyn dau dos o'r frech goch, clwy'r pennau a rwbela ymhlith plant yn bum mlwydd oed yn 87.1% ar gyfer y bwrdd iechyd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 89.5%. Roedd dau ddos ymhlith pobl ifanc oedd yn troi'n 16 oed rhwng 1 Medi 2024 a 31 Awst 2025 yn 92.9% yng Nghymru ac 89.8% ar gyfer y bwrdd iechyd - Caerdydd 88.8% a Bro Morgannwg 92.4%.

Y bwrdd iechyd oedd â'r gyfradd dderbyn isaf o'r brechlynnau uchod o'r holl fyrddau iechyd ac mae'n is na'r targed cenedlaethol (95%) ar gyfer pob un ohonynt.

3.5.2 Derbyn brechlyn y fflw⁹⁷

Yn 2024/25 roedd cyfraddau derbyn brechlyn y fflw ymhlith pobl 65 oed ac yn hŷn yng Nghymru yn 70.4% ac yn y bwrdd iechyd roedd yn 70.3%. Roedd cyfraddau derbyn y brechlyn yn 2021/22 yn 76.1% ac mae hyn wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers hynny.

Roedd cyfraddau derbyn ymhlith pobl o dan 65 oed ac mewn perygl yng Nghymru yn 36.9% ac yn ardal y bwrdd iechyd roedd yn 33.5%. Roedd cyfraddau brechu yn 2021/22 yn 41.9% ac mae hyn wedi gostwng o un flwyddyn i'r llall ers hynny.

Yng Nghymru, cafodd 43.7% o blant dwy a thair oed eu brechu rhag y fflw mewn practis cyffredinol rhwng 1 Medi 2024 a 31 Mawrth 2025 o'i gymharu â 38.1% ar gyfer y bwrdd iechyd. Roedd y cyfraddau derbyn ymhlith plant rhwng 4 a 15 oed yn is ar gyfer y bwrdd iechyd o'i gymharu â Chymru.

⁹⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru – [Adroddiadau blynyddol gwyliadwriaeth y fflw a brechu rhag y fflw 2024/25](#)

4 Grwpiau cleifion a nodwyd – problemau iechyd penodol

Mae'r grwpiau cleifion canlynol wedi'u nodi fel rhai sy'n byw o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, neu'n ymweld â hi:

- Y rhai sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig canlynol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010:
 - Oedran
 - Anabledd, a ddiffinnir fel amhariad corfforol neu feddyliol sydd ag effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau dyddiol arferol.
 - Beichiogrwydd a mamolaeth
 - Hil, sy'n cynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiadau ethnig neu genedlaethol
 - Crefydd (gan gynnwys diffyg crefydd) neu gred (unrhyw gred grefyddol neu athronyddol)
 - Rhyw
 - Cyfeiriadedd rhywiol
 - Ailbennu Rhywedd
 - Priodas a phartneriaeth sifil
- Myfyrwyr prifysgol
- Troseddwyd a phlant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuencid
- Pobl ddigartref a phobl sy'n cysgu allan
- Cymunedau teithwyr a sipsiwn
- Ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr
- Cyn-filwyr
- Ymwelwyr â'r ardal ar gyfer busnes, neu i ymweld â ffrindiau a theulu neu atyniadau twristaidd e.e. Canolfan Mileniwm Cymru, Stadiwm Principality, Arfordir Treftadaeth Sir Forgannwg, a Chastell Caerdydd

Cyfeirir at rai o'r grwpiau hyn mewn rhannau eraill o'r asesiad anghenion fferyllol, ond mae'r adran hon yn canolbwyntio ar eu problemau iechyd penodol.

4.1 Oedran⁹⁸

Mae problemau iechyd yn tueddu i fod yn fwy ymhlith y rhai ifanc iawn a'r rhai hen iawn. Fodd bynnag, er ei bod yn amlwg bod nifer a chyfran y bobl 65 oed a throsodd yn debygol o godi a bod cyffredinrwydd bron pob cyflwr cronig a hirdymor yn cynyddu ag oedran, mae'n bwysig cydnabod bod y boblogaeth hyn yn amrywiol iawn ei natur a bod llawer o bobl yn parhau i fod yn heini ac yn egnïol. Er ei bod yn wir y bydd poblogaeth hyn sy'n tyfu yn arwain at nifer cynyddol o bobl yn byw ag anghenion iechyd a gofal cymhleth, bydd niferoedd cynyddol hefyd ar draws pob grŵp oedran hyn yn byw heb unrhyw anghenion sylweddol am gymorth.

Ar ben hynny, nid yw cael cyflwr iechyd neu anabledd o reidrwydd yn cyfateb i lefelau uchel o alw am wasanaethau iechyd a gofal. Bydd gan lawer o bobl 75 oed a throsodd un neu fwy o gyflyrau iechyd ond efallai na fyddant yn ystyried bod eu cyflwr iechyd,

⁹⁸ Caerdydd a Bro Morgannwg - [Asesiad Anghenion Poblogaeth 2022-27](#)

neu gyflyrau iechyd, yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd. Mae pobl hŷn hefyd yn rhoi llawer iawn o'u hamser a'u hegri i ofalu am eraill.

Mae demograffeg Caerdydd a Bro Morgannwg yn wahanol iawn.

Yn gyffredinol, mae Caerdydd yn amrywiol, yn ifanc, a chanddi boblogaeth gynyddol o leiafrifoedd ethnig (tuag 20% nad ydynt yn wyn yn 2021), a chorff mawr o fyfyrwyr. Cynyddodd poblogaeth Caerdydd 4.7% o ychydig o dan 346,100 yn 2011 i ryw 362,300 yn 2021. Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, cynyddodd oedran (canolrif) cyfartalog Caerdydd flwyddyn, o 33 i 34, sef yr oedran (canolrif) cyfartalog isaf yng Nghymru. Cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed ychydig o dan 6,200 (cynnydd o 27.2%), tra gostyngodd nifer y trigolion 4 oed ac iau ychydig dros 3,300 (gostyngiad o 14.8%).⁹⁹

Mae hyn yn cyferbynnu â phoblogaeth Bro Morgannwg sy'n hŷn a llai amrywiol yn gyffredinol (tua 95% yn Wyn). Cynyddodd poblogaeth Bro Morgannwg 4.4%, o ryw 126,300 yn 2011 i ryw 131,900 yn 2021. Cynyddodd y boblogaeth gan fwy o ganran na phoblogaeth gyffredinol Cymru a gynyddodd 1.4%.

Rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf, cynyddodd oedran (canolrif) cyfartalog Bro Morgannwg ddwy flynedd, o 42 i 44 oed, sef oedran (canolrif) cyfartalog uwch na Chymru gyfan (42 oed). Cododd nifer y bobl rhwng 65 a 74 oed 3,300 (cynnydd o 26.4%), tra gostyngodd nifer y trigolion rhwng 35 a 49 oed ychydig dros 1,800 (gostyngiad o 7%).¹⁰⁰

Ar gyfer pobl hŷn:

- Oedran yw'r ffactor unigol mwyaf sy'n gysylltiedig â chael cyflwr hirdymor gyda dwy ran o dair o bobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn nodi bod ganddynt o leiaf un cyflwr hirdymor neu gronig. Mae gan draean o bobl hŷn (65+) gyflyrau hirdymor lluosog (cydafiachedd) ac mae dros dri chwarter o bobl 85+ oed yn nodi bod ganddynt salwch hirdymor cyfyngol. Darparodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymateb ysgrifenedig ym mis Mehefin 2023 i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gefnogi pobl â chyflyrau cronig¹⁰¹ a nododd "y gellir atal cyfran sylweddol o faich clefyd ac afiechyd yng Nghymru" drwy fynd i'r afael â ffactorau risg ymddygiadol (ffordd o fyw) fel ysmegu, yfed gormod o alcohol, dietau afiach ac anweithgarwch corfforol.
- Mae ymddygiadau afiach yn gyffredin ymhlith pobl hŷn hefyd, yn union fel gweddill y boblogaeth, a'r rhain yw un o brif achosion cyflyrau hirdymor. Yn benodol, mae pryder ynghylch niiferoedd sylweddol o bobl hŷn sy'n yfed gormod o alcohol.
- Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o ddioddef salwch neu anafiadau a all eu hatal rhag gallu gwneud cymaint drostyn nhw eu hunain.
- Mae atal cwympiadau yn fater allweddol wrth wella iechyd a llesiant ymhlith pobl hŷn. Cwympiadau yw un o brif achosion anabledd a marwolaeth ymhlith pobl hŷn yng Nghymru, ac maent yn arwain at gostau dynol sylweddol o ran poen, colli hyder ac annibyniaeth.

⁹⁹ Cyfrifiad 2021 - [Sut mae bywyd wedi newid yng Nghaerdydd](#)

¹⁰⁰ Cyfrifiad 2021 - [Sut mae bywyd wedi newid ym Bro Morgannwg](#)

¹⁰¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru - [Proffil o gyflyrau hirdymor yng Nghymru](#)

- Mae pobl hŷn, yn enwedig y rhai sy'n eiddil, yn aml yn dioddef o gyfuniad o broblemau sy'n effeithio ar y ffordd maen nhw'n cysylltu ag eraill. Gallai hyn fod oherwydd bod ganddyn nhw broblemau wrth gerdded yn gadarn, cofio pethau, neu glywed a gweld yn dda. Mae'r holl bethau hyn yn effeithio ar hyder pobl a'u gallu i fynd allan a byw eu bywydau.
- Mae teimlo'n unig neu heb gysylltiad â ffrindiau yn gallu cael effaith negyddol iawn ar lesiant ac iechyd. Mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael a chyflyrau fel clefyd cardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed uchel a dementia. Mae'n debygol bod y cyfyngiadau symud a osodwyd yn ystod pandemig Covid-19 yn 2020 wedi gwaethgu'r problemau hyn ar draws pob grŵp oedran. Hefyd mae unigrwydd yn cael effaith lawer ehangach ar iechyd y cyhoedd, gan ei fod yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau iechyd negyddol gan gynnwys marwolaethau, afiachedd, iselder a hunanladdiad. Mae pobl unig yn tueddu i ddefnyddio mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac maent yn fwy tebygol o gael eu derbyn i ofal preswyl neu nyrsio yn gynnar. Mae edrych ar wahanol ffyrdd o sicrhau bod pobl hŷn yn cadw mewn cysylltiad â'r pethau sy'n bwysig iddyn nhw a bod cyfleoedd i bobl hŷn aros yn egniol ac yn gysylltiedig yn bwysig.
- Dangosodd gwybodaeth o Gyfrifiad 2021¹⁰² fod 25,017 o bobl 66 oed a throsodd yn byw ar eu pennau eu hunain yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n cyfateb i 12.2% o'r boblogaeth. Heb y modd i adael eu cartrefi, neu gyda llai o ymweliadau gan weithwyr cymunedol a darparwyr gwasanaethau, bydd nifer gynyddol o bobl hŷn yn teimlo'n unig ac ynysig gan arwain at effeithiau niweidiol ar eu hiechyd meddwl.
- Iselder yw'r angen iechyd meddwl mwyaf cyffredin i bobl hŷn. Cynhaliodd Age Cymru ddigwyddiad ym mis Ebrill 2024, a amlygodd y bwlch rhwng y lefel bresennol o fuddsoddiad yn iechyd meddwl pobl hŷn a'r anghenion dybryd ledled Cymru. Tynnodd y digwyddiad sylw at rai ystadegau allweddol ynghylch iechyd meddwl gwael ymhlith demograffeg hŷn yng Nghymru gan gynnwys 22% o ddynion a 28% o fenywod dros 65 oed yn dioddef o iselder, tra bod 30% o ofalwyr hŷn yn cael profiad o iselder ar ryw adeg. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod unigolion hŷn sy'n cael profedigaeth bedair gwaith yn fwy tebygol o ddioddef o iselder¹⁰³.
- Dementia yw prif achos marwolaethau yng Nghymru a Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod 42,000 o bobl dros 65 oed yn byw gyda dementia yng Nghymru, ond awgryma amcangyfrifon Cymdeithas Alzheimer's Cymru¹⁰⁴ y gallai'r cyfanswm fod mor uchel â 51,000. Mae disgwyl i'r ffigur hwn godi 37% i bron i 70,000 o bobl erbyn 2040. Mae tua 5,773 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg ar hyn o bryd. Erbyn 2030 bydd tua 7,500–7,600 o bobl yn byw gyda dementia yng Nghaerdydd a'r Fro¹⁰⁵.
- Mae datblygu cymunedau sy'n cefnogi dementia yn hanfodol i lesiant pobl hŷn, yn enwedig y miloedd o bobl sy'n byw gyda dementia, waeth beth fo'u diagnosis swyddogol, a'r bobl o'u cwmpas yr effeithir arnynt hefyd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Dementia newydd (2026 – 2036) yn 2026 i gymryd lle'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a gyhoeddwyd yn 2018.¹⁰⁶, a'r Ddogfen Gefnogol ddilynol yn 2021. Nod Strategaeth Dementia 2026 yw

¹⁰² NOMIS TS003 - Cyfansoddiad yr aelwyd

¹⁰³ Age Cymru - [Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar iechyd meddwl a llesiant, a strategaethau atal hunanladdiad \(2024\)](#)

¹⁰⁴ Cymdeithas Alzheimer's Cymru - [Cynllun gweithredu newydd ar gyfer dementia i Gymru \(2025\)](#)

¹⁰⁵ Prifysgol Caerdydd - [Rhwystrau a wynebwr wrth gael at Wasanaeth Asesu Cof Caerdydd a'r Fro](#)

¹⁰⁶ Llywodraeth Cymru - [Cynllun gweithredu ar gyfer dementia 2018 - 2022](#)

gwella gofal a chymorth dementia ledled Cymru. Ar adeg ysgrifennu'r asesiad hwn o anghenion fferyllol nid oedd y strategaeth wedi'i chyhoeddi.

- Mae iechyd corfforol da yn cael effaith fuddiol sylweddol ar iechyd a llesiant ymhlith pobl hŷn. Mae'r gallu i fod yn gorfforol egniol yn gwella cryfder cyhyrau ac iechyd emosiynol gan leihau risg cwmpo ac unigedd.
- Roedd astudiaeth yng Nghymru¹⁰⁷,¹⁰⁸ wedi'i hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, yn archwilio sut i wella bywydau pobl sy'n byw ag amhariad ar eu golwg. Dechreuodd yr astudiaeth ar 1 Hydref 2022 a daeth i ben ar 30 Medi 2024. Yn 2020, roedd dros 1,000 o bobl yng Nghymru wedi'u cofrestru'n ffurfiol fel rhai ag amhariad ar eu golwg neu amhariad difrifol ar eu golwg. Amhariad ar y golwg yw un o'r cyflyrau anablu mwyaf cyffredin ymhlith pobl hŷn sy'n effeithio ar fywydau pob dydd, gan gynnwys perthnasoedd a chysylltiadau cymdeithasol. Yn ôl Age UK mae tuag 1.5 miliwn o bobl yn y DU, dros 65 oed, yn byw gydag amhariad ar y golwg.
- Mae colli golwg yn broblem iechyd cyhoeddus sylweddol, yn enwedig i bobl hŷn, gan y gall effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol ac annibyniaeth person, gan wneud pobl yn fwy tebygol o gwmpo neu gael eu hynysu'n gymdeithasol.

Ar gyfer pobl ifanc:

- Ceir tystiolaeth fod y mil o ddiwrnodau cyntaf o fywyd¹⁰⁹ (mae hyn yn cynnwys cyn i'r plentyn gael ei eni, hyd at ei fod yn ddwy oed) yn cael effaith sylweddol ar weddill bywyd y plentyn. Fel yr eglurodd Cymru Well Wales "mae'r blynyddoedd hyn yn cael effaith hirdymor ar unigolion a theuluoedd. Maent yn llunio tynged plant wrth iddynt dyfu i fyny: eu cyflawniadau addysgol, eu gallu i sicrhau incwm, eu dylanwadau ar eu plant eu hunain, a'u hiechyd yn eu henaint".
- Mae plant sy'n cael eu geni i dlodi yn fwy tebygol o fod yn oedolion ag iechyd gwael na'r rhai sy'n cael eu geni i gyfoeth.
- Ceir tystiolaeth helaeth fod bwydo ar y fron yn bwysig i ddarparu manteision iechyd i'r fam a'r baban ac yn hyrwyddo ymlyniad; fodd bynnag, mae mamau ifanc ymhlith y grwpiau sy'n lleiaf tebygol o fwydo ar y fron.
- Mae cael ei eni i fam sy'n ordew ac yn ysmygu drwy gydol beichiogrwydd yn rhoi babi mewn mwy o berygl o ddatblygu ymddygiadau ffordd o fyw afiach yn y dyfodol a chyflyrau cronig difrifol. Bydd hyn yn effeithio ar ei ansawdd bywyd a'i ddisgwyliad oes.
- Hefyd, mae rhai grwpiau penodol o blant y mae'n fwy tebygol y bydd angen gwasanaethau gofal a chymorth arnynt yn eu bywydau. Yn eu plith mae plant o deuluoedd lle mae anghenion gofal a chymorth eraill, plant sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu teuluoedd, a phlant ag anableddau.
- Bydd rhai plant yn destun cam-drin corfforol, emosiynol neu rywiol neu'n byw mewn teuluoedd lle mae rhieni'n gwahanu, camddefnyddio sylweddau, trais domestig neu salwch meddwl; gelwir y rhain yn brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn brofiadau llawn straen sy'n digwydd yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol

¹⁰⁷ Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - [Ymchwil i lwybr ar gyfer pobl hŷn sydd â nam ar eu golwg i lywio cymorth a gwasanaethau](#)

¹⁰⁸ Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru - [A preventative approach to ensuring access to a sustainable, whole system pathway for older people with vision impairment \(ASSIST\)](#)

¹⁰⁹ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Rhaglen y 1000 Diwrnod Cyntaf](#)

neu'n effeithio ar yr amgylchedd y mae'r plentyn yn byw ynddo, a gallant barhau i niweidio iechyd plant drwy gydol eu hoes.

- Yn 2016 cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru yr astudiaeth gyntaf o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod yng Nghymru.¹¹⁰ . Roedd cyfran sylweddol o boblogaeth Cymru, sef bron i hanner (47%) o oedolion, wedi cael o leiaf un profiad niweidiol yn ystod plentynod cyn 18 oed, ac roedd 14% wedi dioddef pedwar neu ragor. Mae profiadau niweidiol yn ystod plentynod yn achosi niwed hirdymor i iechyd sy'n parhau i oedolaeth ac i henaint.
- Mae pobl sydd wedi cael pedwar neu fwy o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod:
 - 4 gwaith yn fwy tebygol o fod yn yfwyr risg uchel
 - 6 gwaith yn fwy tebygol o ysmegu
 - 6 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael rhyw dan oed
 - 6 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cael neu wedi achosi beichiogrwydd anfwriadol yn yr arddegau
 - 11 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi ysmegu canabis
 - 14 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais yn y 12 mis blaenorol
 - 15 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cyflawni trais yn erbyn person arall yn y flwyddyn flaenorol
 - 16 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio heroin neu grac cocên, ac
 - 20 gwaith yn fwy tebygol o gael eu carcharu yn ystod eu hoes.
- Yng Nghymru, roedd chwarter (23%) o oedolion wedi cael eu hamlygu i gam-drin geiriol yn blentyn, un rhan o bump (20%) i wahanu rhieni; 17% i gam-drin corfforol, 16% i drais domestig, 14% i salwch meddwl, 14% i gamddefnyddio alcohol, 10% i gam-drin rhywiol, a 5% yr un i ddefnyddio cyffuriau neu garcharu rhiant. Gall gwasanaethau 'ystyriol o drawma' ddarparu amgylchedd cefnogol i bobl sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentynod, gan eu hannog i ymgysylltu a rheoli cyflyrau'n well.
- Bydd sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i gymryd rheolaeth dros eu bywydau a'u llesiant eu hunain yn eu helpu i fyw eu bywydau gorau posibl. Mae'n bwysig rhoi gwybod mewn modd clir a hygyrch sut y gall pobl ifanc a'u teuluoedd ddarganfod mwy am y cymorth cynnar sydd ar gael yn eu hardal.
- Mae blynyddoedd yr arddegau hefyd yn bwysig ac mae tystiolaeth gref fod ymddygiadau ffordd o fyw yn yr arddegau yn effeithio ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hwy yn y dyfodol ymhlith oedolion. Gyda llawer o blant yn datblygu ymddygiadau afiach o ran gweithgarwch corfforol a deiet, bydd dylanwadu ar ddewis ffordd o fyw gadarnhaol ymhlith pobl ifanc yn effeithio ar ganlyniadau iechyd pobl ifanc ac ar y galw yn y dyfodol am ystod eang o wasanaethau gan oedolion.
- Ar gyfartaledd ledled Cymru, mae un o bob pedwar plentyn naill ai dros bwysau neu'n ordew (25.5%). Wrth i lefelau amddifadedd gynyddu yng Nghymru, felly hefyd mae canran y plant sydd mewn perygl o fynd yn ordew. Er enghraifft, mae ychydig dros un o bob saith o blant sy'n byw yn y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yn debygol o fod yn ordew yn y dyfodol, o'u cymharu â llai nag un o bob deg sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf¹¹¹. Yn ei hymateb i "Bwyta ac yfed yn lach mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru" yn 2025, cynghorodd Cynghrair Gordewdra Cymru fod astudiaethau wedi dangos bod plant a phobl ifanc sy'n byw gyda gordewdra tua phum gwaith yn fwy tebygol o

¹¹⁰ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod](#)

¹¹¹ Chemist4u - [Obesity Statistics Report 2025](#)

fyw gyda gordewdra pan fyddant yn oedolion, gydag 80% o bobl ifanc sy'n byw gyda gordewdra yn dal i fesur fel pe baent yn ordew pan fyddant yn oedolion¹¹².

- Casglodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddata ledled Cymru yn ystod blwyddyn ysgol 2022-2023.¹¹³ Dangosodd y data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:
 - mai cyfran y plant yng nghategori'r rhai 'dros eu pwysau ond nid gordew' oedd 11.9%. Roedd y canlyniad hwn ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol sef 13.0%, ac yn debyg i adroddiad 2018/19 cyn y pandemig sef 11.7%.
 - mai cyfran y plant yn y categori gordewdra oedd 9.3%. Roedd hyn yn is nag a welwyd yn y flwyddyn flaenorol sef 11.1% a chyn y pandemig sef 10.2% a adroddwyd yn 2018/19. Rhaid dehongli'r gostyngiad ar ôl y pandemig yn ofalus gan mai dim ond dau bwynt data sydd.
- Dechreuodd 90% o bobl sy'n ysmegu yn y DU cyn eu 21 oed¹¹⁴. Erbyn hyn, fepio yw'r ymddygiad nicotin mwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Mae 5% o blant a phobl ifanc 11–16 oed yn fepio o leiaf unwaith yr wythnos (yn cynyddu o 3% yn 2019)¹¹⁵.
- Gall heintiau a drosglwyddir yn rhywiol heb eu trin gael effaith ar iechyd yn y tymor hwy gan gynnwys anffrwythlondeb. Gall ymddygiad rhywiol pobl ifanc hefyd arwain at feichiogrwydd heb ei gynllunio sy'n peri risgiau iechyd sylweddol ac yn niweidio iechyd a chyfleoedd bywyd tymor hwy mamau a babanod. Ar ben hynny, gwyddys bod modd cysylltu pwysau geni isel â beichiogrwydd yn yr arddegau a mamau sy'n ysmegu yn ystod beichiogrwydd. Er mwyn lleihau risg babanod yn cael eu geni'n gynnar, a phwysau geni isel, a'r risg anableddau a ddaw yn sgil hyn, mae'n bwysig bod cymorth ar gael i'r rhai a allai fod mewn perygl.
- Mae tua 50% o salwch meddwl gydol oes yn dechrau erbyn 14 oed¹¹⁶. Ymhlith y plant a phobl ifanc sydd mewn mwy o berygl o gael problemau iechyd meddwl y mae'r rhai sy'n destun chwalfa deuluol; y rhai yn y 'system gofal', y rhai sy'n dangos problemau ymddygiad, a phlant sydd wedi cael profiad o drawma.
- Cynhyrchodd Canolfan Cymru ar gyfer Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth y rhagolwg cenedlaethol diweddaraf o gyflyrau hirdymor ar draws grwpiau oedran yng Nghymru¹¹⁷. Disgwylir i faich cyflyrau hirdymor gynyddu dros y deng mlynedd nesaf, wedi'i yrru gan gynydd mewn cydafiachedd, gordewdra, diffyg maeth ac anghydraddoldebau iechyd parhaus.

4.2 Anabledd¹¹⁸

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd¹¹⁹, amcangyfrifir bod 1.3 biliwn o bobl yn destun anabledd sylweddol, ac mae'r nifer hwn yn tyfu oherwydd newidiadau demograffig ac epidemiolegol yn y boblogaeth (megis heneiddio a'r cynnydd byd-eang mewn cyflyrau

¹¹² Chemist4u – [Obesity Statistics Report 2025](#)

¹¹³ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Rhaglen Mesur Plant 2022-2023](#)

¹¹⁴ Cancer Research UK - [Around 350 young adults start smoking every day in the UK - Cancer News](#)

¹¹⁵ Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Ysmegu a fepio](#)

¹¹⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru – [Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fêpio ar gyfer Dysgwyr oed Uwchradd yng Nghymru](#)

¹¹⁷ Canolfan Cymru ar gyfer Gofal Seiliedig ar Dystiolaeth - [Beth yw'r cyffredinolrwydd a nifer yr achosion a ragwelir o gyflyrau hirdymor yng Nghymru \(2023\)](#)

¹¹⁸ Caerdydd a Bro Morgannwg - [Asesiad o Anghenion Poblogaeth 2022-27](#)

¹¹⁹ Sefydliad Iechyd y Byd - [Disability factsheet 2023](#)

iechyd cronig), ac argyfyngau iechyd (megis brigiadau o achosion o glefyd, trychinebau naturiol, a gwrthdaro).

- Mae rhai pobl ag anableddau yn marw hyd at 20 mlynedd yn gynharach na'r rhai heb anableddau.
- Mae gan bobl ag anableddau ddwywaith y risg o ddatblygu cyflyrau fel iselder, asthma, diabetes, strôc, gordewdra, neu iechyd y geg gwael.
- Mae pobl ag anableddau'n wynebu llawer o anghydraddoldebau iechyd.
- I bobl ag anableddau mae cludiant anhygyrch ac anfforddiadwy 15 gwaith yn anoddach nag y mae i'r rhai heb anableddau.
- Mae anghydraddoldebau iechyd yn deillio o amodau annheg sy'n wynebu pobl ag anableddau, gan gynnwys stigma, gwahaniaethu, tlodi, eithrio o addysg a chyflogaeth, a rhwystrau a wynebir yn y system iechyd ei hun.

Nid yw pobl ag anableddau yn grŵp homogenaidd. Maent yn cynnwys pobl o wahanol oedrannau, rhywiau ac ethnigrwydd a fydd yn dylanwadu ar eu hanghenion gofal iechyd a'u mynediad ato.

Rhwng 2021 a 2023, nododd 6% o oedolion eu bod mewn iechyd gwael neu wael iawn yng Nghaerdydd gyda 7% yn nodi hynny ym Mro Morgannwg. Dywedodd 46% o bobl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod eu gweithgareddau dyddiol yn cael eu 'cyfyngu gan salwch hirdymor'¹²⁰.

Mae yna lawer o wahanol fathau o anableddau. Efallai y bydd unigolyn ag 'anabledd iechyd neu gorfforol gan gynnwys amhariad ar y synhwyrâu' yn cael anhawster yn cyflawni gweithgareddau pob dydd am fod ei symudiad a'i synhwyrâu yn gyfyngedig efallai. Amhariad ar y synhwyrâu yw llai o olwg neu glyw neu golli golwg neu glyw, neu'r ddau. Y rhai sydd wedi'u cynnwys yw'r dall, y rhai sy'n gweld yn rhannol, y byddar, a'r rhai trwm eu clyw. Gall anabledd fod yn bresennol o enedigaeth neu ddigwydd yn ystod oes person.

Amcangyfrifodd briff colli golwg Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023 mai nifer y bobl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd wedi colli eu golwg yw 14,290. Erbyn 2032 disgwylir y bydd 16,850 yn byw wedi colli eu golwg, sef cynnydd o 18% dros y degawd nesaf, yn ôl yr amcangyfrifon.

Ffigur 4.1: cynnydd rhagamcanedig yn nifer y bobl sy'n byw wedi colli eu golwg

Difrifoldeb colli golwg	2022	2032
Colli golwg ysgafn	9,210	10,850
Colli golwg cymedrol	3,190	3,750
Colli golwg difrifol	1,880	2,260
Cyfanswm	14,290	16,850

¹²⁰StatsCymru - [lechyd cyffredinol ac afiechyd oedolion yn ôl awdurdod lleol a bwrdd iechyd, 2020-21 ymlaen](#)

Mae 1,543 o bobl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi'u cofrestru'n ddall neu'n gallu gweld yn rhannol.

Ffigur 4.2: nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall neu'n gallu gweld yn rhannol yn ôl grŵp oedran

Band oedran	Wedi Cofrestru'n Ddall	Wedi cofrestru'n gweld yn rhannol	Cyfanswm
0-17	8	14	22
18-64	270	247	517
65+	525	479	1,004
Cyfanswm	803	740	1,543

Po hynaf yw person, y mwyaf ei risg o golli golwg. Mae cyfran y bobl 75 oed a throsodd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn is (7%) na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (10%). Mae pobl o wahanol gymunedau ethnig mewn mwy o berygl o rai o brif achosion colli golwg. Mae cyfran y bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, a 12.1% o'r boblogaeth o grwpiau ethnig lleiafrifol, o gymharu â 4.3% ledled Cymru.

Mae nifer y bobl y mae colli golwg yn effeithio arnynt a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywyd pob dydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel a ganlyn.

- Dim ond un o bob pedwar o bobl sydd wedi cofrestru'n ddall neu'n gweld yn rhannol o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth.
- Cyfyngir bob amser neu yn aml ar hanner y bobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol yn y gweithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt.
- Nid yw 36% o bobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol byth yn defnyddio'r rhyngwrdd nac yn gallu cael mynediad ato. Mae hyn yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU o 10%.

Mae'r amcangyfrifon ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau llygaid penodol sy'n bygwth golwg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel a ganlyn.

Dirywiad maciwlaid cysylltiedig ag oedran

Difrifoldeb y cyflwr	Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw ag ef
Dirywiad maciwlaid sy'n gysylltiedig ag oedran cyfnod cynnar	18,810
Dirywiad maciwlaid sych sy'n gysylltiedig ag oedran cyfnod hwyr	1,440
Dirywiad maciwlaid gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran cyfnod hwyr	2,920
Dirywiad maciwlaid cyfunol sy'n gysylltiedig ag oedran cyfnod hwyr	4,140

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 22% yn nifer y bobl sy'n byw gyda dirywiad maciwlaid sy'n gysylltiedig ag oedran cyfnod hwyr.

Cataract

Cyflwr llygaid	Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw ag ef
Cataract	4,550

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 23% yn nifer y bobl sy'n byw gyda chataractau.

Glawcoma

Cyflwr llygaid	Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw ag ef
Gorbwysedd llygaid	9,330
Glawcoma	4,550

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 17% yn nifer y bobl sy'n byw gyda glawcoma.

Clefyd diabetig y llygaid

Difrifoldeb y cyflwr	Amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw ag ef
Oedolion sydd wedi cael diagnosis o ddiabetes	29,240
Pobl yn byw gyda retinopathi diabetig o'r rhain	9,810
O'r rhai sy'n byw gyda retinopathi diabetig, mae gan 910 retinopathi diabetig difrifol, cam diweddarach o'r clefyd sy'n debygol o arwain at golli golwg sylweddol ac o bosibl ardystiadwy.	910

Rhwng 2022 a 2032 amcangyfrifir y bydd cynnydd o 7% yn nifer y bobl sy'n byw gyda retinopathi diabetig.

Gall colli golwg fod yn gysylltiedig ag afiechyd a chyflyrau iechyd eraill. Mae pobl hefyd yn fwy tebygol o gael strôc wrth iddynt heneiddio; bydd tua 60% o bobl sy'n dioddef strôc hefyd yn cael rhyw fath o amhariad ar y golwg yn syth wedyn.

Gall rhai ffactorau risg hefyd gynyddu'r siawns o golli golwg. Er enghraifft, gall ysmegu ddyblu'r risg o ddirywiad maciwlaid sy'n gysylltiedig ag oedran ac mae gordewdra yn cynyddu'r risg o ddatblygu diabetes a all achosi colli golwg. Mae cwympiadau yn fwy cyffredin ac yn fwy tebygol o ddwyn canlyniadau difrifol ymhlith pobl hŷn. Mewn rhai achosion, gall cwympiadau arwain at broblemau meddygol difrifol ac amrywiaeth o ganlyniadau niweidiol i iechyd a llesiant. Amcangyfrifir ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro:

- Fod 1,780 o bobl sydd wedi colli eu golwg dros 65 oed yn cwmpo bob blwyddyn,
- O'r cwympiadau hyn, gellir priodoli 840 yn uniongyrchol i golli golwg,

- Bod 140 o bobl dros 65 oed sydd wedi colli eu golwg yn cwmpo'n ddifrifol bob blwyddyn (diffinnir cwmp difrifol fel cwmp sy'n arwain at dderbyn i'r ysbyty trwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys), ac
- O'r cwmpadau difrifol hyn, gellir priodoli 70 yn uniongyrchol i golli golwg.

Mae pobl ag anableddau dysgu ddeg gwaith yn fwy tebygol o golli golwg na'r boblogaeth gyffredinol. Amcangyfrifir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod 580 o oedolion yn dioddef o anabledd dysgu a gweld yn rhannol. Mae gan 170 o oedolion pellach anabledd dysgu a dallineb.

Mae colli golwg yn fwy cyffredin ymhlith pobl â dementia, yn enwedig y rhai hynny sy'n byw mewn cartrefi gofal. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, amcangyfrifir bod 6,880 o bobl yn byw gyda dementia. O fewn y grŵp hwn, amcangyfrifir bod gan 2,460 o bobl ddementia ac amhariad ar y golwg.

Amcangyfrifir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro fod gan 45,800 o bobl amhariad cymedrol neu ddifrifol ar y clyw, a bod gan 1,000 o bobl amhariad dwys ar y clyw. Amcangyfrifir hefyd fod 2,760 o bobl yn byw gyda rhywfaint o golled synhwyraidd ddeuol. O'r bobl hyn, amcangyfrifir bod 1,080 yn byw gyda cholled synhwyraidd ddeuol ddifrifol (colli golwg a chlyw).

Yn 2022 amcangyfrifwyd bod 816 o bobl wedi'u cynnwys ar gofrestr amhariad ar y clyw yr awdurdod lleol ar gyfer Caerdydd a phump o bobl ym Mro Morgannwg¹²¹.

Yn 2021/22, roedd 1,596 o bobl wedi cofrestru ag anabledd dysgu yng Nghaerdydd a 578 o bobl ym Mro Morgannwg¹²². Mae pobl ag anableddau dysgu yn fwy tebygol o ddatblygu problemau iechyd corfforol a meddyliol o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Er enghraifft, mae dementia yn gyffredin iawn ymhlith pobl â syndrom Down. Awgryma ymchwil fod pobl ag anableddau dysgu 58 gwaith yn fwy tebygol o farw cyn eu 50 oed. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael diabetes, amhariadau ar y synhwyrau, problemau iechyd meddwl neu epilepsi a mwy o farwolaethau o gyflyrau sy'n gysylltiedig â'u cyflyrau dysgu. Gall pobl ag anableddau dysgu hefyd gael iechyd gwaeth o ganlyniad i broblemau ffordd o fyw fel diet ac ymarfer corff nad ydynt wedi cael digon o gyngor a chymorth ar eu cyfer¹²³.

Mae pobl ag anableddau dysgu bellach yn byw'n hirach ac, o ganlyniad, mae nifer y bobl hyn ag anabledd dysgu yn cynyddu. Mae angen mwy o gefnogaeth ar bobl hyn ag anabledd dysgu i heneiddio'n dda, i aros yn egniol ac yn iach cyhyd â phosibl.

Yng Nghymru¹²⁴, mae yna:

- 54,000 o oedolion ag anabledd dysgu
- 40,000 o oedolion o oedran gweithio ag anabledd dysgu (18 i 64 oed)
- 15,000 o blant ag anabledd dysgu (0 i 17 oed).

¹²¹StatsCymru - [Personau ag anableddau corfforol/synhwyraidd yn ôl awdurdod lleol, anabledd ac ystod oedran](#)

¹²²StatsCymru - [Pobl ag anableddau dysgu yn ôl awdurdod lleol, gwasanaeth ac ystod oedran](#)

¹²³Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal - [Care and support of people growing older with learning disabilities \(2018\)](#)

¹²⁴ Mencap - [How Common Is Learning Disability In The UK?](#)

- 6,000 o blant rhwng 0 a 7 oed ag anabledd dysgu

Mae ynysu cymdeithasol a theimlo'n unig yn broblem i bobl ag anableddau corfforol gan gynnwys amhariad ar y synhwyrau a phobl ag anableddau dysgu. Mae angen sicrhau bod cyfathrebu a gwybodaeth hygyrch ar gael, gan gynnwys y gwasanaethau sydd ar gael.

4.3 Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae beichiogrwydd yn gyfnod hollbwysig lle gall llesiant corfforol a meddyliol y fam gael effeithiau gydol oes ar y plentyn. Mae straen ar y fam, ei deiet a chamddefnyddio alcohol neu gyffuriau ganddi yn gallu peryglu datblygiad y plentyn yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae beichiogrwydd hefyd yn gymhellant pwerus ar gyfer newid gan ei fod yn cynrychioli cyfnod pan fo menywod a phartneriaid yn fwy agored i wybodaeth newydd ac yn fwy tebygol o wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw er mwyn darparu'r amodau gorau posibl i sicrhau iechyd a llesiant y baban yn y groth.

Mae'r cyfnodau cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd hefyd yn gyfleoedd i roi cyngor ymarferol a chysn i fenywod i'w helpu i reoli eu pwysau a rhoi'r gorau i ysmygu er mwyn osgoi cymhlethdodau cysylltiedig.

4.3.1 Iechyd meddwl amenedigol ^{125, 126}

Mae afiechydon meddwl amenedigol yn effeithio ar 10% o fenywod o leiaf ac, os na chânt eu trin, gallant gael effaith ddinistriol arnynt hwy a'u teuluoedd. Pan fydd mamau'n dioddef o'r afiechydon hyn, mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd plant yn cael anawsterau ymddygiadol, cymdeithasol neu ddysgu ac yn methu â chyflawni eu potensial. Os na chaiff afiechydon meddwl amenedigol eu trin, gallant gael goblygiadau hirdymor i lesiant menywod, eu babanod a'u teuluoedd.

Y canfyddiadau allweddol¹²⁷.

- Mae o leiaf un o bob pump o fenywod yn cael problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth.
- Gorbryder ac iselder yw'r ystyriaethau iechyd mamolaeth difrifol mwyaf cyffredin, sy'n effeithio ar 10 i 15% o fenywod.
- Yng Nghymru, mae bron i 9,000 o famau newydd yn cael problemau iechyd meddwl amenedigol bob blwyddyn.

Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal yn nodi mai iselder a gorbryder yw'r problemau iechyd meddwl mwyaf

¹²⁵Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal - [Antenatal and postnatal mental health: clinical management and service guidance, 2020](#). Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal.

¹²⁶ Coleg Brenhinol y Bydwagedd - [Strengthening perinatal mental health, a roadmap to the right support at the right time](#)

¹²⁷ Sefydliad yr Ymwelwyr Iechyd - Supporting Perinatal Mental Health Through the Power of Reading

cyffredin a geir yn ystod beichiogrwydd, gyda thua 12% o fenywod beichiog yn destun iselder a 13% yn destun gorbryder ar ryw adeg, a llawer yn dioddef o'r ddau. Gall y ddau barhau i effeithio ar fenywod am hyd at flwyddyn ar ôl genedigaeth eu plentyn.

Yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol, gall anhwylderau gorbryder, gan gynnwys anhwylder panig, anhwylder gorbryder cyffredinol, anhwylder obsesiynol-gorfodaethol, anhwylder straen wedi trawma a thocoffobia (ofn eithafol genedigaeth), ddigwydd ar eu pen eu hunain neu gallant gydfodoli ag iselder. Gall seicosis ailymddangos neu waethygu yn ystod beichiogrwydd a'r cyfnod ôl-enedigol. Mae seicosis ôl-enedigol yn effeithio ar rhwng un a dwy o bob 1,000 o fenywod sydd wedi rhoi genedigaeth. Mae menywod ag anhwylder deubegynol mewn perygl arbennig, ond gall seicosis ôl-enedigol ddigwydd mewn menywod heb hanes seiciatrig blaenorol.

Gall newidiadau i siâp y corff, gan gynnwys magu pwysau, yn ystod beichiogrwydd ac ar ôl genedigaeth beri gofid i fenywod ag anhwylder bwyta. Er bod anorecsia nerfosa a bwlimia nerfosa yn llai cyffredin ymhlith menywod beichiog, mae anhwylder gorfwyta mewn pyllau yn fwy cyffredin.

Yng Nghymru¹²⁸:

- Crybwyllodd 32% o fenywod beichiog gyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023. Mae hwn yn gynnydd o 1.4% ers y flwyddyn flaenorol, ac yn gynnydd o 12.2% ers 2016 (blwyddyn gyntaf data cymharol).
- Nododd 38% o fenywod beichiog rhwng 16 a 19 oed a 40% o'r rhai rhwng 20 a 24 oed gyflwr iechyd meddwl yng Nghymru yn 2023. Gostyngodd y gyfran i 29% ar gyfer y rhai yn y grwpiau oedran 30 i 34 a 35 i 39.
- Crybwyllodd 38% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Cymysg a 36% o grwpiau ethnig Gwyn gyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023. Y rhain oedd y ddau grŵp ethnig gyda'r gyfran uchaf o fenywod beichiog yn nodi cyflwr iechyd meddwl ac mae wedi dilyn tuedd tuag i fyny ers dechrau casglu data yn 2016.

D.S. Nid yw canran y menywod a nododd gyflwr iechyd meddwl yn eu hasesiad cychwynnol yn cynnwys data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr na Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

4.3.2 Ysmygu

Ysmygu yw'r ffactor risg addasadwy mwyaf ar gyfer canlyniadau gwael yn ystod beichiogrwydd. Gall annog menywod beichiog i roi'r gorau i ysmygu yn ystod beichiogrwydd eu helpu i roi'r gorau i'r arfer am byth, darparu manteision iechyd i'r fam a'r plentyn yn y groth, a lleihau amlygiad plant i fwg ail-law.

¹²⁸ Llywodraeth Cymru - [Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023](#)

- Nid oedd 20% o fenywod a oedd yn ysmygwyr yn yr asesiad cychwynnol yn ysmygwyr adeg geni. Mae hyn yn ostyngiad o 6.5% ers y flwyddyn flaenorol, ac yn gynnydd o 2.0% ers i ddata gael ei gasglu gyntaf yn 2016. Efallai bod y ffaith bod bron yr holl ddata wedi'i hunan-adrodd yn effeithio ar y cynnydd mawr ers 2021, yn hytrach na deillio o fonitro carbon monocsid a'r swm uwch na'r arfer o ddata coll yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Cofnodwyd bod 14% o fenywod beichiog yn ysmygwyr yn eu hasesiad cychwynnol yn 2023 a chofnodwyd bod 12% o fenywod a roddodd enedigaeth yn 2023 yn ysmygwyr ar adeg rhoi genedigaeth. Mae'r ddwy gyfradd yn debyg i'r ddwy flynedd flaenorol.
- Cofnodwyd bod 28% o fenywod beichiog o dan 20 oed yn ysmygwyr yn yr asesiad cychwynnol, o gymharu ag 21% rhwng 20 a 24 oed, a 12% yn 35 oed neu'n hŷn.
- Cofnodwyd bod 27% o fenywod beichiog o dan 20 oed yn ysmygwyr adeg y geni, o gymharu â 19% rhwng 20 a 24 oed a 10% yn 35 oed neu'n hŷn.
- Roedd y cyfraddau ysmygu ar eu huchaf ymhlith mamau iau a mamau o gefndiroedd ethnig Gwyn a Chymysg.
- Mae canran y menywod beichiog y cofnodwyd eu bod yn ysmygwyr yn amrywio'n fawr yn ôl grŵp ethnig. Yn yr asesiad cychwynnol yn 2023, roedd cyfraddau ysmygu yn amrywio o 2% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Asiaidd i 16% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn.
- Adeg y geni yn 2023, roedd cyfraddau ysmygu yn amrywio rhwng 1% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Du a 2% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Asiaidd i 14% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn a Chymysg.
- Dros y pum mlynedd diwethaf mae cyfraddau ysmygu wedi gostwng yn y grwpiau ethnig Gwyn a Chymysg, tra bod cyfraddau wedi bod yn fras debyg (ond ar lefel llawer is) ar gyfer menywod beichiog o grwpiau ethnig Eraill, Du ac Asiaidd.
- Mae gostyngiadau mawr yn y gyfradd ysmygu yn yr asesiad cychwynnol ers 2020 yn cyd-daro â'r ffaith bod bron yr holl ddata'n cael ei hunan-adrodd, yn hytrach na bod yn destun monitro carbon monocsid. Wedi'i atal ers pandemig Covid-19 yn 2020. Gallai'r newid hwn yn y dull casglu data egluro'r gostyngiadau sydyn o'r pwynt hwn ymlaen.

D.S. Nid yw'r canrannau ar gyfer ysmygu adeg geni yn cynnwys data gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

4.3.3 Defnyddio sylweddau ac alcohol

Mae camddefnyddio cyffuriau gan famau yn ystod beichiogrwydd yn cynyddu risg pwysau geni isel, esgor cynamserol, marwolaethau amenedigol, a marwolaeth sydyn annisgwyl yn ystod babandod (a elwir weithiau'n farwolaeth yn y crud).

¹²⁹ Llywodraeth Cymru - [Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023](#)

Mae nifer o risgiau'n gysylltiedig ag yfed alcohol yn ystod beichiogrwydd¹³⁰, gan gynnwys:

- mwy o siawns o gamesgoriad,
- yn effeithio ar y ffordd y mae'r babi'n datblygu yn y groth ac, yn benodol, y ffordd y mae ei ymennydd yn datblygu,
- yn effeithio ar y ffordd y mae'r babi'n tyfu yn y groth trwy achosi i'r brych beidio â gweithio cystal ag y dylai,
- yn cynyddu risg marw-enedigaeth,
- yn cynyddu risg esgor cynamserol,
- yn gwneud y baban yn fwy tueddol o gael salwch yn ystod babandod ac yn ystod plentyndod, a hefyd fel oedolyn, ac
- yn achosi anhwylder sbectrwm alcohol y ffetws neu syndrom alcohol y ffetws.

Mae bod yn rhydd o gyffuriau yn ystod beichiogrwydd yn lleihau risg:

- geni cynnar,
- geni baban dan bwysau,
- problemau bwydo ac anadlu,
- cael heintiau,
- cael problemau gyda datblygiad a thwf,
- gamesgoriad,
- marw-enedigaeth, a
- Marwolaeth Sydyn Anesboniadwy yn ystod Babandod.

4.3.4 Pwysau iach a maeth

Mae bod dros bwysau yn ystod beichiogrwydd yn cynyddu siawns cymhlethdodau i'r fam, er enghraifft gamesgoriad, diabetes yn ystod beichiogrwydd, pwysedd gwaed uchel a chyneclampsia a tholchenni gwaed. I'r babi, gall bod dros bwysau arwain at enedigaeth gynnar y babi (cyn 37 wythnos) a mwy o siawns o farw-enedigaeth. Mae siawns uwch hefyd y bydd gan y babi gyflwr iechyd, fel diffyg tiwb nerfol fel spina biffida.

Yng Nghymru¹³¹:

- Dosbarthwyd bod 32% o fenywod beichiog yn ordew yn ôl eu sgôr mynegai màs y corff yn yr asesiad cychwynnol yn 2023; mae hyn yn gynydd o 0.8% ers y flwyddyn flaenorol, gan barhau â'r duedd tuag i fyny ers 2016 ac mae wedi cynyddu bob blwyddyn ers dechrau casglu'r data yn 2016. Yn 2023 roedd 5.8% yn uwch nag yn 2016.
- Roedd gan 33% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Du a 33% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Gwyn fynegai màs y corff o 30 neu fwy. Dim ond ychydig bach y newidiodd y ganran ar gyfer y ddau grŵp ethnig o'i chymharu

¹³⁰ Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr 2018 - [Alcohol and pregnancy patient information](#)

¹³¹ Llywodraeth Cymru - [Ystadegau mamolaeth a genedigaethau Cymru 2023](#)

â'r flwyddyn flaenorol. Roedd tuedd tuag i fyny ers dechrau casglu'r data yn 2016.

- Roedd gan 27% o fenywod beichiog o grwpiau ethnig Cymysg fynegai màs y corff o 30 neu fwy. Roedd hwn yn ostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond canran y grŵp hwn oedd â'r duedd fwyaf serth tuag i fyny yn y tymor hwy ac roedd 8.7% yn uwch yn 2023 nag yn 2016.
- Menywod beichiog yn y grwpiau ethnig Eraill ac Asiaidd oedd â'r gyfran isaf o fenywod â mynegai màs y corff o 30 neu fwy allan o'r pum grŵp ethnig i gyd, sef 21% a 19% yn y drefn honno.
- Roedd gan 32% o fenywod beichiog heb grŵp ethnig wedi'i nodi fynegai màs y corff o 30 neu fwy yn 2023.
- Prin oedd yr amrywiad yng nghanran y menywod beichiog â mynegai màs y corff o 30 neu fwy rhwng y rhan fwyaf o grwpiau oedran. Roedd y ganran yn amrywio rhwng 30% a 34% ym mhob grŵp oedran rhwng 20 a 24 a rhwng 40 a 44; tra bod y ganran yn sylweddol is ar gyfer y grwpiau oedran dan 16 oed (5%), y rhai 16 i 19 oed (21%), a'r rhai 45 oed neu hŷn (25%).

D.S. Ystyrir bod person sydd â mynegai màs y corff o 30 neu fwy yn ordew.

4.3.5 Bwydo ar y fron¹³²

Mae bwydo ar y fron yn bwysig ar gyfer iechyd a datblygiad babanod a'u mamau ac mae'n gysylltiedig ag atal anghydraddoldebau iechyd mawr. Darparu llaeth dynol yw'r gweithgaredd mwyaf hygyrch a chost-effeithiol sydd ar gael i iechyd y cyhoedd, ac mae'n hysbys ei fod yn atal ystod o glefydau heintus ac anhrosglwyddadwy, yn benodol gastroenteritis, gordewdra ymysg plant, diabetes math 2 a chanser y fron ymhlith mamau.

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y dechrau gorau mewn bywyd¹³³, a gall bwydo ar y fron wella'r dechrau hwn. Fodd bynnag, efallai nad bwydo ar y fron yw dewis pob menyw. Felly, mae'n hanfodol bod pob teulu'n cael digon o wybodaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwneud dewis ar sail gwybodaeth, a chefnogaeth wedyn ym mha bynnag ddewis a wnânt.

Mae data bwydo ar y fron ar gyfer Cymru ar gyfer 2024¹³⁴ yn seiliedig ar fwriadau mam i fwydo ar y fron cyn genedigaeth, felly mae data'n seiliedig ar famau a esgorodd yn 2024 yn hytrach na phlant a anwyd yn 2024.

- Roedd 65% o'r holl famau yng Nghymru yn bwriadu bwydo ar y fron cyn rhoi genedigaeth. Arhosodd y ganran hon yn gymharol sefydlog, ond yn y flwyddyn ddiwethaf roedd wedi gostwng 1.0% o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol ond wedi cynyddu 1.7% o'i chymharu â phum mlynedd yn ôl.
- Roedd 61% o famau a roddodd enedigaeth i blant lluosog (gefeilliaid, tripledi neu bedrybledi) yn bwriadu bwydo ar y fron yn 2024. Mae hyn 1.9% yn is na'r flwyddyn flaenorol a 3.1% yn uwch na'r gyfradd bum mlynedd yn ôl.

¹³² Llywodraeth Cymru - [Data bwydo ar y fron: 2024 \(Cymru\)](#)

¹³³ Llywodraeth Cymru - [Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#)

¹³⁴ Llywodraeth Cymru - [Data bwydo ar y fron: 2024 \(Cymru\)](#)

- Roedd 64% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron ar adeg eu geni. Bu'r ganran ar gynnydd ac mae 2.2% yn uwch na phum mlynedd yn ôl. Ond fe wnaeth hefyd ostwng yn y flwyddyn ddiwethaf gan ei fod 1.2% yn is o'i chymharu â 2023.
- Roedd 57% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron yn 10 diwrnod oed. Bu'r ganran ar gynnydd ac mae 8.3% yn uwch nag oedd hi bum mlynedd yn ôl ac 1.9% yn uwch nag oedd hi yn 2023.
- Roedd 44% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron yn 6 wythnos oed. Bu'r ganran ar gynnydd ac mae hefyd 9.8% yn uwch nag oedd hi bum mlynedd yn ôl a 3.4% yn uwch nag yn 2023.
- Roedd 32% o fabanod yn cael eu bwydo ar y fron yn 6 mis oed Bu'r ganran ar gynnydd ac mae hefyd 10% yn uwch nag oedd hi bum mlynedd yn ôl a 3.8% yn uwch nag yn 2023.

Roedd mamau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o fwydo ar y fron na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Roedd 52% o famau yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn 2024 yn bwydo ar y fron adeg geni o'u cymharu â 75% o famau yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn 2024.

Mae cyfraddau bwydo ar y fron adeg genedigaeth o fewn pob cwintel o amddifadedd wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2019. Fodd bynnag, mae cyfraddau bwydo ar y fron adeg genedigaeth wedi cynyddu dros 3% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o 49% yn 2019 i 52% yn 2024. Bu cynnydd o 0.7% dros yr un cyfnod ar gyfer y rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

D.S. Nid yw'r canrannau'n cynnwys data ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

4.3.6 Anghenion iechyd cyffredinol

Mae yna lawer o broblemau iechyd cyffredin sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd. Dyma rai o'r rhai mwyaf cyffredin:

- Troethi llawer
- Poen yn y pelfis
- Peils (hemoroidau)
- Newidiadau croen a gwallt
- Diffyg cwsg
- Olion ymestyn
- Fferau, traed a bysedd chwyddedig
- Deintgig chwyddedig a dolurus, a all waedu
- Blinder
- Rhedlif o'r fagina
- Gwaedu o'r fagina
- Gwythiennau chwyddedig

4.4 Hil

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canfod bod ethnigrwydd yn fater pwysig oherwydd, yn ogystal â chael anghenion penodol sy'n ymwneud ag iaith a diwylliant, mae pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddod o deuluoedd incwm isel, dioddef amodau byw gwaeth ac ennill lefelau is o gymwysterau addysgol.

Yn ogystal, mae gan rai grwpiau ethnig gyfraddau uwch o rai cyflyrau iechyd. Er enghraifft, mae gan boblogaethau o dras De Asia a'r Caribî risg sylweddol uwch o ddiabetes, mae poblogaethau o dras Bangladeshaidd yn fwy tebygol o osgoi alcohol ond o ysmegu, ac mae anemia'r crymangelloedd yn anhwylder gwaed etifeddol sy'n effeithio'n bennaf ar bobl o darddiad Affricanaidd neu Garibïaidd.

Mae gwahaniaethau ethnig mewn iechyd ar eu hamlycaf ym meysydd lles meddyliol, canser, clefyd y galon, y feirws imiwnoddiffygiant dynol, twbercwlosis a diabetes.

Mae cynnydd yn nifer y bobl hŷn o dras ddu a lleiafrifoedd ethnig yn debygol o arwain at fwy o angen i ddarparu gofal cymdeithasol a gofal lliniarol sy'n sensitif i ddiwylliant.

Gall poblogaethau du a lleiafrifoedd ethnig wynebu gwahaniaethu ac aflonyddu a gallant fod yn dargedau posibl ar gyfer troseddau casineb.

Er bod grwpiau lleiafrifoedd ethnig ar y cyfan yn destun yr un ystod o afiechydon a chlefydau ag eraill, mae tuedd i rai o fewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig grybwyll iechyd gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol ac mae tystiolaeth fod rhai afiechydon penodol sy'n peryglu bywyd yn fwyfwy cyffredin.

Roedd adroddiad gan Gronfa'r Brenin¹³⁵ yn archwilio gwahaniaethau ethnig mewn canlyniadau iechyd, yn amlygu'r amrywiad ar draws grwpiau ethnig a chyflyrau iechyd, ac yn ystyried beth sydd ei angen i leihau anghydraddoldebau iechyd.

- Cyn pandemig Covid-19, roedd disgwyliad oes adeg geni yn uwch ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig na'r grwpiau gwyn a chymysg. Fodd bynnag, mae'r ffigurau pennawd yn cuddio gwahaniaethau sylweddol rhwng grwpiau ethnig, er enghraifft:
 - pobl o gymunedau sipsi gwyn neu deithwyr Gwyddelig, Bangladeshaidd a Phacistanaidd sydd â'r canlyniadau iechyd gwaethaf ar draws ystod o ddangosyddion,
 - mae cyfraddau marwolaethau babanod a mamau, clefyd cardiofasgwlaidd a diabetes yn uwch ymhlith grwpiau Du a De Asiaidd, ac
 - mae marwolaethau o ganser, a dementia a chlefyd Alzheimer ar eu huchaf ymhlith grwpiau gwyn.
- Ar y cyfan, mae mynediad at wasanaethau iechyd gofal sylfaenol yn gyfartal i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, ond mae hyn yn llai cyson felly, er enghraifft gofal iechyd deintyddol. Fodd bynnag, mae pobl o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o nodi bod eu hiechyd yn waeth ac o nodi profiadau gwaeth o ddefnyddio gwasanaethau iechyd na'u cymheiriaid gwyn.
- Mewn perthynas â chlefyd cardiofasgwlaidd:
 - mae digwyddedd, cyffredinrwydd a marwolaethau o glefyd cardiofasgwlaidd yn uwch mewn grwpiau De Asiaidd o'u cymharu â'r grŵp gwyn neu'r cyfartaledd cenedlaethol,

¹³⁵ Cronfa'r Brenin, 2023 - [The health of people from ethnic minority groups in England](#)

- o mae gan grwpiau De Asiaidd y gyfradd marwolaethau uchaf o glefyd y galon ac maent hefyd yn datblygu clefyd y galon yn iau, ac
 - o mae digwyddedd a marwolaethau strôc hefyd yn uwch ym mhoblogaeth De Asia.
- Mwy o glystyru mewn pobl o Dde Asia o'r ffactorau risg sy'n cynyddu risg clefyd y galon, strôc a diabetes:
 - o er bod lefelau mynegai màs y corff yn is ymhlith grwpiau De Asiaidd o gymharu â'r ystodau arferol, mae cyfraddau braster abdomenol gormodol ac ymwrthedd i inswlin yn uwch, ac
 - o mae cyffredinrwydd ysmegu yn is ymhlith grwpiau De Asiaidd; fodd bynnag, mae ganddynt gyfraddau gweithgarwch corfforol is, yn enwedig ymhlith menywod.
- Mae gan grwpiau du yn y DU risg sylweddol is o glefyd y galon o'u cymharu â mwyafrif y boblogaeth, er bod gorbwysedd a diabetes (ffactorau risg ar gyfer clefyd y galon a strôc) yn fwy cyffredin yn eu plith.
- Mae risg datblygu diabetes hyd at chwe gwaith yn uwch mewn grwpiau De Asiaidd nag mewn grwpiau gwyn, ac mae ganddynt gyfradd marwolaethau uwch o ddiabetes.
- Mae cyffredinrwydd diabetes mewn grwpiau Duon hyd at dair gwaith yn uwch nag yn y boblogaeth wyn ac mae ganddynt gyfradd marwolaeth uwch o ddiabetes. Mae ganddyn nhw hefyd risg uwch o orbwysedd a strôc ond, yn wahanol i bobl De Asia, maen nhw'n llai tueddol o gael clefyd y galon.
- Mae digwyddedd canser yn gyffredinol yn is ymhlith grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn Lloegr nag mewn grwpiau gwyn. Mae gan grwpiau Asiaidd, Tsieineaidd a Chymysg risg sylweddol is (o 20–60%) o gael canser na'r grŵp gwyn ac mae cyfraddau ysmegu yn gyffredinol is yn y grwpiau hyn. Mae digwyddedd canser hefyd yn is ymhlith menywod Du o'u cymharu â menywod gwyn ond yn debyg mewn dynion Du a gwyn.

4.5 Crefydd a chred¹³⁶

Gall credoau am iechyd, salwch a gofal iechyd amrywio rhwng crefyddau a diwylliannau ac o fewn unrhyw grŵp crefyddol neu ddiwylliannol penodol. Gall cred grefyddol effeithio ar dderbynioldeb agweddau ar ofal meddygol, er enghraifft gweithdrefnau diagnostig a rhai mathau o driniaeth, ac effaith bosibl arferion crefyddol ar gynlluniau triniaeth ac iechyd fel cyfnodau o ymptydio.

Ni ddylid byth gymryd yn ganiataol y bydd unigolyn sy'n perthyn i grŵp crefyddol penodol o reidrwydd yn cydymffurfio â holl safbwyntiau ac arferion y grŵp hwnnw nac yn eu dilyn yn llwyr. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar ymatebion claf unigol i sefyllfa glinigol benodol, gan gynnwys i ba gangen o grefydd neu gred benodol y mae'n perthyn, a pha mor gryf yw ei greddau crefyddol (er enghraifft, uniongred neu ddiwygiedig, cymedrol, neu ffundamentalydd). Am y rheswm hwn, dylid trin pob person fel unigolyn.

Mae credoau a defodau ynghylch beichiogrwydd a genedigaeth, 'dod i oed', mislif, priodas a marwolaeth yn amrywio'n helaeth rhwng crefyddau a diwylliannau, a gallant i gyd effeithio ar iechyd ac ymddygiadau ceisio iechyd.

¹³⁶ Llywodraeth y DU - [Culture, spirituality and religion: migrant health guide](#)

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn gysylltiedig â ffactorau diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol o fewn teuluoedd a chymunedau er nad oes cysylltiad uniongyrchol ag unrhyw grefydd na ffydd. Mae'n arfer anghyfreithlon sy'n codi pryderon difrifol sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Mae 'trais ar sail anrhydedd', sef math o drais domestig sy'n cael ei ysgogi gan syniad anrhydedd, yn digwydd yn y cymunedau hynny lle mae cysyniad anrhydedd yn gysylltiedig ag ymddygiadau disgwylidiedig teuluoedd ac unigolion.

Mae posibilrwydd troseddau casineb sy'n gysylltiedig â chrefydd a chred.

4.6 Rhyw

- Y disgwyliad oes cyfartalog adeg geni ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw 81.1 mlynedd, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 80.4 mlynedd. Pan edrychwn ar y rhaniadau rhywedd ar draws y rhanbarth, y disgwyliad oes cyfartalog adeg geni yw 82.9 mlynedd i fenywod a 78.6 mlynedd i wrywod, sef gwahaniaeth o 4.3 mlynedd rhwng y rhywiau¹³⁷.
- Mae dynion yn tueddu i ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn llai na menywod a chyflwyno eu hunain gyda chlefydau yn hwyrach na menywod. Roedd ymchwil defnyddwyr gan Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lloegr¹³⁸ i ddefnyddio fferyllfeydd yn 2009 yn dangos bod dynion 16 i 55 oed yn tueddu i 'osgoi' h.y. maent yn osgoi mynd i fferyllfeydd, yn teimlo'n anghyfforddus yn amgylchedd y fferyllfa fel y mae ar hyn o bryd oherwydd canfyddiadau o'r amgylchedd fel un benywaidd/ar gyfer pobl hŷn/heb breifatrwydd a bod gwasanaeth cwsmeriaid yn anghynnwl. Dangosodd canlyniadau o'r holiadur cleifion a'r cyhoedd fod 64.5% o'r ymatebwyr yn fenywod a 32.1% yn wrywod.
- Mae dynion yn fwy tebygol o farw o glefyd coronaidd y galon yn gynamserol ac maent hefyd yn fwy tebygol o farw yn ystod digwyddiad cardiaidd sydyn. Yn gyffredinol, mae risg menywod o glefyd cardiofasgwlaidd yn cynyddu'n ddiweddarach mewn bywyd ac mae menywod yn fwy tebygol o farw o strôc.
- Yn seiliedig ar ystadegau gordewdra gan Lywodraeth Cymru¹³⁹ adroddwyd bod 25% o ddynion a 27% o fenywod yn ordew yn 2022/23, gyda 65% o ddynion a 57% o fenywod yn cael eu hystyried naill ai dros bwysau neu'n ordew. Roedd cyfraddau gordewdra ar eu huchaf yn y grŵp oedran 45-64 (31%) ac ar eu hisaf yn y grwpiau oedran 16-24 a thros 75 (19% a 17% yn y drefn honno).
- Mae menywod yn fwy tebygol o roi gwybod am iselder a gorbryder, ymgynghori yn eu cylch a chael diagnosis ohonynt. Mae'n bosibl nad yw iselder a gorbryder yn cael eu diagnosis'n ddigonol ymysg dynion. Mae hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion, a phob math o gamddefnyddio sylweddau.
- Yn ôl diweddariad modelu 2025 Llywodraeth Cymru ar yfed alcohol¹⁴⁰ mae 23% o yfyrwyr sy'n oedolion yng Nghymru yn yfed mwy na chanllawiau wythnosol risg isel y DU. Mae'r grŵp hwn yn yfed 70% o'r holl alcohol a werthir yng Nghymru,

¹³⁷ StatsCymru - [Disgwyliad oes a disgwyliad oes iach adeg geni yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol ac Awdurdod Lleol](#)

¹³⁸ Pharmacy consumer research - [Pharmacy usage and communications mapping – Executive summary. Mehefin 2009](#)

¹³⁹ Chemist4u - [Obesity Statistics Report 2025](#)

¹⁴⁰ Llywodraeth Cymru - [Modelu newydd o bolisiau prisiau alcohol, yfed alcohol a niwed yng Nghymru](#)

gan dynnu sylw at grynodiad o yfed ymhlith yfwyr trymach. Mae anhwylderau alcohol ddwywaith mor gyffredin ymhlith dynion, er bod goryfed mewn pyliau yn cynyddu'n gyflymach ymhlith menywod ifanc. Ymhlith pobl hŷn, mae'r bwlch rhwng dynion a menywod yn llai amlwg.

- Mae afiachedd a marwolaethau yn gyson uwch ymhlith dynion ar gyfer bron pob cancer nad yw'n benodol i ryw. Ar yr un pryd, mae cyfraddau afiachedd a marwolaethau cancer yn lleihau'n gyflymach i ddynion na menywod¹⁴¹.

4.7 Cyfeiriadedd rhywiol

Amlygodd adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad LHDT yn 2023¹⁴² ystadegau allweddol y mae'n credu eu bod yn dangos ar ei chlirfa effaith ddilyniannol ac arwyddocaol profiadau o anghydraddoldeb drwy gydol oes.

- Yn 2017, crybwylodd 21% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol y buont yn destun trosedd casineb homoffobig, deuffobig neu drawsffobig yn y 12 mis blaenorol, gyda hyn yn codi i 41% ar gyfer pobl draws.
- Mae 23% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ar un adeg wedi tystio i sylwadau yn erbyn pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol gan staff gofal iechyd.
- Yn 2017, nododd un o bob chwech o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu bod wedi yfed bron bob dydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; mae hyn yn cymharu ag un o bob deg oedolyn yn y boblogaeth gyffredinol sy'n nodi eu bod wedi yfed alcohol bum niwrnod neu fwy yr wythnos.
- Mae 45% o bobl ifanc draws (11-19 oed) a 22% o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol wedi ceisio cymryd eu bywyd eu hunain. Ymhlith y boblogaeth gyffredinol mae'r GIG yn amcangyfrif bod y ffigur hwn yn 13% ar gyfer merched a 5% ar gyfer bechgyn 16-24 oed.
- Mae 24% o bobl ddigartref rhwng 16 a 24 oed yn lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ac mae 69% o'r bobl hyn yn credu bod cael eu gwrthod gan eu rhieni yn ffactor pwysig wrth ddod yn ddigartref.
- Dywedodd 42.8% o fenywod lesbiaidd, deurywiol a thrawsrywiol y buont yn destun trais rhywiol o'u cymharu â thuag 20% o'r holl fenywod yn y DU.
- Nid oedd 55% o ddynion hoyw, deurywiol a thraws yn ddigon egnïol i gynnal iechyd da, o'u cymharu â 33% o ddynion yn y boblogaeth gyffredinol.
- Yn 2017, nododd 52% o bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol eu bod wedi cael iselder yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys 67% o bobl draws a 70% o bobl anneuaidd.
- Yn 2017, nododd 40% o bobl draws a oedd wedi cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd cyhoeddus neu wedi ceisio cael mynediad atynt eu bod wedi cael o leiaf un profiad negyddol oherwydd eu hunaniaeth rhywedd yn y 12 mis blaenorol.
- Mae 93% o arbenigwyr a defnyddwyr gwasanaethau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn ystyried bod angen gwneud mwy o waith i wella gwasanaethau diwedd oes i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.
- Mae pobl LHD+ 2.2 gwaith yn fwy tebygol o hunan-niweidio neu geisio lladd eu hunain na phobl heterorywiol.

¹⁴¹ Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol "[The Gender and Access to Health Services Study](#)" 2008

¹⁴² Sefydliad LHDT - [Hidden Figures: LGBT Health Inequalities in the UK](#)

- Mae dynion hoyw a deurywiol 2.5 gwaith yn fwy tebygol o geisio lladd eu hunain.
- Mae bron i un o bob pump (18.6%) o bobl ifanc lesbiaidd, hoyw a deurywiol (16–24 oed) wedi ceisio lladd eu hunain¹⁴³.

4.8 Ailbennu rhywedd¹⁴⁴

Mae ailbennu rhywedd yn cyfeirio at unigolion sydd naill ai:

- wedi cael, yn bwriadu cael neu wrthi'n cael triniaeth ailbennu rhywedd (triniaeth feddygol a llawfeddygol i newid y corff), neu
- ddim yn bwriadu cael triniaeth feddygol ond yn dymuno byw'n barhaol mewn rhyw gwahanol i'w rhyw adeg eu geni.

Mae 'pontio' yn cyfeirio at y broses a/neu'r cyfnod o amser y mae ailbennu rhywedd yn digwydd ynddo (gydag ymyriad meddygol neu hebddo). Yn ôl y Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhywedd mae nifer o faterion iechyd a llesiant yn gysylltiedig ag ailbennu rhywedd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Mae cyffuriau ac alcohol yn cael eu prosesu gan yr afu yn ogystal â hormonau traws-ryw. Gall defnydd trwm o alcohol a/neu gyffuriau wrth gymryd hormonau gynyddu'r risg o wenwyndra'r afu a niwed i'r afu.
- Gall alcohol, cyffuriau a thybaco a defnyddio therapi hormonau i gyd gynyddu'r risg cardiofasgwlaidd. Gyda'i gilydd, gallant hefyd gynyddu'r risg sydd eisoes yn gysylltiedig â therapi hormonau.
- Gall ysmygu effeithio ar lefelau estrogen, gan gynyddu risg osteoporosis a lleihau effeithiau benywaidd meddyginiaeth estrogen.
- Mae pobl drawsryweddol yn wynebu nifer o rwystrau a all eu hatal rhag ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer o bobl drawsryweddol yn cael trafferth gyda'u delwedd o'r corff ac o ganlyniad gallant fod yn amharod i gymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol.
- Dysfforia rhywedd yw'r term meddygol a ddefnyddir i ddisgrifio'r anghysur hwn.
- Mae pobl drawsryweddol yn debygol o ddioddef o salwch meddwl mewn ymateb i'r anghysur maen nhw'n ei deimlo. Caiff hyn ei sbarduno'n bennaf gan ymdeimlad o wahaniaeth a pheidio â chael eu derbyn gan gymdeithas. Os yw person trawsryweddol yn dymuno pontio a byw yn y rôl rhywedd y mae'n uniaethu â hi, efallai y bydd hefyd yn poeni am niweidio ei berthnasoedd, colli ei swydd, dioddef troseddau casineb a bod yn destun gwahaniaethu. Gall ofn rhagfarn a gwahaniaethu o'r fath, a all fod yn real neu'n ddychmygol, achosi gofid seicolegol sylweddol. Caiff hyn ei sbarduno'n bennaf gan ymdeimlad o wahaniaeth a pheidio â chael eu derbyn gan gymdeithas.
- Os yw person trawsryweddol yn dymuno pontio a byw yn y rôl rhywedd y mae'n uniaethu â hi, efallai y bydd hefyd yn poeni am niweidio ei berthnasoedd, colli ei swydd, dioddef troseddau casineb a bod yn destun gwahaniaethu. Gall ofn rhagfarn a gwahaniaethu o'r fath, a all fod yn real neu'n ddychmygol, achosi gofid seicolegol sylweddol.

¹⁴³ Data ledled y DU o ddata'r ONS a adroddwyd [ONS Data: LGB+ Community Facing Higher Mental Health Risks | LGBT HERO](#)

¹⁴⁴ Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhywedd. O: [Taflenni Ffeithiau Iechyd Traws](#)

4.9 Priodas a phartneriaeth sifil

Nid oes unrhyw anghenion iechyd penodol sy'n unigryw i'r boblogaeth hon.

4.10 Myfyrwyr prifysgol¹⁴⁵

I lawer o fyfyrwyr prifysgol, hwn fydd y tro cyntaf iddyn nhw symud oddi cartref i fyw'n annibynnol. Mae'n gyfnod o drawsnewid, a gall heriau bywyd y brifysgol effeithio ar ofal iechyd. Ymhlith yr anghenion iechyd¹⁴⁶ a nodwyd mae:

- sgrinio am glefydau a drosglwyddir yn rhywiol a'u trin,
- rhoi'r gorau i ysmegu,
- brechu rhag llid yr ymennydd,
- cymorth camddefnyddio alcohol a sylweddau,
- atal cenhedlu, gan gynnwys dulliau atal cenhedlu hormonaidd brys,
- cymorth iechyd meddwl (mae straen, gorbryder ac iselder yn gyffredin oherwydd pwysau academiaidd a phroblemau personol),
- cefnogaeth llesiant cymdeithasol (teimlo wedi'u cysylltu a'u cefnogi o fewn cymuned y brifysgol). Gall unigrwydd ac arwahanrwydd effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl a chorfforol fel ei gilydd), a
- phryderon iechyd corfforol (maeth gwael, diffyg ymarfer corff, ac anhwylderau cysgu).

Roedd astudiaeth yn y DU a gynhaliwyd gan Transforming Access and Student Outcomes in Higher Education a The Policy Institute Kings College Llundain yn archwilio addysg uwch ym Mhrydain yn 2024¹⁴⁷, ac fe ganfu fel a ganlyn.

- Crybwyllodd bron i un rhan o bump (18%) o fyfyrwyr broblem iechyd meddwl yn 2024, sef dair gwaith y gyfradd yn 2017, pan oedd yn 6%.
- Crybwyllodd 17.9% o fyfyrwyr heriau iechyd meddwl, sy'n dangos bod bron i un o bob pump o fyfyrwyr bellach yn cael anawsterau iechyd meddwl.
- Gorbryder ac iselder o hyd yw'r prif heriau iechyd meddwl ymhlith myfyrwyr, yn gysylltiedig â:
 - phwysau costau byw,
 - straen academiaidd,
 - effeithiau ôl-bandemig, ac
 - ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.
- Mae anawsterau iechyd meddwl yn uwch ymhlith pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, cwiar a pherthynol. Yn 2024, myfyrwyr deurywiol oedd â'r gyfradd uchaf (30%), ac yna myfyrwyr lesbaidd (29%).
- Mae mwy na hanner y myfyrwyr anneuaidd a myfyrwyr sy'n uniaethu fel rhai cwiar bellach yn cael anawsterau iechyd meddwl.
- Mae myfyrwyr benywaidd ddwywaith yn fwy tebygol o grybwyll anawsterau iechyd meddwl (22%) o'u cymharu â myfyrwyr gwrywaidd (11%); mae'r bwlch wedi cynyddu ers 2023.

¹⁴⁵ Unite Students - [The New Realists Unite Students Insight Report 2019](#)

¹⁴⁶ Education - [Health and Wellbeing Services for Students in UK Universities](#)

¹⁴⁷ Transforming Access and Students outcomes in Higher Education - [Report Student mental health in 2024: How the situation is changing for LGBTQ+ students](#)

- Mae marwolaeth trwy hunanladdiad yn fwy cyffredin ymhlith dynion ifanc na menywod ifanc, sy'n awgrymu bod angen aciwt iawn am gymorth ymhlith myfyrwyr gwrywaidd.
- Gofynnwyd i 40,810 o fyfyrwyr a oeddent wedi ystyried rhoi'r gorau i'r brifysgol, ac roedd 11,424 (27.9%) o fyfyrwyr wedi ystyried hyn a'r rheswm mwyaf cyffredin oedd anawsterau iechyd meddwl. Roedd y rheswm hwn yn llawer mwy na'r holl resymau eraill, gan gynnwys anawsterau ariannol.
- Dangosodd data 2024 fod cyfran y myfyrwyr a oedd wedi ystyried rhoi'r gorau iddi wedi gostwng ar ôl blynyddoedd blaenorol o gyfraddau cymharol gyson.

4.11 Troseddwyr a phlant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r System Cyfiawnder Ieuencid

Nododd asesiad anghenion iechyd CEF Caerdydd nifer o faterion allweddol ymhlith carcharorion. Mae'r rhai sy'n ymwneud yn benodol ag angen sy'n effeithio ar y gymuned neu angen y mae'r gymuned yn effeithio arno, yn cynnwys:

- camddefnyddio sylweddau,
- iechyd meddwl, ac
- iechyd rhywiol.

Gall plant a phobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid fod â mwy o anghenion iechyd a lles na phlant eraill o'u hoedran. Yn aml, nid yw'r anghenion hyn wedi cael sylw cynnar. Yn aml, maent yn wynebu amrywiaeth o anawsterau eraill, sydd yn aml yn ddwfn, gan gynnwys gwahardd o'r ysgol, perthnasoedd teuluol darniog, profedigaeth, amodau byw ansefydlog, a rhianta gwael neu niweidiol a allai fod yn gysylltiedig â thlodi, camddefnyddio sylweddau a phroblemau iechyd meddwl ar ran y rhieni.

Efallai bod llawer o'r plant a'r bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuencid hefyd yn hysbys i ofal cymdeithasol plant ac ymhlith y plant a'r bobl ifanc hynny nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

Ar 28 Ionawr 2021, cyhoeddodd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ail gyfres o ystadegau arbrofol ar gyfer 2019/2020¹⁴⁸, (cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf ar ystadegau arbrofol o anghenion asedig plant a ddedfrydwyd yn y System Cyfiawnder Ieuencid yng Nghymru a Lloegr ar 28 Mai 2020) a dangosodd fod nifer y pryderon a oedd gan bob plentyn wedi cynyddu gyda difrifoldeb y math o ddedfryd a gafwyd. Ar gyfer pump o'r 19 pryder, aseswyd bod gan 71% o blant bryder yn bresennol. Y rhain oedd:

- diogelwch a llesiant (90%)
- risg i eraill (87%)
- camddefnyddio sylweddau (76%)
- iechyd meddwl (72%)
- lleferydd, iaith a chyfathrebu (71%)

¹⁴⁸ Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid - [Assessing the needs of sentenced children in the Youth Justice System 2019/20 England and Wales \(2021\)](#)

Ar ben hynny, aseswyd bod dros hanner (57%) y plant yn 'blentyn mewn angen' cyfredol neu flaenorol; ystyriwyd bod gan 1% statws cyfredol a bod gan oddeutu 38% statws blaenorol. Aseswyd bod gan bron i draean (32%) sgôr risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, a bod gan bron i hanner (46%) â sgôr diogelwch a llesiant uchel neu uchel iawn.

I blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd mewn cysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, mae llesiant yn ymwneud â chryfhau'r ffactorau amddiffynnol yn eu bywyd a gwella eu gwydnwch i'r ffactorau risg a'r rhwystrau sy'n ymddangos mor helaeth ac sy'n debygol o gael effaith andwyol barhaus ar eu datblygiad hirdymor. Mae llesiant hefyd yn ymwneud â phlant yn teimlo'n ddiogel ynglŷn â'u hunaniaeth bersonol a'u diwylliant. Dylai sylw priodol i'w hanghenion iechyd a llesiant helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd a lleihau risg aildroseddu gan bobl ifanc.

4.12 Pobl ddigartref a phobl sy'n cysgu allan

Mae cysgu allan yn beryglus ac yn niweidiol iawn i iechyd corfforol a meddyliol person. Canfu ymchwil gan elusen ddigartrefedd Crisis¹⁴⁹ fod pobl sy'n cysgu allan 17 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef trais na'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae mwy nag un o bob tri o bobl sy'n cysgu allan wedi cael eu taro neu eu cicio'n fwriadol neu wedi dioddef rhyw fath arall o drais tra'n ddigartref. Mae pobl ddigartref dros naw gwaith yn fwy tebygol o gymryd eu bywyd eu hunain na'r boblogaeth gyffredinol.

Disgwyliad oes cyfartalog rhywun sy'n cysgu allan yng Nghymru yw 45 mlynedd i ddynion a 43 mlynedd i fenywod o hyd, ac nid yw wedi gwella ers y 1990au. Mae hyn yn cymharu â disgwyliad oes cyfartalog y boblogaeth gyffredinol sef 77.9 i ddynion ac 81.8 i fenywod. Mae cyfanswm y bobl sydd wedi marw tra roeddent yn ddigartref ledled y DU wedi cynyddu 9% gyda phedair marwolaeth bob dydd ar gyfartaledd. Bu farw 90 o bobl tra'n ddigartref yng Nghymru yn 2024 gyda chynnydd amlwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gellir dosbarthu mwyafrif y marwolaethau digartrefedd (55%) yn 'farwolaeth anobaith' bellach gyda mwy o farwolaethau trwy hunanladdiad yn cael eu crybwyll a thystiolaeth o gyfradd uwch o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau. Mae problemau sylweddol gyda sylweddau seicoweithredol fel sbeis ac opioidau synthetig¹⁵⁰.

Cyhoeddir bellach gyfrif misol o'r rhai sy'n cysgu allan gan Lywodraeth Cymru¹⁵¹. Dengys data diweddar fod gan Gaerdydd 153 o bobl yn cysgu allan ar gyfartaledd rhwng mis Chwefror a mis Gorffennaf 2025, gan grybwyll 32 o bobl yn cysgu allan fel y nifer uchaf mewn un mis. Ni nodwyd unrhyw bobl yn cysgu allan ym Mro Morgannwg dros yr un cyfnod.

¹⁴⁹ Crisis, Sanders, B. ac Albanese, F. - ["It's no life at all" - Rough sleepers' experiences of violence and abuse on the streets of England and Wales \(2016\)](#)

¹⁵⁰ Yr Amgueddfa Ddigartrefedd – [The Wallich homeless deaths \(2025\)](#)

¹⁵¹ StatsCymru - [Pobl sy'n cysgu ar y stryd yn ôl ardal awdurdod lleol](#)

Yn ôl adroddiad gan Centrepoin¹⁵², mae pobl ifanc ddigartref ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol yn y gymdeithas. Dangosodd ymchwil flaenorol fod gan lawer broblemau cymhleth gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a chorfforol, a'u bod wedi dioddef cam-drin neu ddigwyddiadau trawmatig.

Roedd prif ganfyddiadau adroddiad gan Homeless Link yn 2022¹⁵³ fel a ganlyn.

- Mae pobl ddigartref yn dioddef o iechyd corfforol a meddyliol gwaeth na'r boblogaeth gyffredinol.
- Rhwng 2018 a 2021, dywedodd 63% o'r ymatebwyr fod ganddynt salwch, anabledd, neu eiddilwch hirdymor (22% yn y boblogaeth gyffredinol).
- Nododd 80% o'r rhai â chyflwr iechyd corfforol fod ganddynt o leiaf un cydafiachedd, gyda 29% wedi cael rhwng pump a deg diagnosis.
- Y cyflwr a grybwyllwyd amlaf oedd poenau/problemau cymalau gydag esgryn a chyhyrau, ac yna problemau deintyddol/dannedd.
- Mae nifer y bobl sydd â diagnosis iechyd meddwl wedi cynyddu'n sylweddol o 45% yn 2014 i 82% yng nghanol 2018 – 2021, o'u cymharu â 12% yn y boblogaeth gyffredinol.
- Nododd 81% o'r rhai â chyflwr iechyd meddwl fod arnynt o leiaf ddau gyflwr iechyd meddwl, gyda 17% yn nodi pump neu ragor.
- Dywedodd 45% o'r ymatebwyr eu bod yn hunanfeddyginiaethu â chyffuriau neu alcohol i'w helpu i ymdopi â'u hiechyd meddwl.
- Mae rhwystrau rhag cael y cymorth sydd ei angen ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol yn golygu bod pobl sy'n ddigartref yn rhy ddibynnol ar wasanaethau gofal iechyd brys, gyda 48% o'r ymatebwyr wedi defnyddio gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys yn y flwyddyn ddiwethaf, sef teirgwaith yn fwy na'r boblogaeth gyffredinol.
- Rhwng 2018 a 2021 roedd cyfanswm o 38% o'r ymatebwyr wedi cael eu derbyn i'r ysbyty yn y 12 mis cyn cymryd rhan mewn archwiliad anghenion iechyd digartref. Roedd y rheswm mwyaf cyffredin dros dderbyn i'r ysbyty yn gysylltiedig â chyflwr iechyd corfforol (37%), ac roedd 28% yn gysylltiedig â chyflwr iechyd meddwl neu hunan-niweidio neu ymgais i gyflawni hunanladdiad.
- O'r rhai a oedd wedi'u derbyn i'r ysbyty, cafodd bron i chwarter (24%) eu rhyddhau i'r strydoedd.
- Roedd 54% o'r ymatebwyr wedi defnyddio cyffuriau yn y 12 mis cyn cymryd rhan mewn asesiad anghenion iechyd digartref. Dywedodd 38% fod ganddyn nhw broblem cyffuriau, neu eu bod nhw'n gwella ohoni.
- Roedd 20% yn mynd y tu hwnt i'r canllawiau yfed risg isel yn rheolaidd (o'u cymharu â 24% yn y boblogaeth gyffredinol) a dywedodd 29% fod ganddynt broblem alcohol, neu eu bod yn gwella ohoni.
- Dywedodd 76% o'r ymatebwyr eu bod yn ysmygu sigarêts, sigârs, neu bibell (13.8% yn y boblogaeth gyffredinol). O'r rhain, byddai 50% yn hoffi rhoi'r gorau iddi.
- Mae maeth yn her fawr gyda thraean o'r ymatebwyr yn nodi eu bod, ar gyfartaledd, yn bwyta un pryd bwyd y dydd yn unig. Roedd 66% yn bwyta un

¹⁵² Centrepoin - [Toxic Mix: The health needs of homeless young people](#)

¹⁵³ Homeless Link - [The unhealthy state of homelessness 2022: Findings from the homeless health needs audit](#)

dogn neu lai o ffrwythau neu lysiau y dydd, a dim ond 4% yn bwyta'r pum dogn neu fwy a argymhellir.

Datgela astudiaeth Groundswell, Healthy Mouths¹⁵⁴, fod pobl ddigartref yn dioddef iechyd y geg gwael iawn o'u cymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

- Mae 90% wedi cael problemau gyda'u ceg ers dod yn ddigartref. Yn arbennig o gyffredin oedd deintgig yn gwaedu (56%), tyllau yn y dannedd (46%) a chrawniadau deintyddol (26%).
- Roedd llawer o gyfranogwyr wedi cael poen deintyddol sylweddol. Roedd 60% wedi cael poen o'u cegau ers iddyn nhw fod yn ddigartref. Roedd 30% yn cael poen deintyddol ar hyn o bryd.
- Nododd 70% eu bod wedi colli dannedd ers iddynt fod yn ddigartref ac nid oedd gan 7% unrhyw ddannedd o gwbl. Cafodd 35% eu dannedd eu tynnu gan weithiwr meddygol proffesiynol, collodd 17% ddannedd yn dilyn gweithredoedd o drais a thynnodd 15% o gyfranogwyr eu dannedd eu hunain.

Nododd yr astudiaeth rai ffactorau allweddol sy'n sail i iechyd y geg gwael ymhlith pobl ddigartref.

- Mae diet y cyfranogwyr yn niweidiol i iechyd y geg – roedd diffyg bwyd iach ar gael ac angen am ffynhonnell egni yn golygu bod lefelau uchel o siwgr yn cael eu bwyta.
- Roedd cyfraddau uchel o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol ac ysmegu tybaco yn debygol o fod yn niweidio iechyd y geg. Roedd gan 37% problemau camddefnyddio alcohol, roedd gan 33% problemau camddefnyddio cyffuriau ac roedd 78% yn ysmygwyr ar hyn o bryd.
- Roedd iechyd meddwl gwael yn gyffredin, a hynny'n cael effaith sylweddol ar eu gallu i ofalu amdany'n nhw eu hunain a cheisio triniaeth.
- Er bod y cyfranogwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall pwysigrwydd gofalu am iechyd eu ceg yn fawr, roedd digartrefedd yn effeithio ar eu gallu i wneud hynny.
- Roedd cyfraddau glanhau dannedd yn sylweddol is na'r lefelau gofynnol a gynghorir – roedd 35% yn glanhau eu dannedd ddwywaith neu fwy y dydd o'u cymharu â 75% o'r boblogaeth gyffredinol. Roedd 29% yn glanhau eu dannedd lai nag unwaith y dydd neu byth.
- Defnyddiwyd alcohol a chyffuriau yn gyffredin mewn ymgais i reoli problemau iechyd y geg. Roedd 27% o'r cyfranogwyr wedi defnyddio alcohol i'w helpu i ymdopi â phoen deintyddol ac roedd 28% wedi defnyddio cyffuriau.

4.13 Cymunedau teithwyr a sipsiwn¹⁵⁵

Mae Sipsiwn a Theithwyr ymhlith y poblogaethau ethnig lleiafrifol hynaf yn y DU. Caiff Sipsiwn Romani a Theithwyr Gwyddelig eu cydnabod yn grwpiau hiliol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Yng Nghyfrifiad 2021, nododd 3,630 o bobl eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig yng Nghymru, sy'n cynrychioli 5.1% o gyfanswm y

¹⁵⁴ Groundswell - [Healthy Mouths](#), 2017

¹⁵⁵ Llywodraeth Cymru - [Teithio i Iechyd Gwell - Canllawiau ar Weithredu'r Polisi i Ymarferwyr Gofal Iechyd ar weithio'n effeithiol gyda Sipsiwn a Theithwyr \(2015\)](#)

boblogaeth Sipsiwn/Theithwyr Gwyddelig ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn tua 0.12% o boblogaeth Cymru ac yn gynnydd o 845 o bobl ers Cyfrifiad 2011¹⁵⁶.

Yng Nghymru, mae gan Sipsiwn a Theithwyr hawl i gael triniaeth gan feddyg teulu fel preswlydd parhaol neu dros dro. Dangosodd astudiaethau fod Sipsiwn a Theithwyr yn wynebu heriau wrth gael at wasanaethau, a allai fod oherwydd:

- natur dros dro bod yn yr ardal,
- lleoliad safleoedd,
- trafndiaeth – yn enwedig yn gysylltiedig â menywod sy'n aml yn methu gyrru, a
- lefelau isel o lythrennedd iechyd o ran pa wasanaethau y mae ganddynt hawl i'w defnyddio neu sut i gael atynt.

Mae cymunedau Sipsiwn Romani, Roma a Theithwyr Gwyddelig yn wynebu rhai o'r anghydraddoldebau mwyaf difrifol o ran cael gafael ar ofal iechyd a chanlyniadau ymhlith poblogaeth y DU, gan gynnwys o'u cymharu â grwpiau ethnig lleiafrifol eraill. Mae'r rhesymau dros y canlyniadau iechyd gwael hyn yn gymhleth, ond maent yn cynnwys effaith gwahaniaethu a stigmatiddio, natur gymhleth systemau iechyd ac effeithiau penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd.

Mae bod yn Sipsiwn, Roma neu Deithiwr fel arfer yn rhan bwysig o hunaniaeth rhywun. Mae credoau diwylliannol yn cynnwys ystyried y dylai problemau iechyd gael sylw gan aelodau'r aelwyd neu eu cadw o fewn yr uned deuluol estynedig. Mae yna hefyd raniad cryf rhwng y rhywiau yn niwylliant y Sipsiwn a Theithwyr a gwerth preifatrwydd.

Roedd cyflwyniad i iechyd a lles yn Doncaster ym mis Tachwedd 2023¹⁵⁷ yn amlygu'r ffeithiau canlynol.

- Bydd pobl Sipsiwn a Theithwyr yn byw rhwng deg a 25 mlynedd yn llai na'r boblogaeth gyffredinol.
- Mae iechyd cyfartalog pobl 60 oed o gymunedau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn debyg i iechyd person gwyn Prydeinig 80 oed ar gyfartaledd.
- Mae dynion Sipsiwn, Roma a Theithwyr dros 12 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef mwy na dau gyflwr iechyd corfforol na dynion gwyn Prydeinig.
- Pobl Roma oedd â'r risg uchaf o beidio â gallu cael at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae mamau Sipsiwn a Theithwyr 20 gwaith yn fwy tebygol o brofi marwolaeth plentyn.
- Mae 29% o rieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn debygol o gael un neu fwy o gamesgoriadau (o'u cymharu â 16% yn y grŵp nad ydynt yn deithwyr a arolygwyd).
- Mae mamau Roma yn destun cyfraddau uwch o ganlyniadau gwael i fabanod, fel geni cyn amser a phwysau geni isel.

¹⁵⁶ Cyfrifiad 2021 [Poblogaethau Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig, Cymru a Lloegr - y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

¹⁵⁷ Cyfarfod Bwrdd Iechyd a Llesiant Doncaster (Eitem 11) - [Anghydraddoldebau iechyd – ffocws ar gymunedau Teithwyr Roma a Sipsiwn](#)

- Er bod y dystiolaeth ar iechyd meddwl a hunanladdiad yn gyfyngedig, oherwydd casglu data gwael, mae'n dangos:
 - lefelau uchel o angen heb ei ddiwallu,
 - bod pobl yn y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr dair gwaith yn fwy tebygol o fod yn bryderus a dwywaith yn fwy tebygol o ddioddef o iselder
 - bod iechyd meddwl yn bwnc tabŵ,
 - bod dynion yn fwy tebygol o “estyn am y rhaff” na siarad, a
 - bod dynion sy'n Deithwyr Gwyddelig saith gwaith yn fwy tebygol o farw trwy hunanladdiad, a menywod chwe gwaith yn fwy tebygol.
- Mae'r heriau a wynebir wrth gael at iechyd a gofal yn cynnwys:
 - troseddau casineb, ymyleiddio, gwahaniaethu,
 - credoau diwylliannol,
 - llythrennedd isel neu ddim llythrennedd o gwbl,
 - Saesneg heb fod yn iaith gyntaf,
 - allgáu digidol,
 - diffyg addysg,
 - tlodi,
 - trafnidiaeth, a
 - rhagfarn ddarwybod/agwedd staff.
- Datgelodd yr Arolwg Cenedlaethol Tystiolaeth dros Gydraddoldeb¹⁵⁸ yn 2023 fod mwy na thraean o bobl o grwpiau lleiafrifol ethnig a chrefyddol wedi dioddef rhyw fath o ymosodiad hiliol. Yr arolwg oedd â'r nifer fwyaf o gyfranogwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn unrhyw arolwg cenedlaethol hyd yma a datgelodd:
 - Roedd 62% o Sipsiwn a Theithwyr wedi dioddef cam-drin hiliol, sef yr uchaf o'r holl grwpiau ethnig lleiafrifol a arolygwyd,
 - Roedd 47% o bobl Roma wedi dioddef ymosodiad hiliol, ac
 - Roedd 37% o bobl Roma wedi dioddef ymosodiad corfforol.
- Mae effeithiau eang gwahaniaethu yn cynnwys:
 - tai gwael, mynediad cyfyngedig at amwynderau,
 - Pobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n destun y lefelau uchaf o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd,
 - mae dros hanner y bobl Sipsiwn, Roma a Theithwyr heb unrhyw gymwysterau addysgol,
 - Roedd 85% o ddynion Sipsiwn neu Deithwyr a 65% o ddynion Roma mewn cyflogaeth ansicr, o'u cymharu â 19% o ddynion gwyn Prydeinig, ac
 - mae cymuned y Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cyfrif am 6% o boblogaeth y carchar.
- Mewn perthynas â phlant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr:
 - nhw yw'r rhai mwyaf agored i niwed o unrhyw grŵp yn y DU yn ystadegol,
 - Nododd 86% mai bwlio oedd eu her fwyaf yn yr ysgol,
 - maent yn gadael yr ysgol yn gynnar,
 - mae tua 50% yn absennol yn gyson,
 - ganddyn nhw mae'r cyrhaeddiad isaf o'r holl grwpiau ethnig, ac
 - maent yn ffurfio 15% o unedau hyfforddi diogel.

¹⁵⁸ Arolwg Cenedlaethol Tystiolaeth ar gyfer Cydraddoldeb, y Ganolfan ar Ddynameg Ethnigrwydd - [Racism and ethnic inequality in a time of crisis](#)

4.14 Ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr¹⁵⁹

Ceisiwr lloches yw person sydd hefyd yn ceisio amddiffyniad rhyngwladol rhag peryglon yn ei wlad gartref, ond nad yw ei hawliad am statws ffoadur wedi'i benderfynu'n gyfreithiol. Er enghraifft, mae person wedi dod i'r DU i arfer ei hawl gyfreithiol i hawlio lloches o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Statws Ffoaduriaid 1951, a elwir yn aml yn Gonfensiwn Ffoaduriaid 1951. Os yw ei gais yn llwyddiannus, rhoddir statws ffoadur i'r person.

Ffoadur yw person sydd wedi gorfod ffoi o'i gartref oherwydd rhyfel, trais neu erledigaeth, a hynny'n aml heb rybudd, ac sy'n methu â dychwelyd adref oni bai a hyd nes y bydd amodau yn ei wlad frodorol yn ddiogel iddo.

Mae mudwr yn derm ymbarél nad oes ganddo ddiffiniad cyfreithiol o dan gyfraith ryngwladol. Fel arfer mae'n disgrifio person sydd wedi gadael ei gartref, naill ai o fewn ei wlad neu ar draws ffiniau. Gall hyn fod dros dro neu'n barhaol a gall fod oherwydd amryw o resymau. Er enghraifft, efallai y bydd yn teimlo nad oes ganddo ddewis ond gadael ei gartref oherwydd aflonyddwch gwleidyddol, tlodi neu amgylchiadau difrifol eraill a allai wneud dychwelyd yn annïogel. Mae eraill yn gadael yn wirfoddol am resymau fel addysg, cyfleoedd gwaith tymhorol neu i ymuno â'u teuluoedd.

Mae Caerdydd yn ganolfan lleety cychwynnol ac yn ganolfan wasgaru ar gyfer ceiswyr lloches yn y DU. Mae nifer y dyfodiaid yn gysylltiedig â maint y boblogaeth, gyda therfyn uchaf ar waith. Mae nifer presennol y ceiswyr lloches newydd islaw'r lefel honno.

Nid yw materion mewnfudo a lloches yn bwerau datganoledig i Gymru; fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldebau dros lawer o feysydd bywyd a fydd yn effeithio ar geiswyr lloches sydd yng Nghymru, ac un ohonynt yw eu mynediad at wasanaethau iechyd.

Ceiswyr lloches yw un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth yn aml. Gall y rhain gael eu dylanwadu gan brofiadau cyn gadael eu mamwlad, yn ystod teithio, neu wrth gyrraedd y DU.

Mae gan lawer o geiswyr lloches anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth. Mae menywod beichiog, plant ar eu pen eu hunain, y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl sylweddol, a'r rhai sydd wedi cael digwyddiadau trawmatig fel trais neu artaith, yn debygol o fod yn arbennig o agored i niwed.

Gosodir ceiswyr lloches ledled Caerdydd, ond mae'r crynodiad uchaf yn Ne Caerdydd. Yng Nghaerdydd, mae llawer yn dibynnu ar wasanaeth cynhwysiant iechyd Caerdydd a'r Fro a gomisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, sy'n darparu gwasanaethau hanfodol fel archwiliadau iechyd cychwynnol, cymorth iechyd meddwl,

¹⁵⁹ Caerdydd a Bro Morgannwg - [Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022-2027](#)

a chydlynu gofal i geiswyr lloches, ffoaduriaid, a mudwyr agored i niwed eraill ynghyd â chymorth parhaus sy'n gysylltiedig â rhaglenni cenedlaethol fel Rhaglen Adsefydlu Syriaid sy'n gweithredu yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Er bod llawer o'u gofynion iechyd yr un fath â rhai'r gymuned leol, gall ceiswyr lloches hefyd gael problemau iechyd gwahanol a phroblemau cysylltiedig ag iechyd gwahanol¹⁶⁰. Gall y rhain gynnwys:

- problemau penodol sy'n deillio o'u profiadau a'u hamgylchiadau a allai fod wedi arwain at eu cais am loches e.e. dioddef neu dystio i artaith/camdriniaeth,
- heriau iechyd fel:
 - imiwneiddiadau anghyflawn
 - clefydau trosglwyddadwy fel twbercwlosis, HIV/AIDS a chlefydau eraill a drosglwyddir yn rhywiol
 - bod yn agored i niwed gan gyflyrau penodol,
- clefyd cronig,
- problemau iechyd meddwl a allai fod yn gysylltiedig â phrofiadau yn y gorffennol neu problemau sy'n bodoli eisoes ac a allai fod wedi'u gwaethygu gan amgylchiadau presennol e.e. anhwylder straen wedi trawma, ac
- iechyd deintyddol.

Ceir tystiolaeth fod unigolion sydd heb eu geni yn y DU sy'n byw yn y DU yn cael canlyniadau gwaeth o ran iechyd corfforol a meddyliol na thrigolion eraill, er bod hyn yn amrywio yn ôl hanes mudo. Mae amgylchiadau economaidd-gymdeithasol a rheoliadau mewnfudo sy'n effeithio ar rai grwpiau mudol yn cael effaith negyddol ar eu mynediad at ofal iechyd a'u defnydd ohono. Mae cyfraddau clefydau heintus, gan gynnwys twbercwlosis a HIV, yn uwch nag ar gyfer pobl nad ydynt yn fudwyr. Gall diffyg ymwybyddiaeth o gymhwysedd ar gyfer gofal iechyd, problemau iaith, ac ofn cael eich riportio i Asiantaeth Ffiniau'r DU, fod yn rhwystrau rhag mynnu gofal.

Ceir tystiolaeth o lefelau uwch o iselder a gorbryder ymhlith ceiswyr lloches a ffoaduriaid o'u cymharu â'r boblogaeth genedlaethol, ac mae llawer o ymchwil wedi canolbwyntio ar effaith gorfforol a meddyliol gwrthdaro a rhyfel mewn gwledydd tarddiad. Grwpiau sy'n arbennig o agored i niwed yw plant, a menywod sydd wedi dioddef cam-drin rhywiol a chorfforol.

Mae nifer y troseddau casineb y rhoddwyd gwybod amdanynt wedi cynyddu yng Nghaerdydd. Er ei bod hi'n debygol bod achosion gwirioneddol o droseddau casineb wedi codi yng Nghaerdydd, credir bod pobl yn fwy tebygol o roi gwybod amdanynt bellach hefyd.

Y prif heriau i'r grŵp cleifion hwn yw'r canlynol.

- Diffyg rhuglder yn Gymraeg neu Saesneg.
- Mynediad at Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill.
- Mynediad arferol at gyfieithwyr ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.
- Mynediad at wybodaeth a hygyrchedd gwasanaethau.

¹⁶⁰ Llywodraeth Cymru - [Darpariaeth iechyd a llesiant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches \(2018\)](#)

- Mynediad at y farchnad lafur.
- Sefydlu cysylltiadau yn y gymuned - integreiddio a chydlyniant cymunedol, mynd i'r afael â throseddau casineb.
- Gofal plant.
- Trafnidiaeth.
- Ymgysylltu ag ysgolion.
- Mynediad gwell at wasanaethau iechyd meddwl cymunedol.

Ym mis Ionawr 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cenedl Noddfa ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches¹⁶¹ sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion allweddol canlynol o ran ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

- Gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael at wasanaethau iechyd (gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) sydd eu hangen arnynt drwy gydol y 'daith lloches'. Mae hyn yn cynnwys asesiadau iechyd wrth gyrraedd ac yn ystod y cyfnodau gwasgaru ac ôl-drawma.
- Caiff ffoaduriaid a cheiswyr lloches yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddechrau integreiddio i gymdeithas Cymru o'r diwrnod cyntaf.
- Ni chaiff cheiswyr lloches eu hatal rhag cael at gynlluniau priodol Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu cefnogi i integreiddio.
- Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches newydd yn llai tebygol o syrthio i dlodi.
- Caiff pob ffoadur a cheisiwr lloches (yn enwedig plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches) ei ddiogelu'n briodol, gyda chymorth eiriolaeth ar gael iddo.
- Gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches gael at gyfleoedd addysgol, gan gynnwys sgiliau iaith, i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau a chyflawni eu potensial.

4.15 Cyn-filwyr^{162, 163}

Diffinnir cyn-filwyr fel unrhyw un sydd wedi gwasanaethu o leiaf un diwrnod yn lluoedd arfog Ei Fawrhydi (rheolaidd neu wrth gefn) neu forwyr masnachol neu sydd wedi gweld dyletswydd ar weithrediadau milwrol a ddiffinnir yn gyfreithiol.

Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr¹⁶⁴ oedd y cyntaf i ofyn i bobl a oeddent wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU o'r blaen. Gofynnwyd i bobl 16 oed a hŷn a oeddent wedi gwasanaethu o'r blaen yn lluoedd arfog rheolaidd neu wrth gefn y DU, neu'r ddau. Cynghorwyd pobl sy'n gwasanaethu yn lluoedd arfog y DU ar hyn o bryd a'r rhai nad oeddent erioed wedi gwasanaethu i dicio "na".

Dengys data'r Cyfrifiad y canlynol:

- Roedd 1,853,112 o bobl a oedd wedi gwasanaethu'n flaenorol yn lluoedd arfog y DU yng Nghymru a Lloegr yn 2021, sef 3.8% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd. Mae hyn bron yn un o bob 25 o bobl 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr.

¹⁶¹ Llywodraeth Cymru - [Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches \(2019\)](#)

¹⁶² Caerdydd a Bro Morgannwg - [Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022-2027](#)

¹⁶³ Y Weinyddiaeth Amddiffyn - [Veterans Key Facts](#)

¹⁶⁴ Cyfrifiad 2021 - [Cyn-aelodau o luoedd arfog y DU, Cymru a Lloegr - y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

- Roedd dros dri chwarter o gyn-aelodau o luoedd arfog y DU sy'n byw yng Nghymru wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd yn unig (88,000 o bobl), tra bod 22,000 wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog wrth gefn yn unig. Roedd y 5,000 sy'n weddill wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog rheolaidd a'r lluoedd wrth gefn.
- Roedd y gyfran o gyn-aelodau lluoedd arfog y DU yn uwch yng Nghymru (4.5% o'r boblogaeth 16 oed a throsodd) nag yr oedd yn Lloegr (3.8%).
- Ledled Cymru, yr awdurdodau lleol â'r ganran uchaf o gyn-aelodau oedd Conwy (5.9%), Sir Benfro (5.7%) ac Ynys Môn (5.6%). Mae'r awdurdodau lleol hyn i gyd yn cynnwys sefydliadau milwrol neu'n agos atynt, sy'n awgrymu bod cyn-aelodau o luoedd arfog y DU yn tueddu i aros yn yr un ardaloedd ar ôl iddynt adael y gwasanaeth.
- Caerdydd oedd â'r gyfran isaf o gyn-aelodau sef llai na 2.9% o'r boblogaeth.
- Nododd 14,484 o drigolion Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro eu bod wedi gwasanaethu'n flaenorol yn lluoedd arfog y DU¹⁶⁵ (naill ai'r rhai rheolaidd a/neu wrth gefn). Mae dosbarthiad oedran y boblogaeth o gyn-aelodau yn tueddu tuag at y rhai dros oedran ymddeol. Fodd bynnag, oherwydd y dirywiad a ragwelir yn y grŵp hwn, a'r newidiadau¹⁶⁶ sy'n digwydd ar hyn o bryd yn lluoedd arfog y DU, bydd cyfran fwy o boblogaeth y cyn-aelodau yn cynnwys pobl iau. Fel y cyfryw, mae'n debygol y bydd eu hanghenion iechyd yn wahanol i anghenion y boblogaeth hŷn o gyn-aelodau.
- Dywed y rhan fwyaf o gyn-aelodau fod eu hamser yn y gwasanaethau wedi bod yn brofiad cadarnhaol ac nid ydynt yn dioddef effeithiau andwyol ar iechyd o ganlyniad i'r amser y maent wedi gwasanaethu. Ar y cyfan, mae iechyd cyffredinol y boblogaeth filwrol yn dda, yn enwedig o ran ffitrwydd corfforol. Fodd bynnag, mae cyflyrau y gellir eu priodoli i wasanaeth milwrol yn cynnwys cyfraddau uwch o iselder, problemau cefn, problemau aelodau, problemau'r galon, diabetes, problemau clyw a golwg, na'r boblogaeth gyffredinol. Gellir esbonio rhai o'r gwahaniaethau i raddau helaeth gan broffil oedran hŷn y cyn-filwyr.
- Mae 8.7% o gyn-filwyr y DU yn anabl¹⁶⁷ (hunan-adroddwyd, amcangyfrif wedi'i bwysoli). Roedd cyn-filwyr anabl yn llawer mwy tebygol o nodi llesiant gwael, unigrwydd a rhwystrau rhag cael at wasanaethau. Problemau cyhyrsgerberbydol¹⁶⁸ yw'r problemau iechyd hirdymor mwyaf cyffredin ymhlith cyn-filwyr y DU, a'r rheini'n aml yn deillio o ofynion corfforol trwm yn ystod gwasanaeth.
- Mae cysylltiad cryf rhwng y cyflyrau hyn a:
 - phoen cronig
 - problemau symudedd
 - llai o annibyniaeth
 - risg uwch o iselder ac unigrwydd

¹⁶⁵ NOMIS TS071 – wedi gwasanaethu yn Lluoedd Arfog y DU yn flaenorol

¹⁶⁶ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Anghenion Iechyd a Llesiant Cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog](#)

¹⁶⁷ GOV.UK - [Health and wellbeing of UK Armed Forces veterans: Veterans' Survey 2022, UK](#)

¹⁶⁸ Forward Assist - [Alone After Service: Addressing the Crisis of Isolation Among UK Veterans with Musculoskeletal Mobility Issues](#)

Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Kings Centre for Military Health Research adroddiad¹⁶⁹ yn cwmpasu data a gasglwyd gan bersonél lluoedd arfog y DU sy'n gwasanaethu a chyn-bersonél. Ymatebodd 4,104 i holiadur manwl a oedd yn archwilio symptomau anhwylderau meddwl cyffredin, anhwylder straen wedi trawma cludadwy, anhwylder straen wedi trawma cymhleth a chamddefnyddio alcohol. Dangosodd y data hwn fod:

- Adroddodd 28% o'r ymatebwyr symptomau anhwylderau meddwl cyffredin, i fyny o 22% yn 2014/16 ac 20% yn 2004/2006.
- Adroddodd 9% o'r ymatebwyr fod anhwylder straen wedi trawma yn debygol, i fyny o 6% yn 2014/16 a 4% yn 2004/2006.
- Adroddodd cyn-bersonél rheolaidd gyfraddau anhwylder straen wedi trawma uwch na phersonél Rheolaidd sy'n gwasanaethu, sef 11% o gymharu â 7% yn y drefn honno.

Mae'r data'n tynnu sylw at y cyffredinrwydd yn seiliedig ar statws gwasanaethu gyda chyn-bersonél rheolaidd yn 11% a phersonél rheolaidd sy'n gwasanaethu yn 7%. Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau'r gorffennol fod anhwylder straen wedi trawma yn aml yn dod i'r amlwg neu'n gwaethygu ar ôl gadael y gwasanaeth, yn enwedig yn ystod y cyfnod trosglwyddo i fywyd sifil.

Cam 4 yw'r tro cyntaf i anhwylder straen wedi trawma cymhleth gael ei fesur yn y garfan hon, gan ddarparu tystiolaeth newydd hanfodol. Mae'n gyflwr is-set o anhwylder straen wedi trawma sy'n aml yn cael ei achosi gan ddigwyddiadau trawmatig hirdymor neu gylchol tra hefyd yn profi symptomau ychwanegol fel anhawster yn rheoli emosiynau. Canfu ymchwilwyr fod bron i dri chwarter (72%) o'r ymatebwyr ag anhwylder straen wedi trawma tebygol yn cyrraedd y trothwy ar gyfer anhwylder straen wedi trawma cymhleth.

Dywedodd Dr Marie-Louise Sharp, Uwch Gymrawd Ymchwil yn Kings Centre for Military Health Research ac awdur arweiniol yr adroddiad, 'mae anhwylder straen wedi trawma yn gyflwr a allai newid bywyd a all fod yn anodd ei drin. Gall darparu triniaeth effeithiol i unigolion ag anhwylder straen wedi trawma cymhleth fod yn fwy cymhleth, gan y gallant gymryd mwy o amser i ddod ymlaen a gofyn am gymorth ac maent yn fwy tebygol o fod yn rheoli amrywiaeth o wahanol afiechydon meddwl. Bydd angen i wasanaethau sy'n darparu ar gyfer cyn-aelodau o'r lluoedd arfog asesu pa mor dda y maent yn cefnogi ac yn trin cyflyrau iechyd cymhleth a chyd-forbid.'

Roedd camddefnyddio alcohol wedi gostwng mewn cyfnodau blaenorol ond mae'n debyg ei fod wedi gwastatau gan aros ar lefel uchel o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Canfuwyd bod dod i gysylltiad ag ymladd a phroblemau iechyd meddwl ar ôl ymfyddino yn ffactorau risg ar gyfer trais y tu mewn a'r tu allan i'r amgylchedd teuluol.

¹⁶⁹ Office for Veterans' Affairs - [Office for Veterans' Affairs Final Report. Health and Wellbeing Study of Serving and Ex-Serving UK Armed Forces Personnel: Phase 4](#)

Dangosodd y data cenedlaethol cyntaf a gyhoeddwyd ar hunanladdiad cyn-filwyr yng Nghymru a Lloegr¹⁷⁰ fod 253 o gyn-aelodau lluoedd arfog y DU wedi marw trwy hunanladdiad yn 2021, a bod 93.7% ohonynt yn ddynion a 6.3% yn fenywod. Roedd 5.9% o 253 o hunanladdiadau cyn-aelodau lluoedd arfog y DU yn 2021 yng Nghymru.

Nid oedd y cyfraddau cyffredinol ar gyfer cyn-filwyr y DU yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol. Fodd bynnag, mae cyfraddau hunanladdiad ddwy i bedair gwaith yn uwch ymhlith cyn-filwyr gwrywaidd a benywaidd rhwng 16 a 24 oed o'u cymharu â'r un grŵp oedran yn y boblogaeth gyffredinol.

Canfu *Suicide after leaving the UK Armed Forces 1996–2018: a cohort study*^{171,172} a gyhoeddwyd yn 2023 fod cyn-aelodau lluoedd arfog y DU yn y perygl uchaf o hunanladdiad yn eu dwy flynedd gyntaf ar ôl gadael y lluoedd arfog. Ffactorau sy'n gysylltiedig â risg uwch o hunanladdiad yw:

- bod yn wrywaidd,
- gwasanaethu yn y Fyddin,
- cael eu rhyddhau rhwng 16 a 34 oed,
- hyd gwasanaeth o dan 10 mlynedd, a
- bod heb hyfforddiant adeg rhyddhau.

Roedd chwarter o'r holl gyn-filwyr a fu farw trwy hunanladdiad wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau ieuchyd meddwl yn y flwyddyn cyn iddynt farw.

Cyhoeddwyd Astudiaeth ar Iechyd a Gamblo Cyn-aelodau o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig yn 2021¹⁷³ a chanfu fod cyn-filwyr yn llawer mwy tebygol o gael trafferth gyda phroblemau gamblo na phobl nad ydynt yn gyn-filwyr yn y DU. Roedd cyn-filwyr a ymatebodd i'r arolwg fwy na deg gwaith yn fwy tebygol o gael niwed gamblo na'r ymatebwyr nad oeddent yn gyn-filwyr. Roeddent hefyd bedair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi gamblo'n ddiweddar, ac ar fwy o weithgareddau nag ymatebwyr nad oeddent yn gyn-filwyr. Roedd gamblo cyn-filwyr saith gwaith yn fwy tebygol o gael ei ysgogi gan yr angen i ddianc neu osgoi gofid a chanfuwyd hefyd eu bod mewn llawer mwy o berygl o ganlyniadau ieuchyd meddwl gwael gan gynnwys iselder, gorbryder, anhwylder straen wedi trawma, a dibyniaeth ar alcohol a/neu nicotin.

Mae materion eraill y mae astudiaethau wedi nodi eu bod o bwys i gyn-filwyr yn cynnwys:

- Cael at dai addas ac atal digartrefedd.
- Cefnogi cyn-filwyr i gael cyflogaeth.
- Cael at gyngor ariannol priodol a gwybodaeth briodol am fudd-daliadau perthnasol.
- Cael at wasanaethau ieuchyd a chymorth.

¹⁷⁰ Cyfrifiad 2021 - [Hunanladdiadau ymhlith cyn-aelodau o lluoedd arfog y DU, Cymru a Lloegr - y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

¹⁷¹ Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Hunanladdiad a Diogelwch mewn Iechyd Meddwl, Prifysgol Manceinion - [Suicide after leaving the UK Armed Forces 1996–2018: A cohort study](#)

¹⁷² Y Samariaid - [Armed Forces and Veteran Suicide](#)

¹⁷³ Prifysgol Abertawe - [Astudiaeth o Iechyd a Gamblo Cyn-aelodau o Lluoedd Arfog y Deyrnas Unedig](#)

- Cefnogi cyn-filwyr sydd wedi bod yn y system cyfiawnder troseddol.
- Unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Cefnogi teulu ehangach cyn-filwr.

4.16 Ymwelwyr â'r ardal ar gyfer busnes, neu i ymweld â ffrindiau a theulu neu atyniadau twristaidd

Mae Caerdydd yn cynnig cymysgedd o gestyll hanesyddol (e.e. Castell Caerdydd a Chastell Coch), amgueddfeydd (Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd (deinosoriaid), ac Amgueddfa Werin Genedlaethol Sain Ffagan awyr agored), Bae Caerdydd (Canolfan y Mileniwm, Pierhead), a mannau awyr agored (cerdded neu feicio Llwybr Taf, ymlacio ym Mharc Bute, neu Barc y Rhath), yn ogystal â siopa ac arcedau.

Mae gan Fro Morgannwg draethau godidog a ffair ar ei harfordir (Ynys y Barri), teithiau cerdded arfordirol (Bae Dwn-rhefn), a llwybrau coetir ac arfordirol (Parc Gwledig Porthceri), gan gyfuno diwylliant y ddinas â harddwch a hanes yr arfordir.

Ni ragwelir y bydd anghenion iechyd y grŵp cleifion hwn yn debygol o fod yn wahanol i anghenion y boblogaeth gyffredinol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Gan y gallent fod yn yr ardal am arhosiad byr yn unig, mae'n debygol y bydd eu hanghenion iechyd fel a ganlyn:

- trin cyflwr aciwt y mae angen rhoi presgripsiwn ar ei gyfer,
- ymgynghoriad ar gyfer mân anhwylderau neu salwch,
- gwasanaethau ar gyfer meddwdod e.e. mewn digwyddiadau chwaraeon mawr,
- yr angen am feddyginiaeth amlroddadwy,
- cymorth ar gyfer hunanofal, neu
- gyfeirio at wasanaethau iechyd eraill fel meddyg teulu neu ddeintydd.

5 Darparu gwasanaethau fferyllol


Mae'r mapiau a ddefnyddir yn y bennod hon ynghyd â'r rhestr lawn o gcontractwyr fferylliaeth yn ôl clwstwr a geir yn Atodiad K yn nodi'r eiddo lle darperir gwasanaethau fferyllol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Yn y penodau dilynol, ac yn arbennig y rheini sy'n darparu gwybodaeth ar lefel clwstwr, dylid ystyried unrhyw fapiau yn ddangosol o leoliadau eiddo, a'u darllen ar y cyd â data perthnasol. Dylid nodi, oherwydd maint yr ardal sy'n cael ei chynnwys gan y bwrdd iechyd, a graddfa fach y mapiau hyn, nad oes modd nodi llawer o'r eiddo ar wahân.

5.1 Y ddarpariaeth bresennol yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae 100 o fferyllfeydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fferyllol ar gyfer ardal y bwrdd iechyd (Mawrth 2026), a weithredir gan 43 o wahanol gcontractwyr. Hefyd, mae gan bedwar contractwr gweinyddu cyfarpar eiddo yn ardal y bwrdd iechyd. Nid oes unrhyw un o'r practisau meddygon teulu yn darparu gwasanaeth gweinyddu.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd ac eiddo'r contractwr gweinyddu cyfarpar yn ardal y bwrdd iechyd.

Map 5.1: Lleoliad y fferyllfeydd ac eiddo'r contractwr gweinyddu cyfarpar



Yn 2024/25, gweinyddwyd 96.6% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan fferyllfeydd a chontractwyr gweinyddu cyfarpar yn ardal y bwrdd iechyd.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 97.1% o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan bractisau meddygon teulu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan fferyllfeydd a chontractwyr gweinyddu cyfarpar yn ardal y bwrdd iechyd.

5.1.1 Mynediad i eiddo

Mae'r maes mynediad at wasanaethau ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025¹⁷⁴ yn nodi amddifadedd o ganlyniad i anallu aelwyd i gael mynediad at ystod o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer bywyd o ddydd i ddydd, gan gynnwys fferyllfeydd.

Mae'n defnyddio amser teithio cyfartalog i fferyllfa ac yn ôl yn hytrach na thaith unffordd, gan gyfrifo amseroedd teithio (mewn munudau) ar drafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol (ar fws, ar drên, ar droed, neu ar goets) neu drafnidiaeth breifat h.y. mewn car.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yr amser teithio cyfartalog i fferyllfa ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus neu drwy deithio llesol yw 34 munud, a 6 munud mewn car. Mae gan yr awdurdodau lleol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro amser teithio cyfartalog byrrach i fferyllfa ac yn ôl na'r amser cyfartalog ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Ar gyfer teithio preifat, mae'r amser teithio ym Mro Morgannwg yn fyrrach na chyfartaledd Cymru, ac yng Nghaerdydd mae'r amser teithio yn gyfwerth â chyfartaledd Cymru.

Tabl 5.1: Amser teithio i fferyllfa ar drafnidiaeth gyhoeddus a phreifat ar lefel awdurdod lleol, bwrdd iechyd a Chymru, 2025

Ardal	Amser teithio cyfartalog yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus	Ystod yr amser teithio yno ac yn ôl ar drafnidiaeth gyhoeddus	Amser teithio cyfartalog yno ac yn ôl ar drafnidiaeth breifat	Ystod yr amser teithio yno ac yn ôl ar drafnidiaeth breifat
Caerdydd	38.1 munud	4 i 62 munud	7.2 munud	1 i 10 munud
Bro Morgannwg	31.3 munud	5 i 150 munud	5.6 munud	1 i 26 munud
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	34.2 munud		6.3 munud	
Cymru	40.4 munud		7.1 munud	

Ar adeg Asesiad o Anghenion Fferyllol 2021 roedd 106 o fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd a phedwar contractwr gweinyddu cyfarpar. Nododd y bwrdd iechyd fod y mwyafrif o'r fferyllfeydd mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch neu'n agos atynt, ac mewn ardaloedd o amddifadedd uwch. Roedd pob preswylydd yn gallu cael

¹⁷⁴ StatsCymru Llywodraeth CymruCymru - [Data dangosydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025 yn ôl ardal gynnyrch ehangach haen is ac awdurdod lleol: maes mynediad at wasanaethau](#)

mynediad at fferyllfa, mewn car, o fewn 20 munud, ac i lawer byddai'r amser teithio yn 15 munud neu lai.

Er bod chwe fferyllfa wedi cau ers cyhoeddi Asesiad o Anghenion Fferyllol 2021, mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y chwe hyn yn agos at fferyllfeydd eraill. Felly, mae'n fodlon bod y casgliadau a gyrhaeddwyd yn Asesiad o Anghenion Fferyllol 2021 o ran amseroedd teithio i'r fferyllfeydd yn parhau i fod yn ddilys.


Ers Asesiad o Anghenion Fferyllol 2021, mae un o'r contractwyr gweinyddu cyfarpar wedi symud o glwstwr Dwyrain y Fro i glwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd. Fodd bynnag, gan fod contractwyr gweinyddu cyfarpar yn darparu gwasanaethau o bell, nid yw hyn wedi effeithio ar allu preswylwyr i gael mynediad at y gwasanaethau fferyllol a ddarperir gan y contractwr hwn.

Yn seiliedig ar wybodaeth o Gyfrifiad 2021, nid oes gan ychydig llai na chwarter yr aelwydydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (23.4%) gar na fan. Mae'r ganran yn uwch yng Nghaerdydd (26.0%) nag ym Mro Morgannwg (16.6%).

Mae ymatebion i'r holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhoi'r mewnwelediadau canlynol i gael mynediad at fferyllfeydd.

- Mae 66.5% o bobl yn cerdded neu'n defnyddio cadair olwyn i gael mynediad at fferyllfa, 29.9% mewn car, a 0.6% ar fws.
- I 42.6% o bobl, mae eu hamser teithio yn llai na 5 munud, i 53.5% mae'n cymryd rhwng 5 a 15 munud, i 3.2% mae'n cymryd mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud, ac i 0.8% mae'n cymryd mwy nag 20 munud.
- I'r rheini y mae'n cymryd mwy nag 20 munud, mae un person yn cerdded i fferyllfa, tri yn teithio mewn car, ac un naill ai'n teithio ar fws neu dacsï, yn cerdded, yn cael lifft, neu'n gyrru ond yn methu parcio.

Ffigur 5.1: Yr amser a gymerir i deithio i fferyllfa



Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (92.4%) nad oeddent yn cael trafferth mynd i fferyllfa. Dim ond 5.2% a atebodd eu bod yn cael trafferth, a dywedodd 2.4% nad oedd

y cwestiwn yn berthnasol. Roedd y themâu allweddol pam mae pobl yn cael trafferth yn cynnwys:

- oriau agor fferyllfeydd yn gwrthdaro ag oriau gwaith,
- problemau symudedd,
- problemau trafnidiaeth (e.e. diffyg gwasanaethau bysus a thacsis), a
- phroblemau iechyd.

5.1.2 Mynediad at wasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyfatebol i gontractwyr gweinyddu cyfarpar

Er y bydd y mwyafrif o bobl yn ymweld â fferyllfa yn ystod y cyfnod rhwng 8.30am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, yn dilyn ymweliad â'u meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, bydd adegau pan fydd angen i bobl gael mynediad at fferyllfa y tu allan i'r amseroedd hynny, neu byddant yn dewis gwneud hynny. Gall hyn fod i gael presgripsiwn wedi'i weinyddu ar ôl cael ymweliad â'r gwasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau, neu i gasglu eitemau a weinyddwyd ar eu ffordd i'r gwaith neu oddi yno, neu gall fod ar gyfer mynediad at un o'r gwasanaethau eraill a ddarperir gan fferyllfa y tu allan i oriau gwaith arferol unigolyn.

Dangosodd yr holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd nad oes gan 42.5% o ymatebwyr ffafriaeth ynghylch pryd yw'r amser neu'r diwrnod gorau i ddefnyddio fferyllfa. O'r ymatebion sy'n weddill, roedd yn well gan 24.1% ddefnyddio fferyllfa rhwng 8.30am a 12.30pm a 24.0% rhwng 2pm a 6.30pm. Dywedodd 5.2% rhwng 6.30pm a 9pm, a 3.6% rhwng 12.30pm a 2pm. Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr pa ddiwrnod yw'r mwyaf cyfleus i ymweld â fferyllfa, nid oedd gan 47.8% ddiwrnod a ffefrir, dywedodd 34.6% ddyddiau'r wythnos yn gyffredinol, dywedodd 6.1% benwythnosau yn gyffredinol, ac roedd y gweddill yn nodi diwrnod wythnos penodol.

Mae Atodiad K yn darparu gwybodaeth am oriau agor y fferyllfa a'r contractwr gweinyddu cyfarpar (Mawrth 2026), ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus, ac ar yr adeg honno, roedd:

- 13 fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- 13 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- 21 fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhan o ddydd Sadwrn
- 53 fferyllfa sydd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gellir dod o hyd i'r oriau agor ar gyfer y pedwar contractwr gweinyddu cyfarpar hefyd yn atodiad K. Maen nhw'n agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Mae practisau meddygon teulu yn darparu gwasanaethau meddygol sylfaenol yn ystod oriau craidd, sef rhwng 8.00am a 6.30pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio gwyliau banc a gwyliau cyhoeddus.

Datblygodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro strategaeth o'r enw "Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol"¹⁷⁵, strategaeth ddeng mlynedd (rhwng 2023 a 2035). Rhan ganolog o'r strategaeth hon yw'r rhaglen "Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol: Yn ein cymuned", ac mae'n cynnwys datblygu canolfannau iechyd a lles a hybiau lles i ddod

¹⁷⁵ Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – [Strategaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro hyd at 2035](#)

â gofal yn nes at y cartref. Erbyn 2035, nod y bwrdd iechyd yw bod gan 80% o'r boblogaeth fynediad at yr hybiau hyn.

Bydd hybiau yn cael eu sefydlu ym mhob un o'r tair ardal (Gogledd a Gorllewin Caerdydd, De a Dwyrain Caerdydd a'r Fro) gyda'r bwriad o symud gwasanaethau i ffwrdd o leoliad ysbyty traddodiadol i'r gymuned. Bydd datblygu'r hybiau hyn a symud gwasanaethau yn cael effaith ar yr angen am wasanaethau fferyllol gan fod y nod strategol yn cynnwys gwella rolau fferylliaeth ar gyfer rheoli meddyginiaeth i leihau'r pwysau ar feddygon teulu ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys.

Mae gan y bwrdd iechyd y gallu i wahodd a/neu gyfarwyddo contractwyr presennol i addasu eu horiau agor i ddiwallu unrhyw anghenion yn y dyfodol yn ôl yr angen.

5.1.3 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

5.1.3.1 Mynediad at wasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Ni ddarparodd unrhyw fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2025/26.

O'r pedwar contractwr gweinyddu cyfarpar, dim ond un a ddarparodd y gwasanaeth hwn yn 2025/26. Oherwydd y ffordd y mae'r data yn cael ei goladu a'i gyhoeddi, nid yw'n hysbys faint o'r rhain a ddarparwyd ar gyfer preswylwyr y bwrdd iechyd.

5.1.3.2 Y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol


Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys tair elfen, y mae'n rhaid darparu pob un ohonynt. Mae'r holl fferyllfeydd yn ardal y bwrdd iechyd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.

5.1.3.2.1 Mynediad at y gwasanaeth anhwylderau cyffredin

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth anhwylderau cyffredin yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 81,077 o ymgynghoriadau, ac yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparwyd cyfanswm o 65,299 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd dan yr elfen hon o'r gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.2: Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau anhwylderau cyffredin a hawliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025




5.1.3.2.2 Mynediad at y gwasanaethau atal cenhedlu brys

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 gan ddarparu cyfanswm o 7,648 o ymgynghoriadau, ac yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd 98 fferyllfa gyfanswm o 5,456 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd dan yr elfen hon o'r gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.3: Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau atal cenhedlu brys a hawliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025




5.1.3.2.3 Mynediad at y gwasanaeth cyflenwi meddyginiaethau brys

Darparodd y 100 fferyllfa gyfanswm o 30,330 o ymgynghoriadau yn 2024/25, ac yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparwyd cyfanswm o 24,015 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd dan yr elfen hon o'r gwasanaeth erbyn mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.4: Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau cyflenwi meddyginiaethau brys a hawliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025




5.1.3.3 Mynediad at y gwasanaeth brechlynnau fflw

Yn 2024/25, rhoddodd 98 o'r fferyllfeydd a gofrestrodd i ddarparu'r gwasanaeth hwn gyfanswm o 16,031 o frechiadau, ac yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd 95 fferyllfa gyfanswm o 15,806 o frechiadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y brechiadau a hawliwyd dan y gwasanaeth brechlynnau fflw gan fferyllfeydd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.5: Nifer y brechlynnau fflw a hawliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025




5.1.3.4 Mynediad at wasanaeth presgripsiynu annibynnol gan fferyllfa

Yn 2024/25, darparodd 51 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn gan ddarparu cyfanswm o 27,911 o ymgynghoriadau ac yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd 56 fferyllfa gyfanswm o 23,473 o ymgynghoriadau er bod 62 wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth yn 2025/26.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.6: Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau presgripsiynu annibynnol gan fferyllfa a hawliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025




5.1.3.5 Mynediad at wasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oedd yr un o'r fferyllfeydd na chontractwyr gweinyddu cyfarpar yn darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

5.1.3.6 Mynediad at y gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Yn 2024/25, darparodd 92 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn a datgan cyfanswm o 3,211 o adolygiadau. Darparodd 86 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2025, gan ddatgan cyfanswm o 2,258 o adolygiadau. Mae'r ffigur isod yn dangos nifer yr adolygiadau gafodd eu datgan bob mis.

Ffigur 5.7: Nifer yr adolygiadau meddyginiaeth rhyddhau o'r Ysbyty gafodd eu hawlio rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025



5.1.4 Mynediad at wasanaeth clinigol ychwanegol

5.1.4.1 Mynediad at y rhaglen nodwyddau a chwistrellau


Mae 13 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

5.1.4.2 Mynediad at y gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae 38 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, darparodd 36 fferyllfa gyfanswm o 826 o ymgynghoriadau ac yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd 33 fferyllfa gyfanswm o 514 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau a hawliwyd dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.8: Cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau rhoi'r gorau i smygu lefel 2 a hawliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025




5.1.4.3 Mynediad at y gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn y fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Yn 2024/25, darparodd 25 o'r 40 fferyllfa a gomisiynwyd i ddarparu'r gwasanaeth hwn gyfanswm o 471 o ymgynghoriadau ac yn 2025/26, darparodd 26 fferyllfa gyfanswm o 295 o ymgynghoriadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr ymgynghoriadau lefel 3 a hawliwyd dan y gwasanaeth gan fferyllfeydd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.9: Nifer yr ymgynghoriadau rhoi'r gorau i smygu lefel 3 a hawliwyd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025



5.1.4.4 Mynediad at wasanaethau fferyllol ar ddydd Sul, gyda'r hwyr yn ystod yr wythnos, a gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc

Mae gan y bwrdd iechyd ddyletswydd i sicrhau bod preswylwyr ei ardal yn gallu cael mynediad at wasanaethau fferyllol bob dydd. Nid yw'n ofynnol i fferyllfeydd a chontractwyr gweinyddu cyfarpar agor ar wyliau cyhoeddus a gwyliau banc, neu Sul y Pasg, er y gall rhai ddewis gwneud hynny.


Mae rota oriau gyfeiriedig ar waith ar draws ardal Bro Morgannwg ar Ddydd Nadolig, Dydd San Steffan, Dydd Calan, a Sul y Pasg. Mae fferyllfeydd yn cael eu cyfeirio at agor ar draws yr ardal ar gyfer amseroedd penodol mewn trefn gylchdro, i sicrhau bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau fferyllol ar y dyddiau hynny.

5.1.4.5 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae 50 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Yn 2024/25, cefnogodd 32 fferyllfa 1,072 o unigolion ac yn wyth mis cyntaf 2025/26, cefnogodd 30 fferyllfa 758 o unigolion.

Mae'r ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer yr unigolion a gefnogwyd dan y gwasanaeth hwn gan fferyllfeydd rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025.

Ffigur 5.10: Cyfanswm nifer yr unigolion a gefnogwyd dan y gwasanaeth gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth rhwng mis Ebrill 2024 a mis Tachwedd 2025



5.1.4.6 Mynediad at wasanaeth meddyginiaethau brys

Mae 25 o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, gyda 14 wedi cofrestru i ddarparu lefel 1 (safonol) ac 11 i ddarparu lefel 2 (uwch).

Mae'r tabl isod yn dangos nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru i ddarparu lefel 1 a lefel 2 y gwasanaeth meddyginiaethau brys.

Tabl 5.2: Nifer a lleoliad y fferyllfeydd sydd wedi cofrestru i'r gwasanaeth meddyginiaethau brys

Clwstwr	Nifer y fferyllfeydd sy'n darparu lefel 1	Nifer y fferyllfeydd sy'n darparu lefel 2
Dwyrain Caerdydd	2	1
Gogledd Caerdydd	2	2
De-ddwyrain Caerdydd	1	2
De-orllewin Caerdydd	1	1
Canol y Fro	3	2
Canol y Ddinas a De Caerdydd	0	1
Dwyrain y Fro	1	1
Gorllewin y Fro	4	1

5.2 Y ddarpariaeth bresennol y tu allan i ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

5.2.1 Mynediad at wasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyfatebol i gontractwyr gweinyddu cyfarpar

Mae gan gleifion ddewis o ble maen nhw'n cael mynediad at wasanaethau fferyllol; gall hyn fod yn agos at eu cartref, eu practis meddyg teulu, eu man gwaith neu ble maen nhw'n mynd ar gyfer siopa, hamdden neu resymau eraill. O ganlyniad, nid yw'r holl bresgripsiynau a ysgrifennwyd ar gyfer preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn cael

eu gweinyddu o fewn yr un ardal er, fel y nodwyd yn adran 5.1, mae'r mwyafrif helaeth o eitemau yn cael eu gweinyddu o fewn yr un ardal. Yn 2024/25, gweinyddwyd 1.7% o eitemau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, a gweinyddwyd 1.0% ohonynt mewn mannau eraill yng Nghymru gan 481 o fferyllfeydd gwahanol (a oedd yn masnachu yn ystod y cyfnod hwn), a'r 0.7% sy'n weddill yn Lloegr.

O'r 104,074 o eitemau a weinyddwyd mewn mannau eraill yng Nghymru:

- Gweinyddwyd 81,459 gan 129 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,
- Gweinyddwyd 18,345 gan 112 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg,
- Gweinyddwyd 2,375 gan 85 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,
- Gweinyddwyd 1,547 gan 76 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe,
- Gweinyddwyd 239 gan 63 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,
- Gweinyddwyd 109 gan 16 fferyllfa yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yn naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 1.9% o'r eitemau y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, a gweinyddwyd 1.2% ohonynt mewn mannau eraill yng Nghymru gan 507 o fferyllfeydd gwahanol (a oedd yn masnachu yn ystod y cyfnod hwn), a'r 0.7% sy'n weddill yn Lloegr.

O'r 93,779 o eitemau a weinyddwyd mewn mannau eraill yng Nghymru:

- Gweinyddwyd 76,185 gan 135 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan,
- Gweinyddwyd 12,098 gan 141 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg,
- Gweinyddwyd 3,668 gan 82 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,
- Gweinyddwyd 938 gan 73 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
- Gweinyddwyd 675 gan 60 o fferyllfeydd yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a
- Gweinyddwyd 215 gan 16 fferyllfa yn ardal Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

5.2.2 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

Nid oes gwybodaeth ar gael am y math o wasanaethau clinigol ychwanegol fferylliaeth gymunedol genedlaethol a chontractwyr cyfarpar a ddarperir gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w phreswylwyr. Wrth hawlio am wasanaethau ychwanegol, dim ond am gyfanswm y nifer a ddarperir ar gyfer pob gwasanaeth y mae contractwyr yn hawlio. Yr eithriad i hyn yw'r gwasanaeth addasu cyfarpar stoma lle gwneir taliad yn seiliedig ar yr wybodaeth a gynhwysir ar y presgripsiwn. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r gwasanaeth hwn, dim ond cyfanswm nifer yr eitemau cyfarpar perthnasol a nodir at ddibenion talu. Fodd bynnag, gellir tybio y bydd preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn gan contractwyr y tu allan i'r ardal.

5.2.3 Mynediad at wasanaethau clinigol ychwanegol

Fel gyda gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar, nid oes gwybodaeth am ddarparu gwasanaethau clinigol ychwanegol gan fferyllfeydd y tu allan i ardal y bwrdd iechyd i'w phreswylwyr. Fodd bynnag, gellir tybio y bydd preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn defnyddio'r gwasanaethau hyn gan gontractwyr y tu allan i'r ardal.

5.2.4 Gwasanaeth gweinyddu a ddarperir gan rai practisau meddygon teulu

Efallai y bydd rhai preswylwyr ardal y bwrdd iechyd yn dewis cofrestru gyda phractis meddyg teulu y tu allan i'r ardal, a gallant gael mynediad at y gwasanaeth gweinyddu os caiff ei gynnig gan y practis hwnnw ac maent yn gymwys.

5.3 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 5.1 a 5.2, mae preswylwyr ardal y bwrdd iechyd ar hyn o bryd yn arfer eu dewis o ble i gael mynediad at wasanaethau fferyllol i raddau helaeth. O fewn ardal y bwrdd iechyd, mae gan breswylwyr ddewis o 100 o fferyllfeydd, sy'n cael eu gweithredu gan 43 o wahanol gontractwyr a phedwar contractwr gweinyddu cyfarpar. Y tu allan i ardal y bwrdd iechyd, dewisodd preswylwyr gael mynediad at 481 o fferyllfeydd eraill yn 2024/25, a 507 o fferyllfeydd yn 2025/26 (hyd at fis Rhagfyr 2025), er nad yw llawer yn cael eu defnyddio'n rheolaidd.

Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n dylanwadu ar eu dewis o fferyllfa, yr ymatebion mwyaf cyffredin yn yr holiadur ymgysylltu â'r cyhoedd oedd:

- Mae'r fferyllfa'n agos at fy nghartref (613 o bobl)
- Rwy'n hoffi ac yn ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno (579)
- Mae'r fferyllfa yn darparu cyngor a gwybodaeth dda (536)
- Mae gan y fferyllfa oriau agor da (502)
- Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf (487)
- Nid yw'n un o'r cadwyni mawr (484)
- Mae ardal breifat os oes angen i mi siarad â'r fferyllfeydd (453)
- Fel arfer mae ganddynt yr hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc (424)
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym (414)
- Y gwasanaeth cwsmeriaid (402)
- Mae'r fferyllfa'n hawdd ei chyrraedd (389)
- Rydw i wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed (362), a
- Gallaf siarad â'r staff drwy gyfrwng fy newis iaith (328).

Sylwer, y gellid darparu mwy nag un opsiwn ar gyfer y cwestiwn hwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydyn nhw'n ei defnyddio, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (84.3%) 'nac oes', dywedodd 11.9% o'r ymatebwyr 'oes', a dywedodd 3.9% nad oeddent yn gwybod. Pan ofynnwyd iddynt pam nad oeddent yn defnyddio'r fferyllfa agosach honno, ymatebodd 78 o bobl. Y pedwar prif reswm a roddwyd oedd:

- Mae'r gwasanaeth yn rhy araf (36 o bobl)
- Does ganddyn nhw ddim yr hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc (27)

- Nid yw'r staff yn fy adnabod (22), ac
- Nid yw'n hawdd parcio yn y fferyllfa (21).

6 o wasanaethau eraill y GIG

Mae'r bennod hon yn disgrifio gwasanaethau'r GIG a allai effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol.

6.1 Fferyllfeydd ysbytai

Mae saith ysbyty yn ardal y bwrdd iechyd. Gall cleifion sy'n mynychu'r ysbytai hyn, naill ai fel cleifion mewnol neu gleifion allanol, fod angen presgripsiynau yn y gymuned. Yn gyffredinol, bydd cleifion mewnol yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Athrofaol Llandochau, Ysbyty'r Barri, Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, yn cael eu gweinyddu gan adran fferylliaeth eu hysbyty. Wrth gael eu rhyddhau, mae cleifion yn derbyn o leiaf pythefnos o gyflenwad o'u meddyginiaethau. Bydd cleifion sy'n mynychu'r ysbytai ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol hefyd yn derbyn cyflenwad pedair wythnos o feddyginiaethau yn gyffredinol. Nid yw fferyllfeydd yr ysbytai yn y bwrdd iechyd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol ac felly ni allant weinyddu presgripsiynau a gynhyrchir yn y gymuned (WP10).

Gall clinigau cleifion allanol a'r adran damweiniau ac achosion brys ddarparu presgripsiwn ysbyty (WP10HP) i gleifion i'w weinyddu yn y gymuned, yn enwedig pan nad oes fferyllfa ar y safle, neu wrth weld cleifion y tu allan i oriau gweithredu adran fferylliaeth yr ysbyty.

Mae'r ysbytai felly yn lleihau (trwy weinyddu meddyginiaethau cleifion mewnol) ac yn cynyddu (trwy gyhoeddi presgripsiynau i'w gweinyddu gan fferyllfeydd) y galw am wasanaethau fferyllol.

6.1.1 Ysbyty Athrofaol Cymru

Mae Ysbyty Athrofaol Cymru yn ysbyty fawr gyda 1,000 o welyau yng Nghaerdydd. Mae ganddo adran fferylliaeth ar y safle. Mae clinigau a gwasanaethau yn cyhoeddi presgripsiynau sydd naill ai'n cael eu gweinyddu yn fferyllfa yr ysbyty, trwy wasanaethau gofal cartref neu'n cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd cymunedol. Mae fferyllfa arenol loeren ychwanegol sy'n gweinyddu rhai meddyginiaethau arenol penodol ar gyfer cleifion allanol arenol.

6.1.2 Ysbyty Athrofaol Llandochau

Wedi'i leoli ger Penarth ym Mro Morgannwg. Mae gan yr ysbyty adran fferylliaeth ar y safle. Mae clinigau a gwasanaethau yn cyhoeddi presgripsiynau sydd naill ai'n cael eu gweinyddu yn fferyllfa yr ysbyty, trwy wasanaethau gofal cartref neu gan fferyllfeydd cymunedol.

6.1.3 Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru

Mae Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru wedi ei leoli ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae fferyllfa loeren ar gyfer cyflenwi cleifion mewnol yn unig, a wasanaethir gan brif fferyllfa Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae clinigau a gwasanaethau yn cyhoeddi presgripsiynau sydd naill ai'n cael eu gweinyddu yn fferyllfa yr ysbyty, trwy wasanaethau gofal cartref neu gan fferyllfeydd cymunedol.

6.1.4 Ysbyty Brenhinol Caerdydd

Darperir amrywiaeth o glinigau ar y wefan hon. Mae fferyllfa loeren yn yr ysbyty sydd ar agor tri diwrnod yr wythnos ac sy'n cael ei gwasanaethu gan brif adran fferylliaeth Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae clinigau a gwasanaethau yn cyhoeddi presgripsiynau sydd naill ai'n cael eu gweinyddu yn fferyllfa yr ysbyty, trwy wasanaethau gofal cartref neu gan fferyllfeydd cymunedol.

6.1.5 Ysbyty Deintyddol y Brifysgol

Mae hwn wedi ei leoli ar yr un safle ag Ysbyty Athrofaol Cymru. Nid oes fferyllfa. Mae clinigau a gwasanaethau yn cyhoeddi presgripsiynau sydd naill ai'n cael eu gweinyddu ym mhrif adran fferylliaeth Ysbyty Athrofaol Cymru neu'n cael eu gweinyddu gan fferyllfeydd cymunedol.

6.1.6 Ysbyty'r Barri

Mae Ysbyty'r Barri wedi'i leoli ym Mro Morgannwg. Nid oes fferyllfa ar y safle – mae'n cael ei wasanaethu gan adran fferylliaeth Ysbyty Athrofaol Llandochau.

6.1.7 Ysbyty Dewi Sant

Mae'r ysbyty wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Nid oes fferyllfa ar y safle – mae'n cael ei wasanaethu gan adran fferylliaeth Ysbyty Athrofaol Llandochau.

6.2 Darparu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar ar gyfer triniaeth uniongyrchol neu weinyddu eitemau yn bersonol gan feddygon teulu

O dan eu contract gwasanaethau meddygol sylfaenol gyda'r bwrdd iechyd, bydd achlysuron lle mae meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall yn y practis:

- yn gorfod darparu cyffur, meddyginiaeth neu gyfarpar i glaf lle mae angen darpariaeth o'r fath ar gyfer triniaeth y claf ar unwaith cyn y gellir eu cael fel arall, neu
- yn gallu darparu cyffur, meddyginiaeth neu gyfarpar i glaf y mae'r meddyg teulu neu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn ei weinyddu neu'n ei roi i'r claf.

Yn gyffredinol, pan fydd angen meddyginiaeth neu gyfarpar ar glaf, bydd ei feddyg teulu yn rhoi presgripsiwn iddo sydd wedyn yn cael ei ddosbarthu gan fferyllfa neu gontractwr gweinyddu cyfarpar dewisol. Mewn rhai achosion, bydd y meddyg teulu neu nyrs y practis yn cyflenwi'r eitem yn erbyn presgripsiwn, a chyfeirir at hyn fel gweinyddu personol, gan y bydd yr eitem sy'n cael ei chyflenwi wedyn yn cael ei gweinyddu i'r claf gan y meddyg teulu neu'r nyrs. Mae hyn yn wahanol i weinyddu presgripsiynau ac mae ond yn berthnasol i rai eitemau penodedig, er enghraifft brechlynnau, anaestheteg, pigiadau, dyfeisiau atal cenhedlu yn y groth, a phwythau.

Ar gyfer yr eitemau hyn, bydd y practis yn creu presgripsiwn; ond, nid yw'n ofynnol i'r claf fynd ag ef i fferyllfa, ei gael wedi ei weinyddu ac yna dychwelyd i'r practis er mwyn iddo gael ei roi. Yn lle hynny, bydd y practis yn cadw'r presgripsiwn ac yn ei gyflwyno i'w ad-dalu i Bartneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru ar ddiwedd y mis.

Ar wahân, gall practis meddyg teulu ddarparu cyffur, meddyginiaeth neu gyfarpar ar gyfer trin claf ar unwaith am nad yw'r claf yn gallu cael yr eitem o fferyllfa o fewn yr amser gofynnol.

Yn 2024/25, cafodd 182,807 o eitemau eu gweinyddu'n bersonol neu eu darparu ar gyfer triniaeth ar unwaith gan y practisau meddygon teulu. Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 77,029 o eitemau eu gweinyddu'n bersonol neu eu darparu ar gyfer triniaeth ar unwaith.

Mae'r gwasanaeth hwn felly yn lleihau'r galw am y gwasanaeth hanfodol dosbarthu, gan y bydd rhai eitemau yn cael eu gweinyddu'n bersonol neu eu darparu i'r claf ar gyfer triniaeth ar unwaith.

6.3 Gofal sylfaenol brys - gwasanaeth y tu allan i oriau (CAF24/7)

CAF24/7 yw'r gwasanaeth yng Nghaerdydd a'r Fro sy'n rhoi mynediad at glinigwyr sy'n gallu asesu symptomau i gleifion sydd angen gofal brys, neu y tu allan i oriau. Gellir ei gyrchu drwy ffonio 111. Os, ar ôl asesiad, y penderfynir bod angen unrhyw feddyginiaeth, bydd presgripsiwn yn cael ei roi i'w weinyddu mewn fferyllfa.

Mae'r gwasanaeth gofal sylfaenol brys - y tu allan i oriau yn gweithredu pan fydd practisau meddygon teulu ar gau. Mae'n darparu gofal iechyd i'r rhai sydd â phroblemau meddygol brys (ond nid argyfwng) sydd ynmethu aros nes bod eu practis meddyg teulu yn agor nesaf. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys Caerdydd a Bro Morgannwg i gyd. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o dair canolfan gofal sylfaenol:

- Ysbyty Athrofaol Cymru
- Ysbyty Brenhinol Caerdydd
- Ysbyty'r Barri

Rhoddwyd 35,720 o eitemau ar bresgripsiwn gan y gwasanaeth y tu allan i oriau yn 2024/25, a 36,467 yn naw mis cyntaf 2025/26. Mae'r gwasanaeth hwn felly yn cynyddu'r angen am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

Gellir cael gafael ar yr uned mân anafiadau (wedi'i lleoli yn Ysbyty'r Barri) drwy ffonio 111.

Mae'r gwasanaeth hwn yn lleihau'r angen am elfen gwasanaeth anhwylderau cyffredin y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.

6.4 Carchar

Mae CEM Caerdydd yn garchar categori B sy'n dal dynion ar remánd neu'r rhai sydd wedi'u dedfrydu i lai na dwy flynedd o garchar fel arfer. Mae ganddo wasanaeth fferyllfa fewnol. Mae'r fferyllfa yn defnyddio ystod eang o gyfarwyddiadau grŵp cleifion sy'n cwmpasu brechiadau a meddyginiaethau ar gyfer mân anhwylderau, gan gynnwys triniaeth ar gyfer symptomau diddyfnu cyffuriau ac alcohol. Ar ôl eu rhyddhau, mae carcharorion yn cael cyflenwad o'u meddyginiaeth neu mae darpariaethau wedi'u gwneud iddynt gael meddyginiaeth o fferyllfa.

Felly, mae'r fferyllfa fewnol yn lleihau'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

6.5 Gwasanaeth Archebu Heb Bresgripsiwn Ar-lein system rhwymynnau

Mae hon yn system gaffael rhwymo clwyfau ac mae wedi'i chyflwyno i wella rheoli gofal clwyfau ac i leihau gwastraff. Mae'n caniatáu i wasanaethau cymunedol archebu rhwymynnau y cytunwyd arnynt trwy borth ar-lein i'w cyflenwi trwy fferyllfeydd sy'n cymryd rhan, heb yr angen am bresgripsiwn. Felly, mae'r gwasanaeth yn lleihau'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

6.6 Presgripsiynu gan ddeintyddion ac optometryddion

Yn wahanol i bractisau meddygon teulu, nid yw presgripsiynau gan ddeintyddion wedi'u halinio â phractis y deintydd. Felly, nid yw'n bosibl nodi faint o eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn gan y practisau deintyddol yn ardal y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl nodi nifer y presgripsiynau deintyddol a weinyddwyd gan y fferyllfeydd yng Nghaerdydd a'r Fro.

Yn 2024/25, gweinyddwyd cyfanswm o 33,847 o eitemau gan y fferyllfeydd, a gweinyddwyd 27,867 o eitemau yn naw mis cyntaf 2025/26.

Mae'r sefyllfa yr un fath ar gyfer presgripsiynau a ysgrifennwyd gan optometryddion. Yn 2024/25, gweinyddwyd cyfanswm o 7,722 o eitemau gan y fferyllfeydd ac yn naw mis cyntaf 2025/26, gweinyddwyd 8,306 o eitemau.

Felly, mae'r gwasanaethau hyn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

6.7 Gwasanaethau a ddarperir gan feddygon teulu dan eu contract gwasanaethau meddygol cyffredinol

Mae'r practisau meddygon teulu yng Nghaerdydd a'r Fro yn darparu'r gwasanaethau canlynol sy'n lleihau'r angen am wasanaethau fferyllol:

- Darparu cyngor a chyhoeddi presgripsiynau mewn perthynas ag atal cenhedlu hormonaidd brys
- Brechiadau'r fflw a Covid-19
- Cyngor a thriniaeth ar gyfer anhwylderau cyffredin
- Adolygiadau anadlyddion.

Mae darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cynyddu'r angen am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol wrth i bresgripsiynau gael eu cyhoeddi. Fodd bynnag, bydd hefyd yn lleihau'r angen i ddarparu rhai o'r gwasanaethau cenedlaethol fferylliaeth gymunedol a chontractwr cyfarpar a gwasanaethau clinigol ychwanegol.

6.8 Diogel yn y Cartref

Mae Diogel yn y Cartref yn cefnogi pobl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg i dderbyn gofal brys gartref pan mae'n ddiogel gwneud hynny, yn hytrach na mynd i'r ysbyty. Yn 2024/25 rhoddodd y gwasanaeth 781 o eitemau ar bresgripsiwn, a weinyddwyd gan fferyllfeydd a 948 yn naw mis cyntaf 2025/26.

Mae'r gwasanaeth hwn felly yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

6.9 Gwasanaethau cyffuriau ac alcohol

Mae gwasanaethau cyffuriau ac alcohol Caerdydd a'r Fro yn cefnogi pobl sydd ag unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol. Yn 2024/25, rhoddodd y gwasanaeth 112 o eitemau ar bresgripsiwn, a weinyddwyd gan fferyllfeydd a 324 yn naw mis cyntaf 2025/26. Fodd bynnag, mae rhywfaint o weinyddu presgripsiynau yn digwydd ar y safle. Mae'r gwasanaeth hwn felly yn cynyddu ac yn lleihau'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

6.10 Gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned

Mae'r bwrdd iechyd yn darparu ac yn comisiynu ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu yn y gymuned a gall gyhoeddi presgripsiynau y mae angen eu gweinyddu gan fferyllfa. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu gofal yn agos at y cartref, gan gefnogi'r gwaith o drefnu gofal o amgylch cymunedau lleol. Gall y cyfeiriad strategol hwn gynyddu nifer y gwasanaethau sy'n cyhoeddi presgripsiynau yn ystod oes y ddogfen hon.

Felly, mae'r gwasanaethau hyn yn cynyddu'r galw am y gwasanaeth gweinyddu hanfodol.

7 angen iechyd y gellir eu diwallu gan wasanaethau fferyllol

Yng Nghymru, mae dros 11,000 o ymgynghoriadau cyngor yn digwydd bob dydd ar draws y rhwydwaith fferyllfeydd cymunedol¹⁷⁶. Mae'r rhain yn gyfle gwerthfawr i gefnogi newid ymddygiad trwy wneud i bob un o'r cysylltiadau hyn gyfrif. Gallai gwneud dewisiadau iach, fel rhoi'r gorau i ysmegu, gwella diet a maeth, cynyddu gweithgaredd corfforol, colli pwysau, a lleihau'r defnydd o alcohol wneud cyfraniad sylweddol at leihau'r risg o glefydau, gwella canlyniadau iechyd i'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor, lleihau marwolaeth gynamserol a gwella lles meddyliol. Mae fferyllfeydd mewn sefyllfa ddelfrydol i annog a chefnogi pobl i wneud y dewisiadau iach hyn fel rhan o'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol sy'n cael eu comisiynu gan y bwrdd iechyd.

7.1 Yr angen am gyffuriau a chyfarpar

Ar ryw adeg neu'i gilydd, bydd angen presgripsiynau i gael eu dosbarthu i bawb, p'un a ydynt yn un o'r grwpiau a nodir yn adran pedwar ai peidio, gan mai meddyginiaethau ar bresgripsiwn yw un o'r ymyriadau mwyaf cyffredin mewn gofal iechyd. Gall hyn fod ar gyfer cwrs untro o wrthfotigau neu ar gyfer meddyginiaeth y bydd angen iddynt ei chymryd, neu gyfarpar y bydd angen iddynt ei ddefnyddio, am weddill eu hoes er mwyn rheoli cyflwr hirdymor. Dim ond trwy ddarparu gwasanaethau fferyllol y gellir diwallu'r angen iechyd hwn o fewn gofal sylfaenol, boed hynny gan fferyllfeydd, contractwyr dosbarthu cyfarpar neu feddygon dosbarthu.

Ynghyd â hyn mae casglu a gwaredu yn ddiogel cyffuriau diangen neu gyffuriau sydd wedi'u dosbarthu y mae eu dyddiad bellach wedi dod i ben. Mae dyletswydd ar y bwrdd iechyd a'r fferyllfeydd i sicrhau bod pobl sy'n byw gartref neu mewn cartref gofal preswyl yn gallu dychwelyd cyffuriau diangen neu rai y mae eu dyddiad wedi dod i ben i'w gwaredu'n ddiogel.

Dylid nodi nad yw gwasanaethau casglu a chyflenwi yn wasanaethau cytundebol ac felly yn cael eu darparu'n breifat gan fferyllfeydd yn ôl eu disgresiwn.

Bydd y gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau yn rhoi cymorth i gleifion a ryddhawyd yn ddiweddar rhwng lleoliadau gofal drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod arhosiad yn yr ysbyty) yn cael eu gweithredu fel a fwriadwyd yn y gymuned gan helpu i leihau'r risg o broblemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir eu hatal a chefnogi cydymffurfio â meddyginiaethau sydd newydd gael eu rhoi ar bresgripsiwn. Mae hwn yn wasanaeth fferylliaeth gymunedol a chontractwr cyfarpar cenedlaethol, y gall contractwyr ddewis ei ddarparu.

Efallai y bydd achlysuron lle mae person yn rhedeg allan o'i feddyginiaeth reolaidd ac mae'r fferyllfeydd yn credu na fyddai'n ymarferol i'r person gael y meddyginiaethau oedd ar bresgripsiwn yn flaenorol o fewn amserlen briodol yn glinigol drwy'r llwybr arferol heb oedi gormodol. O dan y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol clinigol, efallai y bydd person yn gallu cael mynediad at gyflenwad o'u meddyginiaethau sydd eu hangen ar frys.

¹⁷⁶ Fferylliaeth Gymunedol Cymru (2020) [Archwiliad cyngor fferylliaeth \(adroddiad llawn\)](#) Richard Brown PhD, FRPharmS

I'r rhai sydd â chyfarpar, bydd y gwasanaeth adolygu defnydd cyfarpar yn helpu i wella eu gwybodaeth a'u defnydd ohono. Nod y gwasanaeth yw sicrhau bod pobl yn cael y budd mwyaf posibl o'r defnydd o'u cyfarpar a gwella eu profiad o'i ddefnyddio.

I'r rhai sydd â chyfarpar stoma sydd angen ei addasu, bydd y gwasanaeth addasu cyfarpar stoma yn sicrhau defnydd priodol a gosodiad cyfforddus yr offer ac yn gwella hyd ei ddefnydd a thrwy hynny yn lleihau gwastraff.

7.2 Camddefnyddio sylweddau

Gall darparu gwasanaeth clinigol ychwanegol dosbarthu dan oruchwyliaeth gan fferyllfeydd:

- gynorthwyo clinigwyr sy'n presgripsiynu i ddarparu presgripsiynu yn y gymuned,
- gwella glynu at gynllun triniaeth y cytunwyd arno,
- darparu cymorth a mynediad at gyngor a chymorth pellach, gan gynnwys atgyfeirio unigolion at wasanaethau triniaeth arbenigol neu wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eraill,
- lleihau'r risg o gymryd meddyginiaethau amhriodol, a allai arwain at niwed
- sicrhau bod yr unigolyn yn dilyn y gyfundrefn gywir o ran dos y feddyginiaeth ar y presgripsiwn,
- lleihau'r perygl bod meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn cael ei dargyfeirio i'r farchnad anghyfreithlon,
- lleihau'r posibilrwydd o wenwyno damweiniol, yn enwedig gyda phlant; a
- lleihau achosion o farwolaeth ddamweiniol drwy orddos.

Bydd y gwasanaeth clinigol ychwanegol sy'n darparu chwistrellau nodwyddau yn helpu i leihau rhannu nodwyddau ac offer a all arwain at firsau a gludir yn y gwaed a heintiau eraill fel firws imiwnoddiffygiant dynol (HIV), hepatitis B a hepatitis C yn cael eu trosglwyddo. Yn ei dro, gallai hyn arwain at leihad yn nifer yr achosion o feirysau a gludir yn y gwaed, ac felly hefyd bod o fudd i gymdeithas ehangach.

Mae elfennau hefyd o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Maent fel arfer yn cael eu cynnal dros gyfnod o bedair wythnos, ond gellir ymestyn rhai. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Gallai ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd gynnwys codi ymwybyddiaeth o beryglon yfed alcohol drwy drafod risgiau yfed alcohol dros y meintiau a argymhellir, arddangos posteri a dosbarthu taflenni, cardiau crafu a deunyddiau perthnasol eraill.
- Os nad yw'r fferyllfa'n darparu gwasanaethau pellach cyfnewid nodwyddau a chwistrellau a/neu'r defnydd dan oruchwyliaeth o feddyginiaethau, dylid cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaethau.
- Atgyfeirio pobl a allai ddibynnu ar alcohol at ddarparwyr triniaeth alcohol arbenigol lleol.
- Darparu cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynychu'r fferyllfa.

7.3 Canser

Yn ogystal â gweinyddu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o'r materion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â gofal canser fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maent yn eu darparu:

- Gwaredu cyffuriau diangen, gan gynnwys cyffuriau a reolir.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ymwybyddiaeth o ganser a/neu sgrinio.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth arall, er enghraifft darparwyr gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu.
- Pan fydd yn ymddangos i staff y fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, darparu cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall.
- Mae gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan fferyllfeydd, yn rhan o adsefydlu cyn derbyn ar gyfer triniaethau canser.

7.4 Cyflyrau hirdymor

Yn ogystal â gweinyddu presgripsiynau, gall fferyllfeydd gyfrannu at lawer o'r materion iechyd y cyhoedd sy'n ymwneud â chyflyrau hirdymor fel rhan o'r gwasanaethau hanfodol y maent yn eu darparu:

- Pan fydd person yn cyflwyno presgripsiwn ac yn ymddangos i'r fferyllfeydd ei fod yn dioddef o broblem iechyd niweidiol neu mewn perygl o'i datblygu, rhaid i'r fferyllfeydd roi cyngor i'r person hwnnw gyda'r nod o gynyddu ei wybodaeth a'i ddealltwriaeth o'r materion iechyd sy'n berthnasol i'w amgylchiadau personol.
- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys cyflyrau hirdymor.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth eraill.
- Pan fydd yn ymddangos i staff y fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, darparu cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall.
- Darparu cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynychu'r fferyllfa.

Bydd darparu brechiadau rhag y fflw, rhoi'r gorau i ysmygu a rhoi meddyginiaethau dan oruchwyliaeth gwasanaethau clinigol ychwanegol hefyd yn cynorthwyo pobl i reoli eu cyflyrau hirdymor er mwyn gwneud y gorau o'u hansawdd bywyd.

7.5 Dros bwysau a gordewdra

Bydd pedair elfen o'r gwasanaethau hanfodol yn mynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys gordewdra.
- Cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr gwasanaethau neu gymorth arall ar gyfer gwasanaethau rheoli pwysau.
- Pan fydd yn ymddangos i staff y fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, darparu cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall.
- Darparu cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynychu'r fferyllfa.

7.6 Iechyd rhywiol

Ochr yn ochr â'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol sy'n cynnwys darparu gwasanaeth atal cenhedlu, mae elfennau o ddarpariaeth gwasanaeth hanfodol fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV.
- Pan fydd yn ymddangos i staff y fferyllfa y byddai person yn elwa o gyngor i'w helpu i reoli cyflwr meddygol, darparu cyngor gan gynnwys cyngor ar opsiynau triniaeth a newidiadau i'w ffordd o fyw. Gallai hyn gynnwys rhoi cyngor i ofalwr i'w helpu i reoli cyflwr meddygol person arall.
- Pan nad yw'r fferyllfa yn darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa i ddarparwyr eraill gwasanaethau iechyd rhywiol, gan gynnwys pecynnau sgrinio heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.
- Darparu cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynychu'r fferyllfa.

7.7 Beichiogrwydd yn yr arddegau

Bydd gwasanaeth atal cenhedlu y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol, ynghyd ag elfennau darparu gwasanaeth hanfodol, yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn:

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys beichiogrwydd yn yr arddegau.
- Pan nad yw'r fferyllfa yn darparu gwasanaeth atal cenhedlu y fferylliaeth gymunedol glinigol, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaeth.

7.8 Ysmygu

Yn ogystal â'r gwasanaethau clinigol ychwanegol rhoi'r gorau i ysmygu lefel 2 a lefel 3 (Helpa Fi i Stopio @ Fferyllfa), mae elfennau o ddarpariaeth gwasanaethau hanfodol fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r angen iechyd hwn.

- Mae'n ofynnol i fferyllfeydd gymryd rhan mewn hyd at bedwar ymgyrch iechyd y cyhoedd bob blwyddyn galendr drwy hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ddefnyddwyr. Dewisir y pynciau ar gyfer yr ymgyrchoedd hyn gan y bwrdd iechyd a gallent gynnwys ysmegu.
- Os nad yw'r fferyllfa'n darparu'r gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu clinigol ychwanegol, cyfeirio pobl sy'n defnyddio'r fferyllfa at ddarparwyr eraill y gwasanaeth.
- Trafod rhoi'r gorau i ysmegu fel mater o drefn wrth werthu meddyginiaethau perthnasol dros y cownter.
- Darparu cyngor byw'n iach yn ystod ymgynghoriadau ac ymgysylltu â phobl sy'n mynychu'r fferyllfa.

7.9 Cymorth ar gyfer hunanofal

Mae cymorth ar gyfer hunan-ofal yn wasanaeth hanfodol. Fel rhan o'u fferyllfeydd gwasanaethau hanfodol, mae'n rhaid darparu cyngor ar hunan-ofal i gleifion o ran opsiynau triniaeth a newidiadau i ffordd o fyw.

7.10 Feirysau a gludir yn y gwaed

Nod y gwasanaeth clinigol ychwanegol feirysau a gludir yn y gwaed yw gwella mynediad at sgrinio feirysau a gludir yn y gwaed, triniaethau cysylltiedig a chynghor iechyd drwy gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu profi ac i leihau'r risgiau personol ac iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â heintio gan hepatitis B a C a'r feirws imiwnnoddiffigiant dynol^{177,178,179}.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi canfod a diagnosis cynnar y rhai sydd mewn perygl o feirysau a gludir yn y gwaed fel y feirws imiwnnoddiffigiant dynol, hepatitis B a C gan ddefnyddio profion smotiau gwaed sych, a sicrhau bod triniaeth yn dechrau'n gynnar, gan atal trosglwyddiad pellach y feirws. Mae'r grŵp o gleientiaid yr ystyrir eu bod mewn perygl o gael eu heintio yn cael mynediad rheolaidd at wasanaethau a ddarperir gan fferyllfeydd fel darparu nodwyddau a chwistrellau a gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth.

7.11 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Gall fferyllwyr sy'n bresgripsiynwyr annibynnol bresgripsiynu unrhyw feddyginiaeth drwyddedig ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol, o fewn eu maes cymhwysedd therapiwtig. Ar hyn o bryd mae hyn yn eithrio tri chyffur a reolir ar gyfer trin dibyniaeth. Mae'r Cynllun Pwyllgor Fferyllol Cymru 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru iachach (2019)¹⁸⁰, yn gosod y nod, erbyn 2030, y bydd presgripsiynydd annibynnol ym mhob fferyllfa gymunedol a mwy o ffocws ar atal a chanfod salwch yn gynnar.

Mae'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa yn wahanol i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin o dan y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol clinigol gan ei bod

¹⁷⁷ Llywodraeth Cymru Ionawr 2023 - [Dileu hepatitis \(B ac C\) fel bygythiad i iechyd y cyhoedd yng Nghymru - Camau gweithredu ar gyfer 2022-2023 a 2023-2024](#) (Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2023/001)

¹⁷⁸ Llywodraeth Cymru - [Datganiad Ysgrifenedig: Diwrnod Hepatitis y Byd 2024 \(26 Gorffennaf 2024\)](#)

¹⁷⁹ Llywodraeth Cymru - [Datganiad Ysgrifenedig: Dileu hepatitis B ac C yng Nghymru \(7 Awst 2025\)](#)

¹⁸⁰Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol - [Fferylliaeth: Cyflawni Cymru iachach](#)

yn ofynnol i fferyllwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol bresgripsiynu meddyginiaethau ar gyfer cyflenwad y GIG lle bo hynny'n briodol, yn aml yn disodli'r angen am apwyntiad meddyg teulu. Yn wahanol i'r gwasanaeth anhwylderau cyffredin, sydd fel arfer yn canolbwyntio ar fân faterion iechyd ac yn cyflenwi triniaethau dros y cownter, mae'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol yn grymuso fferyllwyr i reoli ystod ehangach o gyflyrau yn annibynnol. Mae'r rôl uwch hon yn cefnogi cleifion gyda mynediad amserol at ofal iechyd, gan leihau'r pwysau ar ymarfer cyffredinol a gwella'r ddarpariaeth gofal o fewn y gymuned.

Rhaid i unrhyw contractwr fferylliaeth sy'n dymuno darparu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa hefyd ddarparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol sy'n cynnwys tair elfen; gwasanaeth anhwylderau cyffredin, argyfwng, gwasanaeth atal cenhedlu Pontio a Dechrau Cyflym a gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth frys.

7.12 Gofal lliniarol

Mae angen mynediad at feddyginiaethau gofal lliniarol mewn oriau i gefnogi gofal cleifion y mae eu cyflwr yn dirywio'n annisgwyl. Nid yw meddyginiaethau gofal lliniarol o reidrwydd yn cael eu cadw fel mater o drefn gan bob fferyllfa, sy'n golygu bod weithiau rhaid i gleifion ymweld â mwy nag un fferyllfa i gael mynediad at yr holl feddyginiaethau sydd eu hangen.

Mae'r gwasanaeth meddygaeth frys yn hwyluso mynediad at restr y cytunwyd arni o feddyginiaethau gan fferyllfeydd sy'n cymryd rhan yn ystod oriau agor dan contract, gan gynnwys unrhyw oriau agor a bennir o fewn ac y tu allan i oriau cytundeb gwasanaeth fferyllol rhwng y bwrdd iechyd a chontractwr y fferyllfa. Mae rhai o'r meddyginiaethau sydd ar gael trwy'r gwasanaeth hwn wedi'u cymeradwyo gan arbenigwyr gofal lliniarol ar gyfer rheoli poen mewn sefyllfaoedd brys. Nod y gwasanaeth hwn yw cefnogi mynediad amserol mewn oriau at feddyginiaethau brys na fyddai fel arall ar gael ar unwaith, mewn symiau digonol mewn fferyllfa, a chefnogi gofal effeithiol i gleifion trwy hyrwyddo'r gwasanaeth meddyginiaethau brys a chyfeirio unigolion a darparwyr gofal iechyd i fferyllfeydd sy'n cymryd rhan.

7.13. Brechu rhag clefydau heintus

Brechlynnau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o atal llawer o glefydau heintus ac maent yn atal miliynau o farwolaethau ledled y byd bob blwyddyn.

Mae'r fflw yn ffactor allweddol yng ngwytnwch GIG Cymru, gan effeithio ar iechyd cleifion a'r galw am wasanaethau. Mae'r rhaglen frechu flynyddol yn lleihau derbyniadau heb eu cynllunio a phwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r bwrdd iechyd yn comisiynu fferyllfeydd i ddarparu gwasanaeth tymhorol brechu rhag y fflw.

8 Clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd

8.1 Trosolwg

Clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd yw'r lleiaf o'r chwe chlwstwr o fewn awdurdod lleol Caerdydd, sy'n gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 42,769¹⁸¹. Mae naw fferyllfa yn y clwstwr, dau gontractwr cyfarpar fferyllol a chwe phractis meddygon teulu; mae gan ddau o'r practisau meddygon teulu safleoedd meddygfa cangen.

Mae 48.9% o breswylwyr clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu ag 20.7% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau sydd yn is na'r bwrdd iechyd a Chymru mewn asthma, ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, dementia, methiant y galon, pwysedd gwaed uchel a strôc a phyliau o isgemia dros dro.
- Cyfartaledd uwch na'r bwrdd iechyd a Chymru o ran iechyd meddwl.
- Bod diabetes yn uwch na'r bwrdd iechyd ond yn is na Chymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd â'r 20% o amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd.

Tabl 8.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghanol y Ddinas a De Caerdydd a'r bwrdd iechyd (2025)¹⁸²

Ardal	Canran
Clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd	48.9%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

8.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd.

¹⁸¹ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

¹⁸² Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

Tabl 8.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁸³

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc phylliau isgemia dros dro
Clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd	5.2%	1.8%	1.1%	7.5%	0.6%	1.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Bu gostyngiad yn yr achosion ers i'r dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol gael ei gyhoeddi mewn asthma (o 5.6%), clefyd coronaidd y galon (o 1.9%), clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (o 1.2%) gyda chynnydd mewn diabetes (o 5.5%), methiant y galon (o 0.5%) a strôc/TIA (o 1.1%).

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd. Mae'r data'n dangos bod gan Ganol y Ddinas a De Caerdydd ganran uwch o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaleddau y bwrdd iechyd (0.2% yn uwch) a Chymru (0.1% yn uwch), ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.2% yn is) a chyfartaledd Cymru (0.3% yn is).

Tabl 8.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁸⁴

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd	1.2%	0.5%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Nid oes unrhyw newid wedi bod ym mynychder iechyd meddwl ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol ac mae gostyngiad bach o 0.6% wedi bod ym mynychder dementia.

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif o fynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi'u cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd. Mae mynychder ffibriliad atrïaidd yn y clystyrau yn is na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd (1.1% yn is) a Chymru (1.8% yn

¹⁸³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

¹⁸⁴ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

is) ac ar gyfer pwysedd gwaed uchel mae'n is na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd (3.5% yn is) a chyfartaledd Cymru (6.7% yn is).

Tabl 8.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁸⁵

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Pwysedd Gwaed Uchel
Clwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd	0.9%	9.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	13.1%
Cymru	2.7%	16.3%

Bu cynnydd bach ym mynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol o 0.8% a 9.3% yn y drefn honno.

8.2 Darpariaeth bresennol y gwasanaethau fferyllol yn y clwstwr

Mae naw fferyllfa yn cael eu gweithredu gan bedwar contractwr ac un contractwr cyfarpar fferyllol yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd. Yn y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol roedd deg fferyllfa.


Yn 2024/25, cafodd 88.6% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd neu'r contractwr cyfarpar fferyllol o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 90.0% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd neu'r contractwr cyfarpar fferyllol o fewn y clwstwr.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfa a'r contractwr cyfarpar fferyllol yn y clwstwr. Cynrychiolir fferyllfeydd gan  a'r contractwr cyfarpar fferyllol gan .

¹⁸⁵ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Map 8.1: Lleoliad y fferyllfeydd a'r contractwr cyfarpar fferyllol



Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y dadansoddiad o anghenion poblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn neu ger ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyafrif o fewn pum munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, a bod y fferyllfa sydd wedi cau yn agos at fferyllfeydd eraill, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer mae'r amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y naw fferyllfa:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos,
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn, ac
- Mae chwe fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 8.5: Orlau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod yr oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.00am tan 9.00am	5.30pm tan 8.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am	5.30pm tan 7.00pm
Dydd Sul	11.00am	5.00pm

- Dydd Llun i Ddydd Gwener:
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae pum fferyllfa yn cau am 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.30pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 7.00pm

- Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae tair fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 7.00pm
- Mae dwy fferyllfa ar agor ar ddydd Sul

Noder bod rhai fferyllfeydd ar agor tan 10:30pm ar adeg y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol.

Mae'r contractwr cyfarpar fferyllol ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.00am i 3.00pm.

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd a'r contractwr cyfarpar fferyllol ar agor yn Atodiad K.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur y contractwr yn llawn, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i bump o'r fferyllfeydd hyn ac mae ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- ag ystafelloedd caeedig,
- ag ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllfeydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ar eu staff. Mae ieithoedd eraill a siaredir gan staff fel a ganlyn.

- Wrddw (dwy fferyllfa)
- Arabeg
- Bengaleg
- Cantoneg
- Groeg
- Gwjarati
- Hindi
- Eidaleg
- Perseg

Mae pedwar o'r fferyllfeydd yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar. Nid yw'r pumed yn gweinyddu cyfarpar.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae pum fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu,
- mae tair yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais,
- mae un yn cyfyngu'r gwasanaeth i gleifion ag eitemau swmpus h.y. diodydd maethol neu gleifion sy'n gaeth i'r tŷ heb aelodau o'r teulu/cymdogion/ffrindiau sy'n gallu casglu ar eu rhan, ac
- mae tair yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi.

Roedd dau awgrym ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- Pigiadau Depo-provera
- Proffylaxis cyn-gysylltiad

Byddai'r rhain yn cael eu darparu trwy bresgripsiynwyr annibynnol sy'n gweithio ochr yn ochr â'r clinig iechyd rhywiol.

Roedd dau awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- Nyrsys i allu darparu brechiadau rhag y fflw
- Brechiadau Covid i'w darparu gan fferyllfeydd.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd pob un o'r naw fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd dwy fferyllfa:

- Mae un yn bwriadu darparu gwasanaeth preifat brechu rhag twymyn Dengue, a sgrinio iechyd esgryn.
- Mae gan un presgripsiynydd annibynnol dan hyfforddiant yn y fferyllfa.

8.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

8.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oedd un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, ac nid yw'r contractwr cyfarpar fferyllol yn gwneud hynny chwaith.

8.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 8,754 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 240 a 3,147)
- 2,704 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 2,154)
- 3,429 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 30 i 1,540)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 7,593 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 395 a 2,640)
- 1,798 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 6 a 1,278)

- 3,027 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 131 i 1,257)

8.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae pob un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd wyth fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,714 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa 12 i 816).

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,598 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa 103 i 688).

8.3.1.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Darparodd pump o'r naw fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,953 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa 6 i 1,779).

Er bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, darparodd pedwar ef yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 2,111 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa 15 i 1,832).

8.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes un o'r fferyllfeydd na chontractwyr cyfarpar fferyllol yn darparu'r gwasanaeth hwn.

8.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd wyth fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 150 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 93). Darparodd wyth y gwasanaeth yn naw mis cyntaf 2025/26 gan ddarparu cyfanswm o 134 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng dau a 65).

8.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

8.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

8.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 70 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa 5 i 47).

Fe wnaeth pum fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 77 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa 2 i 41).

8.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 26 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa 1 i 25).

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 18 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa 3 i 15).

8.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn i 107 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa 36 i 71).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn i 93 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa 4 i 89).

8.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Nid oes un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

8.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

8.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gfael ar wasanaethau:

- a gynigir gan contractwyr cyfarpar fferyllol neu
- sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu resymau eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (88.6%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 2.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 2.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 1.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn naw mis cyntaf 2025/26 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (90.0%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 2.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 2.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 1.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

8.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

8.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 8.3 ac 8.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 312 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yn y clwstwr, ac roedd 201 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 6,176 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 283 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at Rhagfyr 2025) weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yn y clwstwr, ac roedd 175 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 4,709 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

8.7 Datblygiadau tai

Mae dau ddatblygiad o fewn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 8.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi eu cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar gweill y	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Butetown	5,797	679	898	4,220	11,260
Grangetown	1,547	99	93	1,355	3,186
Cyfanswm	7,344	778	991	5,575	14,445

8.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r naw fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio.

8.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y

dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.

- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.
- Orlau agor y fferyllfeydd a'r contractwyr cyfarpar fferyllol.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstwr.

8.8.2 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

8.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 49.0% gan contractwyr cyfarpar gweinyddu, a 51.9% yn naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafeael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafeael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

8.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

8.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

8.8.2.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferylllydd

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 ac mae gan un arall ragnodydd annibynnol dan hyfforddiant yn y fferyllfa.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026 y rhagwelir y bydd pob fferylllydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel rhagnodwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

8.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, ac nid oes unrhyw un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn gwneud hynny chwaith.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 49.0% gan gcontractwyr cyfarpar fferyllol, a 51.9% yn wyth mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

8.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sydd eisiau gwneud trefniadau o'r fath. Darparodd wyth o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 a naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth yn y clwstwr hwn.

8.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

8.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

8.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbyty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal leol.

8.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pump o'r naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26, a bod dwy fferyllfa wedi ei ddarparu.

8.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

8.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu trefniadau comisiynu lle bo angen.

9 Clwstwr Dwyrain Caerdydd

9.1 Trosolwg

Clwstwr Dwyrain Caerdydd yw'r pedwerydd mwyaf o'r chwe chlwstwr yn awdurdod lleol Caerdydd. Mae gan Ddwyrain Caerdydd, sy'n gwasanaethu poblogaeth sydd wedi cofrestru mewn practisau meddygon teulu o 59,452¹⁸⁶ ddeg fferyllfa yn y clwstwr a phedwar practis meddygon teulu; mae gan ddau o'r pedwar practis meddygon teulu safleoedd meddygfa cangen.

Mae amddifadedd yn amlwg iawn yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd - mae 45.7% o breswylwyr yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â 20.7% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau is na'r bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atrïaidd, cyflyrau iechyd meddwl, a strôc/pyliau isgemig dros dro.
- Cyfartaleddau uwch na'r bwrdd iechyd a Chymru mewn clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a diabetes.
- Cyfartaleddau uwch na'r bwrdd iechyd ond yn is na Chymru mewn asthma, clefyd coronaidd y galon, methiant y galon, a phwysedd gwaed uchel.
- Mae dementia yn uwch na'r bwrdd iechyd ond mae'n cyd-fynd â Chymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd.

Tabl 9.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn Nwyrain Caerdydd a'r bwrdd iechyd (2025)¹⁸⁷

Ardal	Canran
Clwstwr Dwyrain Caerdydd	45.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

9.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd.

Tabl 9.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁸⁸

¹⁸⁶ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

¹⁸⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

¹⁸⁸ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau isgemia dros dro
Clwstwr Dwyrain Caerdydd	6.7%	2.9%	2.5%	8.5%	1.3%	1.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Ers yr asesiad o anghenion y boblogaeth, bu gostyngiad ym mynychder asthma (o 6.8%) a chynnydd mewn clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (o 2.3%), diabetes (o 5.6%), methiant y galon (o 0.9%) a strôc/TIA (o 1.6%) gyda chlefyd coronaidd y galon yn aros yr un peth.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwtwr Dwyrain Caerdydd. Mae'r data'n dangos bod gan Ddwyrain Caerdydd ganran is o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.2% yn is) a Chymru (0.3% yn is), ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig ychydig yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.1% yn uwch) ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.

Tabl 9.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁸⁹

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Dwyrain Caerdydd	0.8%	0.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Mae'r mynychder yr un fath ag ar adeg yr asesiad o anghenion y boblogaeth blaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi eu cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwtwr Dwyrain Caerdydd. Mae mynychder ffibriliad atrïaidd clwstwr Dwyrain Caerdydd yn is na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd (0.2% yn is) a Chymru (0.9% yn is) ac mae'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (1.3% yn uwch) ac yn is na chyfartaleddau Cymru (1.9% yn is).

Tabl 9.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁹⁰

¹⁸⁹ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

¹⁹⁰ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Pwysedd Gwaed Uchel
Clwstwr Dwyrain Caerdydd	1.8%	14.4%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	13.1%
Cymru	2.7%	16.3%

Cafwyd cynnydd ym mynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ers yr asesiad o anghenion y boblogaeth blaenorol o 1.6% a 13.7% yn y drefn honno.

9.3 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol yn y clwstwr


Mae deg fferyllfa yng nghlwestwr Dwyrain Caerdydd sy'n cael eu gweithredu gan saith contractwr.

Yn 2024/25, cafodd 82.9% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Dwyrain Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 84.2% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Dwyrain Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd yn y clwstwr.

Map 9.1: Lleoliad y fferyllfeydd



Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn neu ger ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyafrif o fewn pum munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau

hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer mae'r amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y deg fferyllfa:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a bore Sadwrn, ac
- Mae chwe fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 9.5: Oriau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.00am tan 9.00am	5.30pm tan 7.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am	1.00pm i 5.30pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Dydd Llun i Ddydd Gwener:
 - Mae pedair fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae pedair fferyllfa yn cau am 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.30pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 7.00pm
- Mae tair fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 1.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.30pm
- Mae un fferyllfa yn agor ar ddydd Sul

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad K.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur y contractwr yn llawn, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i bump o'r fferyllfeydd hyn ac mae ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- ag ystafelloedd caeedig,
- ag ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ar eu staff. Mae ieithoedd eraill a siaredir gan staff fel a ganlyn.

- Hindi a Pwnjabeg
- Tamil

Mae pum fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae pob un o'r pum fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu,
- mae pedwar yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, ac
- Mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi er ei fod yn dosbarthu am ddim i gleifion gofal lliniarol ar sail tosturiol.

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal – pigiadau Kenalog ar gyfer clefyd y gwair ac alergeddau lle nad yw gwasanaeth clefyd y gwair y gwasanaeth clefydau cyffredin yn effeithiol.

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd. Gwasanaeth gwiriad lles i gleifion 50 oed ac yn hŷn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd pob un o'r wyth fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio. Ni wnaeth dau ymateb i'r cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd dwy fferyllfa.

- Mae un yn bwriadu caffael mwy o fferyllfeydd, ac i gynnig mwy o wasanaethau preifat os nad yw gwasanaethau clinigol newydd yn cael eu comisiynu.
- Mae un fferyllfa yn bwriadu dechrau darparu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfydd.

9.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwr cyfarpar

9.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r deg fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 13,196 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 414 a 3,694)
- 346 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 95)
- 2,652 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 1,418)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 9,047 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 304 a 2,737)
- 268 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 99)
- 1,222 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 5 a 478)

9.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae pob un o'r deg fferyllfa wedi cofrestru ar gyfer darparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 996 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 39 a 210).

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 936 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 37 a 148).

9.3.1.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllydd

Darparodd saith fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 4,599 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 18 a 1,864).

Er bod wyth o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, darparodd chwech ef yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 3,792 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 66 a 1,064).

9.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn

9.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 303 o dolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng dau a 126). Darparodd naw y gwasanaeth yn naw mis cyntaf 2025/26 gan ddarparu cyfanswm o 310 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 139).

9.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

9.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 167 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 9 a 45).

Fe wnaeth pedair fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 117 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 7 a 41).

9.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 35 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 23).

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 28 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 3 a 16).

9.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae saith o'r deg fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth i 97 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 6 a 47).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth i 89 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 33).

9.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

9.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gfael ar wasanaethau:

- a gynigir gan contractwyr cyfarpar fferyllol.
- sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (82.9%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 5.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 4.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 2.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 2.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (84.2%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 4.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 4.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 2.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 2.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

9.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

9.6 Dewis o ran cael gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 9.3 ac 9.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 292 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd, ac roedd 187 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 9,698 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 268 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at Rhagfyr 2025) weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd, ac roedd 167 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 6,757 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

9.7 Datblygiadau tai

Mae tri datblygiad o fewn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 9.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi eu cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar y gweill	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Llanrhymni	103	28	59	16	165
Tredelerch	336	215	1	120	266
Trowbridge	285	3	130	152	620
Cyfanswm	724	246	190	288	1,052

9.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn darpariaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod wyth o'r fferyllfeydd wedi cadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio. Mae wedi tybio bod gan y ddwy fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

9.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstr a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwstr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.
- Orlau agor y fferyllfeydd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstr.

9.8.2 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a contractwyr cyfarpar

9.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 80.5% gan contractwyr cyfarpar fferyllol, a 79.2% yn naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstr.

9.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstr.

9.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y ffliw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

9.8.2.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 ac mae un yn bwriadu dechrau ei ddarparu.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026 y rhagwelir y bydd pob fferyllfeydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel rhagnodwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

9.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 80.5% gan contractwyr cyfarpar fferyllol, a 79.2% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

9.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sy'n dymuno gwneud trefniadau o'r fath. Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 a darparodd wyth y gwasanaeth yn naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

9.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

9.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

9.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbyty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

9.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26, a bod chwe fferyllfa wedi ei ddarparu.

9.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

9.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu bodloni trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu trefniadau comisiynu lle bo angen.

10 Clwstwr Dwyrain Caerdydd

10.1 Trosolwg

Clwstwr De-ddwyrain Caerdydd yw'r trydydd clwstwr mwyaf yn awdurdod lleol Caerdydd, sy'n gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 66,014¹⁹¹. Mae naw fferyllfa yn y clwstwr ac wyth practis meddygon teulu; mae gan ddau o'r practisau meddygon teulu feddygfeydd cangen.

Mae amddifadedd yn amlwg iawn yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd - mae 39.0% o breswylwyr yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â 25.1% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau sydd yn is na'r bwrdd iechyd a Chymru mewn asthma, ffibriliad atriaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, dementia, diabetes, methiant y galon, pwysedd gwaed uchel a strôc a phyliau o isgemia dros dro.
- Mae iechyd meddwl yn uwch na'r bwrdd iechyd ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd.

Tabl 10.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn Ne-ddwyrain Caerdydd a'r bwrdd iechyd (2025)¹⁹²

Ardal	Canran
Clwstwr De-ddwyrain Caerdydd	39.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

10.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd.

Tabl 10.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁹³

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau isgemia dros dro
-------	--------	--------------------------	--------------------------------------	----------	------------------	----------------------------------

¹⁹¹ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

¹⁹² Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

¹⁹³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Clwstwr De-ddwyrain Caerdydd	4.7%	1.6%	1.5%	5.4%	0.6%	1.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Bu gostyngiad yn y mynychder ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol ar gyfer asthma (o 5.2%), clefyd coronaidd y galon (o 1.8%), cynnydd mewn diabetes (o 4.2%) gyda chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, methiant y galon a strôc/TIA yn aros yr un fath.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwtwr De-ddwyrain Caerdydd. Mae'r data'n dangos bod gan Dde-ddwyrain Caerdydd ganran ychydig yn uwch o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.1% yn uwch) ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig ychydig yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.4% yn is) a chyfartaledd Cymru (0.5% yn is).

Tabl 10.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwtwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁹⁴

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr De-ddwyrain Caerdydd	1.1%	0.3%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Mae mynychder dementia wedi gostwng (o 0.4%) ers yr asesiad o anghenion poblogaeth blaenorol ac mae iechyd meddwl wedi aros yr un fath.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi eu cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwtwr De-ddwyrain Caerdydd. Mae mynychder ffibriliad atrïaidd yng nghlwtwr De-ddwyrain Caerdydd yn is na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd (1.0% yn is) a Chymru (1.7% yn is) ac ar gyfer pwysedd gwaed uchel mae'n is na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd (3.5% yn is) a Chymru (8.5% yn is).

Tabl 10.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwtwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁹⁵

¹⁹⁴ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwtwr a phractis meddyg teulu](#)

¹⁹⁵ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwtwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Pwysedd Gwaed Uchel
Clwstwr De-ddwyrain Caerdydd	1.0%	7.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	13.1%
Cymru	2.7%	16.3%

Mae mynychder pwysedd gwaed uchel wedi gostwng (o 8.1%) ers yr asesiad o anghenion poblogaeth blaenorol ac mae ffibriliad atrïaidd wedi aros yr un fath.

10.3 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol yn y clwstwr


Mae 15 fferyllfa yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd sy'n cael eu gweithredu gan 13 o contractwr ac un contractwr cyfarpar fferyllol.

Yn 2024/25, cafodd 79.6% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd neu'r contractwr cyfarpar fferyllol o fewn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 79.5% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd neu'r contractwr cyfarpar fferyllol o fewn y clwstwr.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfa a'r contractwr cyfarpar fferyllol yn y clwstwr. Cynrychiolir fferyllfeydd gan  a'r contractwr gweinyddu cyfarpar gan .

Map 10.1: Lleoliad y fferyllfeydd a'r contractwyr cyfarpar fferyllol



Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn wedi'u lleoli ger neu mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth ac amddifadedd uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyafrif o fewn pum munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, a

bod y fferyllfa sydd wedi cau yn agos at fferyllfeydd eraill, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer mae'r amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y 15 fferyllfa:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn
- Mae dwy ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhan o ddydd Sadwrn, ac
- Mae naw fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 10.5: Oriau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener	8.00am tan 9.00am	5.30pm tan 9.00pm
Dydd Mercher	8.00am tan 9.00am	4.00pm tan 9.00pm
Dydd Sadwrn	8.00am tan 9.00am	1.00pm tan 10.00pm
Dydd Sul	10.00am tan 10.30am	4.00pm tan 4.30pm

- Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener:
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae 11 fferyllfa yn cau am 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.15pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 9.00pm
- Dydd Mercher:
 - Mae un fferyllfa yn cau am 4.00pm
 - Mae tair fferyllfa yn cau am 5.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae saith fferyllfa yn cau am 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.15pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 9.00pm
- Mae chwe fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae dwy fferyllfa yn cau rhwng 12.00pm a 2.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau rhwng 5.00pm a 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 10.00pm
- Mae dwy fferyllfa ar agor ar ddydd Sul

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad K.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur y contractwr, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i'r pum fferyllfa ac mae gan bedwar ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn cynnwys ystafelloedd caeedig,

- yn cynnwys ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferylllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Mae gan un fferyllfa siaradwyr Cymraeg ar ei staff. Mae ieithoedd eraill a siaredir gan staff fel a ganlyn.

- Bengaleg
- Almaeneg
- Hindi
- Mandarin
- Pwnjabeg
- Telegw
- Wrddw

Mae dwy fferyllfa'n gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar, ac mae tair yn gweinyddu gorchuddion yn unig.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae pum fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu,
- mae dau yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais i bawb ac un yn ei ddarparu i grŵp cyfyngedig a dethol o gleifion oedrannus ac eiddil nad ydynt yn gallu mynychu a chasglu o'r fferyllfa, ac
- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi.

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaeth clinigol ychwanegol presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal – gwasanaeth brysbennu a thriniaeth ar gyfer trin mân glwyfau a llosgiadau lefel isel sy'n arbennig o gyffredin ymhlith y boblogaeth myfyrwyr nad oes ganddynt feddyg teulu cofrestredig yn yr ardal yn aml.

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd - asesu a darparu pigiadau Depo-provera fel opsiwn atal cenhedlu yn ogystal â gwasanaeth atal cenhedlu annibynnol presennol fferyllfa.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd, ac mae un heb gapasiti digonol a byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw. Mae gan bump gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, mae un heb ddigon, ond gallai wneud addasiadau, ac mae un heb ddigon a byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw. Ni wnaeth wyth ymateb i'r cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd dwy fferyllfa.

- Mae un yn bwriadu darparu gwasanaeth pigiad Depo-provera ar ôl ei gomisiynu ac efallai y bydd yn ystyried y gwasanaeth rhaglen nodwyddau a chwistrellau haen uwch.
- Mae gan un bresgripsiynydd annibynnol newydd gymhwyso yn y fferyllfa.

10.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

10.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oedd un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, ac nid yw'r contractwr cyfarpar fferyllol yn gwneud hynny chwaith.

10.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r 15 fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 12,747 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 117 a 2,663)
- 1,944 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 6 a 498)
- 3,568 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 16 i 835)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 10,385 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 148 a 1,804)
- 1,460 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 303)
- 3,425 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 28 i 686)

10.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Darparodd 14 o fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,134 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 169).

Darparodd 13 o fferyllfeydd y gwasanaeth yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,180 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 14 a 222).

10.3.1.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Darparodd chwech o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 3,467 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 1,708).

Er bod saith o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn a'i ddarparu yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 2,365 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 5 a 1,012).

10.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes un o'r fferyllfeydd na'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn darparu'r gwasanaeth hwn.

10.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd 15 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 610 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 224). Darparodd 12 y gwasanaeth yn naw mis cyntaf 2025/26 gan ddarparu cyfanswm o 333 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng dau a 120).

10.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

10.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae saith fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi 179 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 95).

Fe wnaeth chwe fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 113 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 51).

10.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 102 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 10 a 46).

Darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 86 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 8 a 31).

10.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae wyth o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd saith fferyllfa y gwasanaeth i 282 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 104).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth i 211 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 67).

10.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

10.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r ardal leol yn ogystal â'r tu allan i ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- a gynigir gan contractwyr cyfarpar fferyllol.
- sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (79.6%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 5.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 5.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 4.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- 1.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 1.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (79.5%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 5.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 5.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 4.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain Caerdydd
- 1.9% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- 1.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

10.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

10.6 Dewis o ran cael gafael ar wasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 10.3 ac 10.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 359 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd, ac roedd 248 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 6,751 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 329 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwestwr De-ddwyrain Caerdydd, ac roedd 224 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 4,608 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

10.7 Datblygiadau tai

Mae pedwardatblygiad o fewn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 10.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi eu cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar gweill y	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Adamsdown	327	77	19	231	550
Cathays a Gabalfa	87	5	5	77	180
Plasnewydd	156	9	34	113	323
Y Sblot	24	3	0	21	46
Cyfanswm	594	94	58	442	1,100

10.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu heiddo, ac mae un heb ddigon a byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw. Mae gan bump gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, mae un heb ddigon, ond gallai wneud addasiadau, ac mae un heb ddigon a byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw. Mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan yr wyth fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

10.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstwr.

Nododd y bwrdd iechyd nad oedd unrhyw ddatblygiadau tai mawr i'w hadeiladu ac mae'n fodlon y gall y fferyllfeydd presennol ddiwallu'r galw y bydd hyn yn ei greu mewn

perthynas â'r unedau llai o dai (fel y dangosir yn y tabl uchod), yn seiliedig ar yr ymatebion i'r holiadur contractwr. Felly, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw anghenion yn y dyfodol mewn perthynas â darparu gwasanaethau hanfodol gan fferyllfeydd yn y clwstwr.

10.8.2 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

10.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 78.0% gan gontractwyr cyfarpar fferyllol, a 78.9% yn naw mis cyntaf 2025/26.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

10.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

10.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

10.8.2.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 ac mae gan un arall ragnodydd annibynnol sydd wedi cymhwyso yn ddiweddar yn y fferyllfa.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026 y rhagwelir y bydd pob fferyllfeydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel rhagnodwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

10.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd nac unrhyw un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 78.0% gan contractwyr cyfarpar fferyllol, a 78.9% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

10.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa sy'n dymuno gwneud trefniadau o'r fath. Darparodd 15 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 a darparodd 12 y gwasanaeth yn naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

10.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

10.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi tair fferyllfa sydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod chwech wedi ei ddarparu yn 2025/26.

10.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

10.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod wyth fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod saith fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26.

10.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

10.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu'r trefniadau comisiynu lle bo angen.

11 Clwstwr Gogledd Caerdydd

11.1 Trosolwg

Clwstwr Gogledd Caerdydd yw'r mwyaf o'r chwe chlwstwr yn awdurdod lleol Caerdydd, sy'n gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 107,547¹⁹⁶. Mae 17 fferyllfa yn y clwstwr a deg practis meddygon teulu; mae gan bedwar o'r practisau meddygon teulu feddygfeydd cangen.

Mae'r clwstwr yn gymharol gefnog o'i gymharu â'r clystyrau eraill yng Nghaerdydd - dim ond 3.2% o'r preswylwyr sy'n byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â 20.7% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau is na'r bwrdd iechyd a Chymru o ran clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, diabetes, ac iechyd meddwl.
- Yn uwch na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd ond yn is na Chymru o ran asthma, ffibriliad atriaidd, a methiant y galon.
- Mae clefyd coronaidd y galon, pwysedd gwaed uchel a strôc ac ymosodiad isgemig yn cyd-fynd â chyfartaleddau'r bwrdd iechyd ond yn is na chyfartaleddau Cymru.
- Mae dementia yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Chymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd.

Tabl 11.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Ngogledd Caerdydd a'r bwrdd iechyd (2025)¹⁹⁷

Ardal	Canran
Clwstwr Gogledd Caerdydd	3.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

11.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd.

Tabl 11.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁹⁸

¹⁹⁶ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

¹⁹⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

¹⁹⁸ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau isgemia dros dro
Clwstwr Gogledd Caerdydd	6.6%	2.6%	1.1%	6.0%	1.3%	1.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Bu gostyngiad yn y mynychder ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol ar gyfer asthma (o 7%) a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (o 1.2%) gyda chynnydd mewn diabetes (o 4.3%), methiant y galon (o 1%) a strôc/TIA (o 1.7%) gyda chlefyd coronaidd y galon yn aros yr un fath.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwtwr Gogledd Caerdydd. Mae'r data'n dangos bod gan Ogledd Caerdydd ganran is o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaleddau y bwrdd iechyd (0.2% yn is) a Chymru (0.3% yn is), ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig ychydig yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.1% yn uwch) ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.

Tabl 11.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwtwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025¹⁹⁹

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Gogledd Caerdydd	0.8%	0.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Bu cynnydd mewn mynychder ar gyfer iechyd meddwl a dementia ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol o 0.7% ar gyfer y ddau.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi eu cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwtwr Gogledd Caerdydd. Mae mynychder ffibriliad atrïaidd clwtwr Gogledd Caerdydd yn uwch na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd (0.2% yn uwch) ond yn is na Chymru (0.5% yn is) ac ar gyfer pwysedd gwaed uchel mae'n cyd-fynd â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfartaleddau Cymru (3.2% yn is).

¹⁹⁹ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwtwr a phractis meddyg teulu](#)

Tabl 11.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²⁰⁰

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Pwysedd Gwaed Uchel
Clwstwr Gogledd Caerdydd	2.2%	13.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	13.1%
Cymru	2.7%	16.3%

Bu cynnydd mewn mynychder ar gyfer ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol o 1.9% a 12.4% yn y drefn honno.

11.3 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol yn y clwstwr


Mae 17 fferyllfa, sy'n cael eu gweithredu gan 12 contractwr a 2 gontractwr cyfarpar fferyllol, yng nghlwestwr Gogledd Caerdydd.

Yn 2024/25, cafodd 82.0% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Gogledd Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd neu'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn y clwstwr.

Yn ystod naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 81.0% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Gogledd Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd neu'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn y clwstwr.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfa a'r contractwr cyfarpar fferyllol yn y clwstwr. Cynrychiolir fferyllfeydd gan  a'r contractwr cyfarpar fferyllol gan .

Map 11.1: Lleoliad y fferyllfeydd ac eiddo'r contractwr gweinyddu cyfarpar



²⁰⁰ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad, lle'r oedd pocedi o amddifadedd, bod fferyllfeydd yn gyffredinol wedi eu lleoli gerllaw neu yn yr ardaloedd hyn. Roedden nhw hefyd wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyafrif o fewn pum munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, a bod y fferyllfa sydd wedi cau yn agos at fferyllfeydd eraill, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer mae'r amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y 17 fferyllfa:

- Mae tair fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos,
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn,
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a rhan o ddydd Sadwrn, ac
- Mae un ar ddeg fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 11.5: Orlau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.00am tan 9.00am	5.00pm tan 8.00pm
Dydd Sadwrn	8.00am tan 9.00am	14.00pm tan 8.00pm
Dydd Sul	10.00am tan 10.30am	1.00pm tan 4.30pm

- Dydd Llun i ddydd Gwener
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.30pm (ac eithrio ar ddydd Mercher pan fydd nifer y fferyllfeydd yn cynyddu i ddwy fferyllfa)
 - Mae un ar ddeg fferyllfa yn cau am 6.00pm (ac eithrio ar ddydd Mercher pan fydd nifer y fferyllfeydd yn lleihau i ddeg fferyllfa)
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.30pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 7.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae chwe fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn
 - Mae un fferyllfa yn cau am 2.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 7.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae tair fferyllfa ar agor ar ddydd Sul
 - Mae un fferyllfa yn cau am 1.00pm
 - Un fferyllfa am 4.00pm
 - Un fferyllfa am 4.30pm

Mae'r ddau contractwr cyfarpar fferyllol ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, gydag un yn agor o 9.00am tan 5.00pm a'r llall i 8.00am tan 5.00pm.

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd a'r contractwyr cyfarpar fferyllol ar agor yn Atodiad K.

Ymatebodd un ar ddeg fferyllfa i holiadur y contractwr, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i'r un ar ddeg fferyllfa ac mae ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn cynnwys ystafelloedd caeedig,
- yn cynnwys ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllfeydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd chwe fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ar eu staff. Mae ieithoedd eraill a siaredir gan staff fel a ganlyn.

- Arabeg (dwy fferyllfa)
- Cwrdaidd
- Malai
- Pwnjabeg
- Rwmaneg
- Wrddw

Mae pob un o'r un ar ddeg fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae pob un o'r un ar ddeg fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu,
- mae saith yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, er y gallai un gyflwyno ffioedd erbyn tymor yr Hydref 2026,
- mae un yn cyfyngu'r gwasanaeth i ardaloedd penodol,
- mae pedwar dosbarthu eitemau am ffi, ac
- mae gan un fan casglu awtomataidd.

Roedd chwe awgrym ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol/newydd nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- parhau i ehangu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa,
- clinigau pigladau colli pwysau,
- profion protein C-adweithiol ar gyfer cleifion sydd mewn perygl ac yn peswch,
- dadansoddiad wrin ar gyfer cleifion y tu allan i fanyleb gwasanaeth presgripsiynu annibynnol arferol fferyllfa oherwydd anallu i brofi,
- profion colesterol, a
- monitro pwysedd gwaed.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd deuddeg fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol yn

eu safleoedd. Dywedodd un nad oedd ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd un nad oedd ac y byddai'n ei chael hi'n anodd rheoli cynnydd yn y galw.

Mae gan ddeuddeg gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, dywedodd un nad oedd, ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd un nad oedd ac y byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ni wnaeth tair fferyllfa ymateb i'r cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd chwe fferyllfa.

- Mae un yn bwriadu ehangu ei wasanaethau presgripsiynu annibynnol.
- Bydd un yn parhau i ddatblygu gwasanaeth y GIG gan gynnwys presgripsiynu annibynnol ac mae wedi cyflwyno gwasanaeth rheoli pwysau.
- Mae pedwar yn bwriadu ychwanegu ystafelloedd ymgynghori ychwanegol,
- Mae un yn bwriadu cynyddu darpariaeth gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa.

Dywedodd un fferyllfa ei bod yn bwriadu lleihau gwasanaethau sy'n cael eu tanariannu os na fydd y cyfyngiadau cyllido yn lleddfu.

11.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

11.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oedd un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, ac nid oes un o'r contractwr cyfarpar fferyllol yn gwneud hynny chwaith.

11.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r 17 fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 13,158 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 261 a 1,594)
- 750 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 3 a 285)
- 4,518 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 27 a 628)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 10,190 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 325 a 1,450)
- 522 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 202)
- 3,878 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 12 a 488)

11.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae pob un o'r 17 fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 4,539 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 9 a 771).

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 4,843 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 60 a 782).

11.3.1.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Darparodd tair ar ddeg o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 6,754 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 41 a 1,384).

Roedd tair ar ddeg o fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn a'i ddarparu yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 5,971 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 54 a 1,024).

11.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes un o'r fferyllfeydd na'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn darparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd 16 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 639 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 213). Darparodd 15 y gwasanaeth yn ystod naw mis cyntaf 2025/26 gan ddarparu cyfanswm o 329 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng dau a 62).

11.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

11.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Nid oes un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 39 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 ac 16).

Fe wnaeth pedair fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 25 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 10).

11.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 82 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 16 a 36).

Darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 29 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 14).

11.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn i 33 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 16 a 17).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth i 30 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 22).

11.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

11.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn

11.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar fferyllol.
- Sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (82.0%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 10.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 2.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (81.0%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 10.1% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 2.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 1.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Fro
- 1.1% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

11.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

11.6 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 11.3 ac 11.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 386 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd, gyda 278 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 11,898 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 372 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at Rhagfyr 2025), weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd, gyda 264 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 9,243 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

11.7 Datblygiadau tai

Roedd wyth datblygiad yn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 11.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar gweill y	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Cyncoed	44	25	4	15	42
Y Mynydd Bychan	20	2	0	18	40
Llys-faen a Draenen Pen-y-graig	2,578	416	75	2,087	4,756
Llanisien	47	23	0	24	53
Pentwyn	125	0	41	84	275
Pontprennau/Pentref Llaneirwg	2,096	313	65	1,718	3,923
Rhiwbeina	9	3	2	4	13

Pen-y-lan	67	53	12	2	31
Cyfanswm	4,986	835	199	3,952	9,132

11.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd deuddeg fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol yn eu safleoedd. Dywedodd un nad oedd ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd un nad oedd ac y byddai'n ei chael hi'n anodd rheoli cynnydd yn y galw.

Mae gan ddeuddeg gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, dywedodd un nad oedd, ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd un nad oedd ac y byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan y tair fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

11.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstr a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwstr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.
- Oriau agor y fferyllfeydd a'r contractwyr cyfarpar fferyllol.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstr.

11.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

11.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn, a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol sydd yn gwneud hynny.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstr.

11.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

11.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

11.8.2.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair ar ddeg o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026 y rhagwelir y bydd pob fferyllfeydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel rhagnodwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

11.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn ac nad yw'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd yn gwneud hynny chwaith.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 88.4% gan contractwyr cyfarpar fferyllol, a 86.8% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

11.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sy'n dymuno gwneud unrhyw drefniadau o'r fath. Darparodd 16 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 a 15 yn naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth yn y clwstwr hwn.

11.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

11.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

11.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbyty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

11.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod tair fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26.

11.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

11.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu'r trefniadau comisiynu lle bo angen.

12 Clwstwr De-orllewin Caerdydd

12.1 Trosolwg

Clwstwr De-orllewin Caerdydd yw'r ail fwyaf o'r chwe chlwstwr yn awdurdod lleol Caerdydd, sy'n gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 75,002²⁰¹. Mae wyth fferyllfa yn y clwstwr a naw practis meddygon teulu; mae gan dau o'r naw practis meddygon teulu feddygfeydd cangen.

Mae amddifadedd yn amlwg iawn yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd - mae 45.6% o breswylwyr yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â 20.7% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau sydd yn is na'r bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atrïaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, dementia, methiant y galon a strôc a phylliau o isgemia dros dro.
- Mae cyfartaleddau asthma, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, a diabetes yn uwch na'r bwrdd iechyd ond yn is na Chymru
- Mae pwysedd gwaed uchel ac iechyd meddwl yn cyd-fynd â chyfartaleddau y bwrdd iechyd, ond yn is na chyfartaleddau Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd.

Tabl 12.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn Ne-orllewin Caerdydd a'r bwrdd iechyd (2025)²⁰²

Ardal	Canran
Clwstwr De-orllewin Caerdydd	45.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

12.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd.

Tabl 12.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²⁰³

²⁰¹ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

²⁰² Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

²⁰³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyliau isgemia dros dro
Caerdydd Clwstwr y De-orllewin	6.9%	2.4%	2.1%	8.0%	1.1%	1.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Cafwyd cynnydd mewn mynychder diabetes (o 5.4%) a methiant y galon (o 0.8%), gyda gostyngiad mewn asthma (o 7.3%) a chlefyd coronaidd y galon (o 2.6% gyda chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a strôc yn aros yr un peth.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd. Mae'r clwstwr yn cyd-fynd â chanran y bwrdd iechyd o gleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl ond mae ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Ar gyfer dementia, mae canran y cleifion cofrestredig yn is na chyfartaleddau y bwrdd iechyd (0.1% yn is) a Chymru (0.2% yn is).

Tabl 12.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²⁰⁴

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr De-orllewin Caerdydd	1.0%	0.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Ni chafwyd unrhyw gynnydd mewn mynychder ar gyfer iechyd meddwl a dementia ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi eu cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd. Mae mynychder clwstwr ffibriliad atrïaidd yn is na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.3% yn is) a Chymru (1.0% yn is) ac ar gyfer pwysedd gwaed uchel mae'n cyd-fynd â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfartaleddau Cymru (3.2% yn is).

²⁰⁴ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Tabl 12.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²⁰⁵

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Pwysedd Gwaed Uchel
Clwstwr De-orllewin Caerdydd	1.7%	13.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	13.1%
Cymru	2.7%	16.3%

Bu cynnydd mewn mynychder ar gyfer ffibriliad atrïaidd (o 1.5%) a phwysedd gwaed uchel (o 12.9%) yn y clwstwr ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol.

12.3 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol yn y clwstwr


Mae wyth fferyllfa yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd, sy'n cael eu gweithredu gan chwe chontractwr, o'i gymharu â 10 fferyllfa ar adeg y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol.

Yn 2024/25, cafodd 76.7% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 76.8% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr a chafodd 0.9% eu gweinyddu'n bersonol gan y practisau meddygon teulu.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd yn y clwstwr.

Map 12.1: Lleoliad y fferyllfeydd



²⁰⁵ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn neu ger ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyafrif o fewn pum munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, a bod y ddwy fferyllfa sydd wedi cau yn agos at fferyllfeydd eraill, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer mae'r amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar yr oriau agor ar gyfer yr wyth fferyllfa:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos,
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn,
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a bore dydd Sadwrn, ac
- Mae pedair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod:

Tabl 12.5: Orlau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener	8.30am tan 9.00am	5.30pm tan 8.00pm
Dydd Mercher	8.30am tan 9.00am	2.30pm tan 8.00pm
Dydd Sadwrn	8.30am tan 9.00am	12.00pm tan 8.00pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener:
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae pedair fferyllfa yn cau am 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.15pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.30pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Dydd Mercher:
 - Mae un fferyllfa yn cau am 2.30pm (hanner diwrnod ar gau)
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae tair fferyllfa yn cau am 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.15pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae tair fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 12.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae un fferyllfa yn agor ar ddydd Sul

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad K.

Dim newidiadau i'r ystod o oriau agor a chau ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol.

Ymatebodd pedair fferyllfa i holiadur y contractwr, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i'r pedair fferyllfa ac mae gan dair ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn ystafelloedd caeëdig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferylllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ar eu staff. Mae ieithoedd eraill a siaredir gan staff fel a ganlyn.

- Arabeg
- Bengaleg
- Hindi
- Somalieg
- Wrddw

Mae tair fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar. Nid yw'r pedwerydd yn dosbarthu offer stoma.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae'r pedair fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu.
- mae tair yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, ac mae'r pedwerydd yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi.

Roedd dau awgrym ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- presgripsiynu annibynnol
- gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu – Lefelau 2 a 3.

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd ac sydd mewn perthynas â darparu rhwymynnau.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd tair fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd, a dywedodd dwy nad oedd ac y byddent yn cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Dywedodd tair fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, a dywedodd dwy nad oedd, ond gallent wneud addasiadau.

Ni wnaeth tair fferyllfa ymateb i'r cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd dwy fferyllfa.

- Mae un wedi cysylltu â'r bwrdd iechyd i ddarparu gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmegu.
- Mae un yn chwilio am adeilad mwy neu adeiladu estyniad.

12.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

12.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

12.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r wyth fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 6,543 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 482 a 1,676)
- 561 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 20 a 182)
- 1,923 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 47 i 500)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 5,786 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 383 a 1,176)
- 411 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 19 a 126)
- 1,634 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 41 i 352)

12.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae pob un o'r wyth fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd bob un o'r wyth fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,379 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 28 a 519).

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,270 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 507).

12.3.1.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 795 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 17 a 391).

Roedd pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth ac wedi'i ddarparu yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 948 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 45 a 311).

12.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn

12.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd saith fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 161 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 68). Darparodd saith y gwasanaeth yn naw mis cyntaf 2025/26 hefyd gan ddarparu cyfanswm o 138 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng pump a 34).

12.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

12.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

12.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae pump o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi 111 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 49 a 62).

Fe wnaeth pedair fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 53 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 31).

12.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Darparodd un fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 12 o bobl.

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 21 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa 5 i 16).

12.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae pedair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn i 60 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 21).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth i 58 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 29).

12.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

12.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

12.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar fferyllol.
- Sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (76.7%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 8.9% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd
- 7.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 1.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 1.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (76.8%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 9.0% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd
- 8.3% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 1.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

12.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

12.6 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 12.3 ac 12.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu contractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 371 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nhlwstwr De-orllewinCaerdydd, gyda 259 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 11,600 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 363 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at Rhagfyr 2025) weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nhlwstwr De-orllewin Caerdydd, gyda 253 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 7,859 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

12.7 Datblygiadau tai

Mae pedwar datblygiad o fewn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 12.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/arda l	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi eu cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar y gweill	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Caerau	105	0	99	6	231
Treganna	544	237	156	151	675
Trelái	257	1	17	239	563
Glan-yr-afon	162	22	42	98	308
Cyfanswm	1,068	260	314	494	1,788

12.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu heiddo, a dywedodd dwy nad oedd ac y byddent yn cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Dywedodd tair fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, a dywedodd dwy nad oedd, ond gallent wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan y tair fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

12.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.

- Orlau agor y fferyllfeydd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstwr.

12.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a contractwyr cyfarpar

12.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

12.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

12.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

12.8.2.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026, rhagwelir y bydd pob fferyllfydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn ac nad yw'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd yn gwneud hynny chwaith.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 67.5% gan gcontractwyr cyfarpar fferyllol, a 70.2% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

12.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sy'n dymuno gwneud unrhyw drefniadau o'r fath.

Darparodd saith o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 a naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

12.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

12.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod tair fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

12.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbyty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

12.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pedair fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26.

12.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

12.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu'r trefniadau comisiynu lle bo angen.

13 Clwstwr Gorllewin Caerdydd

13.1 Trosolwg

Clwstwr Gorllewin Caerdydd yw'r lleiaf ond un o'r chwe chlwstwr yn awdurdod lleol Caerdydd, sy'n gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 55,016²⁰⁶. Mae tair fferyllfa ar ddeg yn y clwstwr a chwe practis meddygon teulu; mae gan ddau o'r practisau meddygon teulu feddygfeydd cangen.

Mae amddifadedd yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd yn is na chyfartaledd y Bwrdd Iechyd a Chymru. Mae 13.1% o'r preswylwyr yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â 20.7% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaledd uwch na'r bwrdd iechyd a Chymru o ran iechyd meddwl.
- Cyfartaleddau uwch na'r bwrdd iechyd, ond yn is na Chymru mewn ffibriliad atriaidd, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, clefyd coronaidd y galon, diabetes, methiant y galon a phwysedd gwaed uchel.
- Cyfartaledd uwch na'r bwrdd iechyd ond yn cyd-fynd â chyfartaledd Cymru mewn asthma a strôc a phyliau isgemig dros dro.
- Mae dementia yn cyd-fynd â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae'n is na chyfartaledd Chymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd.

Tabl 13.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Ngorllewin Caerdydd a'r bwrdd iechyd (2025)²⁰⁷

Ardal	Canran
Clwstwr Gorllewin Caerdydd	13.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

13.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd.

Tabl 13.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²⁰⁸

²⁰⁶ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

²⁰⁷ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

²⁰⁸ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau isgemia dros dro
Caerdydd Clwstwr y Gorllewin	7.1%	3.1%	1.8%	6.8%	1.3%	2.2%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Bu gostyngiad ym mynychder cyflyrau hirdymor ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol ar gyfer asthma (o 7.3%), a chynnydd mewn clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (o 1.6%), diabetes (o 4.7%), methiant y galon (o 1%) a strôc/TIA (o 2%) gyda chlefyd coronaidd y galon yn aros yr un fath.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwtwr Gorllewin Caerdydd. Mae gan Orllewin Caerdydd ganran ychydig yn uwch o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaleddau y bwrdd iechyd (0.2% yn uwch) a Chymru (0.1% yn uwch), ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig ychydig yn cyd-fynd â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfartaledd Cymru (0.1% yn is).

Tabl 13.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwtwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²⁰⁹

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwtwr Gorllewin Caerdydd	1.2%	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Bu cynnydd bach ym mynychder iechyd meddwl ers i'r dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol gael ei gynnal (o 1.1%), gyda dementia yn aros yr un fath.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi eu cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwtwr Gorllewin Caerdydd. Mae ffibriliad atrïaidd yn uwch na chyfartaleddau'r bwrdd iechyd (6.6% yn uwch) ond yn is na Chymru (0.1% yn is) ac ar gyfer pwysedd gwaed uchel mae'n uwch na'r bwrdd iechyd (1.3% yn uwch) ond yn is na chyfartaleddau Cymru (1.9% yn is).

Tabl 13.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwtwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²¹⁰

²⁰⁹ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwtwr a phractis meddyg teulu](#)

²¹⁰ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwtwr a phractis meddyg teulu](#)

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos,
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn,
- Mae pedair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a bore dydd Sadwrn, ac
- Mae saith fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Dangosir yr ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 13.5: Orlau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.30am i 9.00am	5.30pm tan 8.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am	1.00pm tan 8.00pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Dydd Llun i Ddydd Gwener:
 - Mae tair fferyllfa yn cau am 5.30pm (ac eithrio ar ddydd Mercher pan fydd nifer y fferyllfeydd yn cynyddu i bedair fferyllfa)
 - Mae wyth fferyllfa yn cau am 6.00pm (ac eithrio ar ddydd Mercher pan fydd hyn yn gostwng i saith fferyllfa)
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.15pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae tair fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae pedair fferyllfa yn cau am 1.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae un fferyllfa yn agor ar ddydd Sul

Ceir manylion llawn pryd mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad K. Noder, roedd nifer fach o fferyllfeydd ar agor tan 10:00pm o'r blaen yn ystod yr wythnos ac ar ddydd Sadwrn.

Ymatebodd saith fferyllfa i holiadur y contractwr, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i chwe fferyllfa ac mae ganddynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae gan y fferyllfa nad yw'n hygyrch i gadeiriau olwyn rampiau. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn cynnwys ystafelloedd caeedig,
- yn cynnwys ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllfeydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod ganddi siaradwyr Cymraeg ar ei staff. Mae ieithoedd eraill a siaredir gan staff fel a ganlyn.

- Ffilipino
- Gellir siarad Cantoneg a Hakka ar lefel sgwrsio os oes angen.

Mae pob un o'r saith fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae'r saith fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu,
- mae tair yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais,
- mae pedwar yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ffi ac un yn ei gyfyngu i ardaloedd penodol, ac
- mae gan un fan casglu awtomataidd gydag un arall yn edrych i mewn i osod un.

Roedd dau awgrym ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- Rhoi'r gorau i ysmegu (dwy fferyllfa)
- Eitemau miniog cleifion

Roedd pedwar awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- Gwasanaeth therapi adfer hormonau
- Gwasanaeth therapi adfer testosteron
- Anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd
- Gwirio pwysedd gwaed

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd wyth fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd, a dywedodd tri nad oedd ond y gallent wneud addasiadau. Dywedodd wyth fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, dywedodd dwy nad oedd ond y gallent wneud addasiadau, ac ni wnaeth un ateb y cwestiwn. Ni wnaeth dwy fferyllfa ymateb i'r cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd tair fferyllfa.

- Mae dau yn bwriadu gosod mwy o ystafelloedd ymgynghori.
- Bydd un fferyllfa yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau y mae'n eu darparu trwy ymgyrch ymwybyddiaeth a datblygu ei pherthynas â phractisau meddygon teulu.

13.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

13.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r tair ar ddeg fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 6,420 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 99 a 1,025)
- 363 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 7 a 73)
- 2,901 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 8 i 657)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 5,145 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 62 a 744)
- 227 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 5 a 50)
- 2,451 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 14 i 508)

13.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae pob un o'r tair ar ddeg fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd deuddeg fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,497 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 459).

Darparodd un ar ddeg fferyllfa y gwasanaeth yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,494 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng dau a 510).

13.3.1.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Darparodd chwech o'r tair ar ddeg fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 3,443 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 5 a 2,579).

Roedd saith fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi ei ddarparu yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 2,714 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 65 a 1,788).

13.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 259 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 151). Darparodd 11 y gwasanaeth yn ystod naw mis cyntaf 2025/26 hefyd, gan ddarparu cyfanswm o 228 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 106).

13.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

13.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Nid oes un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 43 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 26).

Fe wnaeth tair fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 23 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 15).

13.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 44 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 21 i 23).

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 18 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 6 a 12).

13.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae chwech o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn i 30 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 a 25).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd un fferyllfa y gwasanaeth i 22 o gleientiaid.

13.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Nid oes un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

13.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Nid oes un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn

13.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar fferyllol.

- Sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (84.2%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 3.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 2.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 2.4% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 1.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 1.1% gan gontractwyr yn Lloegr

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (84.1%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 5.8% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gogledd Caerdydd
- 2.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 2.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-ddwyrain Caerdydd
- 1.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr De-orllewin Caerdydd
- 1.1% gan gontractwyr yn Lloegr

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

13.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

13.6 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 13.3 ac 13.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 369 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd, gyda 258 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 11,204 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 333 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at Rhagfyr 2025), weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gorllewin Caerdydd, gyda 223 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 8,224 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

13.7 Datblygiadau tai

Mae chwe datblygiad o fewn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 13.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar gweill	Heb ddechrau	Nifer bobl y
Pentyrch a Sain Ffagan	8,030	482	56	7,492	16,606
Y Tyllgoed	105	72	20	13	73
Llandaf	550	62	142	346	1,074
Ystum Taf	3	0	1	3	9
Radur a Phentre-poeth	860	231	100	529	1,384
Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais	27	8	2	17	42
Cyfanswm	9,575	855	321	8,400	19,186

13.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod wyth fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol yn eu hadeiladau, a dywedodd tair nad oedd ond y gallent wneud addasiadau. Dywedodd wyth fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, dywedodd dwy nad oedd ond y gallent wneud addasiadau, ac ni wnaeth un ateb yr elfen hon o'r cwestiwn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan y ddwy fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

13.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall yr holl boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyaf yn gallu gwneud hynny o fewn pum munud. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstwr.

13.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

13.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

13.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

13.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

13.8.2.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod saith fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026, rhagwelir y bydd pob fferyllfeydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 64.8% gan gontractwyr cyfarpar fferyllol, a 58.2% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

13.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sy'n dymuno gwneud trefniadau o'r fath. Darparodd 11 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 a naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

13.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

13.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

13.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbyty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

13.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod dwy fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26.

13.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

13.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu'r trefniadau comisiynu lle bo angen.

14 Clwstwr Canol y Fro

14.1 Trosolwg

Clwstwr Canol y Fro yw'r mwyaf o'r tri chlwstwr yn awdurdod lleol Bro Morgannwg sy'n gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 67,514²¹¹ (o'i gymharu â 65,768 ar adeg y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol). Mae tair fferyllfa ar ddeg yn y clwstwr a chwe practis meddygon teulu; mae gan ddau o'r chwe practis meddygon teulu feddygfeydd cangen.

Mae 25.1% o breswylwyr Canol y Fro yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu ag 20.7% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr Canol y Fro o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau is na'r bwrdd iechyd a Chymru o ran clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint a methiant y galon.
- Cyfartaleddau uwch na'r bwrdd iechyd ond yn is na Chymru o ran asthma, ffibriliad atrïaidd, clefyd coronaidd y galon, diabetes, pwysedd gwaed uchel a strôc a phyllau o isgemia dros dro.
- Mae dementia yn cyd-fynd â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae'n is na chyfartaledd Chymru.
- Mae iechyd meddwl yn uwch na'r bwrdd iechyd ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr Canol y Fro.

Tabl 14.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghanol y Fro a'r bwrdd iechyd (2025)²¹²

Ardal	Canran
Clwstwr Canol y Fro	25.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

14.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr Canol y Fro.

²¹¹ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

²¹² Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

Tabl 14.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²¹³

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phyllau isgemia dros dro
Clwstwr Canol y Fro	6.7%	3.3%	2.6%	8.0%	1.5%	2.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Bu gostyngiad yn y mynychder ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol ar gyfer asthma (o 6.9%) gyda chynnydd mewn clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (o 2.3%), diabetes (o 5.8%), methiant y galon (o 1%) a strôc/TIA (o 2%) gyda chlefyd coronaidd y galon yn aros yr un fath.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwstwr Canol y Fro. Mae'r data'n dangos bod gan Ganol y Fro ganran ychydig yn uwch o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.1% yn uwch) ond mae'n cyd-fynd â chyfartaledd Cymru, ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig yn cyd-fynd â chyfartaledd y bwrdd iechyd, ond mae'n is na chyfartaledd Cymru (0.1% yn is).

Tabl 14.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²¹⁴

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Canol y Fro	1.1%	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Bu cynnydd mewn mynychder ar gyfer iechyd meddwl a dementia ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol o 1% a 0.6% yn y drefn honno.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atriïdd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi eu cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Canol y Fro. Mae mynychder ffibriliad atriïdd clwstwr Canol y Fro yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.4% yn uwch) ond yn is na chyfartaledd Chymru

²¹³ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

²¹⁴ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Tabl 14.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atriaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²¹⁵

Bu cynnydd mewn mynychder ar gyfer ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol o 2.1% a 15.4% yn y drefn honno.

Mae tair ar ddeg fferyllfa yng nghlwestwr Canol y Fro sy'n cael eu gweithredu gan ddeg contractwr.

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 88.2% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Canol y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Map 14.1: Lleoliad y fferyllfeydd



Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod yr asesiad o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad ar y cyfan bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, a bod y mwyafrif o fewn neu ger ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 15 munud, gyda'r mwyafrif o fewn deg munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, a bod y fferyllfa sydd wedi cau yn agos at fferyllfeydd eraill, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn 15 munud ac i lawer mae'r amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Mae un fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos,
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn,
- Mae pedair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a bore dydd Sadwrn, ac
- Mae chwe fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod:

Tabl 14.5: Orlau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.30am tan 9.00pm	5.00pm tan 6.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am tan 10.00am	12.00pm tan 5.30pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Dydd Llun i Ddydd Gwener:
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.00pm (ac eithrio ar ddydd Mercher pan mae'n cynyddu i ddwy fferyllfa)
 - Mae chwe fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae chwe fferyllfa yn cau am 6.00pm (ac eithrio ar ddydd Mercher pan fydd hyn yn gostwng i bum fferyllfa)
- Mae chwe fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 12.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 1.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 4.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.30pm
- Mae un fferyllfa yn agor ar ddydd Sul

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad K.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur y contractwr, a chymerwyd y wybodaeth ganlynl o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i bedair fferyllfa ac mae gan dair ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn cynnwys ystafelloedd caeedig,
- yn cynnwys ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd un fferyllfa fod ganddi siaradwyr Cymraeg ar ei staff. Mae ieithoedd eraill a siaredir gan staff fel a ganlyn.

- Gwjarati
- Hindi
- Pashto
- Perseg
- Portiwgaleg
- Sbaeneg
- Wrddw

Mae tair fferyllfa'n gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar, ac mae tair yn gweinyddu rhwymynnau yn unig.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae pob un o'r pum fferyllfa yn casglu presgripsiynau o bractisau meddygon teulu,
- mae'r pump yn darparu gwasanaeth cyflenwi am ffi, er nad yw un yn codi tâl ar gleifion cymwys ac oeddrannus nad oes ganddynt gefnogaeth briodol, ac
- mae gan un fan casglu awtomataidd.

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaeth clinigol ychwanegol presennol nad yw'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr ardal – cynyddu cwrpas y gwasanaeth presgripsiynu annibynnol i fferyllfa i gynnwys "heintiau llwybr wrinol, rheoli a chynghori ar losgiadau, a brathiadau pryfed, brech".

Roedd un awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd ac sydd mewn perthynas â darparu rhwymynnau.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllo, cadarnhaodd pump fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd, dywedodd un nad oedd ond y gallai wneud addasiadau, a dywedodd dwy nad oedd ac y byddent yn cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Dywedodd pump fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, dywedodd dau nad oedd ond y gallent wneud addasiadau, a dywedodd un nad oedd ac y byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Ni atebodd pum fferyllfa y cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd pedair fferyllfa.

- Mae un wedi cyflwyno'r gwasanaeth presgripsiynu annibynnol i fferyllfa yn ddiweddar.
- Mae un fferyllfa yn chwilio am adeilad newydd ond mae wedi ei chyfyngedig gan yr unedau sydd ar gael.
- Mae un arall yn ceisio cynyddu'r ystod o wasanaethau preifat a ddarperir.
- Mae un fferyllfa eisiau sefydlu mwy o ystafelloedd ymgynghori.

14.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

14.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r tair ar ddeg fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 10,390 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 137 a 3,231)
- 521 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 174)
- 4,687 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 34 a 789)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 7,723 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 145 a 1,953)
- 363 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 138)
- 3,696 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 10 i 649)

14.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae pob un o'r tair ar ddeg fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 2,243 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 26 a 645).

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,775 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 13 a 448).

14.3.1.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 3,166 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 15 a 1,327).

Roedd naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn a'i ddarparu yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 2,134 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 7 a 909).

14.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd 12 o fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 456 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 256). Darparodd 11 y gwasanaeth yn naw mis cyntaf 2025/26 gan ddarparu cyfanswm o 332 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng dau a 216).

14.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

14.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 158 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 68).

Fe wnaeth pedair fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 67 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 20 a 24).

14.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 89 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 48).

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 61 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 10 a 30).

14.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae naw o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth i 279 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 12 a 120).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd pum fferyllfa y gwasanaeth i 162 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 2 ac 86).

14.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

14.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn

14.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar fferyllol.
- Sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (87.5%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 5.6% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin y Fro
- 2.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (88.2%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 5.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Gorllewin y Fro
- 2.7% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Dwyrain y Fro
- 1.0% gan contractwyr yn Lloegr

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

14.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

14.6 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 14.3 ac 14.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu contractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 305 o contractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau

meddygon teulu yng nghlwestwr Gorllewin y Fro, gyda 197 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 11,017 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 282 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at Rhagfyr 2025), weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Canol y Fro, gyda 197 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 10,528 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

14.7 Datblygiadau tai

Mae tri datblygiad o fewn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 14.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar y gweill	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Y Barry	501	0	60	441	1,102
Sili	515	287	38	190	502
Y Wig	17	0	0	17	37
Cyfanswm	1,033	287	98	648	1,641

14.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o gapasiti yn eu safleoedd, dywedodd un nad oedd ond y gallent wneud addasiadau, a dywedodd dwy nad oedd ac y byddent yn cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Dywedodd pump fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, dywedodd dau nad oedd ond y gallent wneud addasiadau a dywedodd un nad oedd ac y byddai'n cael anhawster yn ymdopi â chynnydd yn y galw.

Mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan y pum fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

14.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 15 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau
- Oriau agor y fferyllfeydd

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstwr.

14.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a contractwyr cyfarpar

14.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad yw'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

14.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

14.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

14.8.2.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw o'r fferyllfeydd wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 ac mae un yn bwriadu dechrau ei ddarparu tua diwedd y flwyddyn.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026, rhagwelir y bydd pob fferyllfeydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 87.1% gan gontractwyr cyfarpar fferyllol, a 68.1% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

14.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sy'n dymuno gwneud trefniadau o'r fath. Darparodd 12 o'r fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 ac 11 yn naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

14.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

14.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pum fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

14.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbyty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

14.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod pedair fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26.

14.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

14.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu'r trefniadau comisiynu lle bo angen.

15 Clwstwr Dwyrain y Fro

15.1 Trosolwg

Clwstwr Dwyrain y Fro yw'r ail fwyaf o'r tri chlwtwr yn awdurdod lleol Bro Morgannwg, yn gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 36,940²¹⁶. Mae naw fferyllfa yn y clwtwr a thri phractis meddygon teulu.

Ym Mro Morgannwg, mae maint y boblogaeth wedi cynyddu 4.7%, o tua 126,300 yn 2011 i 131,800 yn 2021. Mae hyn yn uwch na'r cynnydd cyffredinol ar gyfer Cymru (1.4%). Twf poblogaeth Bro Morgannwg oedd y pedwerydd uchaf yng Nghymru ar ôl Casnewydd (9.5%), Caerdydd (4.7%) a Phen-y-bont ar Ogwr (4.5%). Bro Morgannwg yw'r degfed mwyaf poblog o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ²¹⁷.

Mae gan awdurdod lleol Bro Morgannwg ddisgwyliad oes uwch adeg genedigaeth ar gyfer menywod (83.4 o flynyddoedd) a dynion (79.7 o flynyddoedd) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru 81.8 o flynyddoedd (menywod) a 77.9 o flynyddoedd (dynion).

Mae 0.1% o breswylwyr yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu ag 20.7% ledled Cymru a 25.1% ledled Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwtwr Dwyrain y Fro o'i gymharu â'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau is na'r bwrdd iechyd a Chymru o ran clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint, diabetes, ac iechyd meddwl.
- Yn uwch na chyfartaleddau y bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atri'aid a dementia.
- Cyfartaleddau uwch na'r bwrdd iechyd ond yn is na Chymru o ran asthma, clefyd coronaidd y galon, diabetes, pwysedd gwaed uchel a strôc a phyliau isgemia dros dro.
- Mae methiant y galon yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond mae'n cydfynd â chyfartaledd Chymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwtwr Dwyrain y Fro.

Tabl 15.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn Nwyrain y Fro a'r bwrdd iechyd (2025)²¹⁸

Ardal	Canran
Clwtwr Dwyrain y Fro	0.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

²¹⁶ Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

²¹⁷ Swyddfa Ystadegau Gwladol - [Sut Newidiodd y Boblogaeth ym Mro Morgannwg: Cyfrifiad 2021](#)

²¹⁸ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

15.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwtwr Dwyrain y Fro.

Tabl 15.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwtwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²¹⁹

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau isgemia dros dro
Clwtwr Dwyrain y Fro	6.8%	3.2%	1.5%	6.8%	1.4%	2.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Ers y dadansoddiad o anghenion y boblogaeth, bu gostyngiad ym mynychder clefyd coronaidd y galon (o 3.3%) a strôc/TIA (o 2.1%) a chynnydd mewn diabetes (o 5.2%) a methiant y galon (o 1%) gydag asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yn aros yr un peth.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwtwr Dwyrain y Fro. Mae'r data'n dangos bod gan Dwyrain y Fro ganran is o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.2% yn is) a chyfartaledd Cymru (0.3% yn is), ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.4% yn uwch) a chyfartaledd Cymru (0.3% yn uwch).

Tabl 15.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwtwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²²⁰

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwtwr Dwyrain y Fro	0.8%	1.1%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Mae mynychder dementia wedi cynyddu ers y dadansoddiad o anghenion poblogaeth blaenorol (o 0.8%) ac mae iechyd meddwl wedi aros yr un fath.

²¹⁹ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwtwr a phractis meddyg teulu](#)

²²⁰ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwtwr a phractis meddyg teulu](#)

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi eu cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dwyrain y Fro. Mae mynychder ffibriliad atrïaidd clwstwr Dwyrain y Fro yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.9% yn uwch) a chyfartaledd Chymru (0.2% yn uwch) ac ar gyfer pwysedd gwaed uchel mae'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (1.9% yn uwch) ond yn is na chyfartaledd Cymru (1.3% yn is).

Tabl 15.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atrïaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²²¹

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Pwysedd Gwaed Uchel
Clwstwr Dwyrain y Fro	2.9%	15.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	13.1%
Cymru	2.7%	16.3%

Cafwyd cynnydd ym mynychder ffibriliad atrïaidd a phwysedd gwaed uchel ers y dadansoddiad o anghenion y boblogaeth blaenorol o 2.4% a 14.7% yn y drefn honno.

15.3 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol yn y clwstwr

Mae naw fferyllfa yng nghlwstwr Dwyrain y Fro sy'n cael eu gweithredu gan bum contractwr.


Yn 2024/25, cafodd 93.0% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dwyrain y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 93.8% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Dwyrain y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd yn y clwstwr.

²²¹ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Map 15.1: Lleoliad y fferyllfeydd



Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y dadansoddiad o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y rhan fwyaf o'r fferyllfeydd yn y clwstwr hwn wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch, ac o fewn neu ger ardaloedd o amddifadedd uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyafrif o fewn pum munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn deg munud ac i lawer mae'r amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y naw fferyllfa:

- Mae dwy fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos,
- Mae pedair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a bore dydd Sadwrn, ac
- Mae tair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 15.5: Oriau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	8.00am tan 9.00pm	5.30pm tan 8.00pm
Dydd Sadwrn	8.00am tan 9.00am	12.00pm tan 8.00pm
Dydd Sul	10.00am	4.00pm

- Dydd Llun i Ddydd Gwener:
 - Mae chwe fferyllfa yn cau am 5.30pm

- Mae dwy fferyllfa yn cau am 6.00pm
- Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae pum fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 12.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 1.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 6.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 8.00pm
- Mae dwy fferyllfa ar agor ar ddydd Sul

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad K.

Ymatebodd pum fferyllfa i holiadur y contractwr, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i bump o'r fferyllfeydd hyn ac mae ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae'r holl ardaloedd ymgynghori:

- yn ystafelloedd caeëdig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllfeydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Cadarnhaodd dwy fferyllfa fod ganddyn nhw siaradwyr Cymraeg ar eu staff. Ymhlith yr ieithoedd eraill sy'n cael eu siarad gan staff mae

- Bengaleg
- Cantoneg

Mae'r pum fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu, mae'r pum fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu ac yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais.

Roedd tri awgrym ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd yn yr ardal:

- Gwasanaeth llawn rhoi'r gorau i smygu
- Gwasanaeth cofnodion gweinyddu meddyginiaeth cymunedol
- Rhoi'r gorau i smygu lefel 3

Roedd dau awgrym ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd:

- Clinig colli pwysau
- Monitro pwysedd gwaed

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd chwech fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd, a dywedodd un nad oedd ond y gallent wneud addasiadau. Dywedodd pum

fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, a dywedodd dwy nad oedd, ond y gallent wneud addasiadau.

Ni atebodd dwy fferyllfa y cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r adeilad neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, atebodd tair fferyllfa.

- Mae disgwyl i ddwy ddechrau darparu gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa gan fod fferyllwyr wedi cymhwyso fel presgripsiynwyr annibynnol.
- Mae un wedi cyflwyno gwasanaeth rheoli pwysau preifat yn ddiweddar.
- Mae tri yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu gyda'r cyhoedd ac yn gweithio gyda phractisau meddygon teulu i gynyddu atgyfeiriadau.

15.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

15.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 3,752 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 108 a 855)
- 304 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 5 a 126)
- 3,319 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 38 i 863)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 3,440 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 108 a 1,067)
- 279 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 5 a 146)
- 1,840 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 47 i 451)

15.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae pob un o'r naw fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd bob fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,711 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 29 a 419).

Darparodd wyth fferyllfa y gwasanaeth yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 1,883 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 25 a 547).

15.3.1.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 1,284 o ymgynghoriadau.

Roedd dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn ac wedi'i ddarparu yn ystod wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 768 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 37 a 731).

15.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd saith fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 415 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng wyth a 149). Darparodd saith y gwasanaeth yn ystod naw mis cyntaf 2025/26 hefyd gan ddarparu cyfanswm o 205 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 11 a 65).

15.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

15.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi 25 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 3 ac 11).

Fe wnaeth tair fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 18 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 ac 11).

15.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Darparodd pedair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 37 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 28).

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o naw o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 4).

15.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn i 127 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 59 a 68).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn i 64 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 19 a 45).

15.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

15.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn

15.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar fferyllol.
- Sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (93.0%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 2.5% gan fferyllfeydd yng nghlwestwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 1.4% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (93.8%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 2.6% gan fferyllfeydd yng nghlwestwr Canol y Ddinas a De Caerdydd
- 1.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

15.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

15.6 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 15.3 ac 15.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu contractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 185 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Dwyrain y Fro, ac roedd 89 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 5,389 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 149 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2025/26 (hyd at Rhagfyr 2025) weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwestwr Dwyrain y Fro, ac roedd 68 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 3,847 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

15.7 Datblygiadau tai

Mae un datblygiad o fewn y clwestwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 15.6: datblygiadau tai yn y clwestwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi eu cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar gweill y	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Penarth	721	576	91	145	519

15.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod chwe fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol yn eu safleoedd, a dywedodd un nad oedd ond y gallai wneud addasiadau. Dywedodd pum fferyllfa fod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu lefelau staffio, a dywedodd dwy nad oedd, ond y gallent wneud addasiadau.

Mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan y ddwy fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

15.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwestwr a'r ffaith y gall y boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn deg munud, gyda'r mwyafrif yn gallu gwneud hynny o fewn pum munud. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwestwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiad tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.
- Oriau agor y fferyllfeydd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwestwr.

15.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

15.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

15.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

15.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac fe wnaeth pob un ohonynt ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

15.8.2.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26 a bod dwy arall i fod dechrau ei ddarparu.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026, rhagwelir y bydd pob fferyllfeydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

15.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 90.3% gan contractwyr cyfarpar fferyllol, a 92.7% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

15.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sy'n dymuno gwneud trefniadau o'r fath. Darparodd saith fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25 a naw mis cyntaf 2025/26.

Yn seiliedig ar yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

15.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

15.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

15.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbyty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

15.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pum fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod dwy fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26.

15.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oedd unrhyw un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

15.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu'r trefniadau comisiynu lle bo angen.

16 Clwstwr Gorllewin y Fro

16.1 Trosolwg

Clwstwr Gorllewin y Fro yw'r lleiaf o'r tri chlwstwr yn awdurdod lleol Bro Morgannwg, sy'n gwasanaethu poblogaeth gofrestredig practisau meddygon teulu o 32,439²²². Mae chwe fferyllfa yn y clwstwr a thri phractis meddygon teulu.

Nid yw amddifadedd yn fater penodol yng nghlwstwr Gorllewin y Fro gan fod 0.0% o'r preswylwyr yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, o'i gymharu â 20.7% ledled Cymru a 25.1% ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae proffil cyflyrau iechyd hirdymor yng nghlwstwr Gorllewin y Fro o'i gymharu â sefyllfa'r Bwrdd Iechyd a Chymru yn dangos:

- Cyfartaleddau is na'r bwrdd iechyd a Chymru o ran clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint ac iechyd meddwl.
- Cyfartaleddau is na'r bwrdd iechyd a Chymru mewn ffibriliad atrïaidd, pwysedd gwaed uchel a strôc a phyliau isgemig dros dro.
- Cyfartaledd uwch na'r bwrdd iechyd ond yn is na Chymru mewn asthma, clefyd coronaidd y galon, dementia a diabetes.
- Mae methiant y galon yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn cyd-fynd â chyfartaledd Chymru.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o ganran y bobl sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng nghlwstwr Gorllewin y Fro.

Tabl 16.1: Amcangyfrif o ganran y cleifion sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Ngorllewin y Fro a'r bwrdd iechyd (2025)²²³

Ardal	Canran
Clwstwr Gorllewin y Fro	0.0%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	25.1%

16.2 Proffil iechyd

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder clefydau cronig yng nghlwstwr Gorllewin y Fro.

Tabl 16.2: Amcangyfrif o ganran mynychder cyflyrau cronig yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²²⁴

²²² Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru - [Dadansoddi practisau meddyg teulu a chofrestru cleifion yn ôl practis \(Ionawr 2026\)](#)

²²³ Iechyd Cyhoeddus Cymru - [dangosfwrdd clystyrau gofal sylfaenol](#)

²²⁴ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Asthma	Clefyd coronaidd y galon	Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint	Diabetes	Methiant y galon	Strôc a phylliau isgemia dros dro
Clwstwr Gorllewin y Fro	6.5%	2.9%	1.3%	7.1%	1.4%	2.8%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	6.4%	2.6%	1.7%	7.0%	1.2%	1.8%
Cymru	7.1%	3.4%	2.3%	8.4%	1.4%	2.2%

Bu cynnydd bach ar gyfer asthma (o 6.3%) a strôc/TIA (o 2.5%) gyda chynnydd mwy mewn diabetes (o 5.2%) gyda gostyngiad ar gyfer clefyd coronaidd y galon (o 3.3%), clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (o 1.4%) a dim newid mewn methiant y galon.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y bobl sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl a dementia yng nghlwtwr Gorllewin y Fro. Mae gan Orllewin y Fro ganran is o gleifion sydd wedi'u cofrestru â chyflwr iechyd meddwl na chyfartaledd y bwrdd iechyd (0.3% yn is) a chyfartaledd Cymru (0.4% yn is), ac ar gyfer dementia mae canran y cleifion cofrestredig yn cyd-fynd â chyfartaledd y bwrdd iechyd ond yn is na chyfartaledd Cymru (0.1% yn is).

Tabl 16.3: Canran y cleifion sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd â chyflwr iechyd meddwl a dementia yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²²⁵

Ardal	Iechyd meddwl	Dementia
Clwstwr Gorllewin y Fro	0.7%	0.7%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	1.0%	0.7%
Cymru	1.1%	0.8%

Ni chafwyd unrhyw newid mewn mynychder ar gyfer iechyd meddwl a gostyngiad bach mewn dementia (o 0.8%) ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o fynychder ffibriliad atriaidd a phwysedd gwaed uchel ymhlith pobl sydd wedi'u cynnwys ar gofrestrau practisau meddygon teulu yng nghlwtwr Gorllewin y Fro. Mae mynychder clwstwr Gorllewin y Fro o ffibriliad atriaidd yn uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (1.0% yn uwch) a chyfartaledd Cymru (0.3% yn uwch) ac ar gyfer pwysedd gwaed uchel mae'n uwch na chyfartaledd y bwrdd iechyd (3.5% yn uwch) a chyfartaledd Cymru (0.3% yn uwch).

Tabl 16.4: Amcangyfrif o ganran mynychder pwysedd gwaed uchel a ffibriliad atriaidd yn seiliedig ar gleifion ar gofrestrau practisau meddygon teulu yn ôl clwstwr, bwrdd iechyd a Chymru, 2025²²⁶

²²⁵ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

²²⁶ StatsCymru Llywodraeth Cymru - [Cofrestrau clefydau yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis meddyg teulu](#)

Ardal	Ffibriliad atrïaidd	Pwysedd Gwaed Uchel
Clwstwr Gorllewin y Fro	3.0%	16.6%
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	2.0%	13.1%
Cymru	2.7%	16.3%

Bu cynnydd bach mewn ffibriliad atrïaidd (o 2.8%) a chynnydd mewn pwysedd gwaed uchel (o 14.3%) ers y Dadansoddiad o Anghenion Poblogaeth blaenorol.

16.3 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol yn y clwstwr


Mae naw fferyllfa yng nghlwtwr Gorllewin y Fro sy'n cael eu gweithredu gan chwe chontractwr.

Yn 2024/25, cafodd 93.0% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwtwr Gorllewin y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd 97.4% o'r eitemau ar bresgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yng nghlwtwr Gorllewin y Fro eu gweinyddu gan un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr.

Mae'r map isod yn dangos lleoliad y fferyllfeydd yn y clwstwr.

Map 16.1: Lleoliad y fferyllfeydd



Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y dadansoddiad o anghenion y boblogaeth a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2021 wedi dod i'r casgliad bod y fferyllfeydd yn y clwstwr hwn wedi'u lleoli mewn ardaloedd o ddwysedd poblogaeth uwch. Yn ogystal, gallai'r holl breswylwyr fynd i un o'r fferyllfeydd mewn car o fewn 20 munud, gyda'r mwyafrif o fewn deg munud. Gan nodi nad yw lleoliadau'r fferyllfeydd wedi newid, mae'r bwrdd iechyd yn fodlon bod y casgliadau hyn yn parhau i fod yn ddilys; mae'r preswylwyr yn dal i allu mynd i fferyllfa mewn car o fewn 20 munud ac i lawer bydd yr amser teithio yn fyrrach.

Wrth edrych ar oriau agor y fferyllfeydd:

- Nid oes unrhyw fferyllfa ar agor saith diwrnod yr wythnos,
- Mae tair fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Sadwrn,
- Mae dwy fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener a bore dydd Sadwrn, ac
- Mae un fferyllfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener.

O fewn y clwstwr, wrth edrych ar gyfanswm oriau agor fferyllfa, mae'r ystod o oriau agor a chau yn y tabl isod.

Tabl 16.5: Oriau agor a chau fferyllfa

Diwrnodau	Ystod oriau agor	Ystod yr oriau cau
Dydd Llun i ddydd Gwener	9.00am	5.00pm tan 6.00pm
Dydd Sadwrn	9.00am	12.00pm tan 5.30pm

- Dydd Llun i Ddydd Gwener:
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.30pm
 - Mae tair fferyllfa yn cau am 6.00pm
- Mae pum fferyllfa ar agor ar ddydd Sadwrn:
 - Mae un fferyllfa yn cau am 12.00pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 12.30pm
 - Mae un fferyllfa yn cau am 5.00pm
 - Mae dwy fferyllfa yn cau am 5.30pm

Mae manylion llawn yr adegau y mae'r fferyllfeydd ar agor yn Atodiad K.

Bu gostyngiad bach yn yr ystod o oriau agor ers y dadansoddiad o anghenion y boblogaeth blaenorol gydag oriau agor am 9.00am yn hytrach na 8.30-9.00am ac amseroedd cau yn ystod yr wythnos 30 munud ynghynt.

Ymatebodd dwy fferyllfa i holiadur y contractwr, a chymerwyd y wybodaeth ganlynol o'u hymatebion.

Mae modd mynd mewn cadair olwyn i'r ddwy fferyllfa ac mae ganddynt ardal ymgynghori sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae eu hardaloedd ymgynghori:

- yn ystafelloedd caeëdig,
- yn ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferyllydd eistedd gyda'i gilydd a siarad ar lefel sain arferol heb gael eu clywed gan unrhyw un arall, ac
- wedi'u dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghoriadau cyfrinachol, ar wahân i ardaloedd cyhoeddus cyffredinol y fferyllfa.

Nid oes gan y naill fferyllfa na'r llall siaradwyr Cymraeg ar eu staff a'r unig iaith arall sy'n cael ei siarad yw Saesneg.

Mae'r ddwy fferyllfa yn gweinyddu presgripsiynau ar gyfer pob math o gyfarpar.

Er eu bod yn wasanaethau heb eu comisiynu:

- mae'r ddwy fferyllfa yn casglu presgripsiynau gan bractisau meddygon teulu, ac
- mae un yn darparu gwasanaeth dosbarthu am ddim ar gais, ac mae'r llall yn ei ddarparu am ffi.

Nid oedd unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwasanaethau clinigol ychwanegol presennol nad ydynt yn cael eu darparu yn yr ardal nac ar gyfer gwasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt gapasiti i ddiwallu'r angen cynyddol am wasanaethau fferyllol, cadarnhaodd un nad oes ganddi gapasiti digonol o fewn ei lefelau staffio, ond y gallai wneud addasiadau, ac nid oes gan un gapasiti digonol yn ei safle a byddai'n cael anhawster yn ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Nid atebodd tair fferyllfa y cwestiwn.

Pan ofynnwyd iddynt a oes ganddynt unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu'r safle neu'r ystod o wasanaethau a ddarperir, cadarnhaodd un fferyllfa y bydd ail ystafell ymgynghori yn cael ei gosod.

16.3.1 Mynediad at wasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr cyfarpar

16.3.1.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

16.3.1.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae pob un o'r chwe fferyllfa wedi cofrestru ac yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25 darparodd y fferyllfeydd:

- 6,117 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 188 a 3,570)
- 155 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 64)
- 3,333 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa 118 i 1,063)

Yn wyth mis cyntaf 2025/26 darparodd y fferyllfeydd:

- 5,990 o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 336 a 2,866)
- 128 o ymgynghoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 8 a 47)
- 2,842 o gyflenwadau meddyginiaethau brys (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 148 a 1,062)

16.3.1.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae pob un o'r chwe fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 818 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 16 a 340).

Darparodd chwe fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 827 o frechiadau (ystod ar lefel fferyllfa 23 i 365).

16.3.1.4 Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan ddarparu cyfanswm o 2,450 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 80 a 1,972).

Er bod pedair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, darparodd tair ef yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan ddarparu cyfanswm o 2,670 o ymgynghoriadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 341 a 1,885).

16.3.1.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Nid oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

16.3.1.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/5, gan ddarparu cyfanswm o 218 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng wyth a 97). Fe wnaethon nhw hefyd ei ddarparu yn ystod naw mis cyntaf 2025/26 gan ddarparu cyfanswm o 249 o adolygiadau (ystod ar lefel fferyllfa rhwng un a 77).

16.3.2 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

16.3.2.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

16.3.2.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth yn 2024/25, gan gefnogi 34 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 4 a 30).

Fe wnaeth dwy fferyllfa ei ddarparu yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi 21 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 9 a 12).

16.3.2.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn yn 2024/25, gan gefnogi 44 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 21 i 23).

Darparodd dwy fferyllfa y gwasanaeth hwn yn wyth mis cyntaf 2025/26, gan gefnogi cyfanswm o 25 o bobl (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 11 a 15).

16.3.2.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae tair o'r chwe fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Yn 2024/25, darparodd tair fferyllfa y gwasanaeth hwn i 57 o gleientiaid (ystod ar lefel fferyllfa rhwng 1 a 53).

Yn wyth mis cyntaf 2025/26, darparodd un fferyllfa y gwasanaeth i 29 o gleientiaid.

16.3.2.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae pedair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

16.3.2.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys – lefel 2 (uwch)

Mae un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn

16.4 Darpariaeth bresennol gwasanaethau fferyllol y tu allan i'r clwstwr

Gall rhai preswylwyr ddewis defnyddio contractwyr y tu allan i'r clwstwr ac ardal y bwrdd iechyd er mwyn cael gafael ar wasanaethau:

- Sy'n cael eu cynnig gan contractwyr cyfarpar fferyllol.
- Sy'n agos i'r ardal lle maen nhw'n gweithio, yn siopa neu'n ymweld â hi at ddibenion hamdden neu ddibenion eraill.

Er bod y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu yn 2024/25 wedi'u gweinyddu gan y fferyllfeydd yn y clwstwr (95.9%), cafodd y gweddill eu gweinyddu y tu allan i'r clwstwr, yn fwyaf nodedig:

- 0.7% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- 0.6% gan contractwyr yn Lloegr
- 0.2% gan fferyllfeydd yng nghlwstwr Canol y Ddinas a De Caerdydd

Yn naw mis cyntaf 2025/26, cafodd y rhan fwyaf o'r presgripsiynau a ysgrifennwyd gan y practisau meddygon teulu eu gweinyddu gan y fferyllfeydd yn yr ardal leol (97.4%), gyda'r gweddill yn cael eu gweinyddu y tu allan i'r ardal leol, yn fwyaf nodedig:

- 0.6% gan contractwyr yn Lloegr
- 0.5% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Yn ogystal, mae'n bosibl bod preswylwyr wedi defnyddio un neu'n rhagor o wasanaethau fferyllol a ddarperir gan fferyllfa arall y tu allan i'r clwstwr a'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur y gweithgaredd hwn o'r data a gofnodwyd.

16.5 Gwasanaethau eraill y GIG

Mae manylion gwasanaethau'r GIG sy'n effeithio ar yr angen am wasanaethau fferyllol i'w gweld ym mhennod chwech.

16.6 Dewis o ran derbyn gwasanaethau fferyllol

Fel y gwelir o adrannau 16.3 ac 16.4, mae'r rhai sy'n byw yn ardal y clwstwr ac sydd wedi cofrestru gydag un o'r practisau meddygon teulu, fel arfer yn dewis defnyddio un o'r fferyllfeydd yn y clwstwr i weinyddu eu presgripsiynau. Mae'r rhai sy'n edrych y tu allan i'r clwstwr fel arfer yn gwneud hynny i gael gafael ar fferyllfa gyfagos yn ardal y bwrdd iechyd. Mae lleiafrif yn dewis cael eu presgripsiwn wedi ei weinyddu gan fferyllfa neu gontractwr cyfarpar y tu allan i ardal y bwrdd iechyd.

Fe wnaeth cyfanswm o 173 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gorllewin y Fro, gyda 96 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 4,094 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

Fe wnaeth cyfanswm o 134 o gontractwyr oedd yn masnachu yng Nghymru yn ystod 2024/25 (hyd at Rhagfyr 2025), weinyddu eitemau oedd wedi cael eu hysgrifennu gan un o'r practisau meddygon teulu yng nghlwstwr Gorllewin y Fro, gyda 63 ohonynt y tu allan i ardal y bwrdd iechyd. Gweinyddwyd 3,030 o eitemau presgripsiwn yn Lloegr.

16.7 Datblygiadau tai

Roedd wyth datblygiad yn y clwstwr fel y gwelir o'r tabl isod. Cyfrifir nifer y bobl gan ddefnyddio 2.2 o bobl fesul uned.

Tabl 16.6: datblygiadau tai yn y clwstwr

Rhanbarth/ardal	Nifer y lleiniau	Lleiniau wedi eu cwblhau (Mawrth 2026)	Lleiniau ar gweill	Heb ddechrau	Nifer y bobl
Tresimwn	120	40	0	80	176
Y Bont-faen	678	298	72	308	836
Hensol	16	0	0	16	35
Llanilltud Fawr	465	0	0	465	1,023
Y Rhws	15	0	15	0	33
Southerndown	22	0	0	22	48
Sain Tathan	15	0	0	15	33
Ystradowen	46	0	0	46	101
Cyfanswm	1,377	338	87	952	2,286

16.8 Bylchau yn y ddarpariaeth

Wrth ystyried a oes unrhyw fylchau yn narpriaeth gwasanaethau fferyllol mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cadarnhau bod ganddynt gapasiti digonol o fewn eu safleoedd a'u lefelau staffio. Cadarnhaodd un nad oes ganddi gapasiti digonol o fewn ei lefelau staffio, ond y gallai wneud addasiadau, ac nid oes

gan un gapasiti digonol yn ei safle a byddai'n cael anhawster yn ymdopi ag unrhyw gynnydd yn y galw.

Mae'r bwrdd iechyd wedi tybio bod gan y tair fferyllfa arall hefyd gapasiti digonol.

16.8.1 Gwasanaethau hanfodol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi:

- Lleoliad fferyllfeydd ar draws y clwstwr a'r ffaith y gall yr holl boblogaeth gael mynediad at fferyllfa mewn car o fewn 20 munud, gyda'r mwyafrif yn gallu gwneud hynny o fewn deg munud. Er nodi nad oes gan bob cartref ddefnydd o gar trwy gydol y dydd, mae natur y clwstwr yn golygu y bydd cerdded i fferyllfa yn opsiwn realistig i lawer o breswylwyr ac mae gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus rheolaidd ar gael i'r rhai nad ydynt yn gallu ymgymryd â'r daith gyfan ar droed.
- Y datblygiadau tai hysbys a lle mae gwybodaeth ar gael am y camau a'r cwblhau.
- Orlau agor y fferyllfeydd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau hanfodol yn y clwstwr.

16.8.2 Gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a contractwyr cyfarpar

16.8.2.1 Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Mae unigolion sydd angen y gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar yn debygol o gael gafael ar y gwasanaeth hwn gan y contractwr sy'n gweinyddu eu presgripsiynau ar gyfer cyfarpar neu gallant gael gafael arno gan ddarparwyr gofal iechyd eraill fel nyrsys stoma.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

16.8.2.2 Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

16.8.2.3 Gwasanaeth brechu rhag y fflw

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pob un o'r fferyllfeydd wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. O ganlyniad, nid yw'r bwrdd iechyd

wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

16.8.2.4 Gwasanaeth Presgripsiynu Annibynnol Fferyllfa

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi darparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod hwn yn wasanaeth sy'n esblygu ac o 2026, rhagwelir y bydd pob fferyllfeydd sydd newydd gymhwyso hefyd yn gymwys fel presgripsiynwyr annibynnol ar ôl cwblhau eu rhaglen israddedig.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

16.8.2.5 Gwasanaeth addasu cyfarpar stoma

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi nad oes unrhyw un o'r fferyllfeydd yn darparu'r gwasanaeth hwn a dim ond un o'r contractwyr cyfarpar fferyllol yn ardal y bwrdd iechyd sy'n ei ddarparu.

Fodd bynnag, o'r eitemau a weinyddwyd yn Lloegr yn 2024/25, gweinyddwyd 92.4% gan contractwyr cyfarpar fferyllol, a 92.0% yn naw mis cyntaf 2025/26. Rhagwelir felly y bydd y contractwyr hyn yn addasu cyfarpar stoma yn ôl yr angen cyn eu hanfon neu eu dosbarthu i gleifion.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

16.8.2.6 Gwasanaeth adolygu meddyginiaeth rhyddhau o'r ysbyty

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod y gwasanaeth hwn ar gael i gael ei ddarparu gan unrhyw fferyllfa gymunedol sy'n dymuno gwneud trefniadau o'r fath. Darparodd yr holl fferyllfeydd y gwasanaeth hwn yn 2024/25 ac yn ystod naw mis cyntaf 2025/26. Nid yw felly wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

16.8.3 Gwasanaethau clinigol ychwanegol

16.8.3.1 Rhaglenni nodwyddau a chwistrellau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 202/26.

16.8.3.2 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 2)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gomisiynu gan fferyllfeydd mewn ardaloedd o amddifadedd.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion presennol nac yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn y clwstwr.

16.8.3.3 Gwasanaeth Helpa fi i stopio mewn fferyllfa (rhoi'r gorau i smygu lefel 3)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod dwy fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac wedi ei ddarparu yn 2025/26. Mae wedi nodi bod fferyllfeydd yn un o ystod o ddarparwyr y gwasanaeth gan gynnwys y gwasanaethau Helpa fi i stopio i fy mabi a Helpa fi i stopio mewn gwasanaethau ysbty.

Ar sail yr uchod, nid yw'r bwrdd iechyd wedi nodi unrhyw anghenion ar gyfer y gwasanaeth hwn yn yr ardal ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

16.8.3.4 Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – camddefnyddio sylweddau

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod tair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn, a bod tair fferyllfa wedi ei ddarparu yn 2025/26.

16.8.3.5 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 1 (safonol)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod pedair fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

16.8.3.6 Gwasanaeth meddyginiaethau brys lefel 2 (uwch)

Mae'r bwrdd iechyd wedi nodi bod un fferyllfa wedi cofrestru i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn 2025/26.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi nodi unrhyw angen presennol nac yn y dyfodol i ymestyn darpariaeth gwasanaeth clinigol ychwanegol gan fod anghenion cleifion yn cael eu diwallu trwy'r rhwydwaith presennol o ddarparwyr. Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro gweithgaredd ac anghenion y boblogaeth dros oes yr AAFf hwn a bydd yn adolygu'r trefniadau comisiynu lle bo angen.

Atodiad A – cyd-destun polisi a phapurau cefndir

Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu'r strwythur cyffredinol y mae fferyllfeydd cymunedol, contractwyr cyfarpar fferyllol a meddygon fferyllol yn gweithredu ynddo drwy ddarparu'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi. O fewn y fframwaith, mae'r cyfrifoldeb am gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol wedi'i freinio mewn byrddau iechyd y mae'n rhaid iddynt gynllunio gwasanaethau iechyd i ddiwallu anghenion eu poblogaethau preswyl. Mae hyn yn cynnwys pennu nifer a lleoliad fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar fferyllol yn eu hardaloedd.

Rhoddir y ddyletswydd gyffredinol i sicrhau y caiff gwasanaethau fferyllol eu darparu, fel gydag agweddau eraill ar wasanaethau gofal sylfaenol y GIG, yn uniongyrchol i fyrddau iechyd o dan Ddeddf GIG (Cymru) 2006 (Deddf 2006). Mae byrddau iechyd yn rheoli rhestrau lleol o ddarparwyr cymeradwy, y cyfeirir atynt fel rhestrau fferyllol, ac mae cynnwys safleoedd contractwyr fferyllol a chontractwyr cyfarpar fferyllol ar restrau fferyllol yn rhoi hawl i gontractwyr ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG yn y safleoedd hynny.

Mae'r trefniadau hyn yn rheoli'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol ac nid yr hawl i agor a chynnal busnes fferyllol yng Nghymru. Ymdrinnir â hynny o dan ddeddfwriaeth ar wahân ar gyfer y DU gyfan, Deddf Meddyginiaethau 1968.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau a dyletswyddau helaeth i wneud rheoliadau ac i roi cyfarwyddiadau i fyrddau iechyd, sy'n rheoli manylion y system gwasanaethau fferyllol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys pennu telerau gwasanaeth fferyllfeydd a chontractwyr cyfarpar fferyllol a chymhwyso'r prawf rheoli mynediad, sef y prawf y bu'n rhaid ei fodloni hyd at 1 Hydref 2021 cyn y byddai bwrdd iechyd yn caniatáu cais am fynediad, neu'n diwygio cofnod, ar y rhestr fferyllol.

O dan Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 (Rheoliadau 2013), a'r rheoliadau blaenorol, cyflwynodd y personau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol gais i'r bwrdd iechyd yn unol â Rheoliadau 2013. Yna penderfynodd y bwrdd iechyd p'un a oedd y cais yn bodloni'r prawf perthnasol ai peidio. Roedd Rheoliadau 2013 yn caniatáu i benderfyniad y bwrdd iechyd gael ei herio drwy gyflwyno apêl gyda Gweinidogion Cymru.

Felly, roedd y system flaenorol o ddarparu gwasanaethau fferyllol yn cael ei llywio gan y rhai a oedd yn dymuno darparu gwasanaethau fferyllol. Nhw oedd yn penderfynu pa wasanaethau yr oeddent eisiau eu darparu ac o ba leoliad.

Roedd hynny'n golygu bod y system yn adweithiol i geisiadau ac nad oedd byrddau iechyd yn gallu cynllunio ble'r oedd fferyllfeydd neu gontractwyr cyfarpar fferyllol wedi'u lleoli na chyfarwyddo pa wasanaethau yr oedd rhaid eu darparu o'r lleoliadau hynny.

Sail resymegol dros newid

Yn 2010 sefydlodd y Gweinidog Iechyd bryd hynny a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r fframwaith rheoleiddio, i ystyried polisi Llywodraeth Cymru ar reoli mynediad a darparu gwasanaethau fferyllol gan broffesiynau iechyd ar wahân i fferyllwyr (e.e. meddygon) ac i wneud argymhellion ar gyfer newidiadau i ddeddfwriaeth, os yw'n briodol, i gyflwyno system hirdymor, gost-

effeithiol a chynaliadwy fyddai'n rhoi mynediad priodol i gleifion at wasanaethau fferyllol.

Yn 2011 ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar argymhellion y grŵp Gorchwyl a Gorffen. Roedd yr ymgynghoriad "Cynigion i ddiwygio a moderneiddio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) 1992" yn ceisio barn ar gynigion i ddarparu dull newydd o benderfynu ar geisiadau i ddarparu gwasanaethau fferyllol yng Nghymru yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol gan fyrddau iechyd. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod gwneud newid o'r fath yn gofyn am greu a chynnwys pwerau priodol yn Neddf 2006.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth Rheoliadau 2013 i rym ar 10 Mai 2013 ond nid oeddent yn cynnwys darpariaethau i gyflwyno AAFf.

Mewnosododd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Deddf 2017) adran 82A yn Neddf 2006 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer dyletswydd newydd i fyrddau iechyd yng Nghymru baratoi a chyhoeddi asesiad o angen am wasanaethau fferyllol. Rhoddodd adran 82A bwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi'r gofynion ar gyfer anghenion fferyllol yng Nghymru.

Effaith a fwriedir a chanlyniadau buddiol

Yr effaith a fwriedir o gyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol yw gwella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau fferyllol drwy sicrhau bod y byrddau iechyd yn ystyried anghenion fferyllol eu poblogaethau'n gadarn ac yn alinio gwasanaethau'n agosach â hwy. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddefnyddio dull mwy integredig o nodi anghenion fferyllol poblogaethau, gan gynnwys ystyried cyfraniad pob darparwr gwasanaethau fferyllol (e.e. fferyllfeydd a meddygon fferyllol). Bydd byrddau iechyd yn defnyddio'r asesiadau hyn i nodi ble mae angen safleoedd ychwanegol, ble mae darparwyr presennol yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion fferyllol, a ble mae angen gwasanaethau ychwanegol o safleoedd presennol.

Bydd y newid yn rhoi mwy o sicrwydd i gontractwyr, gan leihau risg busnes a chaniatáu iddynt fuddsoddi mewn darparu gwasanaethau ehangach nag y gwnaethant yn flaenorol. Yn bwysig, bydd fferyllfeydd yn arbennig hefyd yn dod yn fwy ymatebol i anghenion y poblogaethau y maent yn eu gwasanaethu, ac yn darparu gwasanaethau'n effeithiol i fynd i'r afael ag anghenion fferyllol a nodwyd.

Polisi, fframwaith deddfwriaethol a rheoliadau

Mae adran 80 o Ddeddf 2006 yn gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd i wneud trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau fferyllol a nodir yn is-adrannau 80(3)(a) i (d). Y gwasanaethau fferyllol craidd hyn yw'r gwasanaethau hanfodol a nodir bellach yn Rhan 2 o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae byrddau iechyd yn gwneud y trefniadau hyn.

Mae adran 81 o Ddeddf 2006 yn nodi'r trefniadau y gall Gweinidogion Cymru eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol. Diffinnir 'gwasanaethau fferyllol ychwanegol' fel gwasanaethau o fath nad ydynt yn dod o fewn adran 80 h.y. y gwasanaethau cenedlaethol fferylliaeth gymunedol a chontractwyr cyfarpar (y cyfeirir atynt yn flaenorol fel y 'gwasanaethau uwch', a gwasanaethau clinigol ychwanegol

fferylliaeth gymunedol (y cyfeirir atynt yn flaenorol fel y 'gwasanaethau uwch'). Mae adran 81 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i fwrdd iechyd:

- (i) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol ychwanegol, neu
- (ii) awdurdodi'r bwrdd iechyd i drefnu i ddarparu gwasanaethau fferyllol os yw'n dymuno.

Mae adran 83 o Ddeddf 2006 yn cynnwys craidd pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau fferyllol ac, ymhlith pethau eraill, yn nodi'r gofyniad i reoliadau ei gwneud yn ofynnol i fwrdd iechyd baratoi a chyhoeddi rhestr fferyllol, ac yn nodi'r profion y mae'n rhaid i'r personau hynny sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol eu pasio er mwyn gwneud hynny (a elwir yn 'prawf rheoli mynediad').

Mae adran 84 yn nodi gofyniad i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer hawliau apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan fyrdau iechyd drwy arfer pwerau a roddwyd iddynt gan reoliadau a wneir o dan adran 83.

Gwnaeth Rhan 7 o Ddeddf 2017 ddarpariaeth i ddiwygio Deddf 2006 mewn perthynas â gwasanaethau fferyllol. Mewn osododd adran 111 o Ddeddf 2017 adran 82A newydd yn Deddf 2006 sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau o anghenion fferyllol. Daeth Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn Rhif 4) 2019 â Rhan 7 o Ddeddf 2017 i rym ar 1 Ebrill 2019. O ganlyniad, mae Gweinidogion Cymru bellach wedi gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n nodi'r gofynion ar gyfer asesiadau o anghenion fferyllol yng Nghymru.

Cafodd Rheoliadau 2013 eu dirymu a'u disodli gan Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020. Mae Rhan 2 o Reoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yn gosod y gofynion cyfreithiol ar fyrdau iechyd i gwblhau asesiadau o anghenion fferyllol.

Daeth Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 i rym ar 1 Hydref 2020 ac roedd gan fyrdau iechyd tan 1 Hydref 2021 i gyhoeddi eu hasesiad o anghenion fferyllol cyntaf.

I grynhoi, fe wnaeth Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 nodi:

- Gwasanaethau sydd i'w cwmpasu gan yr asesiad o anghenion fferyllol
- Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr asesiad o anghenion fferyllol (dylid nodi bod byrdau iechyd yn rhydd i gynnwys unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol yn eu barn nhw)
- Dyddiad y mae'n rhaid i fyrdau iechyd gyhoeddi eu hasesiad o anghenion fferyllol cyntaf
- Gofyniad ar fyrdau iechyd i gyhoeddi asesiadau o anghenion fferyllol pellach bob pum mlynedd
- Gofyniad i gyhoeddi asesiad diwygiedig yn gynt na phob pum mlynedd mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i gyhoeddi datganiadau atodol mewn rhai amgylchiadau
- Gofyniad i ymgynghori â rhai pobl a sefydliadau o leiaf unwaith wrth gynhyrchu'r asesiad o anghenion fferyllol, am o leiaf 60 diwrnod; a

- Materion y mae'r bwrdd iechyd i roi sylw iddynt wrth gynhyrchu ei asesiad o anghenion fferyllol.

Unwaith y bydd bwrdd iechyd wedi cyhoeddi ei Asesiad o Anghenion Fferyllol cyntaf, mae'n ofynnol iddo gynhyrchu asesiad o anghenion fferyllol diwygiedig o fewn pum mlynedd neu'n gynt os yw'n nodi newidiadau i'r angen am wasanaethau fferyllol sydd i raddau sylweddol. Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd y bwrdd iechyd yn fodlon y byddai cynhyrchu asesiad o anghenion fferyllol diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny.

Yn ogystal, gallai bwrdd iechyd gyhoeddi datganiad atodol pan fydd yn nodi newidiadau i argaeledd gwasanaethau fferyllol sy'n berthnasol i ganiatáu ceisiadau y cyfeirir atynt yn Adran 83 o Ddeddf 2006, a

- Mae'n fodlon y byddai gwneud asesiad diwygiedig yn ymateb anghymesur i'r newidiadau hynny, neu
- Mae wrthi'n gwneud asesiad diwygiedig ac mae'n fodlon bod addasu ei asesiad o anghenion fferyllol yn hanfodol i osgoi niwed i ddarparu gwasanaethau fferyllol yn ei ardal.

Datblygu'r gofynion manwl

Sefydlwyd gweithgor ym mis Tachwedd 2015 i ddatblygu'r gofynion manwl ar gyfer cynnal AAFf ac adolygu a diwygio'r profion a'r gweithdrefnau fel y maent yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau fferyllol y GIG. Roedd y grŵp, a wnaeth gyfarfod ar sawl achlysur, yn cynnwys arweinwyr fferyllfeydd byrddau iechyd gyda gwybodaeth am reolaeth flaenorol y system mynediad ac arbenigedd mewn fferyllfeydd cymunedol, arweinwyr (fferyllfeydd) gofal sylfaenol Partneriaeth Gwasanaethau a Rennir y GIG, sydd ag arbenigedd yn y broses o benderfynu ar reolaeth dros geisiadau mynediad, a staff Llywodraeth Cymru. Mae'r grŵp wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu polisi Llywodraeth Cymru ar asesiadau o'r anghenion fferyllol, gan gynnwys y cynigion dilynol yn Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

Adolygu Rheoliadau GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020

Ymgwymerodd Llywodraeth Cymru ag adolygiad o'r rheoliadau yn 2024 i werthuso cyflwyno asesiadau o anghenion fferyllol er mwyn asesu a yw eu cyflwyno yn gweithio fel y bwriadwyd ac i nodi unrhyw ganlyniadau anfwriadol y polisi. Disgwylir i ddiwygiadau gael eu gwneud i'r rheoliadau maes o law.

Atodiad B – gwasanaethau hanfodol

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi meddyginiaethau a chyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chyngor, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn derbyn meddyginiaethau a chyfarpar a archebwyd yn ddiogel ac yn briodol gan y fferyllfa:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl feddyginiaethau a chyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cadw cofnod o'r cyngor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae'r fferylllydd o'r farn ei fod yn glinigol briodol.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu meddyginiaethau a'u cyfarpar yn effeithiol gan staff fferyllol:

- Rhoi gwybodaeth a chyngor i'r claf neu ei gynrychiolydd ar ddefnyddio ei feddyginiaeth neu ei gyfarpar yn ddiogel
- Darparu cyngor ehangach i'r claf ar y feddyginiaeth pan fo'n briodol, er enghraifft ei sgil-effeithiau posibl a'r ffordd y mae'n rhyngweithio â sylweddau eraill.

2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy'r GIG ar gyfer meddyginiaethau a chyfarpar mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y fferylllydd yn canfod angen y claf am amlgyflenwad ac yn cyfleu unrhyw faterion sy'n glinigol arwyddocaol i'r rhagnodwr.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu meddyginiaethau a'u cyfarpar presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol o fferyllfa gymunedol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr.
- Lleihau gwastraff drwy leihau nifer y meddyginiaethau a'r cyfarpar a ddosberthir nad yw'n ofynnol gan y claf
- Lleihau llwyth gwaith practisau meddygol cyffredinol, drwy ostwng y baich o reoli presgripsiynau amlroddadwy.

3. Gwaredu cyffuriau diangen

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Fferyllfeydd cymunedol yn derbyn meddyginiaethau diangen y mae angen eu gwaredu'n ddiogel gan aelwydydd preifat a phobl sy'n byw mewn cartref gofal preswyl. Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd drefnu i gasglu a gwaredu meddyginiaethau gwastraff o fferyllfeydd.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Sicrhau bod gan y cyhoedd ddull hawdd o gael gwared ar feddyginiaethau diangen yn ddiogel
- Lleihau nifer y meddyginiaethau diangen a gedwir yng nghartrefi pobl drwy ddarparu llwybr i'w waredu gan leihau'r risg o wenwyn damweiniol yn y cartref a rhoi meddyginiaethau i bobl eraill nad ydynt wedi'u hawdurdodi i'w cael
- Lleihau'r risg o ddatgelu'r cyhoedd i feddyginiaethau diangen a waredwyd drwy ddulliau annïogel
- Lleihau difrod amgylcheddol a achosir gan y dulliau gwaredu amhriodol ar gyfer meddyginiaethau diangen.

4. Hyrwyddo ffordd o fyw iach

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Manteisio ar gyfle i roi cyngor ar ffordd iach o fyw ac iechyd y cyhoedd i gleifion sy'n derbyn presgripsiynau sy'n ymddangos i fod yn dioddef o, neu mewn perygl o ddatblygu, problem iechyd niweidiol a chyfranogiad rhagweithiol mewn ymgyrchoedd cenedlaethol/lleol, i hyrwyddo negeseuon iechyd y cyhoedd i ymwelwyr fferyllfeydd cyffredinol yn ystod cyfnodau ymgyrch wedi'u targedu'n benodol

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth cleifion a'r cyhoedd o negeseuon allweddol am ffordd o fyw iach ac iechyd y cyhoedd fel eu bod yn cael eu grymuso i gymryd camau fydd yn gwella eu hiechyd.
- Er mwyn targedu'r sectorau 'anodd eu cyrraedd' o'r boblogaeth nad ydynt yn dod i gysylltiad â gweithgareddau hybu iechyd mewn rhannau eraill o'r sector iechyd neu ofal cymdeithasol yn aml.

5. Cyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu gwybodaeth i bobl sy'n ymweld â'r fferyllfa, y mae angen cymorth, cyngor neu driniaeth bellach arnynt na all y fferyllfa ei ddarparu, ond sydd ar gael gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol eraill neu sefydliadau cymorth a allai gynorthwyo'r person. Lle bo'n briodol, gall hyn fod ar ffurf atgyfeiriad.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Hysbysu neu gynghori pobl sydd angen cymorth, na ellir ei ddarparu gan y fferyllfa, darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol priodol eraill neu sefydliadau cymorth

- Galluogi pobl i gysylltu a/neu gael gafael ar ofal a chymorth pellach sy'n briodol i'w hanghenion
- Lleihau'r defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

6. Cymorth ar gyfer hunanofal

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyngor a chymorth gan staff fferyllol i alluogi pobl i gael y budd mwyaf posibl o ofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Gwella mynediad a dewis i bobl sy'n dymuno gofalu amdanynt eu hunain neu eu teuluoedd
- Mae pobl, gan gynnwys gofalmwr, yn cael cyngor priodol i'w helpu i hunanreoli cyflwr hunangyfngol neu hirdymor, gan gynnwys cyngor ar ddethol a defnyddio unrhyw feddyginiaethau priodol
- Mae pobl, gan gynnwys gofalmwr, yn cael cyngor hybu iechyd oportiwnistaidd pan fo'n briodol, yn unol â'r cyngor a ddarperir mewn gwasanaeth hanfodol – hyrwyddo gwasanaeth ffordd o fyw iach
- Mae pobl, gan gynnwys gofalmwr, mewn sefyllfa well i ofalu amdanynt eu hunain neu reoli cyflwr ar y pryd ac yn y dyfodol, drwy fod yn fwy gwybodus am yr opsiynau triniaeth sydd ganddynt, gan gynnwys rhai nad ydynt yn rhai ffarmacolegol
- Lleihau'r defnydd amhriodol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Atodiad C – gwasanaethau fferylliaeth gymunedol cenedlaethol a chontractwyr offer

1. Y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol yn cynnwys tair elfen.

- Gwasanaeth anhwylderau cyffredin,
- Gwasanaeth atal cenhedlu, a
- Gwasanaeth cyflenwi meddyginiaeth frys.

Er mwyn darparu'r gwasanaeth, rhaid i gontractwyr fferylliaeth ddarparu'r tair cydran.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Darparu gofal iechyd darbodus gan ddefnyddio model gofal 'fferyllfa gymunedol yn gyntaf', ar gyfer cleifion y gellir eu rheoli'n briodol yn y lleoliad fferylliaeth gymunedol, a thrwy hynny gynyddu mynediad at ofal amserol gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol priodol.
- Helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy gynyddu mynediad (dros amser ac yn ddaearyddol) i wasanaethau sy'n diwallu angen cleifion am ofal heb ei gynllunio, atal cenhedlu, neu gyngor ar heintiau a drosglwyddir yn rhywiol.

Gwasanaeth anhwylderau cyffredin

O dan y gwasanaeth hwn, mae cleifion yn cofrestru gyda'r fferyllfa o'u dewis er mwyn derbyn cyngor a thriniaeth ar restr benodol o anhwylderau cyffredin sy'n cynnwys haint y llwybr wrinol a dolur gwddf. Gall hyn gynnwys cyflenwi un neu fwy o feddyginiaethau a restrir ar y fformiwla genedlaethol.

Gwasanaeth atal cenhedlu

Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer cleifion rhwng 13 a 54 oed, sydd â photensial geni plant ac:

- wedi cael cyfathrach rywiol heb ddiogelwch yn ystod y pum diwrnod diwethaf, neu
- eisiau defnyddio dull atal cenhedlu progestogen yn unig fel dull atal cenhedlu cyflenwad tymor byr neu QuickStart.

Pan fo'r claf yn 13, 14 neu 15 oed, bydd y gwasanaeth yn cael ei gynnig yn unol â chymhwysedd Gillick, canllawiau Fraser ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â darparu cyngor a/neu driniaeth iechyd rhywiol cyfrinachol i gleifion 13 oed neu'n hŷn.

Pan fo'r asesiad yn penderfynu ei bod yn briodol cyflenwi dull atal cenhedlu brys, bydd y feddyginiaeth berthnasol yn cael ei chyflenwi trwy gyfarwyddyd grŵp cleifion i'w cymryd ar unwaith ar y safle.

Cyflenwi meddyginiaethau brys

Bydd y gwasanaeth hwn fel arfer yn cael ei ddarparu dim ond pan fydd y contractwr fferyllfa yn credu na fyddai'n ymarferol i'r claf gael y meddyginiaethau sydd eu hangen, oedd ar bresgripsiwn yn flaenorol, mewn amserlen briodol yn glinigol, drwy'r llwybr arferol.

Er mwyn gwneud cyflenwad, rhaid i'r contractwr fferyllfa gyfweld â'r claf a bod yn fodlon:

- bod angen ar unwaith am y feddyginiaeth a ddarperir, ac
- ei bod yn anymarferol cael presgripsiwn heb oedi diangen; a
- bod triniaeth gyda'r feddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi ar achlysur blaenorol gan ragnodydd perthnasol ar gyfer y person sy'n gofyn amdano; ac
- o ran y dos y byddai'n briodol i'r person hwnnw ei gymryd yn yr amgylchiadau.

2. Gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Bydd y gwasanaeth adolygiad o feddyginiaethau wrth ryddhau yn rhoi cymorth i gleifion a ryddhawyd yn ddiweddar rhwng lleoliadau gofal drwy sicrhau bod newidiadau i feddyginiaethau cleifion a wneir mewn un lleoliad gofal (e.e. yn ystod arhosiad yn yr ysbyty) yn cael eu gweithredu fel a fwriadwyd yn y gymuned gan helpu i leihau'r risg o broblemau sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau y gellir eu hatal a chefnogi cydymffurfio â meddyginiaethau newydd.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys dau gam.

- Mae'r cam cyntaf yn ei gwneud yn ofynnol i'r fferylllydd neu'r technegydd yn y fferyllfa wirio bod y meddyginiaethau a ragnodir mewn un lleoliad gofal yn cydfynd â'r rhai a ragnodir gan feddyg teulu y claf neu dîm gofal sylfaenol perthnasol pan fydd y claf yn symud i leoliad gofal arall, a allai fod yn gartref iddo. Os oes unrhyw anghysondebau, caiff y rhain eu codi gyda'r practis meddyg teulu, y tîm gofal sylfaenol perthnasol, y lleoliad gofal, y claf neu'r gofalwr fel y bo'n berthnasol.
- Mae'r ail gam yn gyfle i'r claf gael trafodaeth gyda fferylllydd a/neu dechnegydd fferyllfa i sefydlu darlun o ddefnydd y claf o'u meddyginiaethau neu atgyfeirio ymlaen i leoliad priodol i'w adolygu ymhellach. Bydd yr adolygiad hefyd yn helpu cleifion i ddeall eu meddyginiaethau a bydd yn nodi unrhyw broblemau y maent yn eu profi ynghyd ag atebion posibl.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Diben sylfaenol y gwasanaeth hwn, gyda chytundeb y claf, yw cyfrannu at leihau'r risg o gamgymeriadau gyda meddyginiaethau a digwyddiadau niweidiol yn ymwneud â chyffuriau drwy, yn benodol –

- Cynyddu argaeledd gwybodaeth gywir am feddyginiaethau claf,
- Gwella cyfathrebu rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac eraill sy'n ymwneud â throsglwyddo gofal cleifion, a chleifion a'u gofalwyr,

- Cynyddu cyfranogiad cleifion yn eu gofal eu hunain drwy eu helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'u meddyginiaethau, a
- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd presgripsiynau diangen neu ddyblyg yn cael eu dosbarthu a thrwy hynny leihau gwastraff meddyginiaethau.

3. Gwasanaeth presgripsiynu annibynnol fferyllfa

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rhaid i unrhyw gontractwr fferylliaeth sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth hwn hefyd fod yn darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol. Mae'n cynnwys tair cydran:

- Rhagnodi dulliau atal cenhedlu arferol,
- Rheoli anhwylderau cyffredin, nad ydynt fel arfer yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth anhwylderau cyffredin cenedlaethol, a
- Darparu gwasanaeth presgripsiynu y cytunwyd arno gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Dibenion sylfaenol y gwasanaeth hwn yw:

- darparu mynediad at feddyginiaethau presgripsiwn yn unig ar gyfer trin anhwylderau cyffredin sy'n gofyn am driniaeth â meddyginiaethau presgripsiwn yn unig nad ydynt ar gael o dan y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol,
- darparu mynediad at ddulliau atal cenhedlu brys neu reolaidd lle na ellir diwallu'r anghenion hynny o dan y gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol; ac
- ar gyfer darparu unrhyw wasanaeth arall y mae'r contractwr fferyllfa yn cytuno â'r bwrdd iechyd lleol perthnasol i'w ddarparu.

4. Gwasanaeth brechiadau'r fflw tymhorol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rhaid i unrhyw gontractwr fferylliaeth sy'n dymuno darparu'r gwasanaeth hwn hefyd fod yn darparu'r gwasanaeth fferylliaeth gymunedol glinigol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Pwrpas sylfaenol y gwasanaeth yw i'r fferylllydd cofrestredig neu'r technegydd fferyllfa roi brechiad y fflw i glaf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion neu roi brechiad y fflw i glaf o dan brotocol a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad

247A o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau coronafeirws a'r fflw).

5. Addasu offer Stoma

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae addasu offer Stoma yn golygu addasu mwy nag un offeryn stoma, lle:

- Rhestrir yr offeryn stoma sydd i'w addasu yn Rhan IXC o'r Tariff Cyffuriau
- Mae'r addasu'n golygu addasu i'r un fanyleb o rannau unfath lluosog i'w defnyddio gydag offeryn; a
- Mae'r addasiad yn seiliedig ar fesur neu gofnod y claf o'r mesuriadau hynny ac, os yw'n berthnasol, templed.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Diben pennaf y gwasanaeth yw:

- Sicrhau bod y claf yn gallu defnyddio'r offer stoma yn briodol a chyffyrddus; a
- Gwella hyd y defnydd o'r offer, a thrwy hynny leihau gwastraff offer o'r fath.

6. Adolygiad o'r defnydd o gyfarpar

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae adolygiad o'r defnydd o gyfarpar yn ymwneud â helpu cleifion i ddefnyddio eu cyfarpar yn fwy effeithiol. Gall argymhellion a wneir i ragnodwyr hefyd ymwneud ag effeithiolrwydd clinigol neu gost triniaeth.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Diben pennaf y gwasanaeth, gyda chytundeb y claf, yw gwella gwybodaeth a defnydd y claf o unrhyw gyfarpar penodedig drwy, yn benodol:

- Sefydlu'r ffordd y mae'r claf yn defnyddio'r cyfarpar penodedig a phrofiad y claf o ddefnydd o'r fath
- Nodi, trafod a chynorthwyo i ddatrys defnydd gwael neu aneffeithiol o'r cyfarpar penodedig gan y claf
- Cynghori'r claf ar storio'r cyfarpar penodedig yn ddiogel ac yn briodol
- Cynghori'r claf ar waredu'r cyfarpar penodedig sydd wedi'u defnyddio neu nad oes eu hangen mwyach mewn modd diogel a phriodol.

7. Gwasanaeth cyflenwi prawf llif unffordd

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae'r gwasanaeth hwn ond ar gyfer cleifion sydd o bosibl yn gymwys i gael triniaethau COVID-19. O dan y gwasanaeth, mae contractwyr fferylliaeth yn gwneud cyflenwad o brofion llif unffordd i gleifion cymwys neu eu cynrychiolwyr er mwyn i'r profion gael eu hunan-weinyddu gan y claf i ffwrdd o'r fferyllfa.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Cynnig mynediad at brofion llif unffordd i gleifion sydd â chyflwr iechyd sy'n

eu gwneud yn gymwys i gael triniaeth COVID-19, er mwyn galluogi profi gartref am COVID-19, yn dilyn symptomau haint. Bydd canlyniad prawf llif unffordd positif yn cael ei ddefnyddio i lywio asesiad clinigol i benderfynu a yw'r claf yn addas ar gyfer triniaethau COVID-19 a argymhellir gan NICE ac a fydd yn elwa ohonynt.

Atodiad D – gwasanaethau clinigol ychwanegol

1. Gwasanaeth monitro gwrthgeulo, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i brofi amser ceulo gwaed y claf, adolygu'r canlyniadau ac addasu (neu argymhell addasu i) y dos gwrthgeulo yn unol â hynny.
2. Gwasanaeth cartref gofal, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i breswylwyr a staff mewn cartref gofal sy'n ymwneud â'r canlynol —
 - Archebu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol er budd preswylwyr yn y cartref gofal
 - Y defnydd clinigol a chost-effeithiol o gyffuriau
 - Gweinyddu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn y cartref gofal
 - Storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a
 - Cofnodi cyffuriau a chyfarpar sy'n cael eu harchebu, trin, gweinyddu, storio neu eu gwaredu.
3. Gwasanaeth rheoli clefyd penodol, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i gynghori ar driniaeth cleifion â chyflyrau penodedig, a'u cefnogi a'u monitro, a lle bo'n briodol, cyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.
4. Gwasanaeth cyflenwi triniaeth pandemig a phroffylaxis brys-
 - Pwrpas sylfaenol y gwasanaeth yw i'r fferylllydd cofrestredig weinyddu'r brechlyn i'r claf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion neu brotocol a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau coronafeirws a'r fflw), ac
 - Os yw contractwr fferyllol yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu am gyfnod y trefniant a gytunwyd gyda'r bwrdd iechyd lleol.
5. Gwasanaeth brechu brys yn ystod pandemig-
 - Pwrpas sylfaenol y gwasanaeth yw i'r fferylllydd cofrestredig weinyddu'r brechlyn i'r claf o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion neu brotocol a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru yn unol â rheoliad 247A o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Protocolau sy'n ymwneud â brechiadau ac imiwneiddiadau coronafeirws a'r fflw), ac
 - Os yw contractwr fferyllol yn trefnu i ddarparu'r gwasanaeth hwn, rhaid iddo ei ddarparu am gyfnod y trefniant a gytunwyd gyda'r bwrdd iechyd lleol.
6. Gwasanaeth cyflenwi bwyd heb glwten, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i gyflenwi bwydydd heb glwten i gleifion.
7. Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref, gyda'r diben sylfaenol bod y contractwr fferyllol yn dosbarthu'r canlynol i gartref cleifion-

- Cyffuriau, a
- Chyfarpar, ac eithrio cyfarpar penodedig o fewn ystyr rheoliad 2(1) o Reoliadau'r GIG (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020.

8. Gwasanaeth mynediad iaith, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i ddarparu, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, gyngor a chymorth i gleifion mewn iaith y maen nhw'n ei deall mewn perthynas â'r canlynol—

- Cyffuriau y maent yn eu defnyddio
- Eu hiechyd,
- Materion iechyd cyffredinol sy'n berthnasol iddynt, a
- Lle bo'n briodol, atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

9. Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Cynnal adolygiad o'r cyffuriau a ddefnyddir gan glaf ar sail gwybodaeth a chanlyniadau profion sydd wedi'u cynnwys yng nghofnod gofal y claf, gyda'r nod o ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd parhaus y cyffuriau i'r claf,
- Cyngori a chefnogi'r claf ynglŷn â'i ddefnydd o gyffuriau, gan gynnwys annog y claf i gymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'i ddefnydd o gyffuriau, a
- Lle bo'n briodol, atgyfeirio'r claf at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall.

10. Gwasanaeth asesu meddyginiaethau a chefnogi cydymffurfiaeth, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Asesu gwybodaeth cleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol am gydymffurfio â chyffuriau, eu defnydd a gwybodaeth amdanynt, a
- Chynnig cyngor, cefnogaeth a chymorth i gleifion sy'n agored i niwed a chleifion ag anghenion dysgu ychwanegol ynghylch defnyddio cyffuriau gyda'r nod o wella eu gwybodaeth am gyffuriau o'r fath, cydymffurfio â nhw a'u defnyddio.

11. Gwasanaeth cyflenwi nodwyddau a chwistrellau, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Darparu nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig di-haint i'r rheiny sy'n camddefnyddio cyffuriau
- Derbyn nodwyddau, chwistrellau a deunyddiau cysylltiedig wedi'u defnyddio gan y rheiny sy'n camddefnyddio cyffuriau
- Cynnig cyngor i'r rheiny sy'n camddefnyddio cyffuriau a lle bo'n briodol atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall neu ganolfan trin cyffuriau arbenigol.

12. Gwasanaeth cyffuriau arbenigol sydd ar gael yn ôl y galw, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i sicrhau bod cleifion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael mynediad prydlon at gyffuriau arbenigol.

13. Gwasanaethau y tu allan i oriau, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i ddosbarthu cyffuriau a chyfarpar yn ystod y cyfnod y tu allan i oriau (p'un ai am y cyfnod y tu allan i oriau cyfan ai peidio).

14. Gwasanaeth cyfarwyddyd grŵp cleifion, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i gyflenwi neu weinyddu meddyginiaeth presgripsiwn yn unig i gleifion o dan gyfarwyddyd grŵp cleifion.

15. Gwasanaeth cymorth rhagnodwyr, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i gefnogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n rhagnodi cyffuriau, ac yn benodol i gynnig cyngor ar—

- Y defnydd clinigol a chost-ffeithiol o gyffuriau
- Polisiâu a chanllawiau rhagnodi, ac
- Ailadrodd presgripsiwn.

16. Gwasanaeth ysgolion, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i roi cyngor a chymorth i blant a staff mewn ysgolion sy'n ymwneud â'r canlynol —

- Y defnydd clinigol a chost-ffeithiol o gyffuriau yn yr ysgol
- Gweinyddu cyffuriau a chyfarpar yn briodol ac yn effeithiol yn yr ysgol
- Storio a thrin cyffuriau a chyfarpar yn ddiogel ac yn briodol, a
- Cofnodi cyffuriau a chyfarpar sy'n cael eu harchebu, trin, gweinyddu, storio neu eu gwaredu.

17. Gwasanaeth sgrinio, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Nodi cleifion sydd mewn perygl o ddatblygu clefyd neu gyflwr penodedig
- Cynnig cyngor ynghylch cael prawf am glefyd neu gyflwr penodol
- Cynnal prawf o'r fath gyda chydysyniad y claf, a
- Cynnig cyngor yn dilyn prawf ac atgyfeirio at weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall fel y bo'n briodol.

18. Gwasanaeth rhoi'r gorau i 'smygu, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i wneud y canlynol —

- Cynghori a chefnogi cleifion sy'n dymuno rhoi'r gorau i 'smygu, a
- Lle bo'n briodol, cyflenwi cyffuriau a chymhorthion priodol.

19. Gwasanaeth gweinyddu dan oruchwyliaeth, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i oruchwyllo'r gwaith o roi meddyginiaethau presgripsiwn yn eu safle.

20. Gwasanaeth rhagnodi atodol, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol sydd yn rhagnodwr annibynnol, neu sy'n cyflogi neu'n ymgysylltu rhagnodwr annibynnol, i ragnodi meddyginiaethau mewn amgylchiadau a bennir gan y bwrdd iechyd lleol perthnasol.

21. Gwasanaeth casglu gwrthfeirysol, sy'n galluogi'r contractwr fferyllol i gyflenwi meddyginiaethau gwrthfeirysol, yn unol â rheoliad 247 o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012 (Eithriad ar gyfer cyflenwi os bydd clefyd pandemig neu os disgwylir hynny), i gleifion ar gyfer triniaeth neu broffylacsis.

22. Gwasanaeth lleihau gwastraff, a'i bwrpas sylfaenol yw nodi meddyginiaethau neu gyfarpar wedi eu rhagnodi nad oes eu hangen ar y claf ar y pwynt cyflenwi.

Atodiad E – telerau gwasanaeth ar gyfer contractwyr cyfarpar fferyllol

1. Dosbarthu presgripsiynau

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cyflenwi cyfarpar a archebwyd ar bresgripsiynau'r GIG, ynghyd â gwybodaeth a chynghor a threfniadau atgyfeirio priodol pe na ellid gwneud cyflenwadau, i alluogi defnydd diogel ac effeithiol gan gleifion, a chynnal cofnodion priodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn derbyn cyfarpar a archebwyd yn ddiogel ac yn briodol gan y contractwr cyfarpar fferyllol:

- Cynnal gwiriadau cyfreithiol, clinigol a chywirdeb priodol
- Cael systemau gweithredu diogel, yn unol â gofynion llywodraethu clinigol
- Cael systemau ar waith i sicrhau cywirdeb y cynhyrchion a gyflenwir
- Cadw cofnod o'r holl gyfarpar a gyflenwir y gellir eu defnyddio i gynorthwyo gofal cleifion yn y dyfodol
- Cadw cofnod o'r cynghor a roddir, ac ymyriadau ac atgyfeiriadau a wneir, lle mae'r contractwr cyfarpar fferyllol o'r farn ei fod yn glinigol briodol.
- Darparu'r eitemau ychwanegol priodol fel bagiau a chlytiau tafladwy
- Darparu'r eitemau priodol os oes angen gwneud hynny mewn modd amserol ac mewn deunydd pacio addas disylw.

Sicrhau bod cleifion yn gallu defnyddio eu cyfarpar yn effeithiol gyda staff yn rhoi gwybodaeth a chynghor i'r claf neu'r gofalwr ar ddefnyddio eu cyfarpar yn ddiogel.

2. Dosbarthu presgripsiynau amlroddadwy

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Rheoli a dosbarthu cyfarpar presgripsiwn amlroddadwy'r GIG mewn partneriaeth â'r claf a'r rhagnodwr.

Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys gofynion sy'n ychwanegol at y rhai ar gyfer dosbarthu, fel bod y contractwr cyfarpar fferyllol yn canfod angen y claf am amlgyflenwad ac yn cyfleu unrhyw faterion sy'n glinigol arwyddocaol i'r rhagnodwr.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

- Cynyddu dewis a chyfleustra cleifion, drwy ganiatáu iddynt gael eu cyfarpar presgripsiwn rheolaidd yn uniongyrchol gan gontractwr cyfarpar fferyllol am gyfnod y cytunwyd arno gan y rhagnodwr.
- Lleihau gwastraff drwy leihau swm y cyfarpar a ddosberthir nad yw'n ofynnol gan y claf

- Lleihau llwyth gwaith practisau meddygon teulu, drwy ostwng y baich o reoli presgripsiynau amlroddadwy.

3. Gwasanaeth dosbarthu i'r cartref

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu gwasanaeth dosbarthu i'r cartref mewn perthynas â chyfarpar penodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Cadw urddas cleifion drwy sicrhau bod cyfarpar penodol yn cael eu darparu:

- Yn brydlon, ar adeg y cytunir arno gyda'r claf
- Mewn pecyn heb unrhyw ysgrifen na marciau eraill a allai ddangos ei gynnwys;
a
- Mewn ffordd nad yw'n bosibl nodi'r math o gyfarpar sy'n cael ei ddosbarthu.

4. Cyflenwi eitemau atodol priodol

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu eitemau ychwanegol fel clytiau tafladwy a bagiau gwaredu yn gysylltiedig â chyfarpar penodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod gan gleifion gyflenwad digonol o glytiau i'w defnyddio gyda'u cyfarpar, a'u bod yn gallu eu gwaredu mewn ffordd ddiogel a hylan.

5. Darparu cyngor clinigol arbenigol ynglŷn â'r cyfarpar

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor clinigol arbenigol gan berson sydd wedi'i hyfforddi'n briodol sydd â phrofiad perthnasol mewn perthynas â chyfarpar penodol.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn gallu gofyn am gyngor priodol ar eu cyfarpar i gynyddu eu hyder wrth ddewis cyfarpar sy'n addas i'w hanghenion yn ogystal â magu hyder i addasu i'r newidiadau yn eu bywyd a dysgu rheoli cyfarpar.

6. Pan ddarperir llinell gofal ffôn, yn ystod y cyfnod pan fo'r contractwr cyfarpar fferyllol ar gau, dylid rhoi cyngor naill ai drwy'r llinell ofal neu dylid cyfeirio galwyr at Galw Iechyd Cymru

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Darparu cyngor ar gyfarpar penodol drwy linell gofal ffôn y tu allan i oriau agor y contractwr cyfarpar fferyllol a gontractwyd. Nid yw'n ofynnol i'r contractwr cyfarpar

fferyllol staffio'r llinell ofal drwy'r dydd, bob dydd, ond pan nad yw'n cael ei staffio rhaid rhoi rhif ffôn neu fanylion cyswllt gwefan i Galw Iechyd Cymru y gellir cysylltu â hwy am gyngor.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Gall galwyr i'r llinell gofal ffôn gael cyngor 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos ar gyfarpar penodol er mwyn rheoli eu cyfarpar.

7. Cyfeirio

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Pan fo claf yn cyflwyno presgripsiwn am gyfarpar nad yw'r contractwr cyfarpar fferyllol yn ei gyflenwi, mae'r presgripsiwn naill ai:

- Gyda chydsyniad y claf, yn cael ei anfon at ddarparwr cyfarpar arall, neu
- Os nad yw'r claf yn cydsynio, rhoddir manylion cyswllt iddo ar gyfer o leiaf ddau gontractwr arall sy'n gallu ei ddosbarthu.

Nodau a chanlyniadau a fwriedir

Sicrhau bod cleifion yn gallu cael eu presgripsiwn.

Atodiad F – aelodaeth grŵp llywio asesu anghenion fferyllol

Enw	Rôl	Sefydliad
Louise Allen	Pennaeth Fferylliaeth Gymunedol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Timothy Banner	Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Dr Huw Brunt	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Clare Clement	Fferylllydd Arweiniol - Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolraddol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Gary Dowling	Partner Busnes Cyllid	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Lisa Dunsford	Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Tracy Mends	Rheolwr Contract a Datblygu Gofal Sylfaenol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Kyle Murphy	Uwch Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Geoff Walsh	Cyfarwyddwr Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Robert Wilkinson	Arweinydd Cynllunio Gwasanaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Jayne Howard	Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Contractwyr	Fferylliaeth Gymunedol Cymru
Rachel Cook	Swyddog Cymorth Gweinyddol	Llais
Kevin Thomas	Cyfarwyddwr Meddygol	Pwyllgor Meddygol Lleol Bro Taf

Atodiad G – arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd

Arolwg cyhoeddus ar gyfer asesiad anghenion fferyllol (PNA) Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn eich gwahodd i ddweud wrthym am wasanaethau fferylliaeth yn eich ardal. Mae hyn er mwyn helpu'r bwrdd iechyd i gynllunio gwasanaethau i'w gleifion nawr ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu eich anghenion, gan ddefnyddio proses o'r enw 'asesiad anghenion fferyllol'.

Bydd eich atebion yn helpu'r bwrdd iechyd i nodi a oes unrhyw fylchau yn y gwasanaeth, er enghraifft a oes angen fferyllfa mewn ardal benodol, neu a oes angen i fwy o fferyllfeydd ddarparu gwasanaeth penodol.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y bwrdd iechyd yn edrych ar yr hyn a allai newid dros y pum mlynedd nesaf ac a fydd digon o fferyllfeydd yn y mannau cywir, yn rhoi'r gwasanaethau y mae ar bobl eu hangen wrth, er enghraifft, i fwy o dai gael eu hadeiladu.

Mae eich barn chi yn bwysig felly cymerwch ychydig funudau i gwblhau'r holiadur hwn. Rydym yn amcangyfrif y bydd yn cymryd tua 10 i 15 munud i chi ei gwblhau yn dibynnu ar faint yr hoffech ei ddweud wrthym am eich profiad o ddefnyddio fferyllfeydd.

Mae'r holiadur yn ddienw ac ni fydd unrhyw wybodaeth a roddwch yn cael ei chysylltu â chi.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr holiadur neu os oes gennych gwestiynau ynghylch sut i gwblhau'r holiadur, cysylltwch â cav.communitypharmacy@wales.nhs.uk gan gynnwys "Holiadur PNA" ym mhennawd y pwnc.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi comisiynu Cwmni Buddiant Cymunedol (CBC) Comisiynu Gofal Sylfaenol (PCC) i ddrafftio'r asesiad o anghenion fferyllol. Bydd Comisiynu Gofal Sylfaenol yn cadw eich ymatebion a dim ond at ddiben drafftio'r asesiad o anghenion fferyllol y bydd yn eu defnyddio. Gofynnwn i chi beidio â rhoi unrhyw wybodaeth a allai eich adnabod, fodd bynnag, bydd yr holl ddata a roddir yn eich ymateb yn cael ei gadw gan Comisiynu Gofal Sylfaenol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data.

Amdanoch chi

Rhowch eich cod post os gwelwch yn dda

Drwy roi pedwar digid cyntaf eich cod post i ni, rydych chi'n cydsynio i ni ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddeall ym mha ran o ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rydych chi yn byw fel arfer. Dim ond at ddibenion yr holiadur hwn y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio, er mwyn i ni allu nodi a ydym wedi derbyn ymatebion o bob cwr o ardal y bwrdd iechyd neu o ardaloedd penodol. Peidiwch â rhoi eich cod post llawn i ni.

Er enghraifft, os yw eich cod post yn CF14 4HH teipiwch CF14 yn y blwch isod.

Dewis iaith:

1. A allech chi ddweud wrthym beth yw eich dewis iaith pan fyddwch chi'n defnyddio gwasanaethau mewn fferyllfa? Ticiwch un.

- Cymraeg
- English
- Arall [blwch testun]

Sut ydych chi'n defnyddio'ch fferyllfa - naill ai'n bersonol neu drwy gael rhywun arall i fynd yno ar eich rhan

2. Pam ydych chi fel arfer yn ymweld â fferyllfa? Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.

- I gael neu gasglu presgripsiwn i mi fy hun
- I brynu meddyginiaethau i mi fy hun
- I gael cyngor i mi fy hun
- Ar gyfer gwasanaethau eraill fel brechiad rhag y fflw
- I gael neu gasglu presgripsiwn ar gyfer rhywun arall
- I brynu meddyginiaethau i rywun arall
- I gael cyngor i rywun arall
- Dydw i ddim yn ymweld â fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio fferyllfa ar-lein/ar y rhyngwrwyd – efallai y byddwch chi'n gweld nad yw'r cwestiynau sy'n weddill yn berthnasol i chi.
- Dydw i ddim yn ymweld â fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio meddyg fferyllol - efallai y byddwch chi'n gweld nad yw'r cwestiynau sy'n weddill yn berthnasol i chi.
- Dydw i ddim yn ymweld â fferyllfa gan fy mod i'n defnyddio contractwr cyfarpar – efallai y byddwch chi'n gweld nad yw'r cwestiynau sy'n weddill yn berthnasol i chi.
- Dydw i ddim yn ymweld â fferyllfa gan fod fy meddyginiaethau'n cael eu danfon ataf.
- Dydw i ddim yn mynd i fferyllfa; mae rhywun yn mynd ar fy rhan i
- Arall [blwch testun]

3. Pa mor aml ydych chi'n defnyddio fferyllfa? Ticiwch un.

- Dyddiol
- Wythnosol
- Bob pythefnos
- Bob mis/bob pedair wythnos
- Bob chwarter
- Fel a phryd bynnag y bydd angen i mi
- Dydw i ddim yn defnyddio fferyllfa
- Arall [blwch testun]

4. Pryd mae'r amser mwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa? Ticiwch un.

- Cyn 8.30am
- 8.30am i 12.30
- 12.30 i 2pm
- 2pm i 6.30pm
- 6.30pm i 9pm
- Ar ôl 9pm
- Does dim gwahaniaeth gen i

5. Pa ddiwrnod sydd fwyaf cyfleus i chi ddefnyddio fferyllfa? Ticiwch un.

- Dydd Llun
- Dydd Mawrth
- Dydd Mercher
- Dydd Iau
- Dydd Gwener
- Dydd Sadwrn
- Dydd Sul
- Dyddiau'r wythnos yn gyffredinol
- Penwythnosau yn gyffredinol
- Does dim gwahaniaeth gen i

6. A fu amser yn ddiweddar pan nad oeddech chi, neu unigolyn ar eich rhan, yn gallu defnyddio'ch fferyllfa arferol? Ticiwch un.

- Do
- Naddo – ewch i gwestiwn 8 os gwelwch yn dda
- Ddim yn berthnasol – ewch i gwestiwn 8

7. Os ateboch chi 'do' i gwestiwn 6, a allwch chi ddweud wrthym beth wnaethoch chi/wnaethon nhw? Ticiwch bob datganiad sy'n berthnasol.

- Mynd i fferyllfa arall
- Aros nes bod y fferyllfa ar agor
- Mynd at fy meddyg teulu
- Mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys / adran argyfyngau
- Mynd i uned mân anafiadau
- Ffonio GIG 111 Cymru (gwasanaeth y tu allan i oriau)
- Arall [blwch testun]

Eich dewis o fferyllfa

8. A allech chi ddweud wrthym a ydych chi (ticiwch un os gwelwch yn dda):

- Yn defnyddio'r un fferyllfa bob amser
- Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd ond mae'n well gen i ymweld ag un y rhan amlaf
- Yn defnyddio gwahanol fferyllfeydd bob amser

- Yn anaml yn defnyddio fferyllfa
- Byth yn defnyddio fferyllfa

9. Hoffem wybod beth sy'n dylanwadu ar eich dewis o fferyllfa. A allech chi ddweud wrthym pam rydych chi'n defnyddio'r fferyllfa hon? Ticiwch yr holl ddatganiadau sy'n berthnasol i chi.

Lleoliad y fferyllfa

- Yn agos at fy nghartref
- Yn agos at y gwaith
- Yn agos at fy meddyg
- Yn agos at ysgol neu feithrinfa'r plant
- Yn agos at siopau eraill
- Mae lleoliad y fferyllfa yn hawdd ei gyrraedd

Cyfleusterau a gwasanaethau

- Mae'n hawdd parcio wrth y fferyllfa
- Gallaf siarad â'r staff yn fy iaith ddewisol
- Mae gan y fferyllfa oriau agor da
- Mae'r fferyllfa'n casglu fy mhresgripsiwn ac yn danfon fy meddyginiaethau
- Mae'r fferyllfa'n rhoi cyngor a gwybodaeth dda
- Mae'n hygyrch iawn h.y. yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn/bygis babanod
- Mae yna ardal breifat os oes angen i mi siarad â'r fferyllfeydd
- Gallaf archebu fy meddyginiaethau rheolaidd ar-lein neu drwy ddefnyddio eu ap

Gwasanaeth Cwsmeriaid

- Rwy'n hoffi ac yn ymddiried yn y staff sy'n gweithio yno
- Mae'r staff yn fy adnabod ac yn gofalu amdanaf
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i
- Rydw i wedi defnyddio'r fferyllfa hon erioed
- Mae'r gwasanaeth yn gyflym
- Fel arfer mae ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arna i mewn stoc
- Argymhellwyd y fferyllfa i mi
- Y gwasanaeth cwsmeriaid

Arall

- Mae'n gadwyn fawr adnabyddus
- Nid yw'n un o'r cadwyni mawr
- Arall [blwch testun]

10. Oes yna fferyllfa fwy cyfleus a/neu agosach nad ydych chi'n ei defnyddio? Ticiwch un.

- Oes
- Nac oes – ewch i gwestiwn 12 os gwelwch yn dda
- Ddim yn gwybod – ewch i gwestiwn 12

11. ...ac os ydych chi wedi ateb oes i gwestiwn 10, a allech chi ddweud wrthym pam nad ydych chi'n defnyddio'r fferyllfa honno? Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.

- Nid yw'n hawdd parcio yn y fferyllfa
- Rydw i wedi cael profiad gwael yn y gorffennol
- Mae'r gwasanaeth yn rhy araf
- Mae'r staff yn newid yn gyson
- Dydy'r staff ddim yn fy adnabod i
- Rwy'n adnabod y staff a byddai'n well gen i iddyn nhw beidio â gwybod pa feddyginiaethau rwy'n eu cymryd
- Nid oes ganddyn nhw'r hyn sydd ei angen arnaf mewn stoc.
- Nid yw'r fferyllfa'n danfon meddyginiaethau
- Nid oes digon o breifatrwydd
- Dydy hi ddim ar agor pan fydd arna' i angen hynny
- Nid yw'n addas i gadeiriau olwyn/bygis babanod
- Arall [blwch testun]

Teithio i fferyllfa

12. Os ydych chi'n mynd i'r fferyllfa ar eich pen eich hun neu gyda rhywun, sut ydych chi yn cyrraedd yno fel arfer? Ticiwch un.

- Cerdded/cadair olwyn
- Ar fws
- Mewn car
- Ar feic
- Mewn tacsï
- Gyda sgwter symudedd
- Arall [blwch testun]
- Ddim yn berthnasol – ewch i gwestiwn 14

13. ...a pha mor hir mae'n ei gymryd fel arfer i gyrraedd yno? Ticiwch un.

- Llai na 5 munud
- Rhwng 5 a 15 munud
- Mwy na 15 munud ond llai nag 20 munud
- Mwy na 20 munud

14. A fydddech chi'n dweud eich bod chi fel arfer yn cael anhawster i gyrraedd fferyllfa? Ticiwch un.

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn berthnasol

15. Os ydych yn cael anhawster cyrraedd fferyllfa, dywedwch wrthym pam.

[Text box]

Gwasanaethau fferyllfa yn gyffredinol

16. Hoffem wybod sut rydych chi'n dod o hyd i wybodaeth am fferyllfa fel oriau agor neu'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig. Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.

- Byddwn i'n eu galw nhw
- Byddwn i'n ffonio GIG 111 Cymru neu'n defnyddio eu gwefan.
- Byddwn i'n chwilio gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Byddwn i'n chwilio'r rhyngrwyd neu'n defnyddio ap ffôn clyfar e.e. Google Maps neu Facebook
- Byddwn i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Byddwn i'n gofyn i ffrind
- Byddwn i'n galw heibio ac yn gofyn iddyn nhw
- Edrych yn y ffenestr
- Byddwn i'n darganfod drwy ddarllen y papur newydd neu'r cylchgrawn lleol
- Ddim yn berthnasol
- Arall [blwch testun]

17. Ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gallu trafod rhywbeth preifat gyda'ch fferyllfydd? Ticiwch un.

- Ydw
- Nac ydw
- Ni fu angen i mi wneud erioed
- Ddim yn gwybod

18. Ydych chi'n ymwybodol y gallech chi allu cael mynediad at y gwasanaethau canlynol o fferyllfeydd fel rhan o'r GIG? Dewiswch y rhai rydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw.

- Brechiadau rhag y ffliw (i'r rhai sydd yn un o'r grwpiau sydd mewn perygl)
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth gael rhyddhad o'r ysbyty – mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer pobl y mae eu meddyginiaethau wedi newid yn ystod arhosiad yn yr ysbyty, i'w helpu i ddeall y newidiadau sydd wedi'u gwneud ac i sicrhau bod presgripsiynau yn y dyfodol ar gyfer y meddyginiaethau cywir.
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar - mae hwn yn gyfle i drafod cyfarpar fel yr offer ar gyfer stomas a cholostomïau gyda fferyllfydd neu nyrs arbenigol i sicrhau bod eich cyfarpar yn gwneud yr hyn sydd ei angen arnoch.
- Gwasanaeth atal cenhedlu
- Cyflenwi meddyginiaethau brys – os na allwch gael presgripsiwn rheolaidd ac na allwch aros nes bod eich presgripsiwn nesaf yn barod, neu fod eich meddygfa ar agor, neu os ydych chi allan o'r ardal, gallwch ymweld â'ch fferyllfa leol a allai gyflenwi eich meddyginiaeth presgripsiwn rheolaidd i chi mewn amgylchiadau brys.
- Cynllun anhwylderau cyffredin – gall fferyllwyr roi meddyginiaeth presgripsiwn yn unig i chi ar gyfer nifer o anhwylderau, er enghraifft dolur gwddf a heintiau'r llwybr wrinol, heb yr angen i weld meddyg yn gyntaf. Gall fferyllwyr roi cyngor neu driniaethau dros y cownter hefyd ar gyfer nifer eang o gyflyrau bob dydd.

Os bydd y fferylllydd yn penderfynu bod angen i chi ddal i weld meddyg, bydd yn eich atgyfeirio.

- Cymorth i roi'r gorau i ysmegu
- Darparu nodwyddau a chwistrellau – mae hwn yn wasanaeth lleihau niwed camddefnyddio sylweddau lle gall fferyllwyr gyflenwi pecynnau offer chwistrellu di-haint a gwaredu offer wedi'i ddefnyddio
- Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth – mae'r gwasanaeth hwn i gefnogi pobl sy'n derbyn triniaeth am gamddefnyddio sylweddau
- Na – ewch i gwestiwn 20 os gwelwch yn dda

19. Ydych chi wedi defnyddio unrhyw un o'r gwasanaethau a restrir yng nghwestiwn 18? Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.

- Brechiadau rhag y fflw (i'r rhai sydd yn un o'r grwpiau risg)
- Gwasanaeth adolygu meddyginiaethau wrth ryddhau
- Gwasanaeth adolygu'r defnydd o gyfarpar
- Gwasanaeth atal cenhedlu
- Cyflenwi meddyginiaethau brys
- Gwasanaeth anhwylderau cyffredin
- Cymorth i roi'r gorau i ysmegu
- Darparu nodwyddau a chwistrellau
- Gweinyddu meddyginiaethau dan oruchwyliaeth
- Nac ydw

20. Oes unrhyw beth arall yr hoffech chi ei ddweud wrthym am eich profiad o'ch fferyllfa leol?

[Text box]

21. A oes unrhyw rwystrau i chi gael mynediad at wasanaethau yn eich fferyllfa nad ydych chi wedi sôn amdanynt?

[Text box]

Cwestiynau cydraddoldeb

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi ymrwymo i sicrhau bod ei holl ddefnyddwyr gwasanaethau a staff yn cael eu trin yn deg a chydag urddas a pharch. Dim ond os yw'n gwybod mwy am y bobl sy'n gweithio iddo a/neu sy'n defnyddio'r gwasanaethau y mae'n eu darparu y gall wneud hyn. Byddai'n ddiolchgar pe byddech chi'n cwblhau'r holiadur canlynol. At ddibenion monitro yn unig y bydd eich gwybodaeth gefndirol yn cael ei defnyddio ac yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol.

1. Beth oedd eich oedran ar ddiwrnod eich pen-blwydd diwethaf? Ticiwch un blwch			
O dan 16	☐	45-54	☐
16-24	☐	55-64	☐
25-34	☐	65+	☐
35-44	☐	Byddai'n well gen i beidio â dweud	☐

2. Pa derm sy'n disgrifio eich rhywedd orau? Ticiwch un blwch			
Benyw	☐	Gwryw	☐
Anneuaidd	☐	Byddai'n well gen i beidio â dweud	☐
Arall (nodwch os dymunwch)	☐ _____		

3. Ydych chi'n uniaethu fel Traws? Ticiwch un blwch			
Ydw	☐	Nac ydw	☐
Byddai'n well gen i beidio â dweud	☐		

4. Ydych chi'n uniaethu fel person anabl? Ticiwch un blwch			
Ydw	☐	Nac ydw	☐
Byddai'n well gen i beidio â dweud	☐		

5. Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi					
Byddar/Wedi'i fy myddaru/Trwm fy nghlyw	☐	Anawsterau iechyd meddwl	☐	Amhariad/anawsterau dysgu	☐
Amhariad ar y golwg	☐	Defnyddiwr cadair olwyn	☐	Amhariad symudedd	☐
Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma)	☐	Byddai'n well gen i beidio â dweud	☐	Arall	☐

6. Ydych chi'n gofalu am ffrind neu aelod o'r teulu sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed, yn methu ymdopi heb eich cefnogaeth? Ticiwch un blwch			
Ydw	☐	Nac ydw	☐

7. Ydych chi'n ystyried eich hun yn perthyn i unrhyw grefydd benodol? Ticiwch un blwch					
Ydw	☐	Nac ydw	☐		
Mae'n well gen i beidio ag ateb		☐			
Os 'Ydw' rhowch fanylion					
Bwdhaidd	☐	Cristion (gan gynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Catholigion, Protestaniaid a phob enwad Cristnogol arall)			☐
Hindŵ	☐	Iddewig	☐	Mwslimaidd	☐
Sikh	☐	Arall	☐		

Os 'Arall', nodwch os gwelwch yn dda:				

8. Sut fydddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol? Ticiwch un blwch					
Deurywiol	☐	Menyw Lesbiaidd	hoyw/ ☐	Dyn hoyw	☐
Heterorywiol/ Syth	☐	Arall	☐	Mae'n well gen i beidio ag ateb	☐
Os 'Arall', nodwch os gwelwch yn dda:					

9. Ydych chi'n ystyried eich hun yn Gymro/Gymraes? Ticiwch un blwch			
Ydw	☐	Nac ydw	☐

10. Beth yw eich grŵp ethnig? Ticiwch un blwch					
Lle defnyddir y term 'Prydeinig', mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o'r pedair gwlad gartref sef Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban, neu unrhyw gyfuniad o'r rhain.					
Gwyn - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig	☐	Gwyn - Gwyddelig	☐	Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	☐
Gwyn - Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch isod)	☐	Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - Gwyn ac Asiaidd	☐	Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Caribiaidd	☐
Grwpiau Ethnig Cymysg/Lluosog - Gwyn a Du Affricanaidd	☐	Cymysg/Aml-Ethnig Grwpiau - Unrhyw un arall (nodwch isod)	☐	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig - Tsieineaidd	☐
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig - Pacistanaidd	☐	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig - Bangladeshaidd	☐	Asiaidd/Asiaidd Cymreig/ Prydeinig - Indiaidd	☐
Asiaidd/Asiaidd Cymreig/Prydeinig - Unrhyw grŵp arall (nodwch isod)	☐	Du/Affricanaidd/Caribiaidd/ Du Cymreig/Prydeinig - Affricanaidd	☐	Du/Affricanaidd/Caribiaidd/ Du Cymreig/Prydeinig - Caribiaidd	☐
Du/Affricanaidd/Caribiaidd/Du Cymreig/Prydeinig - Unrhyw un arall (nodwch isod)	☐	Arabaidd	☐	Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch isod)	☐
Byddai'n well gen i beidio â dweud	☐	Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch isod)	☐		

Os 'Arall' nodwch:

Atodiad I – holiadur contractwyr

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn paratoi ei asesiad nesaf o anghenion fferyllol, neu PNA, y bwriedir ei gyhoeddi erbyn 1 Hydref 2026, ac mae angen eich help arnom i gasglu rhywfaint o wybodaeth i gefnogi ei ddatblygiad.

Wrth ddatblygu'r holiadur, rydym yn gofyn am wybodaeth sydd ei hangen yn unig, na chaiff ei chadw na'i chasglu fel mater o drefn. Fel y gwelwch, rydym wedi cadw'r holiadur mor fyr â phosibl.

Er ei fod ar gael tan 29 Mawrth 2026, byddem yn eich annog i gwblhau'r holiadur nawr.

Ar gyfer ymholiadau ynghylch y wybodaeth y gwnaed cais amdani neu'r atebion sy'n ofynnol, anfonwch e-bost at cav.communitypharmacy@wales.nhs.uk gyda'r teitl 'holiadur contractwr PNA BIPCAF'.

Manylion y safle

Cod y contractwr (cod ODS, 602XXXX)	
Enw'r contractwr (h.y. enw'r unigolyn, partneriaeth neu gwmni sy'n berchen ar fusnes y fferyllfa)	
Enw masnachu	
Cyfeiriad y safle	
Cyfeiriad e-bost y safle	
Rhif ffôn y safle	
Ffacs y safle (os yn berthnasol)	
Cyfeiriad gwefan y safle (os yn berthnasol)	
Ydy hi'n bosibl i'r bwrdd iechyd storio'r wybodaeth uchod a'i defnyddio i gysylltu â chi?	☐ Ydy ☐ Nac ydy

Cyfleusterau ymgynghori

A oes modd cyrraedd y safle mewn cadair olwyn? ☐ Oes ☐ Nac oes

A oes ardal ymgynghori:

- Ar gael (yn cynnwys mynediad i gadeiriau olwyn), neu ☐ Oes
- Ar gael (heb fynediad i gadeiriau olwyn), neu ☐ Oes
- Wedi'i gynllunio o fewn y 12 mis nesaf, neu ☐ Oes

- Arall (nodwch) Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.

(Dewiswch un opsiwn.)

Lle ceir ardal ymgynghori:

- A yw'n ystafell sydd ar gau? ☐ Ydy
- A yw'n ardal ddynodedig lle gall y claf a'r fferylllydd eistedd i lawr gyda'i gilydd? ☐ Ydy
- A yw'r claf a'r fferylllydd yn gallu siarad gyda thôn arferol heb fod staff neu ymwelwyr â'r fferyllfa yn eu clywed? ☐ Ydyn
- A yw wedi'i dynodi'n glir fel ardal ar gyfer ymgynghori cyfrinachol, sydd ar wahân i ardaloedd cyhoeddus y fferyllfa? ☐ Ydy

A oes gennych chi siaradwyr Cymraeg yn rhan o'ch staff? ☐ Oes

A oes unrhyw ieithoedd eraill yn cael eu siarad gan y staff (yn ogystal â Saesneg)? ☐ Oes ☐ Nac oes

Os ydych chi wedi ticio "Oes", rhestrwch yr ieithoedd isod.

Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.

Gwasanaethau

Ydych chi'n dosbarthu cyfarpar?

- Ydyn - pob math ☐ Ydyn
- Ydyn, ac eithrio cyfarpar stoma ☐ Ydyn
- Ydyn, ac eithrio cyfarpar anymataliaeth ☐ Ydyn
- Ydyn, ac eithrio cyfarpar stoma ac anymataliaeth ☐ Ydyn
- Ydyn, gorchuddion yn unig ☐ Ydyn
- Arall Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
- Dim un ☐ Nac ydyn

Gwasanaethau heb eu comisiynu

Ydych chi'n darparu unrhyw un o'r canlynol?

- Casglu presgripsiynau gan bractisau meddyg teulu ☐ Ydyn
- Dosbarthu meddyginiaethau wedi'u gweinyddu - am ddim ar gais ☐ Ydyn
- Dosbarthu meddyginiaethau heb eu gweinyddu - grwpiau cleifion dethol (rhestrwch y meini prawf) ☐ Ydyn
Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
- Dosbarthu meddyginiaethau wedi'u gweinyddu - ardaloedd dethol (rhestrwch yr ardaloedd) ☐ Ydyn
Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.
- Dosbarthu meddyginiaethau wedi'u gweinyddu - codir tâl ☐ Ydyn
- Pwynt casglu awtomataidd ☐ Ydyn

Yn eich barn chi, a oes gofyn am wasanaeth clinigol ychwanegol sy'n bodoli eisoes na chaiff ei ddarparu yn eich ardal ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.

Yn eich barn chi, a oes gofyn am wasanaeth newydd nad yw ar gael ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r gofyniad penodol a pham.

Capasiti

Mae angen i ni ddeall eich capasiti presennol a ph'un a allwch chi ddiwallu'r galw cynyddol am y gwasanaethau fferyllol rydych chi'n eu darparu ai peidio. Gyda hyn mewn golwg, dewiswch yr opsiynau sy'n adlewyrchu eich sefyllfa orau ar hyn o bryd o ran eich safle a'ch lefelau staffio. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai'r sefyllfa newid yn hawdd ac felly byddwn yn trin eich ymateb fel pe bai ar bwynt penodol mewn amser.

	Adeiladau	Lefelau staffio
Mae gennym ddigon o gapasiti i ymdopi â'r cynnydd yn y galw yn ein hardal.	☐	☐
Dim digon o gapasiti ar hyn o bryd, ond gellid gwneud addasiadau i reoli'r cynnydd mewn galw yn ein hardal.	☐	☐
Dim digon o gapasiti a byddai'n anodd rheoli cynnydd mewn galw.	☐	☐

Datblygu busnes

A oes gennych unrhyw gynlluniau i ddatblygu neu ehangu eich safle neu'r gwasanaeth a ddarperir gennych?

☐ Oes

☐ Nac oes

Os 'oes', rhowch fanylion yma

Rhowch fanylion yr unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen hon:

Enw cyswllt y person sy'n cwblhau'r holiadur, rhag ofn y bydd angen i ni drafod eich ymateb gyda chi.

Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.

Cyfeiriad e-bost y cyswllt

Cliciwch neu tapiwch yma i roi testun.